# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 27 MEDI 2022 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 27 SEPTEMBER 2022 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro).

**5 AELODAU PWYLLGOR GWAITH CYNORTHWYOL** (Tudalennau 23 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**6 LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2021/2022** (Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**7 MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 1, 2022/23** (Tudalennau 43 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**8 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1, 2022/23** (Tudalennau 57 - 76)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2022/23** (Tudalennau 77 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI 2022/23 - CHWARTER 1, 2022/23** (Tudalennau 89 - 98)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

11 **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/24 I 2024/25** (Tudalennau 99 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

12 **SEFYDLOGRWYDD MARCHNAD** (Tudalennau 117 - 376)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

13 **ADRODDIAD CYNNYDD – GWELLIANNAU YM MAES GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 377 - 386)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

14 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 387 - 388)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

15 **SEFYDLU TÎM POLISI CYNLLUNIO NEWYDD AR GYFER ARDAL AWDURDOD CYNLLUNIO YNYS MÔN** (Tudalennau 389 - 398)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd 19 Gorffennaf, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth y Gwasanaeth Oedolion<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Pip O' Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Liz Wood, Arfon Wyn |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i adrodd arno

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 28 Mehefin, 2022 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 28 Mehefin, 2022 yn rhai cywir. (Ymatalodd y Cynghorydd Nicola Roberts rhag pleidleisio oherwydd nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod)**

### 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Awst, 2022 i Fawrth, 2023 a nodwyd y newidiadau a ganlyn -



DRAFT

- Eitemau Newydd
  - Eitem 2 - Penodi Cynorthwywyr i’r Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 27 Medi.
  - Eitem 13 - Safle Peboc ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 25 Hydref, 2022
  - Eitem 14 – Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 25 Hydref, 2022
  - Eitem 21 – Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 29 Tachwedd, 2022
  - Eitem 31 - Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3 2022/23 ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth, 2023
  - Eitem 32 – Adroddiad Cynnydd Rhaglen Wella’r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith 21 Mawrth, 2023.

- Newid i eitem a adroddwyd yn flaenorol

  Amlygodd y Swyddog Polisi yr adroddwyd i gyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin y byddai’r Arweinydd yn gwneud penderfyniad dirprwyedig ynghylch a ddylid parhau i gydweithio ynteu uno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd. Ar ôl adolygu'r dogfennau, dywedodd ei bod wedi dod yn amlwg mai'r amod oedd y dylai'r ddau Fwrdd gyfarfod i ddod i benderfyniad ar wahân, er bod gofyn cyfreithiol i'r trefniant gael ei adolygu ar ôl yr Etholiad Llywodraeth Leol. Mae'r ddau Fwrdd wedi cyfarfod ers hynny ac wedi penderfynu parhau i gydweithio sy'n golygu nad oes angen penderfyniad dirprwyedig gan yr Arweinydd ynglŷn â threfniadau i'r dyfodol gan na fu unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol.

  Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cynnwys eitem ar wariant Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar Raglen Waith cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2022, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Gwasanaeth Tai wedi gwneud y cais a dywedodd, er nad oedd ganddo wrthwynebiad mewn egwyddor i'w gynnwys, ei fod yn dymuno trafod y mater ymhellach gyda Phennaeth y Gwasanaethau Tai i sicrhau bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa i adrodd i gyfarfod mis Medi yn wyneb toriad mis Awst.

Cytunwyd gadael i’r Prif Weithredwr bennu amseriad yr eitem ar y Rhaglen Waith, mewn trafodaeth â Phennaeth y Gwasanaethau Tai.

**Penderfynwyd cadarnhau Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith, wedi’i diweddaru, am y cyfnod rhwng Awst, 2022 a Mawrth, 2022 fel y’i cyflwynwyd.**

**5. CYFRIFON DRAFFT TERFYNOL A DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU**

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori’r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft ar gyfer 2021/22 a’r Fantolen ddrafft hyd at 31 Mawrth, 2022. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth fanylach am falansau cyffredinol y Cyngor a’r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gan gynnwys y defnydd arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau yn 2022/23 a’r blynyddoedd dilynol.

Wrth gyflwyno’r adroddiad dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer ei fod yn gosod allan y prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ac yn rhoi crynodeb o falansau cyffredinol y Cyngor a’r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yn unol â’r rheoliadau, llofnodwyd y datganiadau ariannol drafft gan Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor 17 Mehefin, 2022 ymhell o fewn y gofyn ar gyfer llofnodi’r cyfrifon drafft ar 31 Awst, 2022 (wedi i amserlen y cyfrifon gael ei hymestyn eto ar gyfer 2021/22) i gydnabod y gallai’r pandemig gael effaith o hyd ar

staff awdurdodau lleol) ac mae'r gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau. Y bwriad yw cwblhau'r archwiliad dros yr haf gyda'r cyfrifon archwiliedig terfynol yn cael eu cymeradwyo erbyn y dyddiad cau estynedig, sef 30 Tachwedd, 2022.

Yn seiliedig ar y cyfrifon drafft y gellid eu newid unwaith y bydd yr archwiliad a'r cyfrifon terfynol wedi'u cwblhau, Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth, 2022 oedd £12.050m, sy'n cyfateb i 8.2% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm lefel Balans y Gronfa Gyffredinol ar 5% o'r gyllideb refeniw net a fyddai'n cyfateb i £7.4m, sy'n golygu bod Balans y Gronfa Gyffredinol £4.650m yn fwy na'r isafswm gwerth. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo £500k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i'w wario ar wella priffyrdd a bydd £261k yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn y gwasanaethau yn unol â'r polisi wrth gefn gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20. £11.289m yw'r gronfa gyffredinol ddrafft wrth gefn ar ôl yr ymrwymiadau hyn.

Rhybuddiodd y Cynghorydd Robin Williams na fydd y Cyngor yn eistedd ar ei gronfeydd wrth gefn. Mae cyllidebau'r Cyngor yn debygol o ddod dan bwysau cynyddol yn y flwyddyn gyfredol gan fod yr argyfwng costau byw sy'n cael effaith ar y genedl yn cael effaith debyg ar y Cyngor wrth i gostau gwasanaeth, tanwydd a deunyddiau cynyddol gael eu gyrru'n rhannol gan gyfradd uchel chwyddiant. Gallai mynd i'r afael â hyn yn ogystal ag â heriau eraill, megis cynnydd yn y galw, olygu bod yn rhaid i'r Cyngor dynnu ar ei gronfeydd wrth gefn a dyna pam eu bod yn cael eu dal yn y lle cyntaf - i sicrhau bod arian wrth gefn i gwrdd â heriau ariannol o'r math hwn a sicrhau bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gadarn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at y daith y mae'r Cyngor wedi bod arni yn ariannol dros y pedair blynedd diwethaf, o'r adeg pan fynegodd Archwilio Cymru bryder ynghylch lefel ei gronfeydd wrth gefn i'r sefyllfa llawer cadarnach y mae'n cael ei hun ynddi ar hyn o bryd, gan ei roi mewn lle da i gwrdd â'r heriau hynny.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2021/22 ar gael ar wefan y Cyngor a bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd, oedd yn golygu y gallai'r ffigurau ynddo newid. Eglurodd fod y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn Atodiad 2 yn dangos cost darparu gwasanaethau yn y flwyddyn ar sail cyfrifyddu yn hytrach nag ariannu ac nad yw'n adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Felly mae'n rhaid gwneud nifer o addasiadau i'r cyfrifon er mwyn dangos y swm sy'n cael ei ariannu gan Dreth y Cyngor. Mae'r adroddiad yn nodi pwrpas a defnydd y cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal ac yn cadarnhau sefyllfa well y Cyngor o gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl gyda'r Gronfa Gyffredinol ddrafft ar ôl ymrwymiadau, bellach yn £11.2m, sy'n sylweddol uwch na'r isafswm balans o £7.9m a osodwyd gan y Cyngor. Mae'r Cyngor felly mewn sefyllfa gref i ymdrin â'r heriau ariannol y mae'n debygol o'u hwynebu eleni a thu hwnt. Dywedodd y Swyddog Adran 151 ei fod yn fodlon â sefyllfa ariannol y Cyngor, gan gynnwys lefel ei gronfeydd wrth gefn.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2021/22 (Cyhoeddir Datganiad drafft llawn o Gyfrifon 2021/22 ar [https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Finance/Statement-of-Accounts/2021-2022/Draft-statement-of-accounts-2021-2022.pdf](https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Finance/Statement-of-Accounts/2021-2022/Draft-statement-of-accounts-2021-2022.pdf))**
- **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol o £12.050m a chymeradwyo gwaith creu'r arian wrth gefn newydd a glustnodwyd ac a nodir yn Nhabl 4 o'r adroddiad, sy'n dod i £9.371m.**
- **Nodi Atodiad 4 a chymeradwyo balans o £23.181m o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer 2021/22 (£14.079m yn 2020/21). Mae hyn yn £9.102m yn uwch na 2020/21 ac mae'n cynnwys £9.371m o gronfeydd wrth gefn newydd, fel yr argymhellwyd uchod, a £0.269m o newid i'r cronfeydd wrth gefn presennol (er**

DRAFT

bod hyn yn cynnwys cynnydd sydd bron yn gwneud iawn, a gostyngiadau i'r cronfeydd presennol).**

- **Nodi sefyllfa balansau ysgolion, sef £7.827m.**
- **Nodi balans y Cyfrifon Refeniw Tai, sef £12.333m**
- **Cymeradwyo'r cynnydd o £0.261m yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth i £1.625m yn unol â'r Polisi Cronfeydd Gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn 2019/20, fel yn Atodiad 1, Tabl 3 yr adroddiad.**

## 6. FFÏOEDD 2022/23 CARTREFI PRESWYL A NYRSIO

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn nodi'r ffioedd diwygiedig arfaethedig ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio am 2022/23.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a dywedodd bod sefyllfa'r farchnad a'r economi wedi newid ers i'r ffioedd ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio gael eu gosod yn wreiddiol ym mis Mawrth, 2022, gan olygu bod angen ailedrych ar y strwythur ffioedd presennol am 2022/ 23. Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyrau gan gartrefi gofal unigol a chan y sector yn gyffredinol yn dweud na fyddai lefel y ffïoedd a osodwyd ym mis Mawrth, 2022 yn ddigon i gwrdd â gwir gost gofal, gan fod chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny, yn enwedig o ran costau ynni a bwyd. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffactorau a ystyriwyd wrth ailasesu'r ffïoedd am 2022/23 ac yn cadarnhau bod yr opsiwn arfaethedig, fel y nodir yn Nhabl 2, yn cydnabod y costau cynyddol a wynebir gan ddarparwyr. Mae'r opsiwn, hefyd, yn cynnal y cysylltiad â'r pecyn cymorth rhanbarthol fel dull cyfrifo'r ffioedd tra byddir hefyd yn adlewyrchu pwysau chwyddiant a natur fregus y sector, yn enwedig o ran gofal yr henoed Bregus eu Meddwl.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod cynaliadwyedd y sector cartrefi gofal yn ystyriaeth bwysig i'r Cyngor. Y gobaith, felly, yw y bydd y ffioedd diwygiedig yn cynnal y ddarpariaeth ac yn annog darpariaeth fwy arbenigol fydd yn cyfrannu at nod y Cyngor o ddiogelu a sicrhau lleoliadau ar Ynys Môn i drigolion Ynys Môn.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynnydd mewn ffïoedd am ofal preswyl a nyrsio fel y nodir isod:**

| Categori | Ffi Wreiddiol 2022/23 | Ffi Arfaethedig 2022/23 | Cynnydd o'r Ffi Wreiddiol 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Preswyl** | **£636.80** | **£643.78** | **£6.98** |
| **Preswyl Henoed Bregus eu Meddwl** | **£707.17** | **£772.29** | **£65.12** |
| **Nyrsio** | **£703.79*** | **£752.26*** | **£48.47** |
| **Nyrsio Bregus eu Meddwl** | **£800.88*** | **£896.19*** | **£95.31** |

**(*nid yw'n cynnwys cyfraniad iechyd tuag at ofal nyrsio sydd yn £179.97 ar hyn o bryd)**

- **Bod y newid yn y ffi yn dod i rym o'r wythnos sy'n dechrau 17 Gorffennaf, 2022 fel bod amser i roi gwybod i gleientiaid a chartrefi am y newid ac i sicrhau bod y newid yn cyd-fynd â'r patrwm anfonebu.**



DRAFT

## 7. DYFODOL YR UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (GWYNEDD A MÔN)

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar ddyfodol Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd oedd yn nodi'r bwriad i ddod â'r trefniant cydweithio presennol gyda Chyngor Gwynedd ar ddarparu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i ben ym mis Mawrth, 2023. Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts bod dod â'r cytundeb cydweithio i ben yn golygu y bydd yn rhaid creu Gwasanaeth a Thîm Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Ynys Môn. Mae'r trefniant cydweithio presennol wedi bod yn llwyddiannus gan arwain at greu Cyd-gynllun Datblygu Lleol cyntaf Cymru ar gyfer ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol Ynys Môn a Gwynedd. Cadarnhaodd y Cynghorydd Nicola Roberts y byddai'r un adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i gyfarfod heddiw o Gabinet Cyngor Gwynedd.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd y sefydlwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) gan Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd 1 Mai, 2011 ac, yn dilyn adolygiad yn 2017, adnewyddwyd y trefniant hyd at 31 Gorffennaf 2022 gyda chytundeb y ddau Gyngor. Wrth i'r cytundeb cydweithio ddod i ben ddiwedd y mis hwn bu trafodaethau lefel uchel rhwng Swyddogion y ddau awdurdod am ddyfodol yr UPCC. Daethpwyd i gasgliad ar y cyd y dylid argymell i Bwyllgor Gwaith Ynys Môn a Chabinet Cyngor Gwynedd ddirwyn i ben y cytundeb cydweithio presennol. Mae'r cyd-destun cynllunio yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol wedi newid yn sylweddol ers 2011, yn ogystal â dyheadau, blaenoriaethau ac anghenion y ddau awdurdod. Hefyd, mae sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforaethol rhanbarthol sydd yn statudol ofynnol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn ychwanegu haen newydd o bolisi cynllunio nad oedd yn bodoli pan grëwyd yr UPCC yn 2011. Argymhellir ymestyn y cytundeb cydweithio tan 31 Mawrth, 2023 er mwyn sicrhau y ceir trefn wrth wahanu a bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno mewn egwyddor i sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd i Ynys Môn. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ystyried strwythur staffio a phroses recriwtio, gofynion adnoddau a rhaglen waith gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach ar oblygiadau cost i'r Pwyllgor Gwaith maes o law. Dylid nodi hefyd ei bod yn ofynnol bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro tan 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, wrth wneud sylw fel aelod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, bod cyfarfodydd diweddar wedi dangos bod gan y ddau gyngor safbwyntiau gwahanol o ran polisi cynllunio'r dyfodol, cyfeiriad, anghenion a threfniadau gweithredu, er ei bod wedi bod yn bleser gwasanaethu ar y Cyd-bwyllgor.

Cynigiodd y Cadeirydd mewn perthynas ag argymhelliad 5 o'r adroddiad y dylid hefyd ymgynghori â'r Aelod Portffolio Cynllunio mewn perthynas â chytuno ar drefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd mewn perthynas â gwaith monitro statudol parhaus y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Ymestyn y trefniant cydweithio ar gyfer darparu'r polisi cynllunio ar y cyd hyd at 31 Mawrth, 2023.**

- **Dirwyn y cytundeb cydweithio ac, felly, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i ben 31 Mawrth, 2023 a bod cytundeb mewn egwyddor i greu polisi newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.**

- **Bod y gwasanaeth polisi cynllunio newydd yn paratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn.**

- **Cyflwyno trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a materion polisi cynllunio perthnasol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio ynys Môn.**

- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoli a Datblygu gytuno ar drefniadau cydweithio gyda Gwynedd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a'r Deilydd Portffolio i sicrhau bod y cyngor yn parhau i gwrdd â'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig) sy'n angenrheidiol ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.**

**8. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU**

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu rhagor ar raglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Ynys Môn ac yn rhanbarthol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth wybodaeth gefndir a chyd-destun i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sydd wedi'i lansio gan Lywodraeth y DU, yn lle'r rhaglenni cyllid Ewropeaidd, ac a ariennir yn ddomestig. Bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn sicrhau £2.5b o fuddsoddiad tan fis Mawrth, 2025 ledled y DU gyda'r nod o feithrin balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd. Mae Llywodraeth y DU wedi pennu tair blaenoriaeth fuddsoddi dan y themâu Y Gymuned a Lle; Cefnogi Busnes Lleol a Phobl a Sgiliau. Bydd y rhaglen yn cael ei rheoli gan Lywodraeth Leol ar draws y DU gyda chyllid yn cael ei neilltuo iddynt lleol drwy fformiwla yn hytrach na thrwy gystadleuaeth. Mae disgwyl Cynllun Buddsoddi sy'n nodi dull cyflawni'r rhaglen er mwyn rhyddhau'r cyllid a bydd angen i Lywodraeth y DU ei dderbyn erbyn 1 Awst, 2022. Gofynnwyd i Lywodraethau Lleol yng Nghymru gydweithio i gynhyrchu un Cynllun Buddsoddi ar gyfer pob rhanbarth ac i enwebu un Corff Arweiniol i gyflwyno'r Cynllun a gweithredu fel corff atebol. Ar hyn o bryd, y cynnig yw gofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel awdurdod arweiniol rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y rhaglen. Mae disgwyl hefyd i Lywodraethau Lleol, ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys y trydydd sector a'r gymuned fusnes, wrth ddatblygu'r rhaglen. £13.304m yw'r arian craidd a neilltuwyd i Ynys Môn ar gyfer y cyfnod hyd at fis Mawrth, 2025 gyda £2.77m pellach wedi'i neilltuo i'r rhaglen Lluosi, sef menter gan Lywodraeth y DU i hybu rhifedd oedolion.

Amlinellodd y Cynghorydd Carwyn Jones y cynnydd hyd yma o ran ymgynghori â rhanddeiliaid a datblygu'r Cynllun Buddsoddi er mwyn ei gyflwyno erbyn 1 Awst, 2022 a chadarnhaodd fod strwythurau wedi'u sefydlu'n rhanbarthol i arwain y broses hon, gweithdai a chyfarfodydd wedi'u cynnal yn rhanbarthol i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac, yn lleol, bod y Cyngor hefyd wedi ymgysylltu â phartneriaid allanol ac wedi cynnal proses agored i ofyn am i syniadau a phrosiectau lefel uchel cychwynnol gael eu cyflwyno. Y bwriad yw bod y Cyngor yn canolbwyntio ei adnoddau ar nifer lai o flaenoriaethau er mwyn cael yr effaith fwyaf; dylai'r rhain gael eu llywio gan y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, Cynllun y Cyngor a'r Cynllun Llesiant a chanlyniad y digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y Cyngor yn

gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i sicrhau y cyflwynir y Cynllun Buddsoddi i Lywodraeth y DU erbyn y dyddiad cau, sef 1 Awst.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod pob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn cael adroddiad tebyg ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'n rhaid datblygu'r Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a'i gyflwyno erbyn 1 Awst ac mae'r adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu blaenoriaethau Ynys Môn yn lleol o fewn y rhaglen. Bydd adroddiad pellach ar fanylion y prosiect yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo datblygu rhagor ar y rhaglen cronfa ffyniant gyffredin yn Ynys Môn ac yn rhanbarthol trwy fewnbwn swyddogion, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r deiliad portffolio i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Ynys Môn i'w cynnwys yn y cynllun buddsoddi rhanbarthol er mwyn tynnu'r rhaglen i lawr.**
- **Cefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Gwynedd weithredu fel y corff arweiniol i gyflwyno'r cynllun buddsoddi rhanbarthol i lywodraeth y DU ac arwain gwaith cyflawni'r rhaglen ddilynol.**
- **Dirprwyo awdurdod i ddeiliaid portffolio datblygu economaidd a chyllid, mewn ymgynghoriad â'r tîm arwain, gymeradwyo blaenoriaethau gwariant Fframwaith Polisi Diogelwch y Cyngor am 2022/23.**

**9. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL 2022**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Hunanasesiad Corfforaethol 2021/2022.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmer yr adroddiad, gan ddweud bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor yng Nghymru barhau i adolygu ei berfformiad, sef i ba raddau y mae'n ymarfer ei swyddogaethau yn effeithiol; y mae'n defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac y mae ei lywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r ddau fater cyntaf. Mae disgwyl i bob cyngor gyflawni'r ddyletswydd hon drwy hunanasesu a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad ar ganlyniad yr hunanasesiad. Yn unol â'r gofyn hwn, mae hunanasesiad cyntaf y Cyngor am 2021/22 wedi'i baratoi. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu gwaith y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad ac yn cyflwyno sail dystiolaeth o sut mae'r Cyngor wedi perfformio, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ganddo wrth reoli a lliniaru risgiau cysylltiedig yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol wrth iddo ymateb i'r pandemig.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams y gofynnwyd i bob un o naw gwasanaeth y Cyngor gwblhau hunanwerthusiad, gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd ac a ystyriwyd yn bwysig, megis "Rhagorol", "Da", "Digonol" neu "Anfoddhaol." I gyd-fynd â gwaith gwerthuso'r perfformiad, gofynnwyd hefyd i bob un o'r gwasanaethau amlygu lle'r oeddent yn credu bod y gwasanaeth o ran y rhagolygon ar gyfer gwella i'r dyfodol gan ddefnyddio'r un meini prawf. Gyda'i gilydd mae gwaith gwerthuso'r perfformiad, yn ogystal â gwireddu'r gobeithion am welliannau, yn rhoi darlun cyfredol a chywir o ble mae gwasanaethau'n gweld eu hunain ac yn rhoi rhan o'r dystiolaeth ar gyfer yr hunanasesiad corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi bod yn gwella ac yn aeddfedu gwaith datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad yn barhaus dros y naw mlynedd diwethaf. Mae'r hunanasesiad, sydd ar ffurf Datganiad Sefyllfa, yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw am 2021/22 ac yn canfod bod Rheolaeth Perfformiad y Cyngor; ei ddefnydd cyffredinol o adnoddau a'i reolaeth risg yn "Dda" a bod y



DRAFT

naratif yn rhoi'r rhesymeg a'r sail resymegol dros y casgliad hwn. Mae'r hunanasesiad hefyd wedi nodi meysydd lle gellir gwella perfformiad a chaiff y rhain eu hamlygu dan bob adran unigol a'u dwyn ynghyd mewn rhaglen wella ar ddiwedd yr adroddiad sydd hefyd yn dangos y ffynhonnell sicrwydd ar gyfer pob maes gwelliant.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai'r adroddiad, yn ogystal â rhoi sicrwydd am berfformiad y Cyngor, gael ei ystyried yn destun balchder. Mae'r Hunanasesiad wedi'i lywio gan adolygiadau perfformiad gwasanaeth; adroddiadau perfformiad; y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, adolygiadau allanol; arolwg staff ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, sydd i gyd yn brosesau parhaus ym mywyd gwaith y Cyngor sy'n cefnogi gwelliant parhaus. Cytunodd fod bob amser le i wella ymhellach a bod agweddau ar berfformiad y gellir eu gwella'n cael eu hamlygu a'u nodi yn yr hunanasesiad. Mae adnoddau a rheoli adnoddau wedi'u cysylltu'n agos â pherfformiad ac mae'r rhain yn debygol o fod yn heriol dros y flwyddyn nesaf; Mae rheoli risg yn rhan annatod o brosesau a phenderfyniadau'r Cyngor. Dywedodd y Prif Weithredwr yr hoffai ddiolch i dîm Trawsnewid y Cyngor am yr adroddiad ac am reoli'r prosesau perfformiad sy'n sail i'r adroddiad gan fod y rhain yn golygu llawer iawn o waith.

Cydnabu holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith y gwaith oedd ynghlwm wrth gynhyrchu'r adroddiad a hefyd y gwaith o ddydd i ddydd sy'n sail iddo. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod hunanasesu yn broses barhaus o geisio gwella wrth wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Gan hynny, cynigiodd y Cynghorydd Ieuan Williams y dylid cyflwyno adroddiadau diweddaru chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith ar gynnydd yn erbyn y meysydd a nodwyd i'w gwella, a hynny at ddibenion sicrwydd.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr asesiad a'r rhaglen wella gysylltiedig yn ddogfen ddrafft sy'n cydnabod ac yn cyfleu sefyllfa bresennol y Cyngor Sir.**
- **Gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi sylwadau pellach yn ei gyfarfod 26 Gorffennaf, 2022, a**
- **Gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno'r asesiad i'r Cyngor Sir 13 Medi, 2022.**
- **Rhoi i'r Pwyllgor Gwaith adroddiadau diweddaru chwarterol ar gynnydd yn erbyn y meysydd i'w gwella a nodwyd.**

### 10. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

**Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn ar y sail ei bod yn ymwneud â datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Lles y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

### 11. DATBLYGIAD I GYNYDDU CAPASITI YSGOL Y GRAIG TRWY ADEILADU BLOC CYFNOD SYLFAEN NEWYDD GYDAG UNED GOFAL PLANT AR SAFLE ESTYNEDIG YR YSGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Gwaith iddo ei ystyried.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg ac ynddo 'roedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynyddu buddsoddiad y Cyngor tuag at ymestyn Ysgol y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd. Roedd hyn o ganlyniad i gostau cynyddol yn y diwydiant adeiladu oherwydd nifer o ffactorau y tu allan i reolaeth y Cyngor a'r datblygwr.



DRAFT

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gytundeb y Pwyllgor Gwaith i ariannu cyfran o gost adeiladu uned gofal plant ar safle estynedig Ysgol y Graig; Deuai hyn o ganlyniad i gadarnhad a dderbyniwyd nad oedd cais y Cyngor am gyllid grant 100% o grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru wedi'i flaenoriaethu ar hyn o bryd, gan fod nifer sylweddol wedi gwneud cais amdano. Gan fod yr uned gofal plant ar safle Ysgol y Graig yn rhan o adeilad newydd y Cyfnod Sylfaen, os yw am gael ei chynnwys yn rhan o'r datblygiad, bydd angen ei hadeiladu'r un pryd â gweddill yr Uned Cyfnod Sylfaen - byddai ei chodi'n ddiweddarach yn aneffeithlon ac yn tarfu ar ddisgyblion a staff Ysgol y Graig yn ogystal ag ar y gymuned leol.

Nodai'r adroddiad sut mae'r Cyngor wedi ymateb i'r heriau hyn hyd yma gan gynnwys drwy fynd allan i ail-dendro am y gwaith. Derbyniwyd pris newydd gan y datblygwr a ffefrir 23 Mehefin, 2022 sy'n cynnwys yr uned gofal plant. Mae'r pris yn ddilys tan 28 Gorffennaf, 2022. Hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad mae dadansoddiad o sut mae'r costau wedi newid yn ogystal â manteision cael uned gofal plant ar y safle.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Swyddogion y Cyngor wedi cyflwyno "Cais am Newid" i geisio grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, a hynny tuag at gostau ychwanegol adeiladu'r ysgol a thuag at gostau'r uned gofal plant. Os byddant yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 65% o'r costau hyn. Bydd angen i'r Cyngor ymrwymo i ariannu'r 35% o gostau sy'n weddill (Mae'r Rhaglen Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg oedd â chyfradd ymyrraeth o 100% bellach wedi'i hymrwymo'n llawn). Bydd yr ymrwymiad ychwanegol hwn ar ran y Cyngor yn golygu cost flynyddol uwch drwy'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Golyga costau cynyddol y prosiect hefyd bod gweddill amlen ariannu Band B Cyngor Sir Ynys Môn yn cael ei leihau. Ychwanegodd y Swyddog Adran 151 fod y cyfle yn parhau i fod yn rhy dda i'w golli o safbwynt addysgol ac ariannol, er gwaethaf y newid yn yr amgylchiadau,

Cynigiodd y Cadeirydd y dylid ymgynghori â'r Aelodau Portffolio Addysg, Cyllid a Phlant a Phobl Ifanc ynghylch penderfynu ar yr opsiwn gorau ar gyfer rhedeg yr uned gofal plant, boed hynny'n uniongyrchol gan y Cyngor neu drwy gomisiynu partner allanol.

**Penderfynwyd –**

- **Cynyddu buddsoddiad y cyngor tuag at ymestyn Ysgol y Graig yn unol ag argymhelliad yr adroddiad.**
- **Ariannu 35% o gost adeiladu uned gofal ar safle Ysgol y Graig gyda lle i 50 o blant fel yr argymhellir yn yr adroddiad. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ariannu'r 65% sy'n weddill i hyn ddigwydd.**
- **Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ac i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 benderfynu mewn ymgynghoriad â'r Deiliaid Portffolio Addysg, Cyllid a Phlant a Phobl Ifanc, a oes ar y Cyngor eisiau rhedeg ynteu gomisiynu'r uned gofal plant, gan ddibynnu ar ba opsiwn sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian.**
- **Gyda chytundeb ymlaen llaw Cadeirydd y Cyngor, eithrio hawl y Pwyllgor Craffu i alw'r penderfyniad hwn i mewn. Byddai gohirio'r penderfyniad i ganiatáu cyfnod galw i mewn gan y Pwyllgor Craffu yn niweidiol i'r Cyngor/Lles y Cyhoedd gan fod angen penodi contractwr erbyn 27 Gorffennaf, 2022 i sicrhau bod pris y tendr yn ddilys.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Medi 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2022 – Mai 2023;**<br><br>adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;<br><br>nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **-** |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2022 – Mai 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

Tudalen 14

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2022** | | | |
| 1 | **Cais cymhleth am Grant Cyfleusterau i'r Anabl** | Deilyddion Portffolio Tai a Gwasanaethau Plant | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery<br>Cyng Gary Pritchard | | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Hydref 2022 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | |
| 3 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | Cyngor Llawn<br><br>27 Hydref 2022 |
| 4 | **Cynllun Gweithredu Ol-Arolwg - Arolwg Estyn ar ddarpariaeth Addysg y Cyngor** | | Dysgu | Marc Berw Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br><br>Cyng Ieuan Williams | Panel Sgriwtini Addysg<br>22 Medi 2022;<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>18 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Safle Peboc** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | |
| 6 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Hydref 2022 | Cyngor Llawn<br><br>27 Hydref 2022 |
| | | | | **Tachwedd 2022** | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 8 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>22 Tachwedd 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 10 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 11 | **Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 12 | **Sail y Dreth Gyngor 2023/24**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2023/24. | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| | | | | **Rhagfyr 2022** | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| | | | | **Ionawr 2023** | | | |
| 15 | **Cyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru. | |
| | | | | | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Cynllun y Cyngor 2023-2028** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | Cyngor Llawn<br><br>(Dyddiad i'w gadarnhau) |
| | | | | **Chwefror 2023** | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 19 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 20 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

Tudalen 20

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 22 | **Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| 23 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2023/24** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| | | | | | | | |
| 24 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru | Cyngor Llawn |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 2023** | | | | | | | |
| 25 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22** | Deilydd Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>15 Mawrth 2023 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2023 | |
| | | | | | | | |
| 26 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 27 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 28 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2022 – Mai 2023

Diweddarwyd 16 Medi 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Ebrill 2023** | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| | | | **Mai 2023** | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2023 | |



**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith / Y Cyngor** |
| Dyddiad: | **27 Medi 2022 / 29 Medi 2022** |
| Pwnc: | **Aelodau Pwyllgor Gwaith Cynorthwyol** |
| Aelod Portffolio | **Yr Arweinydd** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**01248 752586**<br>**lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad:<br><br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**01248 752586**<br>**lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Dim effaith uniongyrchol ar unrhyw ward benodol** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**A.1 Pwyllgor Gwaith**

Cyflwyno unrhyw safbwyntiau i'r Cyngor mewn perthynas â'r cynnig ym mharagraff **A.2** isod

**A.2 Y Cyngor**

1. Awdurdodi penodi dim mwy na thri aelod pwyllgor gwaith cynorthwyol ar unrhyw adeg;
2. Na fydd unrhyw aelod pwyllgor gwaith cynorthwyol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol ac y bydd unrhyw gais am gydnabyddiaeth ariannol (y byddai'n rhaid ei gyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn yn gyntaf;
3. Ar wahân i gydnabyddiaeth ariannol, bydd yr holl delerau ac amodau eraill yn cael eu penderfynu gan yr Arweinydd, gan gynnwys:

   - nifer aelodau pwyllgor gwaith cynorthwyol fydd yn cael eu penodi oddi mewn i'r cap cyffredinol a osodwyd gan y Cyngor
   - unrhyw broses benodi ar gyfer y cyfryw unigolion
   - yr unigolion i'w penodi
   - tymor yn y swydd
   - cyfrifoldebau a dyletswyddau'r rolau

**Prif Ystyriaethau**

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Cyflwynodd Adran 57 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (‘y Ddeddf’) ddarpariaethau sy’n golygu bod modd penodi aelodau etholedig i fod yn gynorthwywyr i’r Pwyllgor Gwaith (cynorthwywyr).<br><br>Diwygiwyd y Cyfansoddiad i adlewyrchu Adran 57 y Ddeddf; ond dim ond drwy benderfyniad gan y Cyngor llawn y gellir rhoi Adran 57 ar waith.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai’r nod yw cefnogi amrywiaeth trwy alluogi aelodau na fyddai o bosib yn gallu ymgymryd â rôl lawn amser ar y weithrediaeth, oherwydd amgylchiadau personol neu amgylchiadau eraill, i gael y cyfle i ddysgu a datblygu. Yn ogystal, byddai’n caniatáu i ystod ehangach o aelodau feithrin profiad ar y weithrediaeth a chynorthwyo i gynllunio olyniaeth yn y dyfodol.<br><br>Er nad yw cynorthwywyr yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith, gallant fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a siarad yn y cyfarfodydd hynny, ond nid ydynt yn cael pleidleisio.<br><br>Ni fydd y swyddi hyn yn denu uwch-gyflog oni bai y cyflwynir cais llwyddiannus i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae’r Panel wedi datgan;<br><br>*“Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth.”*<br><br>Noder: Pe byddai uwch-gyflog yn cael ei dalu i gynorthwyydd, ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyntaf, byddai taliad o’r fath yn cyfrif tuag at y cap cyffredinol a ganiateir i’r Cyngor; sef 17 (sef yr uchafswm statudol o ddim mwy na 50 y cant o aelodaeth y Cyngor).<br><br>Os yw’r Cyngor yn cytuno ar yr egwyddor o benodi cynorthwywyr, mae’n rhaid i’r Cyfansoddiad gynnwys darpariaeth ynglŷn â’r nifer uchaf o gynorthwywyr y gellir eu penodi, er mai’r Arweinydd fydd yn gyfrifol am fanylion eraill yn ymwneud â chyfnod y swydd, rolau a chyfrifoldebau ac ati.<br><br>Mae’r Ddeddf yn nodi na chaniateir penodi Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor fel cynorthwywyr.<br><br>Nid yw Cynorthwywyr yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith, ond byddant yn cael eu trin fel pe baent yn aelodau o’r Pwyllgor Gwaith at ddibenion dyrannu seddi ar bwyllgorau sgriwtini. Mewn geiriau eraill, ni chaiff aelodau o’r Pwyllgor Gwaith, na chynorthwywyr, fod yn aelodau o’r naill bwyllgor sgriwtini na’r llall. Efallai y bydd goblygiadau o ran aelodaeth y pwyllgorau sgriwtini yn sgil hyn.<br><br>Serch hynny, mae canllawiau drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu y gallai nifer yr aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau sgriwtini gael ei gynyddu, hyd at uchafswm o draean o aelodaeth y pwyllgor. Pŵer ac nid dyletswydd yw’r hyn sy’n cael ei gynnig a mater i’r Cyngor fydd penderfynu a yw am gyfethol aelodau o’r cyhoedd ar y pwyllgorau sgriwtini. |

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Yn yr un modd, ar y pwyllgorau lle na ellir cynnwys mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith; sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau, dim ond un aelod o'r Pwyllgor Gwaith, neu gynorthwyydd (ond nid y ddau) a ganiateir.<br><br>Nid yw'n fwriad i gynorthwyydd gael ei ddynodi i ddarparu cymorth parhaol i aelod portffolio penodedig ond, yn hytrach, y bwriad yw y byddai'n cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith cyfan a byddai'n cael ei benodi, ei ddiswyddo a'i reoli gan yr Arweinydd, a fyddai hefyd yn dyrannu cyfrifoldebau a dyletswyddau. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yr opsiynau yw cymeradwyo neu wrthod yr egwyddor o benodi cynorthwywyr. Mae'r adroddiad hwn yn caniatáu i'r Cyngor ddewis y naill opsiwn neu'r llall. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Mae'r Cyfansoddiad yn nodi bod rhaid rhoi cyfle i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno ei farn i'r Cyngor cyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid newid y Cyfansoddiad. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Pwrpas yr adroddiad yw i'r Cyngor benderfynu ar y polisi i'w gymeradwyo |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | • Mae'n sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon wrth wneud penderfyniadau<br>• Mae'n cynnig cyfle i roi ystod ehangach o brofiad i fwy o aelodau etholedig<br>• Mae'n hwyluso'r gwaith o gynllunio olyniaeth wleidyddol |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Na |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Na |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Na. Mae'r darpariaethau yn statudol |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol i'r graddau y bydd yn cyfrannu at nod ddatganedig Llywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth trwy alluogi aelodau nad ydynt efallai mewn sefyllfa i ymgymryd â rôl llawn amser ar y weithrediaeth, oherwydd amgylchiadau personol neu amgylchiadau eraill, i gael y cyfle i ddysgu a datblygu. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg | Gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol i'r graddau y gallai'r aelodau gweithredol cynorthwyol gael mwy o gyfle i ymarfer eu Cymraeg wrth ymgysylltu â'r Pwyllgor Gwaith sydd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Felly, ni fyddai creu cyfle newydd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael oni bai bod y rôl hon yn cael ei chreu. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi ystyried yr adroddiad drafft ar 5 Medi 2022. Cefnogol o'r cynnig. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae'r Swyddog Adran 151 yn rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 5 Medi 2022. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Ddim yn berthnasol |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Ddim yn berthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 5 | Eiddo | Ddim yn berthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Ddim yn berthnasol |
| 7 | Caffael | Ddim yn berthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Nid fydd yn destun craffu gan y bydd y Pwyllgor Gwaith yn cael cyfle i roi eu barn ond mater i'r Cyngor llawn fydd y penderfyniad hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | Bydd y canlyniadau yr un fath i bob aelod lleol sydd yn rhan o'r corff a fydd yn gwneud y penderfyniad yn y pen draw, sef y Cyngor llawn. I'w drafod gan yr Arweinwyr Grwp ar 15 Medi 2022 |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Offerynnau Statudol / canllawiau a gynhyrchwyd o dan y ddeddf honno. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad:** | **27 Medi 2022**<br>**28 Medi 2022** |
| **Pwnc:** | **Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/2022** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol**<br>**01248 752588**<br>**bjxcs@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

## 1. Argymhellion

Y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith i:-

- nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2021/22
- nodi unrhyw adborth i'w rannu â'r OGCC;
- awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor a'r Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i ddarparu sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion ac felly darparu aelodau â'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu craffu ar berfformiad y Cyngor.

## 2. Cefndir

Ers 2006 mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith sydd wedi ei ymgymryd ag ef gan ei swyddfa ef/hi dros y 12 mis diwethaf.

Cyhoeddodd yr OGCC yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/22 yn ddiweddar a gellir ei weld yn:-

https://www.ombwdsmon.cymru/Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol/

Mae'r OGCC hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad ar gyfer pob Cyngor; y cyfeirir ato fel y llythyr blynyddol.

Mae Llythyr Blynyddol 2021/22 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), wedi'i atodi fel **Atodiad 1**.

Yn ei llythyr, mae'r OGCC yn gofyn am y canlynol:-

- *"Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa."*

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r cais uchod ac, yn ogystal, yn cael ei gyhoeddi i'r holl Aelodau a'r cyhoedd.

- *"Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion."*

Cafodd sesiynau hyfforddiant yr Asiantaeth Safonau Cwynion eu cwblhau ar ddiwedd 2020 ac mae model y polisi yn cael ei weithredu'n llawn. Mae'r Cyngor yn darparu data cwynion chwarterol yn unol â'r amserlen a nodir gan yr Asiantaeth Safonau Cwynion.

- *"Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi."*

Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgorau hyn a'r Pwyllgor Gwaith.

**3. Y Llythyr Blynyddol**

Mae'r Llythyr yn cyfeirio'n bennaf at gwynion gwasanaeth ond mae hefyd yn cynnwys adran ar gwynion o dan y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

**Y Prif Negeseuon:-**

- Cyflwynwyd 29 o gwynion i'r OGCC, yn erbyn CSYM; i fyny o 18 o gwynion yn ystod 2020/2021. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd 26 angen eu hymchwilio iddynt gan swyddfa'r OGCC.
- Cafodd 3 o'r cwynion a gofnodwyd eu delio â nhw drwy ddatrysiad cynnar.
- Cafodd 1 gŵyn Cod Ymddygiad ei gwneud yn erbyn aelod o'r Cyngor ond ni chafodd ei hymchwilio iddi.
- Cafodd 4 o gwynion eu cofnodi yn erbyn cynghorau tref a chymuned; ni ymchwiliwyd i 1 gŵyn ac ni welwyd tystiolaeth o dorri rheolau yn y 3 achos arall.

- Roedd llythyrau blynyddol blaenorol yn graddio pob Cyngor mewn trefn ond nid dyma'r achos bellach. Mae'r perfformiad ar gyfer CSYM i'w weld yn y tablau a ddarperir yn y Llythyr Blynyddol.

**4. Gwybodaeth Ychwanegol.**

Ynghyd â'r Llythyr Blynyddol, cyhoeddir gwybodaeth ar bryderon, cwynion a chanmoliaethau yn fisol ar wefan y Cyngor yn https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cwynion-swyddogol/Ystadegau-cwynion-y-cyngor.aspx

Darperir y Tîm Arweinyddiaeth Strategol ag Adroddiadau Chwarterol hefyd.

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad blynyddol ar gwynion ym mis Medi bob blwyddyn. Bydd/mae'r adroddiad ar gyfer 2021/22 yn/wedi ei adrodd i'r Pwyllgor ar 21 Medi 2022.
https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=125&MId=3729&Ver=4&LLL=1

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Nid oedd unrhyw opsiynau eraill |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; ar gais yr OGCC. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Pwrpas y Polisi Cwynion Corfforaethol yw dysgu gwersi pan fydd pethau'n |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | mynd yn anghywir a gwneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn ôl yr angen a lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Mae'r ffeithiau a gyflwynir yn cyfrannu at adeiladu gwell gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | Bydd cwynion Iaith Gymraeg yn cael eu delio â nhw ar wahân ac yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2021-22. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Amherthnasol |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Cyhoeddir yr adroddiad hwn i'r holl aelodau etholedig |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Copi o'r Llythyr Blynyddol 2021/22 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| Dim |

Gofynnwch am: Cyfathrebu

01656 641150

cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: Awst 2022

Cyngh. Llinos Medi
Cyngor Sir Ynys Môn
Trwy Ebost yn unig: llinosmedihuws@anglesey.gov.uk

**Llythyrau Blynyddol 2021/22**

Annwyl Cynghorydd Medi

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2021/22) i chi ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Dyma fy llythyr blynyddol cyntaf ers ymgymryd â rôl yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ebrill 2022, ac rwy'n gwerthfawrogi bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig. Ni fu ein swyddfa yn rhydd rhag hyn, gyda mwy o achosion nag erioed yn cael eu cyfeirio atom dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas waith gref rhwng fy Swyddfa ag Awdurdodau Lleol yn parhau i ddarparu gwelliannau yn y ffordd rydym yn ymdrin â chwynion ac yn sicrhau, pan aiff pethau o chwith, ein bod yn dysgu o hynny ac yn adeiladu gwasanaethau cyhoeddus cryfach.

**Cwynion yn ymwneud â Chamweinyddu a Methiant Gwasanaeth**

Y llynedd, cynyddodd nifer y cwynion a gyfeiriwyd atom yn ymwneud ag awdurdodau lleol o 47% (o gymharu â ffigyrau 20/21) ac rydym bellach yn derbyn llawer mwy o gwynion o gymharu â chyn y pandemig. Mae'n debygol y cafodd cwynion i'm swyddfa, a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, eu celu yn ystod y pandemig, ac rydym bellach yn dechrau gweld yr effaith 'adlam' ddisgwyliedig.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn y cam cynnar) cyfran debyg o gwynion am gyrff cyhoeddus, sef 18%, o gymharu â blynyddoedd diweddar. Arhosodd cyfraddau ymyrryd (lle rydym wedi ymchwilio i gwynion) ar gyfer Awdurdodau Lleol ar lefel debyg hefyd – 14% o gymharu â 13% yn y blynyddoedd diwethaf.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

## Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr

Cawsom hefyd nifer uchel o gwynion y Cod Ymddygiad y llynedd, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Cyfeiriwyd y nifer uchaf erioed (20) at naill ai at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol, oherwydd tystiolaeth o dorri'r Cod.

## Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus

Yn ogystal â rheoli'r lefelau uchaf erioed o gwynion, gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith gan ddefnyddio ein pwerau rhagweithiol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn benodol, cynnal ein Hymchwiliad ar ein Liwt ein Hunain cyntaf a pharhau â'n gwaith ar yr Awdurdod Safonau Cwynion.

Ym mis Hydref 2021, gwelsom gyhoeddiad yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf yng Nghymru: Adolygiad Digartrefedd. Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys tri Awdurdod Lleol ac yn ceisio craffu ar y ffordd y cafodd asesiadau Digartrefedd eu cynnal. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol i'r awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt, ynghyd ag awgrymiadau i bob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Bydd rhai o'r argymhellion hyn yn cyflwyno newidiadau yn syth - er enghraifft, diweddaru taflenni ffeithiau a thempledi llythyr ac asesiad i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol yn cael eu gwreiddio'n rheolaidd i brosesau - cynlluniwyd pob argymhelliad i sicrhau newid gwirioneddol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru'r llynedd. Mae'r polisi cwynion enghreifftiol eisoes wedi'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru ac rydym bellach wedi ymestyn hyn i gyfran gyntaf o Gymdeithasau tai a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y nod yw gweithredu'r gwaith hwn ledled sector cyhoeddus Cymru.

Yn ogystal â hyn, am y tro cyntaf, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Cwynion wybodaeth am gwynion y mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â nhw – cyflawniad allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Dengys data ar gyfer 21/22:

- Cofnodwyd dros 15,000 o gwynion gan Awdurdodau Lleol
- 4.88 am bob 1000 o breswylwyr.
- Cadarnhawyd bron i hanner (46%) y cwynion hynny.
- Ymchwiliwyd i oddeutu 75% ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Yn y pen draw, cyfeiriwyd oddeutu 8% o'r holl gwynion a gaewyd at OGCC.

Mae'r Awdurdod Safonau Cwynion bellach wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol gyda bron i 50 o gyrff cyhoeddus, ac wedi darparu 140 o sesiynau hyfforddi, yn rhad ac am ddim, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu'r adborth yn ardderchog, ac mae'r hyfforddiant wedi bod yn boblogaidd iawn – felly byddwn yn annog Cyngor Sir Ynys Môn i ymgysylltu cymaint â phosibl.

**Cwynion a wnaed i'r Ombwdsmon**

Mae crynodeb o'r cwynion yn ymwneud â chamweinyddu/methiant gwasanaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'ch Cyngor wedi'i atodi, ynghyd â chrynodeb o'r cwynion Cod Ymddygiad yn ymwneud ag aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eich ardal.

Yn sgil y dyletswyddau newydd ar arweinwyr gwleidyddol a phwyllgorau safonau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad eu haelodau, edrychwn ymlaen at weithio gyda chi, eich Swyddog Monitro a phwyllgorau safonau i rannu unrhyw ddysgu o'r cwynion a gawn ac i gefnogi gwaith eich awdurdod.

Byddwn hefyd yn croesawu adborth ar adolygiad eich Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o ran gallu eich awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol fel y gallwn gymryd hyn i ystyriaeth yn ein gwaith a chefnogi ei waith ar ymdrin â chwynion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am y ffordd gadarnhaol y mae Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu â'm Swyddfa i'n galluogi i gyflawni'r cyflawniadau hyn yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn flwyddyn heriol i bawb. Edrychaf ymlaen yn fawr at barhau â'r gwaith a'r cydweithio hwn i sicrhau ein bod yn gwella gwasanaethau cyhoeddus ymhellach ledled Cymru.

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynorthwyo aelodau yn eu gwaith craffu ar berfformiad y Cyngor a rhannu unrhyw adborth gan y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda fy swyddfa.
- Parhau i ymgysylltu â'n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i'ch staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion.
- Rhoi gwybod imi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn 30 Medi.

Mae'r ohebiaeth hon yn cael ei chopïo i Brif Weithredwr eich Cyngor a'ch Swyddog Cyswllt. Yn olaf, bydd copi o'r holl Lythyrau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

Yn gywir,

M.M. Morris.

**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

cc.Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn.
Trwy Ebost yn unig: dylanwilliams@ynysmon.gov.uk

## Taflen Ffeithiau

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| Awdurdod Lleol | Cwynion a Gafwyd | Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| Cyngor Sir Ynys Môn | Cwynion a Gafwyd | % rhannu |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 6 | 21% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 7% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 1 | 3% |
| Ymdrin â Chwynion | 3 | 10% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 0 | 0% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 3% |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 7% |
| Tai | 5 | 17% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 7 | 24% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 7% |
| Amrywiol Eraill | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 29 | |





Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| | Tu hwnt i Awdurdodaeth | Cynamserol | Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | Wedi rhoi'r gorau iddi | Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 8 | 7 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 28 |
| | 29% | 25% | 36% | 11% | 0% | 0% | 0% | 0% | |

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Tudalen 41

## Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun yn seiliedig ar nifer y bobl y mae pob bwrdd iechyd yn eu gwasanaethu yn ôl pob sôn.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2021/2022. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.



Public Services Ombudsman For Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombudsman-wales.org.uk | www.ombwdsmon-cymru.org.uk
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk | holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk

All calls are recorded for training and reference purposes | Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Medi 2022 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 1 (2022/23) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae tri o'r pedwar dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae cyflwr lonydd dosbarth A, B ac C wedi gwella unwaith eto yn ystod y flwyddyn.

**1.3** Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar rai meysydd. Gellir crynhoi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel a ganlyn –

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud mewn perthynas â'r dangosydd ar gyfer cwblhau asesiadau plant o fewn yr amserlen.

**1.4** Gofynnir i'r pwyllgor derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 26/9. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 1 |

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2021/22 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23
- Cynllun y Cyngor 2017-2022

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2022/23)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach eleni.

1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym, sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 1 (Ch1) a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â Chynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-28 pan fydd yn cael ei fabwysiadu yn ddiweddarach eleni:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwrachod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).


2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn. Felly, gadawyd y golofn tueddiadau'n wag yn fwriadol ar gyfer Ch1 a bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad cerdyn sgorio o Ch2 ymlaen.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'r mwyafrif (60%) o'r dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodi'r rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch1 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 1.86 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 2.1 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r 2.24 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod yr un cyfnod y llynedd ac mae'n cymharu'n dda â'r tair blynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau hyn yn brawf o ymrwymiad staff, yn arbennig yn ystod cyfnod mor heriol.




3.3 Mae ein strategaeth ddigidol yn parhau i ddatblygu ac mae cyflwyno'r sgwrsfot 'Mona' ar y wefan yn enghraifft o hyn. Yn ddiweddar, dangoswyd y sgwrsfot i gwsmeriaid yn ystod Sioe Môn ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Yn ystod Ch1 roedd 4k o ddefnyddwyr wedi defnyddio'r sgwrsfot gyda 13.5k o ryngweithiadau. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM) newydd fydd yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod 2022/23, gyda'r nod o wella profiad y cwsmer ac, yn wir, eu profiad wrth iddynt ryngweithio â ni.


3.4 Bydd ychydig o newid yn nangosydd 15 eleni (nifer yr ymweliadau â gwefan y cyngor), yn bennaf oherwydd newid yn sut mae'r wefan yn casglu cwcis gan ddefnyddwyr. Mae'r ffordd y mae'r wefan yn casglu gwybodaeth am gwsmeriaid ar ffurf cwcis wedi newid mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth ac, erbyn hyn, gofynnir i ddefnyddwyr dderbyn cwcis dadansoddi sy'n cynorthwyo i gasglu gwybodaeth am nifer y defnyddwyr sy'n ymweld â'r wefan.

3.5 Yn anffodus, oherwydd y newid hwn bydd y ffigyrau yn yr adroddiadau yn sylweddol is o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, mae perfformiad yn Chwarter 1 tua 26k o ymweliadau o gymharu â 248k o ymweliadau yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22.

3.6 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â dau ddangosydd sydd yn tanberfformio ac sydd yn GOCH yn erbyn eu targedau.

3.6.1 Dangosydd 05 – cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol), gyda pherfformiad o 60% yn erbyn targed o 80%. Er gwaethaf y perfformiad, mae'n galonogol bod 4 o'r 5 gŵyn a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod â'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith. Cytunwyd ar estyniad ar gyfer un o'r ddau ymateb ysgrifenedig hwyr, a'r rheswm am yr ymateb hwyr arall oedd ei fod yn gŵyn ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a hysbyswyd yr achwynydd fod yr ymateb i'r gŵyn yn debygol o fod yn hwyr oherwydd hyn.

3.6.2 Dangosydd 09 – % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen – sy'n dangos fod 67% o ymatebion yn unol â'r amserlen yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â pherfformiad o 83% a welwyd ar ddiwedd Ch1 2021/22. O ran cyd-destun, derbyniwyd 39 cais Rhyddid Gwybodaeth ychwanegol a 509 o gwestiynau ychwanegol yn ystod Ch1 2022/23 (225 cais Rhyddid Gwybodaeth gyda 2037 cwestiwn) o gymharu â Ch1 2021/22 (186 cais Rhyddid Gwybodaeth gyda 1528 cwestiwn).



3.7 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd y chwarter cyntaf, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £0.544m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt efallai'n amlwg o'r ffigwr hwn ac maent yn amlygu risgiau mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

3.8 Mae'r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-

3.8.1 Y ffaith fod y cynnig tâl presennol gan y Cyd Gyflogwyr yn genedlaethol yn sylweddol uwch na'r hyn y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa wrth gefn glustnodedig mewn lle i wrthbwyso cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn. Mae'n rhaid caniatáu ar gyfer y cynnydd yn y gost yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.

3.8.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn peri pryder arbennig, ac amcangyfrifir gorwariant o £1.508m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant oherwydd cynnydd yn y galw. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y tanwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd gorwariant o rhwng £3.5m a £4m yn y gwasanaethau. Mae hyn ar sail lefel bresennol y galw. Bydd y sefyllfa'n gwaethygu os bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau.

3.8.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio, ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.9 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 yn cael effaith hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2022/23 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2023/24.

3.10 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £7.926m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

3.11 Y CRT sy'n cyfrannu'n bennaf at y tanwariant a ragwelir, ble mae tanwariant sylweddol (£6,292m) yn cael ei ddarogan. Y prif resymau am y tanwariant yn y CRT yw:

3.11.1 Nid yw nifer o gynlluniau adeiladu o'r newydd wedi datblygu cymaint â'r gobaith oherwydd amryw o ffactorau;
3.11.2 Mae oedi yn y prosiect Safonau Ansawdd Tai Cymru tra bod dyluniad y rhaglen ceginau newydd yn cael ei gwblhau; ac
3.11.3 Oedi wrth dderbyn caniatâd i osod paneli Solar PV.

3.12 Mae'r canlyniadau hyn a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn y gyllideb gyda dim ond £1.634m i'w gario drosodd o raglen gyfalaf y gronfa gyffredinol.

3.13 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 1' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi.

3.14 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol trwy ddefnyddio dadansoddiad y cerdyn sgorio fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid, yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol. Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion, o'r safbwynt hwnnw, hefyd yn portreadu perfformiad boddhaol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 1 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (90%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Ch1 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 1, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd o dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.


4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Dangosydd 7 – Nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden – sydd â pherfformiad o 132k o gymharu â tharged o 128.5k. Mae hwn yn well na'r perfformiad a welwyd cyn y pandemig, yn ystod Chwarter 1 2019-20, pan gofnodwyd 122k ymweliad yn ystod y cyfnod.
4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd – gyda 14 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 12. Unwaith eto,

mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 14 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.4 Mae dau o'r tri dangosydd sy'n tanberfformio i'w gweld o dan yr ail amcan llesiant, **Amcan 2,** lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 20 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 78.02% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â'r 90.45% a welwyd yn Chwarter 1 2021/22 a'r 85.32% a welwyd cyn covid, yn Chwarter 1 2019/20.




Mae perfformiad yn gysylltiedig â'r dangosydd perfformiad allweddol hwn wedi dioddef oherwydd bylchau mewn staffio yn ystod Ch1 oherwydd cyfuniad o absenoldeb staff a chynnydd yn yr atgyfeiriadau sydd angen asesiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r problemau staffio wedi gwella yn awr a bydd perfformiad y dangosydd hwn yn gwella yn ystod y chwarter nesaf oherwydd hynny.

4.4.2 Dangosydd 23 - Mae'r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn - yn GOCH gyda pherfformiad o 337 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae'r perfformiad wedi gostwng o gymharu â'r 277 diwrnod a welwyd yn Chwarter 1 2021/22 ac mae ychydig yn is na'r 318 a nodwyd ar ddiwedd 2021/22.



Mae nifer fechan o blant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant am fwy o ddiwrnodau na'r nifer targed. Rhagwelir y bydd hanner y garfan hon yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn ddiogel yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd hyn yn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod y flwyddyn.

4.5 Er bod angen gwella perfformiad o dan yr amcan hwn a mabwysiadu mesurau lliniaru, mae'n bwysig nodi enghreifftiau o berfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter, gan gynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a phroblemau wrth recriwtio staff.


4.5.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio'n dda ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol i ganiatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau fod ein pobl yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref. Fodd bynnag, dylid nodi bod y galw a welir am gymorth oherwydd y nifer digynsail o Hysbysiadau A21 a dderbyniwyd gan denantiaid landlordiaid preifat am arwain at ddirywiad mewn perfformiad wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:


4.7.1 Mae tri dangosydd rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Cynhyrchwyd ychydig llai o wastraff gweddilliol gan breswylwyr na'r targed a osodwyd ar gyfer y chwarter. Mae cymorth preswylwyr i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy yn hanfodol os yw'r Ynys am gyflawni'r targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.

4.7.2 Mae'r tri dangosydd priffyrdd sy'n gysylltiedig ag arolygon cyflwr lonydd dosbarth A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 - 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac maent yn well nag yr oeddent yn 2021/22. Mae'r gwelliant mwyaf i'w weld yng nghyflwr ein lonydd dosbarth A lle'r oedd dim ond 2.6% mewn cyflwr gwael yn 2022/23 o gymharu â 3% yn 2020/21 a 4.6% yn 2019/20. Mae'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd yn 2021/22, cyfuniad o arian cyfalaf a grant gan Lywodraeth Cymru, wedi cyfrannu at y gwelliannau.




4.8 Yr unig ddangosydd sydd yn tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.8.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 38% o gymharu â tharged o 65%. Mae hyn yn is na'r un cyfnod yn 2021/22 pan wrthodwyd 67%.




Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer newid yn sylweddol o un chwarter i'r llall. Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' a bod modd eu cyfiawnhau, serch hynny, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniadau apêl.

Mae pob penderfyniad apêl yn cael eu hadolygu er mwyn gwella ansawdd a chadernid argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae tri o'r pedwar dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae cyflwr lonydd dosbarth A, B ac C wedi gwella unwaith eto yn ystod y flwyddyn.

5.2 Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar rai meysydd. Gellir crynhoi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel a ganlyn –

5.2.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud mewn perthynas â'r dangosydd ar gyfer cwblhau asesiadau plant o fewn yr amserlen.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

## 6. RHESTR TERMAU

6.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

6.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
6.1.2 Ch1 – Chwarter 1
6.1.3 Ch2 – Chwarter 2
6.1.4 Ch3 – Chwarter 3
6.1.5 Ch4 – Chwarter 4
6.1.6 Statws CAG - Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
6.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
6.1.8 FTE – Cyfystyr ag Amser Llawn
6.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
6.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
6.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
6.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
6.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
6.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
6.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Bl ar Fl / Yr on Yr Trend | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch2) | | | | | | - | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch2) | | | | | | - | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 2.60% | 4.2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 68% | - |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Gwyrdd / Green | | 132k | 128.5k | 546k | 388k | 189k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Gwyrdd / Green | | 72% | 50% | 50% | 47.5% | - |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff (Ch3) | Melyn / Yellow | | 75% | 80% | 80% | 84% | - |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | | 14 | 12 | 50 | 91 | 94 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | | | 1 | 1 | 3 | 1 | 9 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | | | 10.69 | 18 | 18 | 13.89 | 8.1 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | | | | | | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3) | | | | | | - | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | | 92.31% | 90% | 90% | 94.78% | 92.31% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | | 61.90% | 62% | 62% | 64.85% | 60.36% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | | 14.65 | 19 | 19 | 14.33 | 15.36 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | | 93.30% | 93% | 93% | 96.10% | 98.20% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Coch / Red | | 78.02% | 90% | 90% | 87.15% | 86.87% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | | 1.48% | 2.50% | 10% | 9.79% | 12.34% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Melyn / Yellow | | 16.28% | 15% | 15% | 5.74% | 32.00% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Coch / Red | | 337 | 270 | 270 | 318 | 258 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | | 98.51% | 95% | 95% | 99.10% | 99.56% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | | 86.46% | 90% | 90% | 85.99% | 87.74% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | | 90.15% | 80% | 80% | 80.95% | 74.74% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | | 100.00% | 85% | 85% | 92.00% | 75.47% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Melyn / Yellow | | 171 | 170 | 170 | 172.3 | 169 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | | 32.4 | 40 | 40 | 28.7 | 45.6 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Melyn / Yellow | | 1.73% | 1.70% | 1.70% | 1.66% | 1.98% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | | 95% | 95% | 95% | 95.50% | 92.00% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | | 65.54% | 66% | 64% | 62.39% | 62.96% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | | 1 | 1 | 1 | 0.25 | 0.95 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | | 53kg | 55kg | 220kg | 223kg | 214kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Melyn / Yellow | | 87% | 90% | 90% | 79% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | | 38% | 65% | 65% | 50% | 58% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | | 92% | 80% | 80% | 84% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.6% | 3% | 3% | 3% | 4.60% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.6% | 4% | 4% | 2.8% | 3.8% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 7.6% | 9% | 9% | 8.2% | 8.5% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | 127.62 | | | 486.85 | 385 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | | 414,198 | | | 1,524,961 | 1,254,419 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | 232,932 | | | 786,247 | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | + 26% | - |

Melyn - o fewn 5% o'r targed    Gwyrdd - ar darged neu'n uwch    Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter    Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn wahanol

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q1 2022/23

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | | 14 | 14 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 1 | - | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 2 | - | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | | 85% | 80% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | | 60% | 80% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 5 | - | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | | 34 | - | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | | 83 | - | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Coch / Red | | 67% | 80% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | | 54k | - | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | | 10k | - | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | | 6524 | - | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | | 2308 | - | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | | 97k | - | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | | 26k | - | - | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2233 | - | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | - | 1.86 | 2.1 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 0.85 | - | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.01 | - | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | - | - | - | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | | £33,962,000 | £33,881,000 | -0.24% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | | £158,823,000 | | | £158,811,000 | 0.15% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | £33,621,000 | | | £31,987,000 | -4.86% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | | -£3,474,327 | -£3,830,476 | 10.25% | | |
| 05) Swm a fenthycwyd | | | £12,052,000 | | | £10,273,000 | -14.76% |
| 06) Chost benthyca | | | £4,152,796 | | | £4,076,077 | -1.85% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 98.13% | | | |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | | | 98.81% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 100.4% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | | | 100.90% | | | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **27 MEDI 2022** |
| Pwnc: | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2022/23** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG**<br>01248 752663 -<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Ar 10 Mawrth 2022, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net y gwasanaethau o £158.365m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £3.109m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau na chynlluniwyd ar eu cyfer. Gosodwyd cyllideb o £1.950m ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor, sef cynnydd o £0.436m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda'r cynnydd o 2% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.

**2.** Fel y llynedd, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 9.2% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gynnydd i'w groesawu ond roedd rhaid i'r Cyngor ymrwymo i gynyddu cyllidebau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys gofal cymdeithasol a digartrefedd. Yn ogystal, mae cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant yn gysylltiedig â Covid wedi dod i ben ac mae unrhyw gostau o'r fath yn cael eu cyllido o gyllidebau craidd y Cyngor.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 30 Mehefin 2022. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Dylid nodi ei bod yn anodd rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi. Mae hyd yn oed yn anoddach darogan y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am 2022/23, oherwydd bod chwyddiant yn codi, y ffaith na chytunwyd eto ar ddyfarniadau cyflog staff ar gyfer 2022/23, y posibilrwydd o gostau cysylltiedig â Covid wrth i ni symud i fisoedd y gaeaf, ynghyd â'r effaith a gaiff yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor. Nid yw'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ystyried y dyfarniadau cyflog arfaethedig ar gyfer athrawon (o fis Medi 2022) a staff arall (wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2022). Pan fydd y costau hyn yn hysbys, byddant yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon yn y dyfodol. Crëwyd cronfa wrth gefn glustnodedig o £2.2m er mwyn darparu cyllid ychwanegol i gwrdd â'r pwysau chwyddiant yma ond efallai na fydd yn ddigon i gyllido'r holl gostau ychwanegol y bydd rhaid i'r Cyngor eu talu yn ystod y misoedd nesaf.

**3.** Yn ogystal, nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried pwysau'r gaeaf. Yn hanesyddol, mae pwysau'r gaeaf i'w weld yn y gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gall fod yn anodd mesur y costau ychwanegol y gellir mynd iddynt mor fuan â hyn yn y flwyddyn ariannol. Bydd y rhagolygon a'r costau llawn yn cael eu nodi yn yr adroddiadau monitro ar gyfer chwarter 3 a chwarter 4, yn y drefn honno.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw tanwariant o £0.544m. Mae hyn yn cyfateb i 0.34% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23.

**5.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23;

**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23, fel y manylir arnynt yn Atodiad C;

**(iii)** Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH a D.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol ar gyfer y tymor canol a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2022/23 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2022 ac ymgorfforwyd y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 1 gan y Panel Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2022. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| • Atodiad A - Adroddiad Alldro Refeniw Dros Dro ar gyfer 2022/23<br>• Atodiad B - Tabl o’r Alldro Dros Dro ar gyfer 2022/23<br>• Atodiad C - Crynodeb o’r Cyllidebau Wrth Gefn ar gyfer 2022/23<br>• Atodiad CH - Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2022/23<br>• Atodiad D - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2022/23 |
| **Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| Cyllideb Refeniw 2022/23 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth 2022 a’i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2022). |

**ATODIAD A**

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1**

## 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig o £23.181m a chronfeydd wrth gefn yr ysgolion gwerth £7.827m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2021/22 at falans cyffredinol o £12.050m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol. Roedd hyn yn well na balans agoriadol y flwyddyn flaenorol, 2020/21, pan roedd y balans cyffredinol yn £11.437m. Cyfrannodd y tanwariant drafft o £4.798m at hyn a'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nid oedd eu hangen mwyach. Fodd bynnag, gallai hyn newid o ganlyniad i unrhyw addasiadau yn dilyn yr archwiliad.

Mae sefyllfa'r balansau cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | (12.050) | Cronfa wrth gefn gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2022 |
| Cyllid ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw Priffyrdd | 0.500 | Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022 |
| Trosglwyddo cyllid i Gronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau penodol | 0.261 | Yn unol â'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau a gymeradwywyd yn 2019/20 |
| **Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor** | **(11.289)** | **Fel y nodir uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwilio'r cyfrifon.** |

Yr alldro presennol a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw tanwariant amcangyfrifiedig o £0.544m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yn cynyddu i £11.833m erbyn diwedd y flwyddyn, o gymharu â'r isafswm o £7.9m, sef 5% o gyllideb refeniw net 2022/23.

Gosodwyd cyllideb 2022/23 cyn y cynnydd sylweddol yn lefel chwyddiant cyffredinol a'r pwysau wedyn am gynnydd uwch mewn cyflogau na'r hyn y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb. Crëwyd cronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £2.25m i ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â chynnydd mewn costau, ond efallai na fydd y gronfa wrth gefn hon yn ddigonol yn awr i gwrdd â phwysau cynyddol mewn costau, a chyflogau yn arbennig.

Roedd y gyllideb wreiddiol yn caniatáu tua £2.3m i gwrdd â dyfarniadau cyflog ar gyfer athrawon a staff nad ydynt yn athrawon. Mae'r cynnig presennol ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon, sef £1,925 i bob gweithiwr, yn golygu cynnydd cyfartalog o 7.5% mewn cyflogau a bydd hyn yn arwain at gynnydd o £3.6m yn y gyllideb cyflogau. Bydd y cynnig i athrawon, sef 5% o fis Medi 2022, yn arwain at gynnydd o thua £650k yn y bil cyflogau. Felly, bydd angen swm ychwanegol o £2m i gyllido'r dyfarniadau cyflog os mai'r cynnig presennol fydd y cynnig terfynol. Bydd hyn yn defnyddio'r cyfan o'r gronfa wrth gefn glustnodedig, ac ni fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i gwrdd â'r cynnydd disgwyliedig mewn costau eraill, sef costau ynni a thanwydd yn benodol.

Os nad yw'r gronfa wrth gefn yn ddigonol mae'n debygol y bydd y Cyngor yn gorwario ar ei gyllideb refeniw yn 2022/23, a bydd rhaid cyllido unrhyw orwariant o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor.

## 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir gorwariant o £0.750m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2023. Amcangyfrifir tanwariant o £0.307m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd incwm y Dreth Gyngor safonol £0.573m yn uwch na'r disgwyl a bydd incwm premiwm y Dreth Gyngor £0.414m yn uwch na'r disgwyl hefyd. Ar hyn o bryd, rhagwelir tanwariant o £0.544m yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23, sydd yn cyfateb i 0.03% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (tua £100k neu fwy):-

**Tabl 1**

| | **(Tan) / Gorwariant £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Dysgu | 68 | + 1.02 |
| Oedolion | 753 | + 2.52 |
| Gwasanaethau Plant | 755 | +6.411 |
| Gwastraff | (795) | (8.77) |
| Trawsnewid | (297) | (4.71) |
| Adnoddau | (144) | (4.20) |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 215 | +7.10 |
| Cyllid Corfforaethol | (307) | (1.29) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac nad oes modd eu rheoli – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg | 200 | No Budget |
| Cyllido | (987) | (0.66) |
| Arall (cyfanswm yr amrywiadau gwerth llai na £100k) | (5) | 0.00 |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau – gor / (tan)wariant** | **(544)** | **(0.15)** |

## 3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod y gyllideb ar gyfer ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £7.827m, o gymharu â £3.974k ar 31 Mawrth 2021. Fodd bynnag, derbyniodd ysgolion grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth ar gyfer gwariant a oedd wedi digwydd yn barod, gan olygu na chafodd eu cyllidebau craidd eu gwario. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bydd ysgolion yn adfer yn dilyn effaith y pandemig a rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn disgyn yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23 wrth i adnoddau ychwanegol gael eu cyfeirio i gynorthwyo disgyblion i ddal i fyny yn dilyn cyfnodau pan fu ysgolion ar gau.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd gorwariant o £25k (4.64%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 1. Y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £81k (1.51%). Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Cludiant Ysgol (Tacsis a Bysiau) – rhagwelir gorwariant o £118k. Mae hyn yn cael ei arwain gan y galw ac mae gorwariant yn parhau oherwydd y galw cynyddol parhaus am dacsis. Dyrannwyd cyllideb ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond mae'r gorwariant yn parhau. Yn ogystal, rhoddwyd cymorth ychwanegol i gwmnïau Tacsis a Bysiau oherwydd y cynnydd mewn costau tanwydd, ac mae hyn wedi cyfrannu at y gorwariant hefyd. Mae angen nodi y bydd yr holl gontractau bysiau ysgol yn cael eu hail-dendro ym mis Hydref, a bydd yr holl gontractau tacsis ysgol yn cael eu hail-dendro ym mis Ionawr 2023, felly, gallai'r gorwariant hwn newid yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.

- Roedd llai o alw am y gyllideb lleoliadau allsirol yn 2021/22, felly, mae'r gyllideb ar gyfer 2022/23 yn llai na chyllideb 2021/22. Rhagwelir tanwariant o £93k ar leoliadau allsirol. Gallai nifer y plant sydd angen lleoliadau allsirol gynyddu wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, gan effeithio ar y tanwariant a ragwelir, ond mae cronfa wrth gefn glustnodedig o £500k ar gael i gwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gynnydd yn y galw.

- Rhagwelid y bydd y targed incwm ar gyfer Clwb Gofal Plant yn tangyflawni o £68k.Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac nid yw niferoedd sy'n mynychu'r clybiau wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.
- Rhagwelir tanwariant o £103k yn y gyllideb Addysg Ganolog ac mae hyn, yn rhannol, oherwydd swydd a fu'n wag ers mis Ebrill 2022. Mae'r swydd wedi'i llenwi yn awr yn dilyn ymarfer recriwtio llwyddiannus. Ceir nifer o fân danwariannau eraill hefyd o dan nifer o benawdau yn y gyllideb.

**3.1.4 Diwylliant**

**3.1.4.1** Roedd gorwariant o £42k (9.24%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw tanwariant o £13k (1.02%). Yr unig faes sy'n creu ychydig o bryder yw gorwariant o £24k a ragwelir ar gyfer Oriel Ynys Môn. Rhagwelir y bydd ail-dendro contract Caffi'r Oriel yn llwyddiannus yn denu mwy o ymwelwyr i'r Oriel ac yn cynyddu incwm yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol, a gallai hyn leihau'r gorwariant.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £473k (7.82%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £753k (2.52%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.2.2** Roedd yr elfennau yn yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagwelir tanwariant o £106k. Fodd bynnag, dylid nodi fod hyn ar ôl dyrannu £332k o grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a £450k o'r gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Canlyniad uniongyrchol swyddi gwag a throsglwyddo staff i gael eu cyllido o'r Gronfa Integredig Ranbarthol yw'r prif reswm am y rhagolwg. Disgwylir gorwariant o £40k ar staff asiantaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae nifer o feysydd eraill yn gor a thanwario yn y Gwasanaeth ac yn cydbwyso'i gilydd.

- Anableddau Corfforol (AC): Mae'r ddarpariaeth yn rhagweld gorwariant o £288k ar gyfer y flwyddyn, ar ôl dyrannu £332k o grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Y gorwariant mwyaf a ragwelir yw Cymorth Cartref £121k, sydd o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o gleientiaid, er bod y defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol wedi lleihau'r gost gyfartalog fesul cleient. Mae Gofal Preswyl yn rhagweld gorwariant o £88k ar gyfer y flwyddyn, ac mae'r gwasanaeth hwn yn ymwneud â 10 lleoliad preswyl cost uchel / niferoedd isel. Mae nifer y cleientiaid wedi bod yn gymharol gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gellir dadlau nad oes digon o gyllid wedi'i ddyrannu i'r maes hwn ers nifer o flynyddoedd gan i ni adrodd am orwariant o dan y pennawd hwn yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

- Anableddau Dysgu (AD): Mae gorwariant o £321k ar gyfer y cyfnod a rhagwelir gorwariant o £712k erbyn diwedd y flwyddyn, a hynny ar ôl dyrannu swm o £332k o grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a £585k o'r gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Rhagwelir gorwariant o £19k ar Ofal Cartref, ac mae'r Gwasanaeth yn ceisio cynyddu nifer y cleientiaid sy'n trefnu eu gofal trwy'r mecanwaith cyllido taliadau uniongyrchol, yn hytrach na bod y Cyngor yn comisiynu'r gofal yn uniongyrchol. Rhagwelir gorwariant o £345k yn y gyllideb Cymorth Cartref o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cleientiaid lle mae costau gofal fesul cleient yn uchel. Rhagwelir gorwariant o £449k ar lety â chymorth a llety arall, hyd yn oed ar ôl dyrannu £332k o grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a £210k o'r gronfa wrth gefn Pwysau Gofal Cymdeithasol. Bwriadwyd gosod tendr ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, gyda'r nod o greu arbedion sylweddol, ond gohiriwyd y broses dendro oherwydd y pandemig Covid.

- Iechyd Meddwl (IM): Roedd gorwariant o £3k yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £20k ar ddiwedd y flwyddyn – disgwylir gorwariant o £61k ar Ofal Preswyl, ar ôl derbyn grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei arwain gan y galw ac, unwaith eto, mae'n ymwneud â lleoliadau cost uchel / niferoedd isel yn bennaf. Rhagwelir y bydd gorwariant o £59k ar Fyw â Chymorth ar ddiwedd y flwyddyn, yn ymwneud yn bennaf â chostau lleoliadau ar gyfer oedolion.

- Uned Ddarparu a Rheoli a Chefnogaeth: Mae'r maes hwn yn rhagweld tanwariant o £257k ar ddiwedd y flwyddyn. I raddau helaeth, mae'r tanwariant a ragwelir yn y maes hwn o ganlyniad i swyddi gwag amrywiol.

### 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Mae gorwariant o £62k (1.73%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir gorwariant o £1,072k (9.10%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.3.2** Mae gorwariant o £267k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal hyd at gyfnod 3, ond, ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £755k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r swm o £755k yn cynnwys £948k ar leoliadau allsirol. Er bod 3 lleoliad allsirol wedi dod i ben yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi gorfod chwilio am 5 lleoliad newydd, gyda 4 ohonynt yn dechrau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22, a rhagwelir y bydd y lleoliadau hyn yn parhau trwy gydol 2022/23. Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth 11 Lleoliad allsirol gyda chost wythnosol gyfartalog o £5.97k (£310k y flwyddyn) ar ôl tynnu incwm trydydd parti gan Iechyd ac Addysg. Mae hyn yn cymharu â 10 lleoliad cyfystyr ag amser llawn yn 2021/22, gyda chost wythnosol gyfartalog o £4.78k (£249k y flwyddyn). Trosglwyddwyd £350k o'r cronfeydd wrth gefn a grêwyd i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol a wynebir gan yr adran.

Mae'n anos caffael lleoliadau preswyl newydd ac, o ganlyniad, mae costau lleoliadau wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Rhaid nodi hefyd ein bod wedi derbyn (£513k) mewn grantiau unwaith ac am byth yn 2021/22 a derbyniom (£360k) o gyfraniadau gan addysg hefyd yn 2021/22, o gymharu â rhagolwg o (£210k) yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Disgwylir y bydd dau leoliad drud yn cael eu trosglwyddo i'r Cartref Clyd newydd rhywbryd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ond mae'r amseru'n dibynnu ar gynnydd gwaith cyfalaf ar yr eiddo sydd newydd ei brynu a'n gallu i recriwtio staff yn amserol. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd y lleoliadau yn parhau mewn llety allsirol tan ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, ond bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus yn ystod y misoedd nesaf a bydd y rhagolygon ariannol yn cael eu diweddaru yn unol â hynny. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw sy'n gallu bod yn hynod o ansefydlog. Disgwylir tanwariant o £53k ar leoliadau nad ydynt yn rhai safonol, gorwariant o £174k ar leoliadau Gofal Maeth, yn ogystal â gorwariant o £42k ar warcheidiaeth arbennig. Rhagwelir hefyd y bydd gorwariant o £48k ar Gartrefi Clyd ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn seiliedig ar 3 lleoliad.

Rhagwelir y bydd tanwariant o £119k ar Gymorth Integredig i Deuluoedd, yn bennaf oherwydd swyddi gwag. Mae'r gwasanaethau Ieuenctid yn rhagweld tanwariant o £72k hefyd ac, unwaith eto, mae hynny'n gysylltiedig â staffio.

### 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd gorwariant o £36k (6.40%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 1 a rhagwelir y bydd gorwariant o £85k (4.44%) ar alldro. Digartrefedd ac atal digartrefedd sy'n achosi'r pryder mwyaf, gyda galw digynsail am y gwasanaethau. Gan fod y gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw, mae'n anodd darparu rhagolwg cywir o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai meysydd yn tanwario yn yr adran, yn y cyllidebau staffio, gan gydbwyso meysydd eraill sy'n gorwario ac, o'r herwydd mae'r gorwariant a ragwelir yn gostwng i £85k.

### 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

#### 3.5.1 Economaidd a Chymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd gorwariant o £626k (95.65%) yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod, ond mae'r mwyafrif o ganlyniad i grant incwm sydd wedi cronni ond sydd heb gael ei dderbyn eto. Mae addasu am yr eitemau yma yn lleihau'r gorwariant yn erbyn yr incwm a broffiliwyd i lawr i £102k o hyn mae £97k yn perthyn i'r Gwasanaethau Hamdden. Mae disgwyl i'r incwm wella dros fisoedd yr haf, a disgwylir i incwm y Gwasanaethau Cyrchu ragori'r targed. O ganlyniad rhagwelir gorwariant o £27k gan y gwasanaeth (1.22%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.5.1.2** Disgwylir gorwariant o £17k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd y targed incwm ar gyfer staffio prosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol. Heb y ffynonellau cyllido hyn, ni fydd y disgwyliad incwm yn y gyllideb yn cael ei gyflawni. Y disgwyliad yw £72k. Mae ailstrwythuro uwch reolwyr a swyddi gweigion eraill wedi arwain at danwariant o £86k. Yr elfennau eraill yn yr adain sy'n achosi pwysau yw cyllidebau cyfleusterau'r canolfannau, dylunio graffeg a thanysgrifiadau sydd, gyda'i gilydd, yn debygol o gynhyrchu gorwariant o £21k.

**3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £40k yn yr adain Cyrchfan ar ddiwedd y flwyddyn. Disgwylir i niferoedd ymwelwyr fod yn is nag yn 2021 a bydd hyn yn gostwng yr incwm, ond nid i lefel sy'n creu unrhyw bryderon ariannol sylweddol.

**3.5.1.4** Ar hyn o bryd, mae'r adain Hamdden yn rhagweld gorwariant o £50k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae incwm o daliadau debyd uniongyrchol wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig ond, yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r incwm gyrraedd y targed yn y gyllideb.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Mae tanwariant o £78k (15.97%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £77k (3.20%) ar ddiwedd alldro.

**3.5.2.2** Nid oes unrhyw feysydd yn achosi pryder sylweddol yn y gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, ac, oherwydd amrywiadau yn y cyllidebau staffio ac incwm, rhagwelir tanwariant o £55k.

**3.5.2.3** Disgwylir i'r Gwasanaeth Cynllunio fod o fewn ei gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac nid oes unrhyw feysydd yn creu pryder ariannol. Er hyn, dylid nodi ei bod yn ofynnol i gyllido'r Uned Polisi Cynllunio, pan mae'n trosglwyddo yn ôl yn llawn o dan reolaeth y Cyngor a bod cyllideb gwarged annigonol i alluogi'r costau ychwanegol gael eu cyllido gan y Gwasanaeth.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £115k (7.55%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £54k (0.79%). Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o adeiniau'n yr adran Briffyrdd yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn. Y meysydd mwyaf nodedig yw Gwaith Stryd £100k, a fydd yn codi oherwydd incwm uwch na'r disgwyl. Disgwylir tanwariant o £50k ar Gludiant Cyhoeddus oherwydd swyddi gwag. Mae Cludiant Cymunedol Môn hefyd yn rhagweld tua £50k o danwariant oherwydd lefelau staffio is. Fodd bynnag, disgwylir gorwariant o £105k yn y gyllideb gwaith erbyn diwedd y flwyddyn, ac mae hyn yn rhannol yn ganlyniad uniongyrchol i'r economi lle mae prisiau'n cynyddu ac mae cyflenwyr yn trosglwyddo'r prisiau hynny i'r Awdurdod. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw'r gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ddarogan yr alldro ar y costau hyn. Gallai unrhyw gostau sylweddol yn ystod y gaeaf waethygu'r alldro a ragwelir y chwarter hwn er bod cronfa wrth gefn glustnodedig ar gael i liniaru'r risg os bydd costau'n codi'n sylweddol yn ystod y gaeaf. Mae'r gyllideb fflyd o dan bwysau oherwydd bod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o gerbydau a'r cynnydd mewn prisiau tanwydd ac mae hynny wedi arwain at ragolwg o £100k o orwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

### 3.6.2 Gwastraff

**3.6.2.1** Roedd tanwariant o £318k (20.63%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir y bydd tanwariant o £795k (8.77%) yn y gwasanaeth ar alldro.

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gor a thanwariant sy'n cydbwyso ei gilydd mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £290k ar Gasglu Gwastraff, gan fod incwm gwastraff gwyrdd a phrynu biniau du a chasglu gwastraff swmpus yn uwch na'r disgwyl. Disgwylir hefyd y bydd tanwariant o £400k yn y gwasanaeth Ailgylchu ar ddiwedd y flwyddyn, a'r rheswm am hyn yw bod incwm yn uwch na'r targed ac mae pris y dunnell am wastraff ailgylchu yn parhau i fod yn uchel.

### 3.6.3 Eiddo

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £192k (38.48%), a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £48k (3.18%).

**3.6.3.2** Mae'r sefyllfa ar gyfer nifer o benawdau yn y gyllideb yn amrywio, gyda rhai yn dangos gorwariant, tra bod eraill yn tanwario. Serch hynny, nid yw cyflogau wedi'u cyfalafu yn debygol o gyflawni'r targed yn 2022/23 gan fod staff yn gweithio ar brosiect nad yw'n denu ffioedd yng Nghanolfan Addysg y Bont. Rhagwelir gorwariant o £48k ar gyfer y flwyddyn gyfan.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £183k yn y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod, ond rhagwelir tanwariant o £297k ar alldro.

**3.7.1.1** Roedd tanwariant o £41k (9.86%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £62k (4.13%) ar ddiwedd y flwyddyn. Daw'r tanwariant a ragwelir o'r cyllidebau hyfforddi canolog yn ogystal â swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a thanwariant ar gyfeiriadau at y gwasanaeth iechyd galwedigaethol.

**3.7.1.2** Roedd gorwariant o £263k (14.54%) yn yr adain TGCh yn ystod y cyfnod, ond rhagwelir tanwariant o £176k ar alldro. Mae'r holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd ar draws y Cyngor, heblaw am ysgolion, wedi cael eu canoli ac maent yn cael eu rheoli gan yr adain TGCh erbyn hyn. Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £196k ar y gyllideb meddalwedd canolog ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir tanwariant o £372k ar y cyllidebau staffio a thrwyddedau meddalwedd. Daw'r mwyafrif o'r tanwariant a ragwelir yn sgil nifer o swyddi gwag.

**3.7.1.3** Roedd tanwariant o £39k (17.13%) yn yr Adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod, a disgwylir tanwariant o £59k (5.75%) ar ddiwedd y flwyddyn. Y rheswm am hyn yw arbedion mewn costau cyflogau yn Cyswllt Môn £32k, ynghyd â thanwariant o £23k ar gyfer Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

## 3.8 Adnoddau (heb gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**3.8.1** Roedd tanwariant o £56k (6.09%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £144k (4.20%) ar alldro.

**3.8.2** Mae materion staffio a'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth i ddelio â'r gwaith sy'n aros i gael ei wneud yn y tîm Archwilio wedi gostwng y tanwariant a ragwelir i £16k. Rhagwelir tanwariant o £26k yn y gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau oherwydd swyddi gwag. Rhagwelir tanwariant bychan o £19k ar gyfer y tîm Cyfrifeg. Disgwylir tanwariant o £77k yn yr Adain Gaffael oherwydd cynlluniau pwrcasu, h.y. cyllidebau prynu canolog ac ad-daliadau ar gardiau caffael a llai o alw am rai mathau o wariant oherwydd bod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyr, deunydd ysgrifennu, dodrefn).

## 3.9 Busnes y Cyngor

**3.9.1** Roedd tanwariant o £22k (3.88%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £33k (1.68%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Mae disgwyl gorwariant o £14k yn y Gwasanaeth Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd bod staff cyfreithiol asiantaeth yn cael eu cyflogi i gyflenwi ar gyfer swyddi gwag / absenoldebau staff ac nid oes cyllideb ar gyfer y swydd undeb llafur. Rhagwelir tanwariant o £47k yn y Gwasanaethau Democrataidd ac, i raddau helaeth, y rheswm am hyn yw swyddi gwag yn y gwasanaeth.

## 3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd

**3.10.1** Roedd sefyllfa'r swyddogaeth yn gytbwys yn ystod y cyfnod, a rhagwelir gorwariant o £215k (7.10%) ar ddiwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Rhagwelir cyllideb gytbwys ar gyfer Cefnogaeth a Threuliau Aelodau.

**3.10.3** Yn gyffredinol, rhagwelir gorwariant o £215k yn y cyllidebau corfforaethol. Disgwylir y bydd cyfraniadau Pensiwn i'r gronfa bensiwn £45k yn is na'r gyllideb, ac mae disgwyl gorwariant o £25k ar Gwnsela Staff, ar sail ffigyrau presennol. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw, felly, bydd y ffigwr yn amrywio yn ôl yr angen. Nodwyd yn ystod y flwyddyn y byddai'n bosib gwneud arbedion ar draws yr Awdurdod oherwydd gweithio Hybrid, gyda'r balans yn cael ei roi yn y gyllideb gorfforaethol ond, serch hynny, mae'r arbedion yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfatebol yn yr adrannau. Bydd trosglwyddiadau'n cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ariannol.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £3k (1.40%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £1k (0.14%) ar alldro. Mae hyn yn gysylltiedig â thanwariant bychan ar gludiant a chyflenwadau swyddfa cyffredinol.

## 4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir tanwariant o £307k ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

**4.2** Roedd cyllideb 2022/23 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd eu cyfanswm yn £3,110k. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ac mae'n dangos fod £159k wedi'i drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

**4.3** Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a gedwir wrth gefn ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, ac yn arbennig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod angen i'r Cyngor fenthyca llai ac mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at DRI a chostau llog is. O'r herwydd, rhagwelir tanwariant o £45k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Mae cyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2021. Nid yw'n cynnwys ôl-ddyledion blynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, trosglwyddo eiddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae Covid-19 wedi cael effaith hefyd ar gasglu'r Dreth Gyngor ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei gynyddu i adlewyrchu'r effaith hwn. Yn y dyfodol, oherwydd y dirwasgiad sydd ar y gorwel a chynnydd mewn costau byw, bydd angen monitro'r cyllidebau hyn yn ofalus. Rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £573k yn uwch na'r gyllideb, ond gall hyn newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

**5.2** Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, o'r herwydd, mae risg y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg, mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sydd â phremiwm arnynt yn cael ei osod ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn creu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr eiddo domestig i'r gofrestr trethi busnes wedi gostwng y premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, arhosodd niferoedd cyffredinol ail gartrefi yn weddol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £414k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. Arbedion Cyllidebol 2022/23

**6.1** Nid oedd angen unrhyw arbedion cyllidebol gan y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

## 7. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**7.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £208k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £123k yn gysylltiedig â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y Gwasanaeth Gwastraff £67k ar weithwyr safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad CH.

**7.2** Gwariwyd cyfanswm o £98k ar Ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod o fis Ebrill i fis Mehefin 2022, gyda £33k yn cael ei gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth, gyda manylion ychwanegol am y gwariant, yn Atodiad D.

## 8. Arian Grant Covid-19 Llywodraeth Cymru hyd yma

**8.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws ond mae'r cyllid wedi dod i ben yn awr. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud taliadau i unigolion ac yn adennill y costau gan Lywodraeth Cymru trwy fecanwaith y Gronfa Galedi. Mae Tabl 2 isod yn dangos fod y Cyngor wedi hawlio £0.291m ar gyfer costau ychwanegol yn codi o'r pandemig ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

**Tabl 2 Gwariant cysylltiedig â Covid-19 rhwng Ebrill a Mehefin 2022 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru**

| | Prydau Ysgol am Ddim £ | Hunan Ynysu £ | Ychwanegiad SSP £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **CRYNODEB Hawliwyd** | **158,755** | **79,380** | **53,154** | **291,289** |
| **Ni chaniatawyd** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Balans Dyledus** | **158,755** | **79,380** | **53,154** | **291,289** |
| **Talwyd** | **158,755** | **79,380** | **53,154** | **291,289** |
| **Balans yn Weddill** | **-** | **-** | **-** | **-** |

## 9. Casgliad

**9.1** Y rhagolwg cychwynnol ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw y bydd tanwariant o £0.544m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd o bryder, nad ydynt efallai'n amlwg yn y ffigwr hwn, fydd yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

**9.2** Mae'r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-

**i.** Y ffaith fod y cynnig tâl yn sylweddol uwch na'r hyn y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa wrth gefn glustnodedig ar gael a fydd yn gwrthbwyso cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r holl gostau ychwanegol. Mae'n rhaid cynnwys y costau uwch yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24 hefyd, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.

**ii.** Mae'r sefyllfa o ran Gofal Cymdeithasol yn creu pryder penodol, a rhagwelir gorwariant o £1.508m ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Fodd bynnag, mae'r gwir sefyllfa'n cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y gorwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd gorwariant o rhwng £3.5m a £4m yn y gwasanaethau. Mae hyn yn seiliedig ar lefel bresennol y galw. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n gwneud y sefyllfa'n waeth.

**iii.** Bydd yr argyfwng costau byw yn arwain, yn y pendraw, at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ynghylch Dyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm mewn gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio, wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effeithiau'r uchod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau monitro wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy amlwg.

**9.3** Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 hefyd yn dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2022/23 ac i adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gydbwyso cyllideb refeniw yn 2023/24. Mae adroddiad ar wahân ar Gynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi'i gynnwys ar raglen y Pwyllgor hwn.

**ATODIAD B**

## Rhagamcan Alldro Refeniw am y Flwyddyn Ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2023 – Chwarter 1
## Projected Revenue Outturn for the Financial Year ending 31 March 2023 - Quarter 1

| Gwasanaeth /Swyddogaeth<br>Service / Function | 2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over / (under) | 2022/23 Gor / (tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | 2021/22 Gor / (Tan) Wariant Drafft *Draft Over / (under)spend* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes**<br>***Lifelong Learning*** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Datganoledig Ysgolion<br>*Delegated Schools Budget* | 50,761 | 5,977 | 5,977 | 0 | 0.00% | 50,761 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Canolog<br>*Central Education* | 5,373 | 540 | 565 | 25 | 4.64% | 5,454 | 81 | 1.51% | (150) |
| Diwylliant<br>*Culture* | 1,277 | 454 | 496 | 42 | 9.24% | 1,264 | (13) | -1.02% | (105) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion**<br>***Adult Services*** | 29,909 | 6,053 | 6,526 | 473 | 7.82% | 30,662 | 753 | 2.52% | (283) |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant**<br>***Children's Services*** | 11,776 | 3,561 | 3,623 | 62 | 1.73% | 12,531 | 755 | 6.41% | (370) |
| | | | | | | | | | |
| **Tai**<br>***Housing*** | 1,914 | 569 | 606 | 36 | 6.40% | 1,999 | 85 | 4.44% | (128) |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**<br>***Highways, Waste & Property*** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd<br>*Highways* | 6,808 | 1,526 | 1,411 | (115) | -7.55% | 6,754 | (54) | -0.79% | (55) |
| Eiddo<br>*Property* | 1,508 | (498) | (690) | (192) | 38.48% | 1,556 | 48 | 3.18% | (17) |
| Gwastraff<br>*Waste* | 9,061 | 1,543 | 1,225 | (318) | -20.63% | 8,266 | (795) | -8.77% | (1,206) |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth<br>*Service / Function* | 2022/23 Cyllideb Blynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2022 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2022 over / (under) | 2022/23 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | 2021/22 Gor / (Tan) Wariant Drafft *Draft Over / (underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**<br>***Regulation & Economic Development*** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd<br>*Economic Development* | 2,214 | 654 | 1,280 | 626 | 95.65% | 2,241 | 27 | 1.22% | (157) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br>*Planning and Public Protection* | 2,406 | 487 | 409 | (78) | -15.97% | 2,329 | (77) | -3.20% | (545) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid**<br>***Transformation*** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol<br>*Human Resources* | 1,503 | 415 | 374 | (41) | -9.86% | 1,441 | (62) | -4.13% | (54) |
| TGCh<br>*ICT* | 3,777 | 1,808 | 2,071 | 263 | 14.54% | 3,601 | (176) | -4.66% | (149) |
| Trawsnewid Corfforaethol<br>*Corporate Transformation* | 1,027 | 229 | 190 | (39) | -17.13% | 968 | (59) | -5.75% | (185) |
| | | | | | | | | | |
| **Adnoddau**<br>***Resources*** | 3,429 | 923 | 867 | (56) | -6.09% | 3,285 | (144) | -4.20% | (252) |
| | | | | | | | | | |
| **Busnes y Cyngor**<br>***Council Business*** | 1,962 | 577 | 554 | (22) | -3.87% | 1,929 | (33) | -1.68% | (64) |
| | | | | | | | | | |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd**<br>***Corporate & Democratic costs*** | 3,030 | 1,054 | 1,054 | 0 | 0.03% | 3,245 | 215 | 7.10% | (327) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol**<br>***Corporate Management*** | 735 | 183 | 180 | (3) | -1.40% | 734 | (1) | -0.14% | (10) |
| Costau heb gyllideb, na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion / lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau<br>*Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs / impairment allowances on services' income* | | | | | | 200 | 200 | 0.00% | (54) |

| Gwasanaeth / Swyddogaeth<br>*Service / Function* | 2022/23 Cyllideb Flynyddol Annual Budget | 2022/23 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend | 2022/23 Ch1 Amrywiad Q1 Variance | 2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend | Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023 | Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over / (under) | 2022/23 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget | 2021/22 Gor / (Tan) Wariant Drafft *Draft Over / (underspend)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau**<br>**Total Service Budgets** | 138,470 | 26,055 | 26,718 | 663 | 2.54% | 139,220 | 750 | 0.54% | (2,671) |
| Ardollau<br>*Levies* | 3,957 | 3,919 | 3,919 | 0 | 0.00% | 3,957 | 0 | 0.00% | (2) |
| Rhyddhad Trethi Dewisol<br>*Discretionary Rate Relief* | 72 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 71 | (1) | -1.38% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf<br>*Capital Financing* | 7,304 | 1,037 | 859 | (178) | 0.00% | 7,259 | (45) | -0.61% | (390) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill<br>*General & Other Contingencies* | 2,951 | 2,951 | 2,385 | (566) | -19.17% | 2,901 | (50) | -1.69% | (567) |
| Arian wrth Gefn Cyffredinol Y Cyngor<br>Council's General Reserves | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 | 0 | 0.00% | 300 |
| Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol<br>*Support Services contribution HRA* | (800) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (800) | 0 | 0.00% | (97) |
| Budd-daliadau a Roddwyd<br>*Benefits Granted* | 6,413 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 6,202 | (211) | -3.29% | 178 |
| Na ellir ei reoli<br>*Uncontrollable* | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol**<br>***Total Corporate Finance*** | 19,898 | 7,907 | 7,164 | (744) | -9.41% | 19,591 | (307) | -1.29% | (578) |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm 2022/23**<br>***Total 2022/23*** | **158,367** | **33,962** | **33,882** | **(81)** | **-0.24%** | **158,811** | **444** | **0.51%** | **(3,249)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido**<br>***Funding*** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig<br>*NDR* | (25,493) | (7,844) | (7,844) | 0 | 0.00% | (25,493) | 0 | 0.00% | 0 |

| **Gwasanaeth /Swyddogaeth** ***Service / Function*** | **2022/23 Cyllideb Flynyddol Annual Budget** | **2022/23 Ch1 Cyllideb hyd yma Q1 Budget Year to Date** | **2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed spend** | **2022/23 Ch1 Amrywiad Q1 Variance** | **2022/23 Ch1 Gwir Wariant ac Ymrwymiadau Q1 Actual & Committed Spend** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2023 Estimated Expenditure to 31 March 2023** | **Ch1 : Q1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2023 gor / (tan) wariant Estimated Outturn 31 March 2023 over / (under)** | **2022/23 Gor / (tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over / (Under) spend as a % of Total Budget** | **2021/22 Gor / (Tan) Wariant Drafft** ***Draft Over / (underspend)*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| Y Dreth Gyngor *Council Tax* | (41,866) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (41,843) | (573) | -0.05% | 172 |
| Premiwm y Dreth Gyngor *Council Tax Premium* | (1,950) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2,365) | (414) | 55.12% | (332) |
| Grant Cynnal Refeniw *Revenue Support Grant* | (89,058) | (27,403) | (27,403) | 0 | 0.00% | (89,058) | 0 | 0.00% | (1,389) |
| **Cyfanswm Cyllid 2022/23** ***Total Funding 2022/23*** | **(158,367)** | **(35,247)** | **(35,246)** | **0** | **0** | **(159,355)** | **(987)** | **0.66%** | **(1,549)** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro, yn cynnwys effaith y cyllido** ***Total outturn, including impact of funding*** | **0** | **(1,284)** | **(1,364)** | **(80)** | **6.25%** | **(544)** | **(544)** | **-0.15%** | **(4,798)** |

**ATODIAD C**

**Crynodeb o Sefyllfa alldro y Cyllidebau Wrth Gefn 2022/23**

| | Cyllideb<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma<br>£ | Wedi Ymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma<br>£ | Cyllideb Rhagdybiedig<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | 405,734 | - | 405,734 | - | 405,734 | - |
| Cyflog a Graddfeydd | 100,000 | - | 100,000 | - | 100,000 | - |
| Etholiadau Sirol | 200,000 | 140,095 | 59,905 | - | 59,905 | -50,000 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 916,830 | - | 916,830 | 916,830 | - | - |
| Chwyddiant cyflog | 1,000,000 | - | 1,000,000 | 1,000,000 | - | - |
| Twf Rhanbarthol | 97,000 | - | 97,000 | 97,000 | - | - |
| Cynllun Hyfforddeion | 340,000 | -18,880 | 321,120 | 321,120 | - | - |
| Newid Hinsawdd | 50,000 | - | 50,000 | 50,000 | - | - |
| **Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **3,109,564** | **-158,975** | **2,950,589** | **2,384,950** | **565,639** | **-50,000** |

**ATODIAD CH**

## Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2022

| Gwasanaeth | Swm £ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 12,860 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â Covid |
| | 4,271 | Grant | Dros Dro | Adlenwi swyddogion sy'n delio â thystysgrifau iechyd allforio |
| | **17,077** | | | |
| Ysgolion | 4,530 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn maes arbenigol |
| | **4,530** | | | |
| Gwastraff | 67,798 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol syddeu hangen yn y tymor byr / Addasiadau mewn costau oherwydd newid yn y gyfradd |
| | **67,798** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 71,925 | Cyllideb Craidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **71,925** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 17,653 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 8,492 | Grant | | Gwaith ychwanegol yn ymwneud â Covid a swyddi gwag |
| | **26,145** | | | |
| Adnoddau | 4,973 | Grant Hunan Ynysu | Dros Dro | Gwaith ychwanegol o grantiau LlC |
| | 7,685 | Grant Caledi Covid | Dros Dro | Gwaith ychwanegol o grantiau LlC |
| | 7,752 | Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **20,409** | | | |
| **Cyfanswm** | **207,884** | | | |

**ATODIAD D**

**Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 2022/23**

| **Gwasanaeth** | **Ch 1**<br>**£** | **Cyfanswm 2022/23**<br>**£** |
|---|---|---|
| Addysg Canolog | 834 | **834** |
| Diwylliant | 4,925 | **4,925** |
| Economaidd ac Adfywio | 39,147 | **39,147** |
| Eiddo | 0 | **0** |
| Priffydd | 11,376 | **11,376** |
| Ysgolion | 0 | **0** |
| Gwastraff | 4,431 | **4,431** |
| CRT | 0 | **0** |
| Tai | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 200 | **200** |
| Corfforaethol | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 9,157 | **9,157** |
| Busnes y Cyngor | 7,279 | **7,279** |
| Adnoddau | 20,278 | **20,278** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **97,627** |
| Cyllidwyd gan: | | |
| Cyllideb Craidd | 63,016 | **63,016** |
| Grant | 33,321 | **33,321** |
| Cyfraniad Allanol | 0 | **0** |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1,290 | **1,290** |
| **Cyfanswm** | **97,627** | **97,627** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 MEDI 2022** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB CHWARTER CYNTAF 2022/23 - CYFALAF** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID** |
| **Pennaeth/Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>E-mail: | **JEMMA ROBINSON**<br>**JemmaRobinson@anglesey.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn chwarter 1.
- Cymeradwyo ailddyrannu £0.140m o gyllid cyfatebol mewn perthynas â Thraeth Coch i gynlluniau ar raddfa fach er mwyn ymorol am y cynnydd disgwyliedig mewn costau, fel yr eglurir yn 3.1.1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro cyllidebau yn swyddogaeth a ddynodwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi adolygu'r adroddiad ac ymgorfforwyd eu sylwadau yn yr adroddiad terfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae'r tîm wedi ystyried ei sylwadau. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae'r gyllideb gyfalaf yn ariannu buddsoddiadau mewn asedau a seilwaith y mae eu hangen i ganiatáu i'r Cyngor gwrdd â'i amcanion tymor hir a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Gyfalaf. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-** | Bydd rhai o'r buddsoddiadau unigol, e.e. gwaith atal llifogydd, yn atal costau yn y dyfodol, tra bydd eraill, e.e. prosiectau'r Gronfa Gofal Ganolradd yn lleihau dibyniaeth ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau mwy costus. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:** | Mae ariannu'r prosiectau wedi cael ei gytuno a'i gynllunio â sefydliadau eraill, a Llywodraeth Cymru'n neilltuol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Bu Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn destun ymgynghoriad â dinasyddion Ynys Môn. |
| **5** | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg.** | Mae elfennau o'r prosiectau a ariennir gan y rhaglen gyfalaf yn cael effaith ar yr agenda cydraddoldebau e.e. grant mynediad i'r anabl mewn ysgolion, grant cyfleusterau i'r anabl. Dim effaith ar agenda'r Iaith Gymraeg. |

**F – Atodiadau:**

Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 1 2022/23
Atodiad B – Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Cyllideb Gyfalaf 2022/23, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2022; ac
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2021/22, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 28 Mehefin 2022.

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Dyma adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatáu i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.177m ar gyfer 2022/23 a Rhaglen Gyfalaf o £18.784m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i Lithriad Cyfalaf o £11.242m gael ei ddwyn ymlaen o 2021/22, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m, a £18.784m ar gyfer y CRT. Ers y broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grant, sef cyfanswm o £5.202m, ynghyd a gostyngiad o £3.750m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn a chyfanswm y gyllideb Cyfalaf am 2022/23 i £48.655m.

## 2. CYNNYDD GWARIANT YN 2022/23

**2.1** Isod mae tabl sy'n crynhoi'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2022, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2022 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,467 | 86 | 84 | - | 84 | 98 | 6 |
| CRT Tai | 15,034 | 1,576 | 1,111 | 464 | 1,575 | 100 | 10 |
| Dysgu Gydol Oes | 13,887 | 1,555 | 1,557 | 51 | 1,608 | 103 | 12 |
| Economaidd ac Adfywio | 6,532 | 1,686 | 622 | 1,009 | 1,631 | 97 | 25 |
| Priffyrdd | 6,721 | 1,402 | 678 | 716 | 1,394 | 99 | 21 |
| Rheoli Gwastraff | 451 | 51 | 38 | 16 | 54 | 106 | 12 |
| Eiddo | 1,778 | 136 | 135 | 1 | 136 | 100 | 8 |
| Trawsnewid | 711 | 26 | 19 | 5 | 24 | 92 | 3 |
| Cynllunio | 485 | 60 | 5 | 58 | 63 | 105 | 13 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,589 | 40 | 26 | 17 | 43 | 108 | 3 |
| **Cyfanswm** | **48,655** | **6,618** | **4,275** | **2,337** | **6,612** | **100** | **14** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 16,291 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 988 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,073 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,743 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,365 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 7,118 |
| Benthyciad | 77 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **48,655** |

**2.2** Hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf gwariwyd 100% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y gronfa gyffredinol. Fodd bynnag, dim ond 15% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer chwarter 1 wedi ei gwario, cynlluniau megis y gwaith ar do Canolfan Addysg y Bont, y gwaith cyfalaf ar adeiladau Addysg, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Cam 2 cynllun Penrhos a chynllun Porth Llangefni. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis y Canopïau Allanol, cae 3G Amlwch, Ystafell Ffitrwydd David Hughes, cynlluniau Seilwaith Morol ac Ymwelwyr a diweddaru cyfleustodau cyhoeddus. Gellir gweld y cynlluniau hyn â'u proffil yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2022/23 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 100% o'r gyllideb a broffiliwyd a 10% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Am ragor o wybodaeth ar wariant cyfalaf y CRT a'r gwariant rhagamcanol, cyfeiriwch at adroddiad monitro cyllideb chwarter 1 y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor hwn ar 27 Medi 2022.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt, a rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau hynny isod:

- **Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** – mae'r gwaith ar safle Ysgol newydd Corn Hir yn mynd rhagddo'n dda, ac mae strwythurau Cam 1 a 2 a'r to wedi cael eu cwblhau. Mae'r gwaith plastro mewnol wedi cael ei gwblhau ac mae'r gwaith paentio'n mynd rhagddo. Mae ail ran y gwaith o osod gosodiadau mecanyddol a thrydanol wedi cychwyn o fewn Cam 1. Mae'r gwaith o osod y brif gegin wedi cychwyn ac mae'r gwaith allanol yn mynd rhagddo'n dda. Uned Cyfnod Sylfaen newydd Ysgol y Graig – wedi ail-wahodd a derbyn tendrau. Mae'r Cais Cynllunio Llawn wedi cael ei gymeradwyo. Mae'r Achos Busnes llawn ar gyfer cyllido'r prosiect wedi cael ei dderbyn a chyflwynwyd cais am gyllid pellach i ymorol am y cynnydd mewn costau adeiladu.

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II Menter Treftadaeth Treflun) -** mae'r gwaith datblygu'n mynd rhagddo i gefnogi'r cais Codi'r Gwastad, a disgwylir y bydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn chwarter 2. Canolbwyntiwyd hefyd ar baratoi dogfennau tendr ar gyfer y gwaith a ganiatawyd i godi gwylfan ar dŵr gogledd dwyreiniol Caer Rufeinig Caer Gybi a'r estyniad, gwaith ailfodelu ac ôl-osod yn y cyfleustodau cyhoeddus yn Sgwâr Swift. Cyflwynir y tendr yng nghanol chwarter 2 a bydd y gwaith yn cychwyn yn gynnar yn chwarter 3.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** – mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau nawdd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Mae'r cynnydd ar brosiectau sydd yn cael eu hariannu ar y cyd drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cynnwys: -

  - Diogelu ein Treftadaeth – mae arolygon manwl wedi cael eu cynnal ar yr holl strwythurau sydd yn rhan o'r prosiect ac mae'r dogfennau tendr ar gyfer y gwaith ar Dŵr Elin, Ffynnon y Wrach a'r Wylfan wrthi'n cael eu paratoi. Disgwylir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Tachwedd.
  - Dehongli Ynys Gybi – dewiswyd yr ucheldiroedd ac mae tasgau cyraeddadwy wrthi'n cael eu nodi a'u blaenoriaethu. Nid yw'r holl gyllid yn debygol o gael ei wario.
  - Adfer Ffiniau Traddodiadol - Mae contractwyr wedi cael eu penodi ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar y safle. Mae diwrnodau gwirfoddoli wedi cael eu cynnal ac mae cyfleoedd pellach wedi cael eu trefnu rhwng nawr a mis Hydref.

- **Cynllun Hwb – Grant Seilwaith Mewn Ysgolion** – mae'r holl osodiadau ar gyfer gweithgareddau Cam 1-4 wedi cael eu cwblhau ac eleni bydd y gweithgareddau'n canolbwyntio ar gaffael a gosod byrddau gwyn rhyngweithiol. Mae archeb wedi'i chodi ar gyfer 193 o sgriniau a byddant yn cael eu dyrannu i ysgolion yn dilyn arolwg ar gyflwr eu darpariaethau clyweledol presennol.

- **Porth Twristiaeth** – Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Morglawdd Caergybi: mae'r prif gontractwr wedi cael ei benodi a chychwynnodd y gwaith yn gynnar ym mis Gorffennaf. Disgwylir i'r gwaith ar y ganolfan ymwelwyr gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2022. Yna bydd y dehongliad yn cael ei osod a disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 16 Tachwedd 2022. Mae contractwr lleol hefyd wedi cael ei benodi i wneud gwaith ar y toiledau a'r ciosg ac mae'r gwaith ar y strwythurau hyn bron wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ar amser ac rydym yn adolygu'r amserlen yn rheolaidd ac yn hysbysu Croeso i Gymru ynglŷn ag unrhyw newidiadau.

- **Prosiect Penrhos - Cam 2 -** nod y cynllun hwn yw adeiladu saith uned fusnes newydd ar Ystâd Ddiwydiannol Penrhos. Mae'r contractwr wedi dechrau ar y gwaith o godi'r ffrâm ddur. Disgwylir i'r unedau hyn gael eu cwblhau yng ngwanwyn 2023.

- **Cam 3 Prosiect Penrhos**- £3.1m o nawdd wedi'i sicrhau o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Bwriedir codi 6 uned fusnes ar lain o dir sydd ym meddiant y Cyngor. Bydd y broses gaffael yn cychwyn tua mis Medi 2022 a bydd disgwyl i'r unedau hyn fod yn barod yn hwyr yn 2023.

- **Prosiect Porth Llangefni –** Mae Safle Porth Llangefni (Parc Diwydiannol Tregarnedd) yn ardal o Langefni lle bydd 7 o blotiau'n cael eu datblygu yn y pendraw.

  - **Unedau Porth (Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop) –** cwblhawyd y gwaith ym mis Gorffennaf 2022 a rhagwelir y cânt eu trosglwyddo'n fuan unwaith y caiff y gwaith ei gymeradwyo gan yr uned rheoliadau adeiladu. Cafwyd llawer o ddiddordeb yn yr adeiladau a byddant yn cael eu marchnata yn fuan. Yr adran Eiddo fydd yn arwain y gwaith hwn.

  - **Cyd-fenter Porth –** nod y Gyd-fenter Porth yw gwneud gwaith galluogi ar y plotiau sy'n weddill ar Barc Busnes Tregarnedd (Safle Porth). Mae'r gwaith archeolegol ac ecolegol wedi cael ei gwblhau ac fe amlygwyd problemau pellach. 4 nid 6 o blotiau fydd ar gael i'w gwerthu oherwydd cyfyngiadau archeolegol. Mae'r gwaith paratoadol terfynol ar y gweill er mwyn i'r plotiau fod yn barod i'w marchnata. Mae gwaith ar y ffyrdd mynediad i'r plotiau a'r isbwerdy wedi'i raglennu ar gyfer mis Medi.

- **Cynlluniau Draenio Caergybi ac Amlwch** – mae'r astudiaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi mae'r gwaith modelu hydrolig wedi'i gwblhau ac mae rhestr faith o opsiynau yn cael eu hystyried. Yn Amlwch, mae'r arolygon afon wedi cael eu cwblhau. Bydd yr astudiaethau hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn ariannol.

- **Grantiau ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach** - cymeradwywyd 11 o gynlluniau adeiladu a 4 o ddyluniadau ar gyfer 2022/23. Mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn yn achos dau o'r cynlluniau hyn ac mae'r gweddill wrthi'n cael eu rhaglennu. Mae rhywfaint o bryder ynglŷn ag effaith chwyddiant ar y gwaith adeiladau a ffyrddiadwyedd. Mae chwyddiant yn effeithio ar economi'r wlad ar hyn o bryd ac felly hefyd ar brosiectau adeiladu ar raddfa fach. Mae'r cyfraddau'n ddibynnol ar fatrics, o fewn y Contract Cynnal a Chadw, ac maent bellach bron i draean yn uwch na'r hyn a ragwelwyd pan gawsant eu paratoi a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr eleni. Trafodwyd y mater â Llywodraeth Cymru ond maent wedi cadarnhau nad ydynt yn gallu darparu grant ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol ar gyfer Gwaith ar Raddfa Fach.

  Mae'r Cynlluniau Draenio ar Raddfa Fach yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i eiddo a effeithir gan lifogydd ac mae perchnogion yn edrych ymlaen at y cynlluniau i leihau'r risg o lifogydd a'r pryder y maent yn ei ddioddef pan fydd glaw trwm yn cael ei ddarogan. Mae'r Cyngor yn derbyn nifer uchel o alwadau ffôn yn holi am y cynnydd. O'r herwydd, mae'r Cyngor yn awyddus i gwblhau'r 15 cynllun gyda'r swm a ddyrannwyd ar gyfer eleni.

Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hynny, rhagwelir y bydd angen £0.140m o gyllid ychwanegol i ymorol am gostau chwyddiant. (Nid yw'n glir sut y bydd chwyddiant yn datblygu yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol).

Mae cost y Cynllun Arfordirol arfaethedig yn Nhraeth Coch yn gorbwyso'r manteisio ac wedi cynyddu bron bedair gwaith, o ganlyniad nid oes modd bwrw 'mlaen ag o. Mae ymhell tu allan i ofynion Llywodraeth Cymru i gael ei ystyried yn gynllun cost effeithiol ac felly ni ellir ei gefnogi. O ganlyniad, ni fydd angen y rhan fwyaf o'r arian cyfatebol a neilltuwyd ar gyfer y cynllun hwn (fel yr eglurir isod). Cynigir bod rhywfaint o'r arian cyfatebol hwn yn cael ei ailgyfeirio i gefnogi'r Cynlluniau ar Raddfa Fach.

- **Traeth Coch** – Ar ôl methu cael caniatâd ar gyfer y cynllun hwn (oherwydd y costau eithriadol) rhaid cwblhau'r achos busnes llawn, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, cyn y gellir ystyried datblygu cynllun arall, ond ar raddfa lai o lawer.

- **Achos Busnes Llawn Llanfairpwll, Menai a'r Fali a Gwaith Adeiladu cynllun y Fali** - mae dau o'r cynlluniau hyn yn mynd rhagddynt. Fodd bynnag, cafwyd oedi gyda'r achos busnes ar gyfer Llanfairpwll, ynghyd â phroblemau gyda chontract yr ymgynghorydd. Mae Achos Busnes Llawn cynllun y Fali wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo. Mae ymchwiliadau safle ac arolygon draenio pellach wedi cael eu cwblhau mewn perthynas â chynllun Menai.

- **Mill Lane - Strwythur a Rheoli Llifogydd yn Naturiol** - comisiynu gril hunanlanhau mecanyddol arloesol (yr unig un yng Nghymru). Mae'r peiriant y dal i gael ei fonitro'n agos er mwyn asesu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd, a chafodd gwersi eu dysgu'n fuan iawn. Mae rhai addasiadau, yn cynnwys monitro gyda CCTV, wrthi'n cael eu datblygu. Rydym yn parhau i negodi gyda pherchennog y tir mewn perthynas â'r agwedd Rheoli Llifogydd yn Naturiol, er mai araf fu'r cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr adroddiad statws.

- **Cwrs Dŵr Cyffredin Dwyran – (Rheoli Llifogydd yn Naturiol)** – Mae'r cynllun hwn wedi'i gwblhau (er bod ambell beth angen sylw o hyd) ac mae'n parhau i gael ei fonitro i ddysgu mwy am ei effeithiolrwydd. Mae Prifysgol Glyndŵr hefyd yn monitro llif y dŵr fel rhan o ymchwil academaidd.

- **Teithio Llesol –** mae grant gwerth £0.538m wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a chynyddu teithiau lleol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithiau lleol ar gyfer cyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae £0.500m wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith craidd sy'n ymgorffori nifer o'r cynigion ar gyfer y cynllun ac mae £0.038 wedi'i ddyrannu i Lanfairpwll a Phorthaethwy (gwelliannau i'r briffordd). Gweithgareddau datblygu cyn-gynllun, ymweliadau safle a drafftio'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer Mân Waith. Dyluniadau Cysyniad a llwybrau ychwanegol ar gyfer eu gwella fel rhan o brosiect Amlwch o fewn y dyraniad craidd.

- **Cronfa Ffyrdd Cydnerth –** Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid o dan y grant hwn i gynnal astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru Cam 3 i'r math o fesurau gwydnwch y gellid eu rhoi ar waith ar y B5109 i Fiwmares. Yn hanesyddol bu'n rhaid cau'r ffordd ar adegau yn dilyn tywydd garw, ac mae'r sefyllfa'n siŵr o waethygu yn sgil y stormydd a ragwelir o ganlyniad i newid hinsawdd. Yn ystod chwarter 1 dechreuodd y Cyngor baratoi dogfennau tendro i gaffael ymgynghorydd i gwblhau'r adroddiad WelTAG Cam 3. Bwriedir cwblhau'r broses gaffael yn ystod chwarter 2, a chynnal yr astudiaeth yn ystod chwarter 3 a 4. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gyllideb, gyda'r rhan fwyaf o'r arian yn cael ei wario yn ystod dau chwarter olaf 2022/23.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn –** mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynyddu'r gyllideb a ddyrannwyd a rhoi estyniad hyd fis Gorffennaf 2022. Mae'r prosiect wedi'i gwblhau – mae'r holl bwyntiau gwefru wedi cael eu gosod a fe'u hawdurdodwyd ar 27 a 28 Gorffennaf. Cafwyd rhywfaint o oedi oherwydd problemau technegol ac felly bu'n rhaid gwneud gwaith pellach oherwydd bod rhaid gosod matiau daearu bob ochr i'r pwyntiau gwefru.

- **Y Gronfa Trafnidiaeth Leol –** Gwelliannau seilwaith – dyfarnwyd £0.750m yn 2021/22 i hwyluso gwelliannau seilwaith yn Ynys Môn er mwyn cefnogi'r gwaith cyflawni rhwydwaith bysiau (Metro Gogledd Cymru) ar ran Trafnidiaeth Cymru. Rhoddwyd estyniad hyd fis Gorffennaf 2022. Yn chwarter 1 cafodd eitemau eu cynhyrchu (derbyn tystysgrifau breinio), a threfnwyd a rhaglennwyd gwaith gosodiadau sifil a Seilwaith Amser Real.

- **Grantiau Gwres Carbon Isel** – Dyfarnwyd cyllid i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Grantiau Carbon Isel Sector (Ysgol Gynradd Moelfre (£0.091m) a Swyddfeydd y cyngor (£1.033m)) er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu a gosod pympiau gwres. Llwyddwyd i wario 90% o'r arian yn achos y ddau grant a chytunodd LlC i ganiatáu trosglwyddo gweddill y grant i flwyddyn ariannol 2022/23 er mwyn cwblhau'r gwaith erbyn yn chwarter 2 2022/23.

- **Cae 3G Amlwch** – mae £0.075m o gyllid grant wedi'i sicrhau ar gyfer cae 3G Amlwch, a bydd gweddill y gyllideb yn cael ei ariannu drwy'r gronfa gyfalaf gwelliannau hamdden. Cafwyd rhywfaint o oedi gyda'r prosiect oherwydd nad oedd y deunyddiau'n barod; bydd y gwaith yn parhau ym mis Awst a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Medi.

- **Porth Arfordirol Môn-** llwyddodd y Cyngor â'i gais am arian o gronfa Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru. Clustnodwyd £0.248m i gefnogi'r cynllun gwella toiledau ar yr Ynys. Bydd y gyllideb benodol hon yn talu am 80% o gostau'r prosiect tra bydd £0.062m yn dod o gyllid cyfalaf y Cyngor Sir ar gyfer gwella cyfleusterau. Disgwylir y bydd y gwaith cynllunio a pharatoi yn digwydd yn ystod y ddau fis nesaf ac y bydd y gwaith yn cychwyn yn yr hydref ar ddiwedd y tymor ymwelwyr.

## 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Dyma'r Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn hon hyd yma ynghyd â'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidwyd ar eu cyfer:-

| | Cyllideb 2022/23 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Mehefin-2022 £'000 | Rhagolwg i 31-Mawrth-2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 0 | 0 |
| Cyffredinol | 0 | 60 | 60 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 672 | 0 | 672 |
| **Cyfanswm** | **672** | **60** | **732** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2023 yw £0.732m, a derbyniwyd £0.060m erbyn 30 Mehefin 2022 (8%).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir yn £0.732m, mae £3.113m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £2.381m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2021/22 yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf. Ni fydd y ffigwr hwn i gyd ar gael i ariannu'r rhaglen gyfalaf gyffredinol gan y bydd cyllid wedi'i glustnodi i ariannu'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o arian cyfatebol a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ogystal â'r gronfa Hamdden wrth gefn i ariannu'r gwelliannu hamdden.

## 4. GWARIANT CYFALAF GWIRIONEDDOL A RAGWELIR YN 2022/23

**4.1** Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2023 a'r cyllid diwygiedig:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 1,467 | 1,007 | (460) | (31) |
| CRT Tai | 15,034 | 12,492 | (2,542) | (17) |
| Dysgu Gydol Oes | 13,887 | 13,762 | (125) | (1) |
| Economaidd ac Adfywio | 6,532 | 6,532 | 0 | 0 |
| Priffyrdd | 6,721 | 5,672 | (1,049) | (16) |
| Rheoli Gwastraff | 451 | 451 | 0 | 0 |
| Eiddo | 1,778 | 1,778 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | 711 | 711 | 0 | 0 |
| Cynllunio | 485 | 485 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,589 | 1,589 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **48,655** | **44,479** | **(4,176)** | **(9)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **Amrywiad %** |
| Grant Cyfalaf | 16,291 | 15,746 | (545) | (3) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 988 | 988 | 0 | 0 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,073 | 6,203 | (870) | (12) |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,743 | 6,742 | (1) | (0) |
| Cyfraniad Refeniw | 10,365 | 7,834 | (2,531) | (24) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 7,118 | 6,889 | (229) | (3) |
| Benthyciad | 77 | 77 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **48,655** | **44,479** | **(4,176)** | **(9)** |

**4.2** Fel y gwelir yn Nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £4.176m, gyda'r swm hwn yn llithro, o bosib, i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

Yr hyn sy'n cyfrannu fwyaf at y tanwariant a ragwelir yw tanwariant o fewn y CRT, lle rhagwelir tanwariant sylweddol, fel yr eglurir yn adroddiad monitro cyllideb chwarter 1 y CRT.

Mae'r tanwariant sylweddol yn y rhaglen gyfalaf gyffredinol wedi'i grynhoi isod:-

**Adeiladau Addysgol – mynediad i'r anabl**
Rhagwelir tanwariant o fewn y rhaglen addasiadau i'r anabl mewn adeiladau addysgol. Mae hyn oherwydd bod yr addasiadau wedi cael eu cwblhau ym mhob ysgol ac eithrio un. Mae'r gwaith yn yr ysgol dan sylw wedi'i ohirio tra bo asesiad dichonoldeb yn cael ei gynnal. Caiff gwaith mewn ysgolion cynradd ei gwblhau yn ôl y galw.

**Cynlluniau Priffyrdd**

Mae'r tanwariant o fewn y cynlluniau Priffyrdd mewn perthynas â chynlluniau llifogydd amrywiol, yn bennaf oherwydd bod prosiectau'n pontio dwy flwyddyn ariannol ac oherwydd bod rhai wedi ymestyn i flwyddyn ariannol 2023/24..

Bydd y cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, fel y disgrifir uchod, ac ni fydd y cyllid yn cael ei golli.

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 20223yw £146.816m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu ariannu ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd mae benthyca allanol yn £125.159m, sy'n golygu yn ei hanfod bod angen i'r Awdurdod fenthyca £21.657m i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os ymgymerir â'r benthyca hwn yn allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23 (Atodiad 11).

## 5. BLYNYDDOEDD Y DYFODOL

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r Cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chymorth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a'r Benthyca â Chymorth yn cael eu defnyddio i ariannu adnewyddu Cerbydau bob blwyddyn, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu'r asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost y grantiau statudol i ddarparu Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ail-wynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu hariannu, bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 1 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb. Rhagwelir cynnydd yng nghostau adeiladu'r cynlluniau Draenio ar Raddfa Fach ac o'r herwydd gofynnwyd am nawdd ychwanegol er mwyn gallu cwblhau'r cynllun yn llawn. Mae'r Cyngor wedi sicrhau nifer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn, neu disgwylir i hynny ddigwydd. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn £0.732m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2022/23 i gyfrannu tuag at ariannu'r Rhaglen Gyfalaf.

**ATODIAD B**

## Crynodeb o Wariant Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 845,226 | 15,000 | 12,526 | 0 | 12,526 | (2,474) | 84 | 1 | 845,226 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 490,841 | 31,217 | 31,217 | 0 | 31,217 | (0) | 100 | 6 | 31,217 | (459,624) | (94) |
| Cynllun Prynu Gorfodol | 100,000 | 40,000 | 39,875 | 0 | 39,875 | (125) | 100 | 40 | 100,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,466,717** | **86,217** | **83,618** | **0** | **83,618** | **(2,599)** | **97** | **6** | **1,007,093** | **(459,624)** | **(31)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 800,000 | 200,000 | 129,387 | 88,146 | 217,532 | 17,532 | 109 | 27 | 800,000 | 0 | 0 |
| Cerbydau'r Uned Cynnal a Chadw Tai | 27,383 | 27,383 | 27,383 | 0 | 27,383 | (0) | 100 | 100 | 27,383 | 0 | 0 |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 3,955,000 | 200,000 | 112,474 | 82,061 | 194,535 | (5,465) | 97 | 5 | 2,862,474 | (1,092,526) | (28) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 50,000 | 52,178 | 0 | 52,178 | 2,178 | 104 | 5 | 662,178 | (337,822) | (34) |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 60,000 | 52,676 | 7,217 | 59,894 | (106) | 100 | 7 | 612,676 | (257,991) | (30) |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 5,479,000 | 750,000 | 535,292 | 212,173 | 747,465 | (2,535) | 100 | 14 | 5,479,000 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 400,000 | 80,000 | 13,050 | 68,123 | 81,173 | 1,173 | 101 | 20 | 400,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 600,000 | 8,000 | 1,100 | 6,637 | 7,737 | (263) | 97 | 1 | 600,000 | 0 | 0 |
| Tir Halogedig | 1,950 | 1,000 | 975 | 0 | 975 | (25) | 98 | 50 | 1,950 | 0 | 0 |
| SATC | 1,900,000 | 200,000 | 186,918 | 0 | 186,918 | (13,082) | 93 | 10 | 1,046,548 | (853,452) | (45) |
| **CYFANSWM** | **15,034,000** | **1,576,383** | **1,111,432** | **464,357** | **1,575,789** | **(594)** | **100** | **10** | **12,492,209** | **(2,541,791)** | **(17)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 144,512 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 20,000 | (124,512) | (86) |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,847,218 | 25,000 | 25,405 | 180 | 25,585 | 585 | 102 | 1 | 2,847,218 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 136,792 | 5,000 | 4,207 | 0 | 4,207 | (793) | 84 | 3 | 136,792 | 0 | 0 |
| Canolfan Addysg y Bont - To | 2,490,852 | 500,000 | 491,219 | 38,181 | 529,400 | 29,400 | 106 | 21 | 2,490,852 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Ardal Chwarae | 18,756 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 18,756 | 0 | 0 |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 50,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 50,000 | 0 | 0 |
| Grant Prydau Ysgol am Ddim | 547,203 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 547,203 | 0 | 0 |
| Canopïau allanol | 371,000 | 0 | 0 | 0 | | (0) | 0 | 0 | 371,000 | 0 | 0 |
| Grant Cynyddu Capasiti Gofal Plant (costau rheoli prosiect a chynllun grant) | 88,238 | 15,000 | 10,432 | 3,625 | 14,057 | (943) | 94 | 16 | 88,238 | 0 | 0 |
| Cwblhau Rhaglen Band A | 4,973,892 | 1,000,000 | 1,017,139 | 7,720 | 1,024,859 | 24,859 | 102 | 21 | 4,973,892 | 0 | 0 |
| Cychwyn Rhaglen Band B | 2,218,342 | 10,000 | 8,721 | 915 | 9,636 | (364) | 96 | 0 | 2,218,342 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **13,886,805** | **1,555,001** | **1,557,123** | **50,621** | **1,607,743** | **52,743** | **103** | **12** | **13,762,293** | **(124,512)** | **(1)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwelliannau Hamdden | 125,612 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 125,612 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd Amlwch | 13,845 | 60,000 | 7,506 | 0 | 7,506 | (52,494) | 13 | 54 | 13,845 | 0 | 0 |
| Ystafell Ffitrwydd David Hughes | 118,000 | 100,000 | 0 | 99,991 | 99,991 | (9) | 100 | 85 | 118,000 | 0 | 0 |
| Cae Chwarare 3G Amlwch | 138,110 | 138,110 | 3,710 | 134,400 | 138,110 | 0 | 100 | 100 | 138,110 | 0 | |
| Porth Twristiaeth | 220,000 | 15,000 | 0 | 13,310 | 13,310 | (1,690) | 89 | 6 | 220,000 | 0 | 0 |
| Parc y Morglawdd | 100,000 | 100,000 | 12,756 | 74,601 | 87,357 | (12,643) | 87 | 87 | 100,000 | 0 | 0 |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 2 | 2,279,410 | 370,000 | 63,423 | 306,421 | 369,843 | (157) | 100 | 16 | 2,279,410 | 0 | 0 |
| Stâd Ddiwydiannol Penrhos - Cam 3 | 1,000,000 | 280,000 | 0 | 280,500 | 280,500 | 500 | 100 | 28 | 1,000,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 109,600 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 109,600 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Canolfan Gymuned Newry | 200,000 | 40,000 | 0 | 37,790 | 37,790 | (2,210) | 94 | 19 | 200,000 | 0 | 0 |
| Unedau Porth (ERDF) | 871,835 | 550,000 | 523,035 | 25,854 | 548,888 | (1,112) | 100 | 63 | 871,835 | 0 | 0 |
| Cyd-fenter Safle Porth | 261,069 | 30,000 | 8,750 | 22,775 | 31,525 | 1,525 | 105 | 12 | 261,069 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Arforol | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Melin Llynnon | 103,000 | 2,987 | 2,988 | 13,125 | 16,113 | 13,126 | 0 | 16 | 103,000 | 0 | 0 |
| Grant Covid Trawsnewid Trefi | 10,064 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,064 | 0 | 0 |
| AHNE - Adferiad Gwyrdd | 237,774 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 237,774 | 0 | 0 |
| Porth Arfordirol Môn | 310,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 310,000 | 0 | 0 |
| Grant Porth Amlwch | 3,836 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 3,836 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6,532,155** | **1,686,098** | **622,167** | **1,008,766** | **1,630,933** | **(55,165)** | **97** | **25** | **6,532,155** | **0** | **0** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysydd Parcio | 4,533 | 5,500 | 0 | 5,469 | 5,469 | (32) | 99 | 121 | 5,500 | 967 | 21 |
| Cerbydau | 573,745 | 145,000 | 7,938 | 135,979 | 143,917 | (1,083) | 99 | 25 | 573,745 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 2,000,000 | 350,000 | 346,768 | 0 | 346,768 | (3,232) | 99 | 17 | 2,000,000 | 0 | 0 |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 32,291 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (32,291) | (100) |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 14,878 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 14,878 | 0 | 0 |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Traeth Coch | 23,933 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 10,000 | (13,933) | (58) |
| Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanfair | 397,649 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 15,000 | (382,649) | (96) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Menai | 121,895 | 2,500 | 2,813 | 0 | 2,813 | 313 | 113 | 2 | 43,000 | (78,895) | (65) |
| Achos Busnes Llawn Cynllun Lliniaru Llifogydd Y Fali | 41,349 | 10,000 | 9,277 | 0 | 9,277 | (723) | 93 | 22 | 10,000 | (31,349) | (76) |
| Cynllun Llifogydd Y Fali - adeiladu | 373,956 | 175,000 | 160,422 | 13,476 | 173,898 | (1,102) | 99 | 47 | 373,956 | 0 | 0 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 135,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (135,800) | (100) |
| Traeth Coch (Cyllid Cyfatebol) | 375,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 0 | (375,000) | (100) |
| Strwythur Mill Lane | 27,258 | 2,000 | 1,608 | 0 | 1,608 | (392) | 80 | 6 | 27,258 | 0 | 0 |
| Dwyran - Cwrs dŵr cyffredinol - Rheoli Llifogydd yn Naturiol | 21,528 | 4,000 | 3,888 | 0 | 3,888 | (112) | 97 | 18 | 21,528 | 0 | 0 |
| Mill Lane - Rheoli Llifogydd yn Naturiol | 241,640 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 241,640 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 5,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 5,068 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 486,486 | 12,000 | 11,574 | 0 | 11,574 | (426) | 96 | 2 | 486,486 | 0 | 0 |
| Teithio Llesol | 537,500 | 15,000 | 12,379 | 250 | 12,629 | (2,371) | 84 | 2 | 537,500 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydn | 230,000 | 10,000 | 9,521 | 0 | 9,521 | (479) | 95 | 4 | 230,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - Gwelliannau Isadeiledd | 672,878 | 561,162 | 0 | 561,162 | 561,162 | 0 | 100 | 83 | 672,878 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru cerbydau trydan | 127,797 | 110,000 | 111,780 | 0 | 111,780 | 1,780 | 102 | 87 | 127,797 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan | 275,527 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 275,527 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **6,720,711** | **1,402,163** | **677,968** | **716,336** | **1,394,304** | **(7,859)** | **99** | **21** | **5,671,761** | **(1,048,950)** | **(16)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoli Gwastraff** | | | | | | | | | | | |
| Paciwr Rholio | 28,750 | 28,750 | 28,750 | 0 | 28,750 | 0 | 100 | 100 | 28,750 | 0 | 0 |
| Cyllid Economi Cylchol (265) | 5,836 | 2,400 | 0 | 2,400 | 2,400 | 0 | 100 | 41 | 5,836 | 0 | 0 |
| Gwaith IVC | 36,620 | 20,000 | 9,025 | 14,000 | 23,025 | 3,025 | 115 | 63 | 36,620 | 0 | 0 |
| Offer Ailgylchu | 380,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 380,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **451,206** | **51,150** | **37,775** | **16,400** | **54,175** | **3,025** | **106** | **12** | **451,206** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 1,069,574 | 135,000 | 134,512 | 0 | 134,512 | (488) | 100 | 13 | 1,069,574 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 77,068 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 77,068 | 0 | 0 |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Swyddfeydd y Cyngor | 120,563 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 120,563 | 0 | 0 |
| Grant Gwresogi Carbon Isel - Ysgol Gynradd Moelfre | 9,125 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 9,125 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mân-ddaliadau | 83,677 | 1,000 | 0 | 800 | 800 | (200) | 80 | 1 | 83,677 | 0 | 0 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 418,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 418,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,778,007** | **136,000** | **134,512** | **800** | **135,312** | **(688)** | **99** | **8** | **1,778,007** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 250,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Trosglwyddo Cysylltu Môn i PSBA | 72,708 | 5,000 | 0 | 4,550 | 4,550 | (450) | 91 | 6 | 72,708 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 50,000 | 1,000 | 945 | 0 | 945 | (55) | 0 | 2 | 50,000 | 0 | 0 |
| Hwb TGCh | 138,514 | 20,000 | 18,091 | 0 | 18,091 | (1,909) | 0 | 13 | 138,514 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **711,222** | **26,000** | **19,036** | **4,550** | **23,586** | **(2,414)** | **91** | **3** | **711,222** | **0** | **0** |

# ATODIAD B

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirionedd ol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 60,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 60,000 | 0 | 0 |
| Adfywio Caergybi (Menter Treftadaeth Treflun Cam II) | 425,000 | 60,000 | 4,791 | 58,008 | 62,799 | 2,799 | 105 | 15 | 425,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **485,000** | **60,000** | **4,791** | **58,008** | **62,799** | **2,799** | **105** | **13** | **485,000** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| Gronfa Gofal Integredig (ICF) | 1,457,411 | 40,000 | 26,495 | 17,101 | 43,597 | 3,597 | 109 | 3 | 1,457,411 | 0 | 0 |
| Hwb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 34,887 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 34,887 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | 0 | 0 | 0 | (0) | 0 | 0 | 83,371 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,588,824** | **40,000** | **26,495** | **17,101** | **43,597** | **3,597** | **109** | **3** | **1,588,824** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **48,654,646** | **6,619,012** | **4,274,917** | **2,336,939** | **6,611,857** | **(7,156)** | **100** | **14** | **44,479,769** | **(4,174,877)** | **(9)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **27 MEDI 2022** |
| Pwnc: | **MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI, CHWARTER 1 2022/23** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS – AELOD PORTFFOLIO (ADNODDAU)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **BETHAN HUGHES OWEN**<br>01248 752663<br>BETHANOWEN2@YNYSMON.LLYW.CYMRU |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2022/23.

**(ii)** Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.

**(iii)** Cymeradwyo'r gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf o £4,704k fel y nodir ym mharagraff 9.2.

**2. Cefndir**

**(i)** Mae'r adroddiad hwn yn dangos cyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £6,218k.

**(ii)** Y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £15,034k. Roedd hyn i'w gyllido'n rhannol gan grantiau (£2,688k).

**(iii)** Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £6,128k yn y gyllideb, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r gyllideb wedi cael ei hadolygu ers llunio'r cynllun busnes 30 mlynedd. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r newidiadau a ganlyn:-

**(a)** Gostwng y gyllideb gyfalaf ar gyfer prynu a datblygu eiddo newydd gan £4,704k i adlewyrchu capasiti'r gwasanaeth i gyflawni prosiectau yn ystod y flwyddyn ac oedi i rhai brosiectau. Gweler fwy o fanylion yn adain 9.2 isod.

**(b)** Gostwng y gyllideb incwm Annedd gan £41k, er mwyn adlewyrchu bod llai o eiddo'n cael eu comisiynu nag a ddisgwyliwyd pan ddatblygwyd y cynllun;

**(c)** Cynyddu'r gyllideb Cynnal a Chadw gan £260k, i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a dyletswyddau cyfreithiol newydd (gofynion profion trydanol newydd er enghraifft);

**(ch)** Cynnydd o £117k yn y gyllideb i gwrdd â chostau'n gysylltiedig â'r Ddeddf Rhentu Cymru newydd a meddalwedd newydd.

**(v)** Mae'r CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 30 Mehefin 2022.

**4. Trosolwg**

**4.1** Mae sefyllfa refeniw y CRT ar ddiwedd chwarter 1 yn dangos gorwariant o £49k o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.2** Mae gwariant Cyfalaf £1k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £2,542k yn is na'r gyllideb, fel yr esbonnir isod. Mae Atodiad B yn cynnwys mwy o fanylion.

**4.3** Mae'r diffyg a ragwelir (gan gyfuno refeniw a chyfalaf) yn £3,836k yn awr, £2,292k yn llai na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y gwariant cyfalaf yn is na'r gyllideb.

**5. Incwm**

**5.1** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd lefel yr incwm a dderbyniwyd £14k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**5.2** Roedd incwm rhent £7k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1. Adolygwyd y rhagolwg, ac mae'r incwm o £19,420k yn y gyllideb yn gyraeddadwy.

**5.3** Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% o'r incwm rhent, ffigwr tebyg i'r llynedd. Ar hyn o bryd, mae cyfanswm y dyledion rhent yn £894k, o gymharu â £856k yn ystod yr un cyfnod y llynedd, sef cynnydd o £38k. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch cyfradd chwyddiant a'i effaith tymor hir ar yr argyfwng costau byw, nid oes newid yn y rhagolwg ar hyn o bryd, ond cedwir llygaid arno, a bydd yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn os yw lefel y dyledion yn awgrymu fod mwy o risg y bydd lefel uwch o ddyledion yn methu â chael eu casglu.

**5.4** Y rhagolwg cyffredinol ar gyfer incwm yw sefyllfa gytbwys, gan y disgwylir i'r gyllideb gael ei chyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

**6. Gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**6.1** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd gwariant ar waith heblaw am waith trwsio a chynnal a chadw £49k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd.

**6.2** Mae gwariant refeniw arall yn dangos tanwariant bychan o £33k yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd, ond disgwylir iddo gyd-fynd â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**6.3** Mae'r pennawd Cyfranogiad Tenantiaid yn dangos tanwariant o £14k ar ddiwedd chwarter 1. Fodd bynnag, mae lefel gweithgarwch yn dychwelyd i lefelau a welwyd cyn Covid ac, oherwydd bod lefel uwch o weithgarwch yn debygol yn ystod yr haf, disgwylir i'r cyfan o'r dyraniad cyllideb gael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**7.1** Mae gorwariant o £119k yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) ar ddiwedd chwarter 1. Mae nifer yr archebion gwaith yn dilyn y cyfyngiadau Covid yn parhau i fod yn uchel, ac mae gwariant yn Chwarter 1 yn adlewyrchu cynnydd mewn gwaith cynnal a chadw ymatebol sy'n cael ei arwain gan y galw. Yn ogystal, roedd nifer yr eiddo gwag a maint y gwaith yr oedd angen ei wneud arnynt wrth newid tenantiaid yn uwch na'r disgwyliadau gwreiddiol yn ystod Chwarter 1 ac, yn nodweddiadol, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar rhwng 40 a 50 eiddo ar unrhyw adeg. Disgwylir i gyfradd y gorwariant ddisgyn yn ystod y flwyddyn, ond mae'n ddoeth rhagweld gorwariant o £250k ar ddiwedd y flwyddyn.

**7.2** Roedd gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhan o'r UCCHT £28k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd chwarter 1. Mae problemau recriwtio staff yn y maes hwn ac mae'r gyllideb yn cael ei hadolygu er mwyn arfarnu'r goblygiadau ariannol erbyn diwedd y flwyddyn.

## 8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn

**8.1** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ailgodi tâl o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ni ragwelir unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

## 9. Gwariant Cyfalaf

**9.1** Cyfanswm y gyllideb gyfalaf yw £15,034k a oedd yn cael ei gyllido o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (£2,688k) a chyfraniad o gronfa wrth gefn y CRT (£12,346k). Mae'r rhagolwg wedi cael ei adolygu, a'r cyfanswm newydd yw £12,492k, £2,542k yn is na'r gyllideb. Nodir yr amrywiadau mwyaf isod.

**9.2** Mae'r gyllideb ar gyfer adeiladu unedau newydd wedi ei leihau £4,704k oherwydd y ffactorau isod

- Cafodd y rhaglen ei hadolygu er mwyn ystyried y capasiti o fewn y gwasanaeth i ddarparu'r rhaglen yn llawn, gan leihau'r gyllideb o £954k;
- Bryn Glas, Brynsiencyn, caniatawyd £750k o gyllid ar gyfer y cynllun hwn ond mae trafodaethau gyda'r datblygwr ynglŷn â'r gost wedi methu felly mae'n annhebygol y bydd y cynllun hwn yn symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan arwain at danwariant o £750k;
- Ffordd y Brenin, Caergybi, mae oedi ar y cynllun hwn gan fod y gwaith modelu lliniaru llifogydd sy'n cael ei wneud gan yr adran Briffyrdd yn effeithio ar y safle hwn. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld tanwariant o £500k ar gyfer y flwyddyn;
- Mae'r contractwr ar gyfer y cynllun Penrhos Stanley wedi dweud yn awr na fydd y gwaith yn cychwyn tan fis Ionawr 2023, gan olygu y disgwylir tanwariant o £1,500k ar y gwaith yn 2022/23;
- Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol am y gwaith ar hen safle Ysgol Niwbwrch ac Ysgol Thomas Ellis. Bydd hyn yn arwain at oedi cyn dechrau'r gwaith, gan arwain at danwariant o £1,000k;
- Lôn Lwyd, Pentraeth, menter ar y cyd rhwng CSYM a Chlwyd Alyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda iawn ar y safle, ond roedd oedi wrth brynu tir a, hyd yma, nid yw CSYM wedi cyfrannu at y datblygiad hwn fel y cynlluniwyd yn y gyllideb. O'r herwydd, mae tanwariant o £500k yn chwarter 1. Disgwylir y bydd y cyllid wedi'i wario'n llawn yn ystod y flwyddyn.

**9.3** Mae oedi ar brosiect SATC tra bod y cynllun ar gyfer rhaglen ceginau newydd wedi eu cwblhau. Roedd hyn, yn wreiddiol, yn cynnwys 135 eiddo. Mae dyluniadau cegin manwl bellach wedi'u cwblhau ar gyfer y mwyafrif o denantiaid sydd am gymryd rhan yn y cynllun, a bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2023/24. Yn anffodus, mae mynediad i sawl eiddo i gwblhau dyluniadau gosodiadau cegin wedi bod yn broblematig.

**9.4** Mae'r gyllideb Perfformiad Ynni yn dibynnu ar ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) cyn gosod paneli Solar PV i gynhyrchu trydan adnewyddadwy. Yn anffodus, mae cael cymeradwyaeth DNO i ymgymryd â gwaith Solar PV ar raddfa fawr wedi bod, ac yn parhau i fod, yn anodd oherwydd gofyniad i atgyfnerthu'r rhwydwaith cyn gosod Solar PV. Mi fydd Gwasanaethau Tai yn parhau i gysylltu gyda'r DNO er mwyn dod o hyd i ddatrysiad fyddai'n hwyluso gwelliannau effeithlonrwydd ynni ynghyd â gostyngiadau carbon.

**9.5** Mae'r gyllideb cynnal a chadw a gynlluniwyd gan y sector gyhoeddus a gymeradwyir ar gyfer 2022/23 yn swm o £9.555m. Yn ystod chwarter 1, parhaodd gwaith cynnal a chadw arfaethedig allanol mawr yn Llangoed a Llanddona ar y safle, gyda disgwyl cwblhau ymarferol yn ystod chwarter 2. Parhaodd contract i ailosod dros 300 o foeleri nwy ar y safle a symudodd ymlaen yn dda yn ystod chwarter 1. Mae'r prif gontract cynnal a chadw arfaethedig traddodiadol a drefnwyd ar gyfer 2022/23 yn cynnwys eiddo ym Mae Cemaes. Cwblhawyd dogfennau tendro yn ystod chwarter 1 ar gyfer Cam 1, ac mae'r adran Dai yn disgwyl tendro'r gwaith a dyfarnu'r contract yn ystod chwarter 2. Bydd Cam 2 y cynllun yn dilyn cwblhau'r cam cyntaf gyda'r wobr contract ar gyfer y cam hwn yn cael ei raglennu ar gyfer chwarter 4. Mae'r adran Dai yn derbyn y bydd ymgymryd â'r gwaith dros ddau gam ar gyfer profiad logistaidd a thenant yn effeithio'n negyddol ar wariant cyllideb cynnal a chadw arfaethedig traddodiadol.

**9.6** Mae'r gyllideb amgylcheddol yn caniatáu buddsoddiad sylweddol sydd yn cynnwys uwchraddio trefniadau gwaredu carthion yng Ngharreglefn er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a nodir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r ateb arfaethedig yn cynnwys trafodaethau gyda pherchennog tir preifat a llwyddo i sicrhau Trwydded i'r cynllun gan CNC. Ar ddiwedd chwarter 1, mae Gwasanaeth Tai yn credu y byddai yn ddoeth amcan tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn.

**9.7** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu gostyngiad tebyg yn y sŵn sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**10.1** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £3,836k yn unig. Mi fydd hyn yn gadael balans o £8,497k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**Ch – A yw'r polisi hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae hwn yn adroddiad ar gyfer monitro yn unig ac mae'n cael ei ddefnyddio gydag adroddiadau eraill i lunio cynllun busnes y CRT ac i osod y gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd anghenion tymor hir yr Ynys yn cael eu hasesu. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Amherthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Mae'r Gwasanaeth Tai yn ymgynghori'n rheolaidd â'i denantiaid ac mae canlyniadau'r ymgynghoriadau hynny'n cael eu bwydo i'r broses gynllunio busnes ac yna i'r broses o osod y gyllideb flynyddol. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2022 ac ymgorfforwyd y sylwadau a wnaed yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog 151 yw hwn. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae canlyniadau adroddiad monitro chwarterol y CRT yn cael eu hadrodd i'r Panel Sgriwtini Cyllid. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

**F – Atodiadau**

- Atodiad A – Gwariant a rhagolygon Refeniw hyd at ddiwedd Chwarter 1 2022/23
- Atodiad B – Gwariant a rhagolygon Cyfalaf hyd at ddiwedd Chwarter 1 2022/23

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2022/52 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2022).

## *CYFRIF REFENIW TAI 2022/23*

| | Cyllideb Flynyddol 2022/23 | Cyllideb a broffilwyd hyd Mis 3 | Gwir wariant hyd Mis 3 | Amrywiant hyd Mis 3 | Rhagolwg diwedd y flwyddyn | Amrywiant Diwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (19,420,000) | (4,955,984) | (4,948,757) | 7,227 | (19,420,000) | 0 |
| Garejys | (223,000) | (56,909) | (57,709) | (800) | (223,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (201,000) | (51,294) | (51,417) | (123) | (201,000) | 0 |
| Arall | (207,860) | (27,933) | (20,089) | 7,844 | (207,860) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 296,000 | 0 | 0 | 0 | 296,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(19,755,860)** | **(5,092,120)** | **(5,077,972)** | **14,148** | **(19,755,860)** | **0** |
| **Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 260,653 | 65,151 | 51,571 | (13,580) | 260,653 | 0 |
| Gweinyddu Rhenti | 500,013 | 124,841 | 123,585 | (1,256) | 500,013 | 0 |
| Rheoli Stadau | 180,788 | 45,121 | 44,728 | (393) | 180,788 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 1,770,934 | 304,492 | 270,971 | (33,521) | 1,770,934 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant heblaw am Waith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **2,712,388** | **539,605** | **490,855** | **(48,750)** | **2,712,388** | **0** |
| **Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (UCChT) | 3,795,464 | 948,752 | 1,068,030 | 119,278 | 4,045,464 | 250,000 |
| Staff Cynnal a Chadw Adeiladau (dim UCChT) | 958,583 | 239,169 | 210,873 | (28,296) | 958,583 | 0 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw Arall | 793,655 | 213,022 | 205,721 | (7,301) | 793,655 | 0 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **5,547,702** | **1,400,943** | **1,484,624** | **83,681** | **5,797,702** | **250,000** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,674,000 | 0 | 0 | 0 | 3,674,000 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 790,630 | 0 |
| Ailgodi Tâl o’r Gwasanaethau Canolog | 812,831 | 0 | 0 | 0 | 812,831 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **5,277,461** | **0** | **0** | **0** | **5,277,461** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **13,537,551** | **1,940,548** | **1,975,479** | **34,931** | **13,787,551** | **250,000** |
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(6,218,309)** | **(3,151,572)** | **(3,102,493)** | **49,079** | **(5,968,309)** | **250,000** |
| | | | | | | |

| CYFRIF GWARIANT CYFALAF | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant 2022/23 | 15,034,000 | 1,576,383 | 1,575,790 | (593) | 12,492,209 | (2,541,791) |
| | | | | | | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | (2,688,000) | 0 | 0 | 0 | (2,688,000) | 0 |
| **Grantiau / Benthyciadau Eraill** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **12,346,000** | **1,576,383** | **1,575,790** | **(593)** | **9,804,209** | **(2,541,791)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **6,127,691** | **(1,575,189)** | **(1,526,703)** | **48,486** | **3,835,900** | **(2,291,791)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (12,333,000) | | | | (12,333,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa Wrth Gefn y CRT** | 6,127,691 | | | | 3,835,900 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **(6,205,309)** | | | | **(8,497,100)** | |

**ATODIAD B**

Tudalen 96

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffilwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i Broffil (£) | Gwariant a Ragwelir (£) | Rhagamcan Tan / Dros (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai CRT** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolig | 800,000 | 200,000 | 217,532 | 17,532 | 800,000 | 0 |
| Contract Cynnal a Chadw wedi'i gynllunio | 3,955,000 | 200,000 | 194,535 | (5,465) | 2,862,474 | (1,092,526) |
| Gwella Perfformiad Ynni | 1,000,000 | 50,000 | 52,178 | 2,178 | 662,178 | (337,822) |
| Gwaith Amgylcheddol | 870,667 | 60,000 | 59,894 | (106) | 612,676 | (257,991) |
| Prynu eiddo Cyfredol / Datblygu Eiddo Newydd | 5,479,000 | 750,000 | 747,465 | (2,535) | 5,479,000 | 0 |
| Addasiadau Sector Gyhoeddus | 400,000 | 80,000 | 81,173 | 1,173 | 400,000 | 0 |
| Risg Tân | 600,000 | 8,000 | 7,737 | (263) | 600,000 | 0 |
| SATC | 1,901,950 | 201,000 | 187,893 | (13,107) | 1,048,498 | (853,452) |
| Cerbydau Uned Cynnal a Chadw Tai | 27,383 | 27,383 | 27,383 | 0 | 27,383 | 0 |
| **Cyfanswm am CRT Tai** | **15,034,000** | **1,576,383** | **1,575,790** | **(593)** | **12,492,209** | **(2,541,791)** |

Tudalen 97

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **27 Medi 2022** |
| Pwnc | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2024/25** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin W. Williams – Deilydd Portffolio Cyllid** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Marc Jones – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Marc Jones<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Amherthnasol** |

**Argymhellion**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2023/24.

Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad 1.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, sydd yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Felly, nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi, yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ni fydd y penderfyniad, er y bydd yn cael effaith ar gyllideb 2023/24, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn cynhyrchu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. O'r herwydd, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2022/23

| **Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 2 flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut? | Mae nodi a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer cost gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gosod allan sefyllfa ariannol ar draws Cymru i Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut | Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r CAYC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai cynigion unigol yn cael eu hasesu mewn perthynas â'u heffaith ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr adeg hynny. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaiddgymdeithasol. | Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch gwariant yn ffurfio rhan o'r gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol yn cael ei hasesu bryd hynny. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Dim effaith |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghorwyd?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriodd yr UDA yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2022. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr a'r UDA yn y drafft terfynol. |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)) | Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r UDA. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau |
| --- |
| Atodiad 1 – Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>Atodiad 2 – Rhagdybiaethau'r CATC<br>Atodiad 3 - Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2023/24 – 2024/25 |
| **Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi lefel yr adnoddau y mae’r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y ddwy flynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae’r Cyngor yn bwriadu cydbwyso’r angen am adnoddau gyda’r cyllid sydd ar gael.

**1.2.** Paratowyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd parhaus. Er gwaetha’r ffaith fod y cyfnod clo Covid wedi dod i ben, mae’r effaith ar economi’r DU yn dal yn sylweddol, gyda phroblemau ynglŷn â’r cadwyni cyflenwi’n cael effaith ar chwyddiant. Mae materion byd-eang eraill, yn cynnwys y rhyfel yn Wcráin, hefyd yn cyfrannu at gynnydd mewn costau ynni a phroblemau ynglŷn â’r cadwyni cyflenwi, sydd eto’n cael effaith ar chwyddiant. Efallai bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, ond bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i asesu effaith Brexit ar economi’r DU yn y tymor hir. Bydd yr holl ddigwyddiadau hyn yn cael effaith ar lefelau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol.

**1.3.** Ar adeg drafftio'r adroddiad, nid oedd y broses o ethol Prif Weinidog newydd wedi’i chwblhau eto, gyda'r ddau ymgeisydd yn nodi dulliau gwahanol o sut i fynd i'r afael â phroblemau economaidd presennol - lefel uchel chwyddiant, twf araf a gostyngiad mewn safonau byw. Mae un ymgeisydd yn addo toriadau treth ar unwaith ac, os nad yw'r refeniw hwn yn cael ei wrthbwyso gan fwy o dwf economaidd gan arwain at refeniw treth uwch neu fenthyca ychwanegol, yna bydd toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn dilyn. Nid yw'r ail ymgeisydd yn cynnig toriadau treth ar unwaith nes bod chwyddiant yn ôl dan reolaeth, ond mae'n cynnig gostyngiadau sylweddol mewn treth incwm dros weddill y degawd. Unwaith eto, rhaid i'r toriadau treth hyn gael eu gwrthbwyso gan fwy o dwf a refeniw treth, mwy o fenthyca (annhebygol) neu doriadau mewn gwariant cyhoeddus. Felly, dros y tymor canolig, mae'r ddau ymgeisydd yn cynnig strategaeth debyg o leihau lefelau treth er mwyn ysgogi twf economaidd i wrthbwyso colli refeniw o lefelau treth is.

**1.4.** Cynhaliwyd adolygiad gwariant cynhwysfawr gan Lywodraeth y DU yn ystod haf 2021, ac roedd hwn yn nodi'r cyllid y gallai Llywodraeth Cymru ei ddisgwyl yn ystod y tair blynedd ddilynol (2022/23 i 2024/25). Cynhaliwyd yr adolygiad hwn cyn i'r argyfwng economaidd presennol ddechrau, ac mae'n fater i Lywodraeth y DU a'r Prif Weinidog newydd benderfynu a oes angen diweddaru'r adolygiad ac a fydd mwy o gyllid ar gael i Lywodraeth Cymru dalu'r costau cynyddol sy'n wynebu'r sector gyhoeddus yng Nghymru.

**1.5.** Yn seiliedig ar ganlyniadau'r adolygiad gwariant cynhwysfawr, llwyddodd Llywodraeth Cymru i ddarparu ffigwr dangosol ar gyfer y cynnydd yn setliad Llywodraeth Leol Cymru gyfan ar gyfer 2023/24 a 2024/25, er y byddai'r ffigyrau ar gyfer pob cyngor unigol yn wahanol, yn dibynnu ar yr allbwn o'r fformiwla cyllido. Dangosodd y ffigyrau dangosol gynnydd yn y setliad o 3.6% yn 2023/24 a 2.4% yn 2024/25.

**1.6.** Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ystyried yr holl newidiadau y gwyddys amdanynt y mae’n rhaid eu hymgorffori yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24, ac mae’n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â’r prif ffactorau sy’n effeithio ar gyllideb refeniw’r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y gyllideb).

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL GYFREDOL Y CYNGOR

**2.1.** Ym mis Mawrth 2022, gosododd y Cyngor y Gyllideb a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2022/23**

| | £'m |
|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2020/21** | **147.420** |
| Newidiadau Cytundebol a Newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt | 1.830 |
| Chwyddiant Tâl a Phrisiau | 4.706 |
| Pwysau Cyllidebol a Buddsoddiadau Gwasanaethau | 4.411 |
| Arbedion Cyllidebol | 0.000 |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2022/23** | **158.367** |
| | |
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Cyllid Allanol Cyfunol | 114.551 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 43.816 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 0.000 |
| **Cyfanswm Cyllid 2022/23** | **158.367** |

**2.2.** Gwelwyd cynnydd o 9.22% yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn y sylfaen dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Cynyddodd debyd y Dreth Gyngor o 3.6%. Roedd cynnydd o 2.0% yn nhâl Band D, gyda gweddill y cynnydd yn nebyd y Dreth Gyngor o ganlyniad i'r newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 35% i 50%.

**2.3.** Doedd dim modd ystyried 2021/22 fel blwyddyn weithredu arferol, gyda gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i gael eu heffeithio gan Covid, costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo a cholli incwm. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol sylweddol i bob awdurdod lleol, gydag Ynys Môn yn derbyn £5.74m i dalu am gostau ychwanegol, a £0.42m i dalu am incwm a gollwyd. Yn ogystal â hyn, derbyniwyd £1.389m ychwanegol o Grant Cymorth Refeniw, ynghyd ag amryw o grantiau eraill wedi'u neilltuo a heb eu neilltuo.

**2.4.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22, cofnododd y Cyngor danwariant net o £4.798m (3.25%), gyda'r holl Wasanaethau yn nodi tanwariant yn erbyn eu cyllideb. Arweiniodd hyn at gynnydd ym malansau cyffredinol y Cyngor i £12.050m, sy'n gyfwerth ag 8.17% o gyllideb refeniw net 2021/22. Mae hyn yn cymharu â'r ffigwr targed o £9.0m (6.11%) gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

**2.5.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gedwir gan y Cyngor i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ar sail unwaith ac am byth, i gyllido costau a ragwelir yn y dyfodol (e.e. colledion nad oedd yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant nad oedd wedi'i ddefnyddio, yn £23.182m ar 31 Mawrth 2022, cynnydd o £7.726m yn ystod y flwyddyn. Yr hyn oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o'r codiad oedd y cyllid ychwanegol heb ei neilltuo a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a ddarparwyd i helpu Cynghorau i dalu costau'r galw cynyddol a'r cynnydd mewn costau, cyllid a drosglwyddwyd o falansau cyffredinol i wneud gwaith atgyweirio ar Ganolfan Addysg y Bont, a chyfraniadau refeniw nas defnyddiwyd ar gyfer cynlluniau cyfalaf.

**2.6.** Roedd cynnydd sylweddol hefyd ym Malansau Ysgolion yn ystod 2020/21, gan godi o £3.974m i £7.827m. Roedd hyn, yn rhannol, oherwydd y ffaith bod ysgolion ar gau, neu ar gau'n rhannol, ar ddechrau 2021/22 a hefyd o ganlyniad i gyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a gafwyd yn ddiweddarach yn 2021/22 ond na fydd yn cael ei wario tan 2022/23. Wrth i ysgolion ddechrau'r broses o adfer o'r pandemig, rhagwelir y bydd y balansau hyn yn gostwng yn sylweddol yn ystod 2022/23.

**2.7.** Cafodd y Cyngor gynnydd sylweddol yn lefel Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru, i £9.8m (9.23%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl y byddai rhan o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod darparwyr gofal yn gallu talu'r cyflog byw go iawn i'w staff, bod atal digartrefedd yn aros ar yr un lefel ag yn ystod cyfnodau clo Covid, bod unrhyw gostau'n gysylltiedig â Covid yn dod o dan gyllideb graidd y Cyngor a bod digon o gyllid wedi'i ddarparu i dalu am setliad cyflog athrawon o fis Medi 2022. Er gwaethaf y ceisiadau cyllidol ychwanegol hyn, gyda chymorth cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru bu modd buddsoddi dros £2.7m yn ychwanegol mewn gwasanaethau, i gynyddu cyllidebau a arweinir gan y galw gan dros £0.6m ac i'r Cyngor godi'r Dreth Gyngor ddim ond 2%.

## 3. RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1.** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu holl gyllid Llywodraeth Cymru ac mae'r hyn sy'n digwydd yn economi'r DU a'r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar Lywodraeth Cymru a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**3.2.** Mae'r pandemig byd-eang, a'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i gefnogi'r economi ers mis Mawrth 2020, wedi newid y sefyllfa economaidd yn sylweddol, gyda benthyciadau bellach yn fwy na £2.4 triliwn (ym mis Gorffennaf 2022), sef 95.5% o Gynnyrch Gros Domestig y wlad. Mae hyn yn cymharu â £2.2 triliwn (ym mis Gorffennaf 2021), a oedd yn 94.1% o'r GDP.

**3.3.** Yn ystod 2021/22, benthycodd y Llywodraeth £144bn, o'i gymharu â £309bn yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac mae eisoes wedi benthyg £51.9bn arall yn 2022/23 (hyd at fis Gorffennaf 2022).

**3.4.** Wrth i'r economi ailagor ac wrth i bobl ddechrau gwario arian mewn siopau, dechreuodd chwyddiant (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) godi, o 2.1% ym mis Mehefin 2021 i 4.9% ym mis Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, mae'r rhyfel yn Wcráin wedi codi prisiau ynni yn sylweddol ac, ynghyd â phrinder yn y farchnad lafur a phroblemau'r gadwyn gyflenwi yn dal i godi yn sgil Covid a Brexit, mae chwyddiant wedi codi'n sydyn dros 7 mis cyntaf 2022, gan gyrraedd 10.1% ym mis Gorffennaf 2022, a rhagwelir y bydd yn fwy na 13% ym mis Hydref 2022 cyn dechrau disgyn yn ôl tuag at lefel darged Banc Lloegr o 2% erbyn canol i ddiwedd 2024.

**3.5.** Cafodd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr ei thorri i 0.1% ym mis Mawrth 2020, ac mae wedi aros ar y lefel isel iawn yma tan ddechrau 2022. Wrth i chwyddiant ddechrau codi, mae Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr wedi gwneud cynnydd graddol bach yn y gyfradd sylfaenol bob mis, a'r gyfradd bresennol yw 1.75%. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn fwy na 2% erbyn diwedd 2022, ac yn codi i 3% yn ail hanner 2023 cyn dechrau disgyn yn ôl tuag at 2% yn 2024 neu 2025.

**3.6.** Mae disgwyl i'r economi wynebu dirwasgiad (dau chwarter olynol o dwf negyddol yn GDP) erbyn diwedd 2022 tan hwyr 2023 a does dim disgwyl i dwf fod yn gryf yn 2024. Mae GDP yn gostwng yn arwain at refeniw treth yn gostwng i'r Llywodraeth ac yn cynyddu'r angen i fenthyca neu ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus.

**3.7.** Mae'r cynnydd mewn chwyddiant yn bennaf o ganlyniad i ffactorau allanol, yn hytrach nag o wariant cynyddol gan ddefnyddwyr. Mae Banc Lloegr wedi cynyddu cyfraddau llog, sydd fel arfer yn atal chwyddiant sy'n cael ei yrru gan ddefnyddwyr, ond nid yw'r sefyllfa sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd o ganlyniad i chwyddiant sy'n cael ei yrru gan ddefnyddwyr a gall cyfraddau llog cynyddol ychwanegu at yr argyfwng costau byw (ad-daliadau morgais uwch) a gallai atal buddsoddiad yn yr economi o'r sector preifat. Gan nad yw'r chwyddiant yn cael ei yrru gan alw defnyddwyr h.y. pobl hefo gormod o incwm gwario, mae'n debygol o arwain at weithwyr sy'n chwilio am ddyfarniadau cyflog uwch dim ond er mwyn cynnal eu safon byw. Mae hyn, yn ei dro, yn ychwanegu at gostau ar gyfer gweithgynhyrchwyr sydd, yn ei dro, yn arwain at brisiau uwch, gan ychwanegu at bwysau chwyddiant.

**3.8.** Mae gan y ddau sy'n ymgeisio am swydd y Prif Weinidog nesaf ddwy strategaeth wahanol i ddelio â'r argyfwng economaidd presennol. Y cyntaf yw lleihau lefel treth i ysgogi twf yn yr economi, a fydd wedyn yn cynhyrchu mwy o refeniw treth i wrthbwyso'r gostyngiad mewn lefelau treth. Bydd lleihau trethiant personol hefyd yn cynyddu lefel yr incwm gwario sydd gan bobl, a allai ysgogi'r economi drwy fwy o wariant gan ddefnyddwyr, ond gall hyn hefyd gynhyrchu chwyddiant sy'n cael ei yrru gan ddefnyddwyr. Mae'r ail ymgeisydd yn bwriadu cynnal y lefel bresennol o drethu a defnyddio'r cyllid i helpu pobl â'r argyfwng costau byw nes bod chwyddiant o dan reolaeth, gyda thoriadau treth yn dilyn wedyn. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r ymgeiswyr yn seilio eu cynllun ar refeniw treth uwch o dwf economaidd i wrthbwyso toriadau treth ac yn caniatáu i wariant aros ar yr un lefel, neu i leihau gwariant cyhoeddus er mwyn benthyca llai.

**3.9.** Yn y tymor byr, bydd angen cynnydd mewn benthyciadau neu doriadau i wariant cyhoeddus er mwyn cyllido toriadau treth neu fwy o gymorth gan y wladwriaeth gyda'r argyfwng costau byw. Nid yw'n glir a fydd digon o le yng nghyllid y DU i gynyddu gwariant cyhoeddus gan y gyfradd chwyddiant bresennol a dal i dorri trethi neu ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai yr effeithir arnynt waethaf gan yr argyfwng costau byw.

**3.10.** Os yw llywodraeth y DU yn penderfynu gostwng gwariant cyhoeddus yn Lloegr, bydd yn arwain at dorri'r cyllid y mae Cymru'n ei dderbyn drwy'r fformiwla Barnett. Penderfyniad Llywodraeth Cymru fydd pa gyfran o'r gostyngiad a drosglwyddir i Lywodraeth Leol yng Nghymru.

## 4. CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU

**4.1.** Mae cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Ar ôl ystyried grantiau yn trosglwyddo i mewn ac allan o'r setliad a chyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd, bu gostyngiad yn setliad llywodraeth leol bob blwyddyn, mewn termau arian parod, rhwng 2013/14 a 2019/20. Dechreuodd godi yn 2020/21, ond dim ond yn uwch na lefel 2013/14 yn 2022/23, pan gynyddodd y setliad o 9.4%. Ond, mewn termau real, mae'r cyllid yn dal i fod dros 10% yn llai na lefel 2013/14.

**4.2.** Gan fod Llywodraeth Cymru wedi cael lefelau dangosol o gyllid yn dilyn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, roedd yn gallu cyhoeddi setliadau cyllid dangosol llywodraeth leol Cymru gyfan ar gyfer 2023/24 a 2024/25, sef 3.6% a 2.4% yn y drefn honno. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffigurau dangosol hyn wedi'u cyhoeddi cyn y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant. Dylid nodi hefyd mai ffigyrau Cymru gyfan oedd y rhain, a byddai'r cynnydd ar gyfer awdurdodau unigol yn wahanol gan ddibynnu ar y modd y mae'r fformiwla cyllido yn dosbarthu cyllid Cymru gyfan rhwng yr awdurdodau unigol.

**4.3.** Mae'r ffaith fod y cynnydd dangosol a gyhoeddwyd yn llawer is na lefel disgwyliedig chwyddiant ar gyfer 2023/24, a'r ffaith nad oedd cyllidebau a setliad 2022/23 wedi ystyried y cynnydd sylweddol mewn cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, wedi'i chodi gyda Llywodraeth Cymru, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud, mewn ymgynghoriad â CLILC i fesur effaith chwyddiant ar lefel y cyllid sydd ei angen. Bydd yn fater i'w drafod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch sut yr ymdrinnir â chyllido cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau mewn setliadau yn y dyfodol ond, heb ragor o gyllid gan Lywodraeth y DU, bydd yn anodd iawn i Lywodraeth Cymru gynyddu setliad llywodraeth leol Cymru yn sylweddol uwch na'r ffigurau dangosol a gyhoeddwyd eisoes.

## 5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1.** Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Leol yn wynebu llawer o bwysau cyllidebol, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. Mae Dadansoddiad Cyllid Cymru yn amcangyfrif fod y pwysau cyllidebol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru tua £380m yn 2023/24 a £230m yn ychwanegol yn 2024/25. Ar sail lefelau dangosol o gynnydd yn setliad llywodraeth leol Cymru a chynnydd blynyddol o 4% yn y Dreth Gyngor, mae hyn yn dal i adael diffyg o £80m yn 2023/24 a £145m yn 2024/25. Dylid nodi nad yw'r ffigyrau hyn yn ystyried effaith dyfarniad cyflog arfaethedig 2022/23 i staff NJC ac athrawon.

**5.2.** Mae'r meysydd canlynol yn cael eu hystyried fel y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod tymor y cynllun hwn:-

**i. Codiadau Cyflog – Cyflogau staff nad ydynt yn athrawon**

Mae’r dyfarniad cyflog ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yn cael ei bennu ar draws Cymru a Lloegr ar sail cytundeb rhwng y Cyflogwyr a’r Undebau. Ar gyfer 2022/23, y cynnig presennol yw cynnydd yn y gyfradd unffurf o £1,925 i'r holl weithwyr. Mae hyn yn cynyddu pob pwynt cyflog, o 10.2% ar gyfer y pwynt cyflog isaf i 3.4% ar gyfer y pwynt cyflog uchaf. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd cyfartalog o 7.5% i'r holl staff. Gwnaed yr un cynnig i'r Prif Swyddogion, ac mae hyn yn rhoi ystod yn y dyfarniad cyflog o rhwng 1.6% a 2.4%. Wrth osod cyllideb 2022/23, caniatawyd cynnydd o 2%, gan gadw £0.625m yn ychwanegol fel cyllideb wrth gefn, sy'n cyfateb i gynnydd cyllidebol o tua 3.2% (£1.7m). Os caiff cynnig cyflog 2022/23 ei dderbyn a'i weithredu, bydd yn cynyddu'r costau £4m a bydd angen £2.3m o gyllid ychwanegol i gywiro'r gyllideb agoriadol ar gyfer 2023/24. Bydd dyfarniad cyflog tybiedig o 3.5% yn 2023/24 yn ychwanegu £2m pellach at gost cyflogau nad ydynt yn athrawon. Felly, amcangyfrifir bod y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2023/24 £4.3m yn uwch na chyllideb 2022/23.

**ii. Codiadau Cyflog – Cyflogau athrawon**

Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyflogau athrawon, gyda'r dyfarniad cyflog yn effeithiol o fis Medi bob blwyddyn. Yn setliad llywodraeth leol 2022/23, dywedodd Llywodraeth Cymru fod y cyllid wedi ystyried cost lawn y dyfarniad cyflog amcangyfrifedig, ond ni ddatgelwyd y swm gwirioneddol a ganiatawyd ar ei gyfer. Mae'r dyfarniad cyflog arfaethedig o 5% yn effeithiol o fis Medi 2022. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu bil cyflog athrawon o £940k. Roedd cyllideb 2022/23 yn caniatáu cynnydd o £600k ac, o'r herwydd bydd angen £340k pellach i gywiro'r gyllideb tâl addysgu a £695k pellach i gyllido’r cynnydd o fis Ebrill 2023 i fis Awst 2023. Roedd y cyhoeddiad ar gyflogau athrawon hefyd yn dangos y byddai'r dyfarniad cyflog sy'n effeithiol o fis Medi 2023 yn 3.5%, a fydd yn ychwanegu £696k arall rhwng Medi 2023 a Mawrth 2024. O ganlyniad, rhaid i gyllideb 2023/24 fod £1.73m yn uwch na chyllideb 2022/23.

**iii. Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon**

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei ailbrisio ar hyn o bryd. Gallai hyn arwain at newid yng nghyfradd cyfraniadau'r prif gyflogwyr. Ni fydd canlyniadau'r ailbrisio yn hysbys tan ddiwedd Hydref 2023, ond mae arwyddion cynnar yn awgrymu na fydd newid. Mae pob cynnydd o 1% yn y gyfradd cyfraniadau yn ychwanegu tua £420k at y costau.

Mae disgwyl i Gynllun Pensiwn Athrawon gael ei ailbrisio ym mis Medi 2023, ac mae risg sylweddol y bydd y gyfradd cyfraniadau'n codi'n sylweddol. Mae pob cynnydd o 1% yn y gyfradd cyfraniadau yn cynyddu'r costau tua £230k.

**iv. Contractau Gwasanaeth Mawr**

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor ar gontract allanol, gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol a chytundebau bysiau gwasanaeth cyhoeddus. Mae mwyafrif y contractau yn gytundebau hirdymor fydd yn dod i ben ar ôl diwedd y cyfnod dan sylw yn y cynllun hwn. Mae pris pob contract yn cael ei godi'n flynyddol gan ddefnyddio set o fynegeion chwyddiant a bennir ymlaen llaw sy'n cael eu diffinio ym mhob contract. O ganlyniad, bydd y lefel chwyddiant uchel bresennol yn bwydo drwodd i bob contract yn 2023/24. Mae'r gyllideb ar gyfer y contractau hyn oddeutu £20m, a byddai cynnydd chwyddiant o 10% yn ychwanegu tua £2m at y costau hyn yn 2023/24.

v. **Costau Ynni**

Y gyllideb bresennol ar gyfer ynni (trydan a nwy) yn 2022/23 oedd £2.5m (£1.7m ar gyfer trydan a £0.8m ar gyfer nwy), gyda'r costau uchaf yn gysylltiedig ag ysgolion uwchradd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd y Cyngor. Mae llawer o waith wedi ei wneud i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar a bwyler newydd yn Swyddfeydd y Cyngor. Bydd y newidiadau hyn yn lleihau costau, ond disgwylir cynnydd sylweddol yn y contractau ynni corfforaethol pan gânt eu hadnewyddu yn ddiweddarach eleni. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ynghlwm wrth gytundeb fframwaith tan fis Medi 2024 ar gyfer trydan a nwy gyda phrisiau'n cael eu diweddaru bob mis Hydref. Yr arwyddion cynnar yw y bydd cyfraddau trydan yn codi tua 60% ym mis Hydref 2022 a phrisiau nwy 160%. Bydd angen cywiro cyllideb 2022/23 a chaniatáu ar gyfer y cynnydd mewn prisiau yn 2023/24, gan gynnwys unrhyw gynnydd pellach mewn prisiau ym mis Hydref 2023. Felly, mae 'na botensial i gostau ynni gynyddu dros £2m yn 2023/24, gyda chynnydd tebyg yn 2024/25. Bydd llawer yn dibynnu ar ganlyniad y rhyfel yn Wcráin a ph’un ai a fydd y prisiau ynni'n dechrau gostwng os, a phan, ddaw'r rhyfel i ben.

vi. **Ffioedd Cartrefi Gofal Henoed, Nyrsio, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Phreswyl**

Ers nifer o flynyddoedd, penderfynwyd ar y cynnydd blynyddol mewn ffioedd nyrsio, pobl hŷn bregus eu meddwl a chartrefi gofal preswyl gan ddefnyddio pecyn adnoddau safonol y mae pob un o'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Yn wreiddiol ar gyfer 2022/23, roedd ffioedd wedi cynyddu rhwng 7% a 12%, ac roedd y cynnydd yma yn ystyried gofyniad Llywodraeth Cymru bod y cynnydd mewn ffioedd yn ddigonol er mwyn caniatáu i ddarparwyr dalu'r cyflog byw cenedlaethol. Fodd bynnag, arweiniodd y cynnydd sydyn mewn chwyddiant at sylwadau gan y Sector Cartrefi Gofal, a chytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynyddu'r ffioedd eto o Gorffennaf 2022. Roedd y cynnydd ychwanegol yn golygu bod y ffioedd wedi cynyddu rhwng 8% a 25% o'i gymharu â ffioedd 2021/22. Mae hyn yn creu cost ychwanegol o £323k sydd angen ei gywiro yng nghyllideb 2023/24. Bydd chwyddiant a chostau cyflogau cynyddol yn parhau i fod yn broblem yn 2023/24, a rhagwelir cynnydd sylweddol pellach mewn ffioedd.

vii. **Contract Gofal Cartref**

Mae disgwyl i'r contract hwn gael ei adnewyddu, gyda'r contract newydd i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2023. Mae'r gyllideb bresennol tua £4.5m, a rhagwelir y bydd costau'r contract yn codi tua 15%, sy'n ystyried yr angen i sicrhau bod contractwyr yn gallu talu'r cyflog byw go iawn ac ystyried costau tanwydd uwch (cyflogaeth a thanwydd yw'r ddau brif gost o dan y contract hwn).

viii. **Gwasanaethau Plant**

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod cost Gwasanaethau Plant o fewn ei gyllideb. Fodd bynnag, mae 2022/23 wedi gweld cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli a chynnydd yn y ffioedd sy'n cael eu codi gan y darparwyr ar gyfer lleoliadau preswyl allsirol. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd Gwasanaethau Plant yn gorwario ei chyllideb o £0.7m. Daw Cartref Clyd ychwanegol yn weithredol a'r gobaith yw sicrhau cyllid grant i dalu am y costau rhedeg, ac fe allai hyn leihau'r diffyg, ond amcangyfrifir y bydd angen £1m yn ychwanegol ar gyfer y gyllideb hon yn 2023/24.

ix. **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Fel gyda Gwasanaethau Plant, mae perygl sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion (pobl hŷn, iechyd meddwl, anabledd dysgu ac ati) yn cynyddu. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau chwyddiant ar gyflogau a chostau darparwyr sector preifat. Rhagwelir y bydd y gyllideb yn gorwario £0.75m yn 2022/23, ond mae hyn ar ôl dyrannu grantiau a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae'n debyg bod y gwir ffigwr yn agosach at £3.5m i £4m.

x. **Digartrefedd**

Ers y pandemig, mae nifer yr achosion y mae'r Gwasanaeth yn delio â nhw wedi cynyddu ac yn setliad 2022/23, roedd Llywodraeth Cymru'n cynnwys cyllid ychwanegol i dalu am gost y galw ychwanegol. O ganlyniad, fe wnaeth y Cyngor gynnwys £350k yn ychwanegol yn y gyllideb, gan gynyddu'r gyllideb i tua £700k. Hefyd, rhoddodd Llywodraeth Cymru £180k yn ychwanegol o gyllid grant. Fodd bynnag, ers gosod y gyllideb, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu gyda nifer o landlordiaid preifat yn gadael y farchnad. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o ffoaduriaid o Wcráin, sydd hefyd yn golygu galwadau ychwanegol o ran llety rhent addas sydd ar gael. Dyw'r sefyllfa yma ddim yn unigryw i Ynys Môn, mae pob cyngor ar draws Cymru yn delio gyda'r un pwysau. Mae'n debygol y bydd argyfwng costau byw yn ychwanegu at y broblem wrth i denantiaid ei chael hi'n anos talu rhent yn ogystal â'r cynnydd yng nghostau ynni a bwyd. Mae'r Gwasanaeth yn edrych ar bob opsiwn i gynyddu'r cyflenwad o lety rhent sector preifat a lleihau nifer yr achosion.

xi. **Cludiant Ysgol**

Mae cyllidebau cludiant ysgol o dan bwysau cynyddol wrth i weithredwyr geisio ymdopi â phrisiau tanwydd cynyddol, galw cynyddol am gludiant i ddisgyblion sydd tu allan i'r ddarpariaeth statudol arferol a'r ffaith y bydd y contractau bysiau yn cael eu tendro ym mis Hydref, gyda chontractau tacsis i fod i gael eu hail-dendro ym mis Ionawr. Tua £1.3m yw'r gyllideb bresennol, ac nid yw cynnydd o rhwng 10% ac 20% yn y gofyniad cyllideb yn dybiaeth afresymol, yn sgil cyfraddau uwch gan gontractwyr a chynnydd yn y galw.

xii. **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i setliad llywodraeth leol, nid yw'r swm sydd yn yr Asesiad Gwariant Safonol gan Lywodraeth Cymru wedi newid i raddau helaeth. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Mae'r rhagolygon economaidd yn awgrymu cynnydd graddol mewn diweithdra, a fydd yn arwain at lwyth gwaith cynyddol. Nid yw'n glir a yw'r argyfwng costau byw yn arwain at lai o alw gan ddefnyddwyr, sy'n effeithio ar y diwydiannau manwerthu a gwasanaeth. Gall hyn arwain at fwy o ddiweithdra yn y sectorau yma. Mae pob cynnydd o 1% yn y llwyth achosion yn cynyddu'r gost o tua £60k, yn ogystal â'r cynnydd o ganlyniad i gynyddu'r Dreth Gyngor.


xiii. **Costau Cyllido Cyfalaf**

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau sy'n bodoli'n barod a rhai newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Ddarpariaeth Refeniw Isaf neu DRI). Penderfynir ar y DRI yn unol â'r Polisi DRI, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn gofyn am rywfaint o fenthyca ychwanegol ac, wrth i lefel y benthyca gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi DRI a thaliadau llog cysylltiedig hefyd yn cynyddu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn rhoi ystyriaeth i lefel y benthyca â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant y mae'r Cyngor wedi'i gynllunio ar ysgolion newydd yn Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig.

Fodd bynnag, dylid nodi bod pris gwaith adeiladu wedi cynyddu ers i'r cyfyngiadau cyfnodau clo gael eu llacio, gyda phrinder deunyddiau a llafur yn arwain at brisiau uwch. Efallai mai yn y tymor byr yn unig y bydd y cynnydd hwn mewn prisiau ac y bydd costau'n dechrau gostwng yn 2022 ond, os na fydd hyn yn digwydd, yna bydd cost prosiectau cyfalaf yn codi, a gall hyn arwain at fenthyca ychwanegol, a fydd yn arwain at gynnydd yn y costau cyllido cyfalaf. O ystyried yr ansicrwydd presennol, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r risg posibl yma yn y cynllun presennol.

**xiv. Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau**

Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cael eu codi bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu chwyddiant penodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ers nifer o flynyddoedd, mae CPI wedi parhau'n isel ac nid yw wedi bod yn ffactor sylweddol wrth benderfynu ar y gyllideb. Er hynny, mae CPI wedi codi'n sylweddol yn 2022 ac mae disgwyl iddo barhau'n uchel am y rhan fwyaf o 2023 a 2024. Mae'r graff isod yn dangos rhagolygon presennol Banc Lloegr:-




Bydd tua £30m o gyllideb y Cyngor yn cael ei effeithio gan gynnydd cyffredinol yn lefel chwyddiant. Bydd angen cywiro'r dan ddarpariaeth yng nghyllideb 2022/23 a chaniatáu ar gyfer chwyddiant hefyd yn 2023/24. Yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol a ddangosir uchod, bydd angen cynnydd o 16% yn y cyllidebau hyn i dalu am y pwysau chwyddiant. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o tua £5m yng ngofyniad y gyllideb.

## 6. INCWM

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (heb gynnwys AEF, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn dod i gyfanswm o £42.8m. Mae hyn yn cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus (£20.4m), ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth (£6.7m), ffioedd a thaliadau a bennir gan y Cyngor (£5.1m), cytundebau rhentu hirdymor (£1.3m) a gweithgareddau y gellir codi tâl amdanynt o fewn y Cyngor i wasanaethau eraill y Cyngor (£9.3m).

**6.2.** Polisi'r Cyngor yw cynyddu'r ffioedd a thaliadau dewisol 3% bob blwyddyn er, mewn rhai gwasanaethau, mae cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd a thaliadau yn golygu bod ffioedd y Cyngor wedi dod yn llawer nes at y ffioedd a godir gan y sector preifat e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.

**6.3.** Pan fydd chwyddiant yn isel, mae'r ffioedd statudol neu reoledig yn tueddu i gynyddu yn ôl cyfradd chwyddiant, fodd bynnag, o ystyried bod chwyddiant yn sylweddol uwch, efallai i weithredir y cynnydd arferol hwn yn y ffioedd hyn a gall hyn arwain at gynnydd is.

**6.4.** Yn ychwanegol i incwm o'r ffioedd a thaliadau, derbynnir swm sylweddol o incwm grant. Gall y grantiau a dderbynnir fod ar gyfer cyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector cyhoeddus, mae risg y bydd grantiau'n cael eu targedu a'u lleihau er mwyn lleihau gwariant cyhoeddus, yn hytrach na gostyngiad yn y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Yn achos grantiau sy'n cyllido prosiectau penodol, yna mae'n bosibl dirwyn y prosiect i ben os daw'r grant i ben, ond mae hyn yn anos pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu grwy gyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

**6.5.** Mae asesiadau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i weld os gall y Cyngor ddod yn Awdurdod Iechyd Porthladd ar gyfer porthladd Caergybi. Gallai hyn fod yn gyfle i'r Cyngor gynhyrchu refeniw net ychwanegol. Mae hi'n rhy fuan i ddweud os yw hyn yn bosibl, ond mae'n debygol, ar y cychwyn, mai'r canlyniad tebygol fydd sefyllfa gytbwys, gyda'r incwm yn ddigonol i dalu'r costau rhedeg. O ganlyniad, ni wnaed lwfans yn y cynllun ar gyfer yr incwm ychwanegol posibl.

## 7. Y GYLLIDEB RAGAMCANEDIG AR GYFER 2023/24 – 2024/25

**7.1.** Trwy ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a chan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Fe'i dangosir yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Cyllideb Gwariant Refeniw Net Ragamcanedig 2023/24 i 2024/25**

| | 2023/24<br>£'m | 2024/25<br>£'m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **158.367** | **176.514** |
| Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon | 4.292 | 1.682 |
| Dyfarniad Cyflog Athrawon | 1.725 | 1.394 |
| Contractau Gwasanaeth Mawr | 1.925 | 0.687 |
| Chwyddiant Ynni | 2.955 | 2.023 |
| Chwyddiant arall nad yw'n gysylltiedig â chyflogau | 5.607 | 1.361 |
| Incwm | (2.117) | (1.415) |
| Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 1.906 | 1.086 |
| Galw yn y Gwasanaethau Plant | 0.497 | 0.519 |
| Galw yn y Gwasanaethau Oedolion | 0.521 | 0.543 |
| Cludiant Ysgol | 0.212 | 0.055 |
| Digartrefedd | 0.173 | 0.043 |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gy | 0.126 | 0.129 |
| Pwysau Cyllidebol Arall | 0.325 | (0.104) |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net** | **176.514** | **184.517** |
| | | |
| **Cynnydd Blynyddol** | **18.147** | **8.003** |
| **Canran y Cynnydd Blynyddol** | **11.46%** | **4.53%** |

**7.2.** Mae'r Gyllideb Refeniw Net amcangyfrifiedig yn cynrychioli cynnydd o 16.5% dros y cyfnod 2 flynedd.

**7.3.** Mae rhagor o fanylion am y Gyllideb Refeniw Net amcangyfrifedig a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.

**7.4.** Mae'r ffigyrau a ddangosir uchod yn seiliedig ar y senario mwyaf tebygol ar gyfer yr holl ragdybiaethau. Mae senarios gorau a gwaethaf posibl hefyd wedi'u modelu, sy'n dangos cynnydd yn y gyllideb refeniw net o £7.1m (4.5%) yn 2023/24 a £2m (1.3%) yn 2024/25 o dan y senario orau bosibl, a chynnydd o £33.0m (21%) yn 2023/24 a £19.9m (10%) yn 2024/25 o dan y senario gwaethaf posibl. Mae'r 3 senario yn rhoi ystod eang o amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb refeniw net angenrheidiol am y ddwy flynedd nesaf, ac mae'n dangos y lefel sylweddol o ansicrwydd sy'n bodoli ynghylch chwyddiant a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud y dasg o gynllunio ariannol yn anodd iawn.

## 8. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1.** Cyllidir y gyllideb ddisymud amcangyfrifedig o'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2.** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cynnydd dangosol ar gyfer 2023/24 a 2024/25, ond roedd y ffigyrau'n seiliedig ar y sefyllfa cyn y cynnydd sydyn mewn chwyddiant. Roedd y codiadau dangosol yn 3.6% yn 2023/24 a 2.4% yn 2024/25.

**8.3.** Yn 2022/23, derbyniodd Ynys Môn £114.551m mewn Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru, gyda'r £43.816m oedd yn weddill yn dod o'r Dreth Gyngor.

**8.4.** Mae Tabl 3 isod yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn eu cael ar gyllid y Cyngor (gan gymryd nad oes newid yn sylfaen y Dreth Gyngor) ac y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn sgil cynnydd ym mhremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cyllidebau ar brosiectau i helpu gyda chyflenwi tai fforddiadwy ar yr Ynys h.y. heb unrhyw effaith ar y gyllideb.

**Tabl 3**

**Effaith ar Newidiadau yn y AEF a'r Dreth Gyngor ar Gyllid y Cyngor ar gyfer 2023/24**

| | | **Newid yn yr AEF – Swm Ariannol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **+3%** | **+4%** | **+5%** | **+6%** | **+7%** | **+8%** | **+9%** | **+10%** |
| | | **£'m** | | | | | | | |
| **Cynnydd yn y Dreth Gyngor (heb gynnwys cynnydd yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)** | **3%** | +4.75 | +5.90 | +7.04 | +8.19 | +9.33 | +10.48 | +11.62 | +12.77 |
| | **4%** | +5.19 | +6.33 | +7.48 | +8.63 | +9.77 | +10.92 | +12.06 | +13.21 |
| | **5%** | +5.63 | +6.77 | +7.92 | +9.06 | +10.21 | +11.35 | +12.50 | +13.65 |
| | **6%** | +6.06 | +7.21 | +8.36 | +9.50 | +10.65 | +11.79 | +12.94 | +14.08 |
| | **7%** | +6.50 | +7.65 | +8.79 | +9.94 | +11.09 | +12.23 | +13.38 | +14.52 |
| | **8%** | +6.94 | +8.09 | +9.23 | +10.38 | +11.52 | +12.67 | +13.81 | +14.96 |
| | **9%** | +7.38 | +8.53 | +9.67 | +10.82 | +11.96 | +13.11 | +14.25 | +15.40 |
| | **10%** | +7.82 | +8.96 | +10.11 | +11.25 | +12.40 | +13.55 | +14.69 | +15.84 |

## 9. BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

**9.1.** Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn cynnwys digon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn, na ellir ei gyllido o'r gyllideb refeniw neu gyfalaf presennol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig, i dalu am gost risgiau posibl, cost prosiectau sydd wedi'u cynllunio yn y dyfodol a chynnal cyllid grant nas defnyddiwyd neu unrhyw gyllid cyfyngedig arall sydd gan y Cyngor. Ers 2021/21, gall pob Gwasanaeth hefyd gadw ei gronfa wrth gefn ei hun ar gyfer y gwasanaeth, a grëir o danwariant yn y flwyddyn flaenorol, y gellir eu defnyddio ar brosiectau penodol a nodwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth, sy'n bodloni meini prawf penodol. Y lefel uchaf o gronfeydd wrth gefn y gall unrhyw wasanaeth ei chadw yw 2.5% o'r gyllideb refeniw net, neu £75k, pa un bynnag yw'r uchaf.

**9.2.** Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan y Cyngor £12.05 miliwn o falansau cyffredinol a £23.181m fel cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Y strategaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor ar gyfer balansau cyffredinol yw cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2022/23, dylai'r isafswm yn y balans cyffredinol fod yn £7.92m. Yn ystod 2022/23, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio £0.76m o falansau cyffredinol, sy'n lleihau lefel y balansau cyffredinol i £11.29m, sy'n £3.37m yn uwch na'r balans lleiaf angenrheidiol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai unrhyw orwario ar gyllideb refeniw 2022/23 yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol ac mae perygl y bydd swm y balansau cyffredinol yn nes at yr isafswm o 5% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

**9.3.** Canfu'r adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig y gallai tua £1.4m gael ei drosglwyddo'n ôl i falansau cyffredinol. Mae £7m arall o arian wrth gefn wedi cynllunio at ddefnydd penodol ond ni wnaed unrhyw ymrwymiad ffurfiol, a gellid ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyllid ychwanegol pe bai angen. Mae angen y £14.6m sy'n weddill i dalu am risgiau posibl yn y dyfodol, mae cyllid eisoes wedi ymrwymo neu mae'r defnydd o'r gronfa wedi'i chyfyngu i'r diben a nodwyd.

## 10. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**10.1.** Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen £18.15m ychwanegol ar gyfer y pwysau chwyddiant ar gyfer darparu'r gwasanaeth presennol ac ar gyfer gofynion y pwysau ar y gyllideb yn 2023/24, er y dylid nodi bod y ffigwr hwn yn seiliedig ar dybiaethau, a bydd angen gwneud addasiadau wrth i'r broses gyllideb fynd yn ei blaen.

**10.2.** Gellir ei weld o Dabl 3, hyd yn oed gyda chynnydd o 10% yn AEF a'r Dreth Gyngor, ni fydd y cyllid ychwanegol yn ddigon i gyllido'r costau ychwanegol. Pe bai'r AEF yn codi 3.6% a phe bai'r Dreth Gyngor yn codi 5%, byddai hyn ond yn creu £6.3m mewn cyllid ychwanegol, gan adael bwlch cyllidol o £11.85m.

**10.3.** Fel y dangosir ym mharagraff 9, mae gan y Cyngor rywfaint o allu i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i helpu i leihau'r bwlch cyllido, ond wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae risgiau i'r graddau nad ydynt yn ffynhonnell incwm gylchol ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dileu'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Yn ogystal â hyn, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn lleihau cronfeydd ariannol y Cyngor ac yn gwanhau ei sefyllfa ariannol. Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw lefel y cronfeydd sy'n cael eu defnyddio yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa lle nad oes ganddo ddigon o gyllid i dalu am unrhyw wariant annisgwyl, neu i fynd i'r afael â risgiau posibl os ydynt yn arwain at sefyllfa sy'n gofyn am weithredu a chyllid.

**10.4.** Mae'n ofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i osod cyllideb gytbwys bob blwyddyn, lle mae'r gyllideb yn amcangyfrif teg a rhesymol o'r costau a wynebir i ddarparu'r gwasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gyllideb yn ymwneud â hi, ac y gellir cyllido'r gost amcangyfrifiedig o gyllid Llywodraeth Cymru, y Dreth Gyngor a chronfeydd wrth gefn a balansau. Os yw lefel y cyllid yn annigonol, mae hynny ond yn gadael yr opsiwn o leihau'r gyllideb gwariant net i'r lefel o gyllid sydd ar gael.

**10.5.** Unwaith eto gan dybio bod y bwlch cyllido yn £11.85m, mae hyn yn cyfateb i arbedion refeniw o 7.5% o gyllideb gwariant net 2022/23. Ond mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor ac mae'n rhaid eu cyllido, mae'r rhain yn cynnwys:-

- Ardoll yr Awdurdod Tân – £3.96m yn 2022/23
- Costau Cyllido Cyfalaf – £7.21m yn 2022/23
- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor – £6.30m yn 2022/23
- Costau Pensiwn Hanesyddol – £1.06m yn 2022/23
- Taliad Diffyg Blynyddol y Cynllun Llywodraeth Leol – £0.84m yn 2022/23
- Lwfansau Aelodau – £0.96m yn 2022/23
- Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.37m yn 2022/23
- Costau'r Crwneriaid - £0.20m yn 2022/23
- Gwasanaethau ar y Cyd ag Awdurdodau Lleol Eraill - £2.42m yn 2022/23

**10.6.** Felly, mae'n rhaid i unrhyw arbedion ddod o'r cyllidebau sy'n weddill (£135m yn 2022/23) ac mae hyn yn cyfateb i arbedion o 8.8% o'r cyllidebau lle mae'n bosibl gwneud arbedion arnynt.

**10.7.** Fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer cyllideb 2021/22, gofynnwyd i wasanaethau nodi arbedion posibl, er, nid oedd angen gweithredu'r arbedion hyn gan fod cyllid ychwanegol wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru. Fe wnaeth y cynigion nodi £3.1m mewn arbedion, er na chefnogwyd £1.5m o'r cynigion hyn gan yr Aelodau ar y pryd. Roedd angen gwaith pellach ar £0.9m cyn gallu eu gweithredu. O'r £0.6m sy'n weddill, mae'n bosibl bod rhywfaint o'r arbedion wedi cael eu gweithredu eisoes neu efallai bod y sefyllfa wedi newid, sy'n golygu nad yw'n bosibl gweithredu'r cynnig. Fodd bynnag, fe ddangosodd y broses mai prin yw nifer yr arbedion a gynigiwyd y gellir eu gweithredu ac na fydd yn sicrhau'r gofyniad posibl o ran arbedion. Er mwyn cyflawni'r gostyngiad yn y gyllideb gwariant net a allai fod ei angen, bydd angen newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a / neu bydd yn rhaid i rai gwasanaethau gael eu lleihau'n sylweddol neu eu stopio'n gyfan gwbl.

**10.8.** Wrth edrych ymlaen at 2024/25, byddai'r AEF a'r Dreth Gyngor yn cynhyrchu £5.148m ychwanegol (yn seiliedig ar gynnydd o 2.4% yn AEF a 5% yn y Dreth Gyngor). Byddai hynny'n golygu bod hyd at £169.83m o adnoddau ar gael, a byddai'r gyllideb refeniw net amcangyfrifiedig i gyllido'r lefel bresennol o wasanaeth a galw yn £184.52m, gan adael diffyg o £14.69 miliwn. Mae £11.85m o'r ffigwr hwn yn ymwneud â diffyg yn y gyllideb a ddygwyd ymlaen o 2023/24, gan adael diffyg o £2.84m yn ychwanegol yng nghyllideb 2024/25.

## 11. CASGLIADAU

**11.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi'r gyllideb refeniw net amcangyfrifiedig am y 2 flynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, ac mae rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth cyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion sy'n cynyddu'r ansicrwydd ynghylch y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrifo costau'r dyfodol ar adeg pan fo chwyddiant yn codi'n gyflym, amcangyfrifo y galw am wasanaethau wrth i'r wlad barhau i symud allan o'r pandemig ac i gyfnod adfer, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor a chyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn sgil penodi Prif Weinidog newydd a strategaeth economaidd newydd i'r DU. Mae lefel y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn elfen allweddol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac mae diffyg rhagolygon cywir yn y dyfodol ar lefel y cyllid yn lleihau lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei roi.

**11.2.** Bydd y galw am wasanaethau a'r pwysau i gynyddu cyflog rhai rhannau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr mewn gwasanaethau dan gontract) yn cynyddu costau'n sylweddol, yn enwedig yn 2023/24. Os nad yw'r pwysau ychwanegol yma mewn costau'n cael eu hadlewyrchu yn y setliad cyllid gan Lywodraeth Cymru, yna bydd rhaid i'r Cyngor wneud toriadau pellach i wasanaethau ac / neu'n godi'r Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys, sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn adlewyrchu'n gywir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.

**ATODIAD 2**

## RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

| SENARIO MWYAF TEBYGOL | | |
|---|---|---|
| | **2023/24** | **2024/25** |
| **Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau** | | |
| Cyflog, yswiriant gwladol a chostau pensiwn – staff nad ydynt yn Dysgu | 7.8% | 3.0% |
| Cyflog, yswiriant gwladol a chostau pensiwn – Athrawon | 5.2% | 3.2% |
| Cyfradd Cyfraniad Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) | 0.0% | 0.0% |
| Cyfradd Cyfraniad Pensiwn Athrawon | 0.0% | 4.9% |
| Trydan | 75.5% | 20.0% |
| Nwy | 200.0% | 57.5% |
| Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) | 16.4% | 1.8% |
| Prif Gontractau Gwasanaeth | 7.0% - 15.0% | 3.0% - 7.0% |
| Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol | 5.0% - 15.0% | 3.0% |
| Ffioedd a Thaliadau | 3.0% - 5.0% | 3.0% |
| Y Dreth Gyngor | 5.0% | 5.0% |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 3.6% | 2.4% |
| Grantiau'r Llywodraeth | 3.6% | 2.4% |
| Ardollau | 8.0% | 5.0% |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 0.0% | 0.0% |
| | | |
| **Pwysau Galw** | | |
| Lleoliadau Plant | 9.0% | 9.0% |
| Lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion | 1.0% - 3.5% | 1.0% - 3.5% |
| Cludiant Ysgolion | 15.0% | 3.0% |
| Digartrefedd | 25.0% | 5.0% |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 2.0% | 2.0% |
| | | |

**CRYNODEB ANCANGYFRIFOL O GYLLIDEB REFENIW NET 2023 / 24 – 2024 / 25**

| | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m | 2024/25 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyflog – staff nad ydynt yn dysgu yn cynnwys Pensiwn ac yswiriant gwladol | 55.096 | 59.488 | 61.171 |
| Cyflog - athrawon yn cynwys yn cynnwys pensiwn ac yswiriant gwladol | 33.000 | 34.726 | 36.120 |
| Costau arall staff | 4.606 | 5.039 | 5.106 |
| Costau adeiladau | 6.650 | 7.793 | 7.880 |
| Ynni | 2.567 | 5.522 | 7.545 |
| Cludiant | 1.276 | 1.486 | 1.513 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 20.660 | 23.980 | 24.374 |
| Cludiant Ysgol | 3.311 | 4.011 | 4.178 |
| Prydau Ysgol | 1.884 | 2.016 | 2.076 |
| Addysg - Lleoliadau All-sirol | 0.849 | 0.900 | 0.935 |
| Addysg -Trefniadau ar y Cyd | 2.319 | 2.488 | 2.564 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion | 24.588 | 26.761 | 28.107 |
| Lleoliadau Gofal Plant | 7.128 | 7.878 | 8.681 |
| Casglu a Gwaredu Gwastraff | 7.460 | 7.924 | 8.162 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd | 4.088 | 4.404 | 4.553 |
| Cludiant Bws Gwasanaeth Cyhoeddus | 1.328 | 1.527 | 1.573 |
| Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf | 0.697 | 0.732 | 0.768 |
| Digartrefedd | 0.691 | 0.978 | 1.038 |
| Lwfans a Threuliau Aelodau | 0.965 | 1.004 | 1.034 |
| Crwneriaid | 0.201 | 0.207 | 0.213 |
| Gwasanaeth Tân ac Ardollau Arall | 3.957 | 4.274 | 4.488 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Arall | 6.486 | 6.927 | 7.393 |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 7.209 | 7.209 | 7.209 |
| Cronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl | 2.110 | 1.623 | 1.666 |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **199.126** | **218.897** | **228.347** |
| | | | |
| Grantiau | (20.373) | (20.931) | (21.718) |
| Ffioedd a Thaliadau | (11.781) | (12.214) | (12.606) |
| Ad-daliadau | (7.281) | (7.874) | (8.101) |
| Rhenti | (1.324) | (1.364) | (1.405) |
| **CYFANSWM INCWM GROS** | **(40.759)** | **(42.383)** | **(43.830)** |
| | | | |
| **GWARIANT REFENIW NET** | **158.367** | **176.514** | **184.517** |
| | | | |
| **Cynydd yng Nghyllideb Refeniw Net** | | **+18.147** | **+8.003** |
| | | | |
| **% Cynydd yng Nhyllideb Refeniw Net** | | **+ 11.46%** | **+4.53%** |

## CRYNODEB AMCANGYFRIFOL O GYLLIDEB REFENIW NET YN ÔL GWASANAETH 2023 /24 – 2024 / 25

| | 2022/23 £'m | | 2023/24 £'m | | 2024/25 £'m | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu Economaidd | 0.861 | | 0.947 | | 0.975 | |
| Cyrchfan | 0.701 | | 0.819 | | 0.840 | |
| Hamdden | 0.651 | | 1.220 | | 1.550 | |
| Cynllunio | 0.881 | | 1.033 | | 1.055 | |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1.524 | | 1.684 | | 1.738 | |
| **Rheoleiddio** | | **4.620** | | **5.703** | | **6.158** |
| Priffyrdd | 6.892 | | 7.778 | | 8.015 | |
| Eiddo | 1.508 | | 2.016 | | 2.175 | |
| Gwastraff | 9.164 | | 10.122 | | 10.457 | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | **17.564** | | **19.916** | | **20.647** |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | **29.964** | | **33.486** | | **35.237** |
| **Gwasanaethau Plant** | | **11.715** | | **13.116** | | **14.094** |
| Ysgolion | 44.919 | | 49.778 | | 52.570 | |
| Addysg Ganolog | 11.215 | | 13.452 | | 13.858 | |
| Diwylliant | 1.270 | | 1.572 | | 1.689 | |
| **Addysg a Diwylliant** | | **57.404** | | **64.801** | | **68.117** |
| Adnooddau Dynol | 1.475 | | 1.625 | | 1.668 | |
| TGCh | 3.704 | | 4.157 | | 4.231 | |
| Trawsnewid | 1.029 | | 1.114 | | 1.142 | |
| **Trawsnewid** | | **6.208** | | **6.896** | | **7.041** |
| **Tai** | | **1.914** | | **2.329** | | **2.428** |
| **Adnoddau** | | **3.429** | | **3.760** | | **3.868** |
| **Busnes y Cyngor** | | **1.822** | | **2.010** | | **2.063** |
| **Rheolaeth Corfforaethol** | | **0.736** | | **0.794** | | **0.818** |
| Cyllido Cyfalaf | 7.209 | | 7.209 | | 7.209 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau | 6.486 | | 6.927 | | 7.397 | |
| Ardollau | 3.957 | | 4.274 | | 4.488 | |
| Costau staff nad yw'n ymwneud â gwasanaeth | 1.602 | | 1.630 | | 1.641 | |
| Cyllidebau Arall nad yw'n ymwneud â gwasanaeth | 0.627 | | 0.811 | | 0.638 | |
| Cronfeydd ar gyfer digwyddiadau annisgwyl | 3.110 | | 2.851 | | 2.671 | |
| **Di-Wasanaeth** | | **22.991** | | **23.701** | | **24.046** |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | | **158.367** | | **176.514** | | **184.517** |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **27/09/2022** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad rhanbarthol a lleol** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | - **Y Cynghorydd Gary Pritchard-** Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid.<br>- **Y Cynghorydd Alun Roberts-** Gwasanaeth Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Fon Roberts-** Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Plant a Gwasanaethau Ieuenctid.<br><br>**Arwel Owen-** Pennaeth Gwasanaethau Oedolion. |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Arweinydd / Uwch-Swyddog Cyfrifol Rhanbarthol:** Morwena Edwards a Clare Darlington (Cyd-Gadeiryddion y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol).<br>**Swyddog Cyswllt Rhanbarthol:** Sarah Bartlett / Catrin Perry.<br><br>**Swyddog Cyswllt Lleol:** Emma Edwards- Rheolwr Busnes Gwasanaethau Cymdeithasol<br>01248 751887 EmmaEdwards@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i Fôn i gyd** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhelliad:

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.
Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Sir Fôn.

Rheswm:

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Cod Ymarfer ar gyfer paratoi Adroddiadau Sefydlogrwydd Marchnad i gefnogi'r gofyniad hwn a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Mae Cod Ymarfer ASF yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio mewn partneriaeth i baratoi a chyhoeddi adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn seiliedig ar ddata ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn ogystal â fersiwn agregedig ar ôl troed y BPRh. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi:

*"Mae'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd marchnad, fel y'i nodir yn Neddf 2014, yn eistedd gyda phob awdurdod lleol, ond mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni'r swyddogaeth hon ar ôl troed rhanbarthol ac mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol, fel y bydd un adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r saith ardal BPRh ledled Cymru*" [CY Adran 3.11]

Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod adroddiad sefydlogrwydd marchnad hefyd yn cynnwys asesiad o'r farchnad ar gyfer gofal a chymorth ym mhob ardal awdurdod lleol yn ogystal ag ar draws ardal BPRh yn ei chyfanrwydd [CY Adran 3.13]

Fel hyn, bydd yr adroddiad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol a lleol ynghylch comisiynu gofal a chymorth (yn enwedig, ond nid yn unig, gwasanaethau rheoledig), gan fwydo i mewn i'r cynllun ardal strategol ar gyfer ardal BPRh a helpu i lunio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol [CY Adran 3.14].

Wrth baratoi eu hadroddiadau sefydlogrwydd marchnad, rhaid i awdurdodau lleol gynnal, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaid eraill y BPRh, asesiad o ddau agwedd:

a) **digonolrwydd y gofal a'r cymorth i ddiwallu anghenion** a galw am ofal cymdeithasol fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth, a

b) **sefydlogrwydd y farchnad** ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth [ CY Adran 4.2].

Mae'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad yn canolbwyntio ar wasanaethau rheoledig. Y rhain yw:

- gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaethau llety diogel (ar gyfer plant)
- gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaethau mabwysiadu
- gwasanaethau maethu
- gwasanaethau lleoli oedolion ('bywydau a rennir')
- gwasanaethau eiriolaeth
- gwasanaethau cymorth/gofal cartref

Mae Cod Ymarfer ASF hefyd yn nodi, er nad yw gwasanaethau ataliol yn wasanaethau a reoleiddir, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol nodi ystod a lefel y gwasanaethau ataliol y bydd eu hangen i ddiwallu'r

anghenion hynny a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac asesu sut y gall argaeledd gwasanaethau ataliol hefyd gael effaith fawr ar yr angen am wasanaethau rheoledig. Felly, rhaid ystyried gwasanaethau ataliol fel rhan o'r ASF.

Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi themâu eraill y mae'n rhaid eu hystyried yn yr ASF gan gynnwys:

a) Gwerth Cymdeithasol

b) Y Gymraeg

c) Gweithlu


d) Taliadau Uniongyrchol a darpariaeth a ariennir ei hun

Mae cysylltiad cryf rhwng yr ASF ac Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 a gynhyrchwyd yn ddiweddar lle mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn nodi'r angen a'r galw ar hyn o bryd ac a ragwelir am ofal a chymorth, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen i ateb y galw hwnnw. Bydd yr adroddiad sefydlogrwydd marchnad yn asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir i ddiwallu'r anghenion a'r galw a adnabyddwyd yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

Er bod yr ASF yn ofyniad statudol, nid dyma'r prif reswm dros wneud y gwaith. Mae'r ASF yn ddogfen hanfodol sy'n darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth, yn benodol mae i'w defnyddio ar gyfer cynllunio strategol sy'n sail i integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

Mae swyddogion wedi treulio llawer o amser yn cynhyrchu papurau gwaith lleol, dadansoddiad data ac ymchwil i lywio'r adroddiad rhanbarthol. Mae'r papurau gwaith hyn, er nad ydynt wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad rhanbarthol, yn ddogfennau cynllunio gwerthfawr. Mae'r dull a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y gwaith hwn wedi'i nodi yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur1 – Dull Gogledd Cymru o ddatblygu'r AAP&ASF**






F1.3: Ebrill 2021

Bydd y dogfennau AAP ac ASF yn cael eu defnyddio i gynllunio cynllun cyflawni lleol a rhanbarthol a chynlluniau datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Mae hefyd yn hanfodol bod y ddwy ddogfen yn cael eu diweddaru a'u bod yn cael eu defnyddio fel dogfen fyw ar gyfer cynllunio parhaus. Felly, bydd Grŵp Llywio AAP-ASF [gweler Ffigur 1] yn parhau i gyfarfod i gynnal yr adolygiad diweddaru a pharhaus hwn o'r ddwy ddogfen ac i weithio gyda'r timau lleol ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu/cyflawni rhanbarthol a lleol.

Mae'r gofyniad i lunio adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn cyfnod amser mor fyr wedi cyfyngu beth a ellir ei gynnwys. Mae'r gwaith wedi'u paratoi yn ystod cyfnod heriol iawn yn sgil pwysau a heriau capasiti ad draws y sefydliadau partneriaeth. Mae wedi golygu cryn dipyn o ymdrech gan swyddogion i wneud yn siŵr bod dogfen ystyrlon yn cael ei chreu.

Dylid nodi nad yw rhai o'r ffynonellau data cenedlaethol ar y farchnad gofal ar gael ac felly yr ydym wedi dibynnu'n drwm ar wybodaeth gomisiynu leol a rhanbarthol.

Nid yw'r ddogfen ASF terfynol felly yn berffaith ac rydym yn argymell diweddaru wrth i ddata cenedlaethol newydd ddod ar gael a bod mwy o waith yn cael ei wneud yn lleol e.e. effaith Covid, heriau ariannol ac effaith ail-gydbwyso gofal cymdeithasol ar y farchnad gofal. Byddwn yn datblygu proses barhaus i wella a diweddaru'r ASF fel ei fod yn parhau'n ystyrlon ac yn gyfredol. Bydd hyn hefyd yn helpu i'w wneud yn broses fwy hylaw.

Mae'r ASF wedi'i greu ar y cyd ac wedi'i arwain gan waith ymgysylltu. Cynhaliodd swyddogion arweiniol lleol a rhanbarthol ddadansoddiad o'r data, adolygiadau o'r llenyddiaeth gefndir, adolygiadau o wasanaethau a gwaith ymgysylltu ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar faterion penodol. Mae'r materion allweddol a'r themâu a nodwyd yn seiliedig ar ymgynghoriad ac adborth gan staff, sefydliadau partner, cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion.

O'r herwydd mae ein dull cydgynhyrchu yn golygu bod gennym ni ddogfen ASF sy'n ystyrlon ac yn seiliedig ar wybodaeth gan gynnwys amrywiaeth eang o bobl, o gymharu â dogfen wedi'i chreu ar ei phen ei hun yn ystod ymarfer pen desg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae copi o'r adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Ranbarthol ac Ynys Môn wedi eu hatodi er eich gwybodaeth.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| -Mae'r ASF yn ofyn statudol, does dim opsiynau erill ar gael. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dylid cyfeirio at adran A |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r asesiad o ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a reoleiddir yn yr ASF yn ychwanegu at asesu anghenion gofal a chymorth y boblogaeth a gynhwysir yn y AAP. Mae'r dogfennau AAP a'r ASF yn cyfrannu at gylchoedd cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, o ganlyniad bydd hyn yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol yr awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ei phoblogaeth breswyl.<br><br>Rhaid llunio Asesiad Llesiant fel un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ystyriodd yr asesiad poblogaeth anghenion gofal a chymorth y boblogaeth tra bod yr Asesiad Llesiant yn cwmpasu ffyniant, iechyd, gwydnwch, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb byd-eang a chymunedau cydlynol. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau felly mae tîm prosiect yr ASF yn cysylltu â swyddogion ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch cynnydd yr asesiadau o anghenion ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | asesiadau lles ac yn rhannu gwybodaeth lle bo angen.<br><br>Yn ogystal â llywio ein cynlluniau lleol, bydd cam nesaf y prosiect hefyd yn cynnwys defnyddio'r asesiad poblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd y farchnad i ddatblygu cynllun ardal ar gyfer y rhanbarth. Gall gwaith ar y cynllun ardal yn y dyfodol gynnwys ymchwil ac ymgynghori pellach i archwilio meysydd blaenoriaeth yn fanylach cyn cytuno pa feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol. Bydd y cynllun ardal yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Dim yn uniongyrchol ond mi fydd yr wybodaeth yn yr ASF yn cyfarwyddo penderfyniadau yn y dyfodol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Do- Y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol a'r Bwrdd Partnerieth Rhanbarthol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain ar y gwaith ar gyfer grwpiau technegol, ymgysylltu data a themâu eraill, er mwyn arwain ar dasgau penodol. Mae aelodaeth o grwpiau o bob awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill gyda diddordeb yn yr asesiad o anghenion megis swyddogion a gyfer y BGC.<br><br>Roedd ymgysylltu â'r ASF yn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a'u tystiolaeth; ymgysylltu â gwahanol ddarparwyr sector e.e. y trydydd sector a hefyd gweithdai lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyda darparwyr. Mae hyn wedi darparu data ansoddol cyfoethog i lywio'r ASF. Mae canfyddiadau pellach ar gael ar y gronfa ddata ymgysylltu cydweithredu rhanbarthol, sy'n brosiect parhaus i wella'r gwaith o gydgysylltu gweithgareddau ymgysylltu ar draws y rhanbarth a galluogi gwell defnydd o'r canfyddiadau. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael wrth ofyn. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Mae pob maes o Ofal Cymdeithasol wedi cael ystyriaeth wrth ddatblygu'r ASF. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r adroddiad ar gael yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu anghenion yr Iaith Gymraeg yn benodol. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | D/B |
| 5 | Eiddo | D/B |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | D/B |
| 7 | Caffael | D/B |
| 8 | Sgriwtini | Bydd yr adroddiad hwn yn cael eu drafod gan y Pwyllgro Sgriwtini Adfywio a Partneriaethol ar Fedi 26, 2022 |
| 9 | Aelodau Lleol | D/B gan fod yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r ynys i gyd. |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad 1- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru (Mehefin 2022)<br><br>Atodiad 2- Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Sir Fô (Mehefin 2022) |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Mae'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth (AAP) diweddar wedi cynorthwyo yn dylanwadu ar yr ASF.<br><br>https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-o-anghenion-poblogaeth-gogledd-cymru/<br><br>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) (yn cynnwys yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol) |

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Adroddiad Sefydlogrwydd ar y Farchnad Gogledd Cymru

Drafft 0.4 (Mehefin 2022)

## Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712432

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 4

2. Crynodeb ........ 9

3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion) ........ 14

4. Gwasanaethau gofal cartref ........ 52

5. Gwasanaethau preswyl (plant) ........ 91

6. Gwasanaethau maethu ........ 121

7. Gwasanaethau mabwysiadu ........ 146

8. Gofalwyr di-dâl ........ 149

9. Gwasanaethau eirioli ........ 157

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o ddigonolrwydd a gynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol. Mae'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad wedi ei lunio gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a). Dyma Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf i gael ei lunio ac mae'n ystyried canfyddiadau o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth Gogledd Cymru 2022.

## 1.2 Pwrpas yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad

Mae'r adroddiad yn ein helpu ni i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, fel y gallwn gomisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth yn effeithiol.

Bydd yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn asesu:

- Digonolrwydd gofal a chymorth o ran bodloni anghenion a gofynion ar gyfer gofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth
- sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau rheoli

Gwasanaethau rheoli yw'r rhai a restrir yn y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiad) a Gwasanaethau Rheoli (Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021. Ar hyn o bryd, y rhain yw:

- gwasanaeth cartref gofal (oedolion a phlant)
- gwasanaeth llety diogel (i blant)
- gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd
- gwasanaeth mabwysiadu
- gwasanaeth maethu
- lleoliadau oedolion
- gwasanaeth gofal cartref

- gwasanaeth eirioli

Yr asesiad yw'r sail y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud penderfyniadau i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth at y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynlluniau ardal lleol, strategaeth comisiynu strategol a datganiadau sefyllfa'r farchnad.

Mae'r asesiad wedi'i wneud ar y cyd gan y chwe chyngor lleol sydd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y chwe chyngor lleol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Nod yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yw gwella ein dealltwriaeth o'r farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, a sut fydd hyn yn datblygu a newid dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y canfyddiadau o fewn yr asesiad hwn yn cynorthwyo pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth i ddarparu gwasanaethau gwell a digonol i'n trigolion sydd angen gofal a chymorth.

# 1.3 Dulliau ymchwil

Mae'r dulliau ymchwil yn cynnwys:

- Dadansoddi setiau data lleol a chenedlaethol i ddod o hyd i dueddiadau.
- Tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd.
- Tystiolaeth o ymchwil lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Blaenoriaethau o bolisïau / strategaethau / cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymatebion i'r arolwg rhanbarthol ac ymarferion ymgynghori eraill gan drigolion, sefydliadau, staff a darparwyr.

# 1.4 Ymgynghori ac ymgysylltu

Mae Cod Ymarfer (Llywodraeth Cymru, 2021a) yn datgan fod rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i ymgysylltu â dinasyddion. Fel rhagflaenydd i'r adroddiad sefydlogrwydd y farchnad, mae asesiad o anghenion y boblogaeth wedi cyflawni ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu rhanbarthol ar raddfa fawr yn seiliedig ar egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac

egwyddorion cyd-gynhyrchu. Rhoddodd yr ymarfer hwn fewnwelediad o effaith uniongyrchol sefydlogrwydd a chynaliadwyedd y farchnad gofal cymdeithasol ar bobl gydag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn yr asesiad o les y boblogaeth.

Roedd darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol cofrestredig yn ymgysylltu trwy arolwg darparwr rhanbarthol. Anfonwyd gwahoddiad i holl ddarparwyr cofrestredig ar draws y rhanbarth i gwblhau'r arolwg trwy'r comisiynwyr. Derbyniwyd 63 ymateb.


Yn ogystal, mae timau lleol hefyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hynny'n cael ei wneud yn rhanbarthol. Cafodd penodau drafft hefyd eu rhannu gyda phartneriaid ar gyfer adborth a sylwadau.

# 1.5 Llywodraethu'r prosiect

Gofynnodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Fwrdd Comisiynu Gogledd Cymru oruchwylio'r prosiect. Fe wnaethant sefydlu grŵp llywio rhanbarthol i gydlynu datblygiad yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r chwe awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd trefniadau rheoli'r prosiect yn sicrhau bod cysondeb ar gyfer yr holl bartneriaid wrth lunio adroddiad rhanbarthol. Lluniwyd adroddiadau prosiect rheolaidd ac fe gawsant eu rhannu â'r byrddau rhanbarthol yn ôl yr angen.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gymeradwyo gan y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Diagram 1: Trefniadau llywodraethu'r prosiect**




# 1.6 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd

Mae paratoi un asesiad hygyrch o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad ar draws chwe awdurdod lleol ac ardal un bwrdd iechyd o fewn y terfynau amser wedi bod yn broses heriol. Roedd pwysau ychwanegol Covid-19 yn cyfrannu at hynny. Diolch i ymdrechion tîm y prosiect, grŵp llywio'r prosiect a oedd yn cynnwys arweinwyr lleol, yr is-grŵp data, y grŵp ymgysylltu, timau

sefydliadau partner, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a darparwyr fe gyd-gynhyrchwyd yr adroddiad hwn.

Un o'r prif heriau oedd cael gafael ar ddata o ansawdd da am y boblogaeth a'r farchnad gofal cymdeithasol.  Ni fydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i'w gynnwys yn yr asesiad ac nid oedd nifer o ddangosyddion ar gael oherwydd newidiadau i'r modd mae data'n cael ei gasglu ers yr asesiad diwethaf a gan fod rhywfaint o waith casglu data wedi'i ohirio oherwydd Covid-19.

Argymhellir bod grŵp llywio'r y grwp llywio ar y cyd asesiad o anghenion y boblogaeth ac adroddiad sefydlogrwydd marchnad yn parhau i drefnu cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio'r diweddariadau a gwneud rhagor o argymhellion ynglŷn â sut i wella ansawdd, argaeledd a chydlyniant y data i lywio asesiadau o anghenion yn y dyfodol.

# 2. Crynodeb

## Crynodeb o flaenoriaethau rhanbarthol

Mae gofal cartref (gofal yng nghartrefi'r bobl eu hunain) yn farchnad flaenoriaethol sydd wedi'i dynodi gan gomisiynwyr, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â'r galw ers cryn amser bellach o ganlyniad i heriau o ran staffio. Oherwydd hyn, dynodwyd bod tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys gofal cartref cyffredinol ac arbenigol, yn gyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Mae comisiynwyr yn awyddus i gydweithio â darparwyr i gynyddu capasiti gofal er mwyn cwrdd ag anghenion y boblogaeth. Y prif themâu a blaenoriaethau i ddarparwyr a chomisiynwyr ym mhob maes iechyd a gofal cymdeithasol yw:

- Recriwtio staff. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol dros ben ac mae angen cynnig cyfraddau tâl a buddion cyflogaeth cystadleuol er mwyn denu pobl.
- Prosiect recriwtio Gofal Cartref Integredig rhwng awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd a datblygu rolau a llwybrau gyrfa integredig ar draws sefydliadau.
- Telerau ac amodau. Mae angen i'r rhain adlewyrchu a chydnabod gwerth rolau gofal cymdeithasol, a'u pwysigrwydd yn y system iechyd a gofal, yn ogystal ag adlewyrchu'r ffaith bod y rolau hyn yn rhai crefftus at ei gilydd.
- Mae'r cyfraddau cadw staff yn wael oherwydd y telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cymdeithasol. Mae effaith yr argyfwng costau tanwydd a chostau byw yn cael ei theimlo bellach yn y sector lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn profi tlodi mewn gwaith. Mae staff yn gadael y sector hefyd oherwydd amodau gweithio ymestynnol a diffyg parch at y gwaith y maent yn ei wneud a'r lefelau o gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio a'u gorweithio.
- Nid yw staff sy'n newydd i'r sector yn aros yn y sector yn y tymor hir am eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu llethu gan ddwysedd y rolau, yn enwedig y rheini sy'n cynorthwyo pobl sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol. Mae angen i ddarparwyr a chomisiynwyr roi gwell cymorth i staff i gwrdd â'r heriau o weithio yn y sector gofal cymdeithasol.

- Rhoddir blaenoriaeth i raglenni trawsnewid gwasanaethau a dylai'r rhain ganolbwyntio'n gynt ar hwyluso hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal a gomisiynwyd, lle gellir ymddiried mewn darparwyr i ystwytho'r pecyn o oriau gofal mewn partneriaeth â'r unigolyn sy'n derbyn gofal. Er cydnabod y cyfyngiadau sydd ar gyllidebau pawb, bydda'r hyblygrwydd hwn yn gwella ansawdd ac yn arbed costau drwy leihau costau gweinyddu.
- Nodwyd bod datblygu gweithio drwy bartneriaeth wirioneddol rhwng comisiynwyr a darparwyr yn faes allweddol.
- Mae darparwyr yn cydnabod budd y taliadau COVID ychwanegol ac mae addasrwydd parhaus y sector yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth allweddol oherwydd y gwaith pwysig y mae darparwyr gofal cartref yn ei wneud wrth gadw pobl yn iach yn eu cartrefi eu hunain, wrth roi'r gallu i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac wrth atal ymweliadau â'r ysbyty sydd heb eu cynllunio.
- Datblygu partneriaethau â darparwyr cartrefi gofal er mwyn darparu gwasanaethau gofal / seibiant preswyl lefel isel i leddfu'r pwysau ar ddarpariaethau gofal cartref.
- Datblygu cyfleoedd o ran micro-gomisiynu a thaliadau uniongyrchol fel dewis yn lle'r model gofal cartref traddodiadol.
- Cynyddu'r cymorth i ofalwyr di-dâl er mwyn lleddfu'r pwysau ar y gwasanaeth gofal cartref ac edrych ar ddulliau o weithredu sy'n cael eu harwain gan ofalwyr, fel darparu mwy o seibiant i ofalwyr.
- Cynyddu nifer y lleoliadau arbenigol sydd ar gael mewn cartrefi gofal i bobl hŷn, oedolion ag anghenion iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu a phobl â dementia.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o lety argyfwng a thymor hwy sydd ar gael i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion o ran iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anghenion emosiynol ymddygiadol.

# Crynodeb o themâu lleol

## Ynys Môn

- Rydym wedi ymrwymo i drawsnewid gwasanaethau ac mae moderneiddio yn faes y byddwn yn canolbwyntio arno gyda mwy o uchelgais i ddatblygu opsiynau llety, gan ategu gwaith y rhaglen drawsnewid.

- Mae'r gweithlu gofal yn Ynys Môn yn heneiddio, felly mae angen denu a chadw staff gofal cymdeithasol newydd.
- Rydym am gydweithio â darparwyr i sicrhau sefydlogrwydd, yn enwedig mewn perthynas â chostau staffio, cyflenwi, dewis, gwasanaethau a chyflawni.

## Gwynedd

- Mae problemau'n codi'n rheolaidd mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, ac mae'r holl wasanaethau yn rhoi gwybod am brinder a phryder gwirioneddol.
- Diffyg cymorth ariannol. Mae'r holl wasanaethau wedi codi pryderon ynghylch y gallu i gynnal gwasanaethau o ansawdd da ag adnoddau cyfyngedig. Yn aml, o ganlyniad i ddiffyg cyllid, rydym yn gorfod defnyddio darparwyr y tu allan i'r sir. Mae hyn yn arwain at gostau uwch sydd, yn eu tro, yn dwysáu'r broblem.
- Prinder sylweddol o ran y gofal preswyl sydd ar gael yn y sir i blant sydd â'i angen, o'i gymharu â gwasanaethau eraill sydd ar gael i blant. Mae darpariaeth gymharol dda o deuluoedd maeth o fewn y sir ac mae nifer mawr o adnoddau a gwasanaethau o fewn y sir i gynorthwyo plant anabl. Mae'n ymddangos bod anghysondeb yn y ddarpariaeth.

## Conwy

- Recriwtio a chadw staff ar draws y sector, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a staff nyrsio. Mae hyn yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid hynny'n unig.
- Gwasanaethau preswyl plant. Mae angen brys am ddarparu llety ar gyfer lleoliadau argyfwng a lleoliadau tymor hwy ac rydym yn ystyried nifer o wahanol opsiynau i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sir a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro costus a lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell oddi wrth y teulu.
- Darparu gwasanaethau gofal cartref, gan nad yw darparwyr presennol yn y sector preifat wedi gallu cwrdd â'r galw ers cyfnod hir bellach.

## Sir Ddinbych

- Rydym am gynyddu'r capasiti gofal i gwrdd ag anghenion y boblogaeth o fewn Sir Ddinbych, yn cynnwys gofal preswyl ar gyfer plant, pobl ifanc, pobl ag anableddau cymhleth, pobl hŷn (yn cynnwys y rheini ag anghenion iechyd meddwl), gofal maeth, gofal cartref ac ailalluogi.
- Rydym wedi ymrwymo i wella cyfathrebu mewnol ar draws gwasanaethau / timau a chyfathrebu â sefydliadau ein partneriaid, ac i rannu arferion da.
- Mae cynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant dros nos sydd ar gael yn flaenoriaeth yn Sir Ddinbych.

## Wrecsam

Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Plant yn Wrecsam yw:

- Gwneud lleoliadau'n fwy sefydlog, lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal drwy wasanaethau ataliol ac ymyrryd cynnar a dileu elw yn y farchnad lleoliadau plant
- Darparu llety argyfwng i bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl
- Uwchgyfeirio mwy o anghenion a phryderon iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Datblygu cartrefi plant newydd
- Gwella ansawdd ymarfer a pherfformiad ar draws Gwasanaethau Plant
- Y prif flaenoriaethau mewn Gwasanaethau Oedolion yn Wrecsam yw:
- Tyfu a datblygu gwasanaethau, yn cynnwys Gofal Cartref (sy'n cynnwys gofal cartref/ailalluogi; byw ac ymadfer yn y gymuned)
- Gwasanaethau dydd a chyflogaeth
- Lleoliadau argyfwng

## Sir y Fflint

Rhoddir blaenoriaeth i'r farchnad Gofal Cartref yn Sir y Fflint er mwyn helpu i adfer cydbwysedd yn y sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i gydweithio'n greadigol â'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod y nifer lleiaf posibl o bobl yn aros am ofal yn eu cartrefi.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu rhai pwysau critigol a phroblemau allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf ariannu.

Oddi ar Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd lle mae pwysau'n parhau yn cynnwys:

- gofal gan ddau aelod staff
- darparu gofal mewn ardaloedd gwledig
- darparu gofal i gleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau gofal o ganlyniad i heriau o ran staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn cael eu hysgwyddo gan y staff gofal eu hunain gan mwyaf.

Ers y pandemig, mae'r farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl i oedolion wedi troi'n ansefydlog dros ben ac mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at argaeledd y ddarpariaeth mewn cartrefi gofal annibynnol. Mae'r cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, a model newydd o ofal camu i lawr i ategu'r rhaglen rhyddhau i asesu ac ymadfer a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd.

Mae hanner y plant mewn gofal preswyl o Sir y Fflint yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad yn Lloegr a'r Alban. Mae gofal preswyl mewnol yn cael ei ddatblygu i adfer cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint.
Dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau preswyl i blant, mae'r cyngor yn bwriadu:

- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u helpu i weithredu modelau gofal a fydd yn cwrdd ag anghenion plant.
- Cydweithio â darparwyr presennol a newydd a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn ffordd a fydd, yn ogystal â gwella canlyniadau i'n plant, yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Cydweithio â darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant ag anghenion mawr lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen yn lle darpariaeth les ddiogel.
- Dynodi darparwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â ni yn ystod cyfnodau pontio, yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwr maeth neu ailymuno â'r teulu.
- Mae'r diwylliant Cymreig yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac rydym am gael mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

# 3. Gwasanaethau Preswyl (oedolion)

## Trosolwg o'r boblogaeth

### Mae'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal yn debygol o gynyddu

Mae'r asesiad o'r boblogaeth yn dangos fod y nifer o bobl dros 65 oed yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 17% rhwng 2010 a 2020 a rhagwelir y bydd cynnydd pellach o 20% dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r tabl isod yn dangos y newid a ddisgwylir ym mhob sir, a disgwylir mai yng Nghonwy fydd y cynnydd mwyaf a Gwynedd y cynnydd lleiaf.

Tabl 1: Y nifer a amcangyfrifir o bobl dros 65 oed yn 2020 a'r nifer a ragwelir yn 2040.

| Cyngor lleol | 2020 nifer | 2040 nifer | Newid nifer | Newid canran |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 18,650 | 22,500 | 3,850 | 17.2% |
| Gwynedd | 28,550 | 34,300 | 5,700 | 16.7% |
| Conwy | 32,950 | 43,500 | 10,550 | 24.3% |
| Sir Ddinbych | 23,500 | 30,400 | 6,900 | 22.6% |
| Sir y Fflint | 33,300 | 42,400 | 9,150 | 21.5% |
| Wrecsam | 27,750 | 34,500 | 6,750 | 19.6% |
| Gogledd Cymru | 164,700 | 207,600 | 42,900 | 20.7% |
| Cymru | 668,600 | 850,750 | 182,150 | 21.4% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifiad o'r boblogaeth yng nghanol blwyddyn 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Nid y cynnydd ym mhoblogaeth pobl hŷn yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar y galw. Mae yna hefyd newidiadau mewn disgwyliadau a pholisi sy'n golygu ei bod yn bosibl na fydd y galw yn cynyddu ar yr un gyfradd â chyfanswm y boblogaeth. Er enghraifft, fe all y galw newid wrth i bobl gael eu cefnogi i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, neu gymryd llety gofal ychwanegol i gadw eu hannibyniaeth gyda'r dewis o dderbyn cefnogaeth fel bo angen.

Mae pobl yn tueddu i symud i ofal preswyl yn hŷn a phan fo'u hanghenion yn fwy cymhleth, er enghraifft, o ganlyniad i ddementia. Roedd yr asesiad o'r boblogaeth yn amcangyfrif cynnydd o 65% rhwng 2017 a 2035 yn y nifer o bobl sy'n byw gyda dementia yng Ngogledd Cymru, tua 7,000 yn fwy o bobl. Nid yw'r cynnydd blaenorol wedi bod mor uchel â'r disgwyl gan fod y gyfradd o bobl sy'n datblygu dementia wedi gostwng, efallai o ganlyniad i welliannau mewn iechyd a mwy o flynyddoedd wedi eu treulio mewn addysg (Matthews *et al.*, 2016). Ond mae'n parhau yn debygol y bydd y duedd o ran bod angen cefnogaeth cartref nyrsio a phreswyl sy'n gynyddol arbenigol ar gyfer iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn parhau.

# Trosolwg y farchnad

Mae yna tua 220 o gartrefi gofal preswyl a 60 o gartrefi nyrsio yng Ngogledd Cymru, sy'n darparu tua 4,100 o leoliadau gofal preswyl a 2,500 o leoliadau nyrsio.

Tabl 2: Y nifer presennol o **gartrefi gofal oedolion** (18 oed a hŷn) yn ôl math ac ardal

| Cyngor lleol (a, b, c) | Preswyl | Preswyl gydag iechyd meddwl | Nyrsio | Nyrsio gydag iechyd meddwl | Cyfanswm (d) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 12 | 7 | 3 | 2 | 24 |
| Gwynedd | 14 | 9 | 7 | 3 | 33 |
| Conwy | 43 | 12 | 13 | 5 | 73 |
| Sir Ddinbych | 46 | 13 | 5 | 5 | 69 |
| Sir y Fflint | 22 | 12 | 7 | 2 | 35 |
| Wrecsam | 16 | 10 | 9 | 2 | 37 |
| Gogledd Cymru | 153 | 63 | 44 | 19 | 271 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
(a) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(b) Mae gan Sir Ddinbych 26 o gartrefi preswyl arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 8 o gartrefi arbenigol i bobl gydag anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.
(d) Mae gan Sir y Fflint nifer o gartrefi sydd â chofrestriad deuol. Nid yw cyfanswm y rhifau yn adio.

Tabl 3: Y nifer presennol o leoliadau cartref gofal parhaol sydd ar gael i bob **oedolyn 18 oed a hŷn**

| Cyngor lleol (a, b, c) | Preswyl | Preswyl gydag iechyd meddwl | Nyrsio | Nyrsio gydag iechyd meddwl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 341 | 98 | 115 | 64 | 618 |
| Gwynedd | 351 | 199 | 353 | 175 | 1,078 |
| Conwy | 671 | 226 | 441 | 144 | 1,482 |
| Sir Ddinbych | 802 | 0 | 321 | 0 | 1,123 |
| Sir y Fflint | 416 | 261 | 179 | 44 | 900 |
| Wrecsam | 223 | 490 | 526 | 108 | 1,347 |
| Gogledd Cymru | 2,804 | 1,274 | 1,935 | 535 | 6,548 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.
Nodiadau:
(a) Mae'r categorïau o ofal wedi dod yn fwy amhendant ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 felly nid yw'r categorïau hyn ond yn darlunio'r rhaniad rhwng mathau o ofal.
(b) Yn Ynys Môn mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelyau iechyd meddwl ac felly nid yw'r rhain wedi eu gwahanu.
(c) Mae gan Sir y Fflint 50 o leoliadau arbenigol i bobl gydag Anableddau dysgu sydd wedi eu cynnwys yn y categori preswyl.

## Ffioedd cartref gofal

Cafodd yr angen am ffioedd cartref gofal cynaliadwy a digonol ei amlygu yn yr ymgynghoriad ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Caiff lefelau ffioedd eu seilio ar fethodoleg Gogledd Cymru gyda phob cyngor yn cymryd i ystyriaeth benderfyniadau lleol ac ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae yna drafodaethau parhaus yn ymwneud â sut y caiff y sector ei ariannu, gan gydnabod breuder y sector, gan gynnwys y gwaith ailgydbwyso gofal a'r Fframwaith Cenedlaethol strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ef (Llywodraeth Cymru, 2021c).

## Lleoedd gwag mewn cartrefi gofal

Yn ystod y pandemig mae nifer o gartrefi gofal wedi bod â lefelau uwch o leoedd gwag nag yn flaenorol. Byddai lefelau'r lleoedd gwag ar gyfartaledd fel arfer tua 10%, a chredir fod hynny'n gynaliadwy ar gyfer y sector (Laing, 2020). I rai roedd hyn o ganlyniad i absenoldebau staff neu swyddi gwag o ganlyniad i faterion recriwtio, tra roedd eraill angen defnyddio ystafelloedd ychwanegol ar gyfer storio cyfarpar diogelu personol (PPE) neu ar gyfer mannau byw ychwanegol er mwyn lleihau maint grwpiau o breswylwyr a oedd yn rhannu cyfleusterau. O bryd i'w gilydd mae yna gyfyngiadau wedi bod ar dderbyniadau o ganlyniad i achosion o Covid-19 hefyd.

Roedd lleoedd gwag mewn cartrefi gofal hefyd yn cynyddu yng Nghonwy cyn y pandemig o ganlyniad i gyflwyno timau ailalluogi a oedd yn gweithio i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi am gyfnod hwy. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn llai effeithiol yn ystod y pandemig gan fod llai o weithwyr gofal cartref wedi bod allan yn y gymuned.

Tabl 4: Y ganran o leoliadau cartref gofal gwag, 31 Mawrth 2021

| Cyngor lleol | Wedi'u meddiannu | Heb eu meddiannu | Cyfanswm y lleoliadau | Canran y rhai nad ydynt wedi eu meddiannu |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 548 | 65 | 613 | 11% |
| Gwynedd | 933 | 122 | 1,055 | 12% |
| Conwy | 1,337 | 115 | 1,452 | 8% |
| Sir Ddinbych | 1,161 | 249 | 1,410 | 18% |
| Sir y Fflint | 748 | 152 | 900 | 17% |
| Wrecsam | 1,059 | 288 | 1,347 | 21% |
| Gogledd Cymru | 5786 | 991 | 6777 | 15% |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol.

## Lleoliadau cartref gofal a gaiff eu hunan ariannu

Nid yw cyfanswm y bobl sy'n ariannu eu lleoliadau cartref gofal eu hunain ar draws Gogledd Cymru gael oherwydd polisi gwahanol y Cynghorau. Roedd gan Sir y Fflint 194 o bobl yn hunan-ariannu lleoliadau mewn cartrefi gofal ar 1 Chwefror 2022.

Daeth amcangyfrifon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) i'r casgliad fod tua 36.7% o drigolion cartrefi gofal a oedd yn ariannu eu gofal eu hunain rhwng 2019 a 2020.

## Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae Ynys Môn wedi nodi'r anghenion canlynol.

- Mae angen mwy o ofal dementia.
- Fe all arwahanrwydd cymdeithasol fod yn risg benodol i bobl hŷn yn Ynys Môn o ganlyniad i natur wledig y sir, diffyg cludiant, a'r pellter y mae nifer yn byw oddi wrth eu teuluoedd.
- Mae angen gwasanaethau arbenigol ychwanegol ar Ynys Môn.
- Nid oes digon o welyau preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn Ynys Môn.
- Mae yna lai o alw am welyau preswyl cyffredinol.
- I bobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia, mae yna ddiffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol.

## Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi'r meysydd canlynol lle ceir hi'n anodd i fodloni'r gofyn:

- Diffyg lleoliadau preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer pobl hŷn gydag anabledd dysgu sydd hefyd ag anghenion iechyd corfforol a dementia.
- Diffyg gweithwyr cymorth y gymuned a phreswyl yn arbennig Tan y Marian ac o fewn darpariaeth ddydd. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddechrau gwasanaeth ar gyfer unigolion newydd ac mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau / oriau cefnogi yn y gymuned.
- Mae'n anodd i gynnal a datblygu gwasanaeth wedi ei deilwra i'r unigolyn sydd angen gweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn 'Cefnogi Ymddygiad Personol' a Chefnogaeth Weithredol.
- Y galw am ofal arbenigol dementia (preswyl a nyrsio). Ar hyn o bryd nid oes yna ofal nyrsio dementia yn ardal Meirionnydd / Llŷn.
- Nid oes yna unrhyw ddarpariaeth iechyd meddwl arbenigol gan gynnwys ar gyfer awtistiaeth a salwch meddwl difrifol yng Ngwynedd. Conwy yw'r lleoliad agosaf ond nid yw'r ddarpariaeth yn y Gymraeg.

- Rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am ofal preswyl dros dro o ganlyniad i brinder gofal yn y cartref.
- Nid ydym yn gallu llenwi gwelyau gwag yn rhai o gartrefi'r Cyngor o ganlyniad i lefel dibyniaeth uchel preswylwyr.
- Fe all rhyddhau yn amhriodol o'r ysbyty heb ddigon o amser i wella arwain at gynnydd mewn dibyniaeth.
- Mae absenoldeb salwch a recriwtio yn broblem.

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Mae yna gynlluniau i gynyddu darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) drwy addasu unedau yng nghartrefi preswyl y cyngor.

Ar hyn o bryd mae yna 33 o ddarparwyr cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio pobl hŷn yng Ngwynedd. Mae Cyngor Gwynedd yn darparu 11 o gartrefi preswyl ar gyfer pobl hŷn yn uniongyrchol.

Tabl 5: Lleoliadau cartrefi gofal pobl hŷn Gwynedd

| | Cyfanswm y lleoliadau cofrestredig | Y nifer o leoliadau dementia |
|---|---:|---:|
| Plas Maesincla | 23 | 23 |
| Plas Ogwen | 27 | - |
| Plas Pengwaith | 31 | - |
| Plas Hedd | 28 | 7 |
| Plas Hafan | 30 | 8 |
| Plas y Don | 30 | - |
| Plas Gwilym | 27 | - |
| Hafod Mawddach | 25 | 8 |
| Bryn Blodau | 41 | 17 |
| Cefn Rodyn | 22 | - |
| Llys Cadfan | 33 | 15 |

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Mae'r canlynol yn rhoi'r diweddaraf o ran ein hymdrechion i ehangu darpariaeth gofal i bobl gyda dementia:

- Plas Hedd. Ni all un gwely seibiant agor o ganlyniad i adeiladu. Datblygiad newydd ar y gweill. Cynllun i newid uned 8 gwely arall i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.
- Plas Hafan. Yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.
- Bryn Blodau. 9 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia, o ganlyniad i'r sefyllfa staffio ni ellir cefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia, ond cynigir gwasanaeth gwahanol.
- Hafod Mawddach. Fe fydd datblygiad newydd yn cynyddu lleoedd cofrestredig i 30 gydag 8 gwely i bobl sy'n byw gyda dementia. I'w gwblhau Medi 2022.
- Cefn Rodyn. Nid yw 5 gwely ar y llawr cyntaf yn cael eu defnyddio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â diogelwch tân ac arhosir am lifft newydd. Datblygiadau newydd wedi eu cwblhau yn 2021. Mae un ystafell wedi ei datblygu ar gyfer defnydd bariatrig, y lleill ar gyfer pobl gydag anghenion preswyl mwy dwys.
- Llys Cadfan. Yn cael ei ddefnyddio i gapasiti llawn, 1 gwely seibiant ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ac 1 gwely seibiant preswyl.

Dros y 5 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynyddu'r nifer o welyau preswyl iechyd meddwl i bobl hŷn yn eu cartrefi mewnol. Yn wreiddiol roedd yna 38 o welyau rhwng Plas Maesincla ac unedau Bryn Blodau a Llys Cadfan. Nawr mae yna unedau ym Mhlas Hafan, Plas Hedd, uned ychwanegol yn Llys Cadfan a Bryn Blodau. Mae rhagor o waith ar y gweill i greu ail uned ym Mhlas Hedd ac uned newydd yn Hafod Mawddach gyda'r gobaith o agor yn ddiweddarach eleni. Tra bod hyn yn gynnydd sylweddol mae angen gwneud mwy i newid cydbwysedd gwelyau iechyd meddwl pobl hŷn yn y sir a bodloni anghenion. Mae costau refeniw sylweddol yn gysylltiedig â phob uned wedi'i newid o leoliadau preswyl i leoliadau iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM).

Nodwyd y bylchau canlynol:

- Gofal Arbenigol Dementia (preswyl a nyrsio) yn ardal Meirionnydd - ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofal nyrsio dementia yno.
- Gofal preswyl / nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Ar gyfer y dyfodol mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd darpariaeth breswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn cael ei greu ym Mhlas Gwilym a Phlas Pengwaith. Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Llywodraeth Cymru i ddatblygu safle Penrhos, Pwllheli. Y bwriad yw i gyflwyno achos busnes i Gabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer datblygu cartref gofal ar y safle. Mae'r nifer o unigolion sydd â dementia yn cynyddu, ac rydym yn adolygu'r angen yn rheolaidd ac yn ceisio addasu cartrefi'r cyngor i fod yn hyblyg ac addas i fodloni'r angen yn y dyfodol.

## Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau yng Nghonwy yn cael eu comisiynu gan ddarparwyr cartref gofal preifat sy'n darparu 98% o'r gwelyau yn y sir.  Mae'r ddarpariaeth ar hyd yr arfordir yn rhesymol, ond mae yna brinder lleoedd yn ne / ardaloedd gwledig y sir ac mae pryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth y sir yn dda o ran lleoedd preswyl a nyrsio, ond mae yna brinder darpariaeth iechyd meddwl arbenigol ar gyfer anghenion preswyl a nyrsio, yn arbennig ar gyfer y rhai hynny sydd angen gofal arbenigol iawn. Mae mwyafrif yr adeiladau a gaiff eu defnyddio fel Cartrefi Gofal yn hŷn ac yn aml maent yn anheddau preswyl sydd wedi eu haddasu. Ar y cyfan maent yn cael eu cynnal yn dda gan y darparwyr, ond fe all atgyweiriadau a'u cynnal a'u cadw fod yn gostus. Roedd cynllun ffisegol nifer o gartrefi o'r fath yn ei gwneud yn anodd iawn i ddarparwyr reoli'r achosion o Covid yn ystod y pandemig, tra ar yr un pryd fe welodd y cartrefi oedd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol fod ganddynt well adnoddau i reoli achosion o'r fath.

## Trosolwg o'r farchnad yn Sir Ddinbych

Caiff dros 90% o leoliadau cartref gofal eu comisiynu gan ddarparwyr allanol. Mae yna ddau gartref gofal mewnol. Fe gaeodd y cyngor un o'r tri chartref preswyl oedd

ganddo yn 2019. Mae'r safle yn Rhuthun nawr yn cael ei ddatblygu i ddarparu mwy o randai gofal ychwanegol.

Mae yna ostyngiad bach wedi bod yng nghapasiti'r sector cartrefi gofal yn gyffredinol yn Sir Ddinbych yn y blynyddoedd diweddar. Mae yna lai o alw am ofal preswyl heb gefnogaeth ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl neu anghenion corfforol cymhleth.

Mae mwyafrif y cartrefi gofal yn Sir Ddinbych yn adeiladau hŷn sydd wedi eu haddasu. Mae rhai achlysuron wedi bod lle na fu'n bosibl darparu lle ar gyfer pobl gydag anghenion bariatrig o ganlyniad i strwythur yr adeiladau - maint y drysau neu gynllun y coridorau. Hefyd ychydig o gartrefi gofal sydd â gofod ar gyfer teclynnau codi o'r to ar gyfer codi a symud neu welyau mwy. Mae'r gofyniad am fwy o fewnbwn gan staff hefyd yn rhwystr.

Ychydig o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae tua 18 o oedolion wedi eu lleoli mewn cartref gofal gan nad oes digon o gefnogaeth ar gael i'w galluogi i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

Ers Mai 2021 mae yna 32 o leoliadau iechyd meddwl preswyl pobl hŷn (HaSM) y tu allan i'r sir a 29 o leoliadau nyrsio. Mae yna 33 o leoliadau y tu allan i'r sir yn Sir Ddinbych ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion iechyd meddwl, yn bennaf o ganlyniad i ddiffyg lleoliadau lleol addas.

Mae gan Sir Ddinbych 282 o leoedd ar gyfer darpariaeth cartrefi gofal anghenion dysgu arbenigol. Maent wedi nodi'r tueddiadau canlynol:

- **Demograffeg:** Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cefnogaeth yn cynyddu, ac mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach. Mae'r tueddiadau hyn o ran demograffeg yn dueddol o barhau.
- **Agweddau a disgwyliadau** Mae'r rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd eisiau / yn disgwyl cael lefel uwch o annibyniaeth a bod yn rhan allweddol o'u cymuned.
- **Cyllid** Mae lefel y gwariant ar wasanaethau anabledd dysgu wedi bod yn cynyddu ond rydym nawr yn wynebu cefnogi mwy o bobl gyda llai o arian (o ganlyniad i leihau setliadau awdurdodau lleol, cau'r Gronfa Byw'n Annibynnol a chyfyngiadau'r Grant Cymorth Tai).

- **Darpariaeth bresennol** Caiff cefnogaeth ei darparu'n gyffredinol drwy deulu agos a / neu staff gofal cyflogedig hirdymor. Gwneir llai o ddefnydd o asedau anffurfiol wedi eu lleoli yn y gymuned.

## Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

Mae yna gynnydd cyffredinol wedi bod mewn darpariaeth breswyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ailagor tri o gartrefi ac ehangu Tŷ Marleyfield ym Mwcle. Mae un cartref mawr wedi newid o ddarparu gofal nyrsio i ddarparu gofal preswyl sydd ar yr un pryd wedi cynyddu capasiti gofal preswyl a lleihau'r capasiti gofal nyrsio. Fe gaeodd cartref nyrsio cyffredinol yn Nhreffynnon yn 2019 ac un arall ym Mawrth 2022 a leihaodd leoliadau nyrsio cyffredinol o 75. Mae yna waith atgyweirio yn digwydd mewn un cartref gofal ar hyn o bryd sydd wedi lleihau capasiti'r farchnad dros dro.

Mae Marleyfield, Croes Atti, a Llys Gwenffrwd yn gartrefi gofal sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol a sy'n eiddo i'r Cyngor ac wedi eu lleoli yn nhrefi Bwcle, Y Fflint a Threffynnon. Dim ond ychydig o ailwampio neu adnewyddu sydd ei angen ar yr adeiladau. Mae Llys Gwenffrwd yn wahanol yn y ffaith fod y ddarpariaeth yn cael ei darparu dros dri llawr, sy'n golygu fod angen newid mewn lefelau staffio i gefnogi pobl gyda dementia yn greadigol ar y llawr uchaf.

Yn hanesyddol mae yna brinder wedi bod o ran lleoliadau sydd wedi arwain at leoliadau y tu allan i'r sir.

Hefyd mae cymhlethdod yr angen a diffyg lleoliadau yn lleol yn arwain at oedi o ran trosglwyddo gofal o'r ysbyty. Roedd hyn yn amlwg yn ystod y pandemig ac ar un pwynt, o ganlyniad i achosion gweithredol mewn cartrefi nyrsio, nid oedd yna unrhyw leoliadau nyrsio ar gael yn Sir y Fflint y gellid rhyddhau pobl iddynt o'r ysbyty.

O fewn y sector Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol, o ganlyniad i'r dewis bychan o ddarparwyr lleol a natur arbenigol y gefnogaeth, mae'n bosibl y bydd angen i rai o'r lleoliadau preswyl hyn fod y tu allan i'r sir a gall hynny arwain at gostau ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith ar unigolion ac yn cynnal cysylltiadau gyda theulu a ffrindiau.

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Cartrefi newydd sy'n hygyrch i bawb:

- Mae gan Marleyfield a Croes Atti unedau ar wahân ar gyfer y rhai hynny sydd ag anghenion cysylltiedig â dementia.

Cefnogi pobl i fyw gartref am gyfnod hirach:

- Mae Llys Gwenffrwd yn gartref i leoliadau adsefydlu ac mae'r tri chartref yn darparu nifer o leoliadau seibiant, camu i fyny / camu i lawr a lleoliadau asesu yn hytrach na phreswyl parhaol.
- Mae gan Marleyfield a Croes Atti ddarpariaeth gofal dydd cydffiniol a fyddai'n cael eu heffeithio gyda rhai o'r dewisiadau sy'n cael eu cyflwyno.
- Disodli Croes Atti gyda chartref gofal newydd ar gyn safle Ysbyty Fflint. Fe fydd gan y cartref gofal newydd 25 o welyau ychwanegol, bydd 12 ohonynt yn hygyrch i'r Bwrdd Iechyd, wedi eu clustnodi i ddarparu model newydd o ofal camu i lawr i gefnogi'r rhyddhau i raglen asesu ac adfer a ddatblygwyd o fewn y Bwrdd Iechyd.

# Darpariaeth ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi amlygu'r angen am i welyau corfforol a synhwyraidd arbenigol fod ar gael yn lleol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi ei bod yn anodd i fodloni'r galw am ofal preswyl a nyrsio ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion corfforol a synhwyraidd.

Nododd Cyngor Sir Ddinbych ddiffyg capasiti ar gyfer llety preswyl i bobl gydag anableddau cymhleth (anableddau corfforol a dysgu), sy'n golygu fod nifer o bobl yn mynd allan o'r sir, i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau. Ar hyn o bryd mae yna 13 o leoliadau y tu allan i'r sir a all arwain at gostau uwch. Mae hyn hefyd yn effeithio ar deuluoedd sy'n ymweld a'r cyswllt â'r unigolyn.

Yn Sir Ddinbych gan fod unigolion gydag anghenion cymhleth wedi symud ymlaen o leoliadau iechyd i gael eu cefnogi yn y gymuned, mae angen gwaith parhaus i ymgorffori methodoleg Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol ymhellach wrth ddarparu

cefnogaeth. Fe fydd hyn yn sicrhau fod y sgiliau a'r wybodaeth ar gael ac yn cael eu cynnal o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol.

# Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod

Mae tai gofal ychwanegol yn cynnwys eiddo hunangynhwysol sydd wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer oedolion hŷn gyda gofal a chefnogaeth ar gael ar lefel ddigonol i alluogi pobl i aros gartref er gwaethaf llesgedd, cyfnodau o salwch neu anableddau ac yn aml heb yr angen i symud i ofal preswyl.

Gyda byw â chymorth neu byw yn y gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig.

Mae tai gwarchod hefyd yn cynnwys eiddo hunangynhwysol ar gyfer oedolion hŷn ac fel arfer mae'n cynnwys cymorth gan reolwr cynllun (warden) neu staff cymorth.

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Ynys Môn

Mae dau ddatblygiad gofal ychwanegol yn Ynys Môn, Hafan Cefni a Phenucheldre, sy'n darparu cyfanswm o 118 o unedau gofal ychwanegol ar hyn o bryd, pob un ohonynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ym mis Mawrth 2022, ymrwymodd y Cyngor i symud cynllun newydd yn ei flaen yn ardal Aethwy a bydd hyn yn darparu 40 o unedau ynghyd â 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol.

Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn awgrymu bod darpariaeth gofal ychwanegol ar y trywydd iawn i fodloni'r galw hyd at 2025 a bod angen 127 o unedau ychwanegol erbyn 2035 i fodloni'r galw a ragwelir. Ar hyn o bryd mae 12 o bobl ar y rhestr aros am dai gofal ychwanegol.

Mae tystiolaeth o ymgynghoriad lleol yn cefnogi symudiad tuag at ddarparu gofal ychwanegol a darpariaeth tai â chymorth ac i ffwrdd o gartrefi gofal preswyl traddodiadol.

Mae 71 uned o lety â chymorth ac mae pob un yn cael ei feddiannu ar hyn o bryd. Darperir y rhain gan 7 darparwr gofal yn ogystal â gwasanaeth mewnol. Mae'r galw ar hyn o bryd yn drech na'r capasiti o ran Gofal Ychwanegol a Llety â Chymorth.

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Ngwynedd

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd sy'n darparu cymysgedd o randai hunangynhwysol 1 a 2 ystafell wely.

- Cae Garnedd, Bangor: y 42 uned i gyd wedi eu meddiannu a 37 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Awel y Coleg, Bala: 30 uned, 1 heb ei feddiannu a 3 o ymgeiswyr ar y rhestr aros.
- Hafod y Gest, Porthmadog: 40 o unedau, i gyd wedi eu meddiannu a 21 ar y rhestr aros.

Mae unedau gofal ychwanegol hefyd yn rhan o'r sgwrs ynglŷn â datblygiad Canolfan Lleu – y canolbwynt iechyd a gofal ym Mhenygroes gyda Grŵp Cynefin a datblygiad safle Penyberth ym Mhenrhos, Pwllheli gyda Clwyd Alyn.

Mae'r galw ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad ac mae yna gynlluniau i ddatblygu mwy.

Mae yna 412 uned o dai gwarchod yng Ngwynedd, gyda dim ond 30 uned â warden llawn amser. Maent i gyd wedi eu poblogi ac yn gyffredinol mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad yng Ngwynedd, yn arbennig ar gyfer pobl hŷn nad ydynt un ai angen gwasanaethau cefnogol warden neu nad ydynt yn gymwys am hynny, sef y prif faen prawf ar gyfer tai gwarchod.

Mae yna 78 o leoliadau byw â chymorth, 39 o rai trydydd sector (50%), 32 o rai'r sector preifat (40%) a 7 o rai mewnol (10%).

Yn hanesyddol mae'n anodd i gael staff mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft de Gwynedd, ac mae darparwyr tai â chymorth wedi cael trafferth gyda hyn. Mae llety â chymorth yn flaenoriaeth ar gyfer y maes anabledd dysgu gyda 75 o unigolion wedi eu nodi fel rhai sydd angen llety. Fe fydd cyfran uchel o'r unigolion hyn angen model tai â chymorth ac felly rydym yn rhagweld angen am hyblygrwydd y farchnad.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn wynebu'r un math o heriau pan ddaw i recriwtio a chynnal timau staff. Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno nifer o unigolion yn llwyddiannus i leoliadau tai â chymorth newydd ac mae darparwyr yn adrodd eu bod mewn sefyllfa i gyflwyno ceisiadau tendro ar gyfer prosiectau newydd. Mae rhai darparwyr allanol yn symud ymlaen i ddatblygu llety

newydd ac yn cefnogi cyfleoedd yn ne Gwynedd. Cyn y pandemig roedd darparwyr wedi ymrwymo i edrych ar ddarparu gwasanaeth yn wahanol, fel grwpiau yn rhannu cymorth, ond mae'r cyfyngiadau wedi cael effaith ar y datblygiad hwn.

Mae darparwyr sy'n gweithio o fewn y modelau cefnogi gweithredol a 'Chefnogi Ymddygiad Personol' wedi eu heffeithio'n negyddol gan y pandemig o ganlyniad i gyfyngiadau staff a phrinder staff ac felly mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn ar frys gyda'n darparwyr i sicrhau hyfforddiant a mentora i hyrwyddo'r dull hwn o weithio a sicrhau ymagwedd ataliol a seiliedig ar ganlyniadau.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn gweithio'n agos gyda'r timau amlddisgyblaethol i ymateb i'r galw os oes yna newid mewn anghenion, i ymateb i argyfwng ac yn y blaen. Rydym wedi gweld enghreifftiau o gydweithio a blaenoriaethu gyda darparwyr yn ymrwymo i weithio'n hyblyg i sicrhau fod unigolion yn derbyn gwasanaeth gofal a chefnogaeth sy'n bodloni eu hanghenion.

Fel arfer caiff angen o fewn y gwasanaeth ei fodloni gan becynnau wedi eu teilwra ar gyfer unigolion a darpariaeth ar raddfa fach, nad yw o reidrwydd yn ddeniadol nac yn gynaliadwy i ddarpar ddarparwyr. Mae recriwtio yn anodd ac yn ddibynnol ar y boblogaeth leol gan fod pobl yn annhebygol o symud i'r rhanbarth ar gyfer y gwaith o ganlyniad i gyfraddau isel cyflogau a'r gofynion ieithyddol. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai o'r darparwyr presennol ar y fframwaith ac felly fe allai ailagor y broses dendro ar gyfer darparwyr newydd posibl fod yn fanteisiol. Rydym yn rhagweld cynnydd yn yr angen am dai â chymorth o fewn y blynyddoedd sydd i ddod yng Ngwynedd. Mae angen i ni ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio ymagwedd KeyRing (Keyring, 2022) ac edrych ar gomisiynu neu ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen o fewn yr ardaloedd clwstwr. Mae ystyriaeth wedi ei gwneud yn y gorffennol, ond mae angen ystyriaethau pellach mewn ymgynghoriad gydag unigolion/teuluoedd/darparwyr.

Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai yn cael mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu nad ydynt o bosibl mewn sefyllfa gref i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i adrodd nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

Mae darparwyr yn gyffredinol yn sefydlog ac yn gallu cynnal y lefelau gofynnol o wasanaeth i ddarpariaeth tai â chymorth presennol. Mae'n anodd dweud a ydynt mewn sefyllfa i fodloni'r galw a'r cynnydd mewn angen gan fod sefyllfa pob darparwr yn wahanol. Mae darparu oriau ychwanegol drwy wasanaethau cefnogi wedi bod yn anodd ac yn heriol gyda dim digon o staff profiadol ar gael. Mae hyn wedi rhoi pwysau ar ofalwyr ac rydym wedi gorfod gweithio gyda'n gilydd fel 'gofal estynedig' gyda nifer o ddarparwyr i fodloni anghenion.

Angen cydweithio agos rhwng gweithwyr cymdeithasol, unigolion a theuluoedd i sicrhau fod yr holl ddewisiadau yn cael eu harchwilio. Mae'r gwaith yn barhaus drwy brosiect llety i nodi anghenion unigol a chynllunio ymlaen i edrych ar y model mwyaf priodol o gefnogaeth / cadw o fewn eu cymunedau ac mor agos â phosibl i'w teulu. Mae rhai unigolion yn derbyn cefnogaeth gan fwy nag un darparwr neu gyfuniad o daliadau uniongyrchol a darpariaeth wedi ei chomisiynu.

**Y berthynas rhwng y comisiynydd a'r darparwr**

- Mae perthnasoedd yn dda yn gyffredinol.
- Cryfhaodd trefniadau cyswllt dros y pandemig.
- Mae darparwyr yn mynychu Grŵp Trawsnewid AD bob deufis lle gallant fwydo i mewn i'r agenda.
- Cyswllt rheolaidd rhwng y darparwyr / Tîm AD ar wahanol lefelau i leisio unrhyw faterion sy'n codi fel eu bod yn cael sylw amserol.
- Mae darparwyr yn ganolog i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr nawr yn cysylltu gyda'n Gwasanaeth Lles - grwpiau rhithiol ac wyneb yn wyneb.
- Dros y 18 mis diwethaf mae strwythur y Gwasanaeth Anableddau Dysgu wedi newid - mae yna fwy o bwyslais ar yr ardaloedd - cryfhau darpariaeth drwy gael arweinydd ar gyfer De Gwynedd ac Arfon. Mae hyn wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng y comisiynydd / darparwr.

**Y berthynas o ddarparwr i ddarparwr**

Yn gyffredinol mae'r berthynas yn ymddangos yn un dda er fod yna lai o gyd gynllunio wedi bod mae'n debyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i'r cyfyngiadau. Rydym wedi gweld enghreifftiau lle mae darparwyr wedi camu i sefyllfa o argyfwng i gefnogi darparwr arall drwy gynnig staff i lenwi'r bylchau. Er enghraifft, mewn un achos lle dirywiodd sefyllfa un unigolyn ac roedd angen cefnogaeth bedair awr ar hugain, fe ddaeth hyd at 4 darparwr gyda'i gilydd i ffurfio rota i'w gefnogi

mewn llety dros dro. Mewn achos arall lle cafodd darparwr anawsterau wrth gynnal rota wrth gyflwyno unigolyn i gartref newydd, fe ddaeth darparwr arall i'r adwy a chytunodd y ddau ddarparwr i weithio gyda'i gilydd dros dro i alluogi i anghenion gael eu bodloni. Fe aethom ati i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad mewn perthynas â'r cytundeb.

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yng Nghonwy

Mae yna bedwar cynllun tai gofal ychwanegol yn sir Conwy, sy'n darparu cyfanswm o 185 o fflatiau. Hafan Gwydir yn Llanrwst, Hafod y Parc yn Abergele, Llys y Coed yn Llanfairfechan a Than y Fron yn Llandudno. Yn Ebrill 2022, roedd yna 62 o bobl ar y rhestr aros ac roedd 10 o'r rhain o du allan i'r sir (dau o Sir Ddinbych ac wyth o rannau eraill o'r DU ond gyda chysylltiadau teuluol â'r ardal).

Mae yna 46 o brosiectau byw â chymorth sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat amrywiol, cymdeithasau tai a'r cyngor.

Dim ond darparu ar gyfer nifer o bobl o fewn bob prosiect y mae'r mwyafrif o brosiectau byw â chymorth, ac felly er bod yna 46 prosiect dim ond lleoedd ar gyfer 136 o bobl sydd yna. Nid yw hyn yn gyfran uchel, yn enwedig o ystyried poblogaeth Conwy. Dim ond tua 8 o leoedd gwag sydd yna ar hyn o bryd ac mae yna alw mawr am leoedd gwag. Nid oes yna unrhyw brosiectau byw â chymorth yn ne'r sir.

Mae cyflenwad safleoedd byw â chymorth yn isel iawn ac mae'r cyngor yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i ddigon o lety ar gyfer cleientiaid.

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir Ddinbych

Mae yna dri chynllun tai gofal ychwanegol yn Sir Ddinbych ac un a fydd yn agor yn fuan yn Ninbych. Fe fydd cartref gofal a gaeodd yn Rhuthun yn ddiweddar yn cael ei ddefnyddio fel gofod i ehangu cynllun tai gofal ychwanegol a gaiff ei redeg gan gymdeithas dai. Roedd yna leoedd gwag yn achlysurol o ganlyniad i'r pandemig ond fel arall mae'n anarferol iawn i gael lle gwag mewn cynllun tai gofal ychwanegol. Er y bydd y nifer o fflatiau tai gofal ychwanegol yn cynyddu yn sylweddol dros y flwyddyn, y disgwyl yw y bydd y galw yn parhau i gynyddu ac yn mynd y tu hwnt i'r cyfanswm o fflatiau sydd ar gael.

Yn Sir Ddinbych mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anableddau dysgu yn byw mewn tai â chymorth (byw yn y gymuned).

Caiff y rhan fwyaf o leoliadau cartref gofal newydd eu hystyried fel mesur dros dro hyd nes y daw tenantiaeth addas ar gael o fewn lleoliad Byw yn y Gymuned. Fodd bynnag, mae yna nifer gymharol uchel o bobl hŷn gydag anableddau dysgu sy'n byw mewn cartrefi gofal o hyd. Mae hyn yn hanesyddol ac yn rhannol yn ganlyniad i gau Ysbyty Gogledd Cymru. Ni ystyrir y byddai symud yr unigolion hyn yn ymarferol nac er y lles gorau iddynt.

Gyda Byw yn y Gymuned mae pobl fel arfer yn byw fel tenantiaid mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth ffurfiol y telir amdani yn cael ei darparu gan asiantaeth gofal cartref cofrestredig drwy gytundeb bloc gyda Sir Ddinbych. Yn Sir Ddinbych ni chaiff y gwasanaeth cefnogi ei ddarparu gan (ac nid yw'n gysylltiedig â'r) landlord. Caiff gwasanaethau cefnogi ar gyfer pob cynllun Byw yn y Gymuned newydd eu comisiynu drwy broses dendro y cytunwyd arni.

Ym Medi 2021, roedd yna 57 eiddo Byw yn y Gymuned yn Sir Ddinbych, a gaiff eu darparu rhwng 11 o ddarparwyr. Dim ond 2 o'r eiddo hyn a gaiff eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr lleol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Mae 125 o bobl yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd (y capasiti yw 136 o bobl), y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran Byw â Chymorth.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cynnig ystod o gefnogaeth o lefel isel i anghenion mwy cymhleth a chefnogaeth bedair awr ar hugain.

Mae recriwtio staff wedi bod yn broblematig i ddarparwyr yn ystod y pandemig ac mae wedi cael effaith ar y nifer o leoedd a gaiff eu cynnig yn rheolaidd.

Mae nifer o gontractau presennol Byw yn y Gymuned wedi eu hymestyn y tu hwnt i'w cyfnod gwreiddiol a nawr mae yna bwysau sylweddol am i'r cynllun cyfan gael ei aildendro yn unol â rheoliadau. Mae'r darparwyr a staff y cyngor yn teimlo fod hyn yn cyflwyno risg sylweddol i unigolion, darparwyr a'u staff ar hyn o bryd. Ar y gwaethaf fe allai aildendro olygu y byddai nifer o ddarparwyr yn colli busnes a niferoedd mawr

o staff yn gadael y sector ar adeg pan fo hi bron yn amhosibl i recriwtio. Fe allai unrhyw ansicrwydd arwain o bosibl at nifer o staff yn gadael, hyd yn oed os yw Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) yn weithredol. Fe allai'r ansicrwydd hwn gael effaith ddinistriol ar farchnad y darparwr gofal cymdeithasol lleol a'r dinasyddion y maent yn eu cefnogi. Mae'n bosibl y byddai rhai darparwyr yn rhoi eu contractau yn ôl ac na fyddent yn dymuno cynnig am fwy. Yn arbennig gyda nifer mor fawr o gontractau, yn y pen draw fe allai hyn ddadsefydlogi marchnad y darparwr gofal cymdeithasol ymhellach yn Sir Ddinbych.

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Sir y Fflint

Mae Gofal Ychwanegol yn parhau i fod yn ddewis hynod o boblogaidd o ran tai i bobl hŷn yn Sir y Fflint, sy'n cynnig y cyfle iddynt i fyw yn annibynnol tra bod ganddynt gefnogaeth tîm gofal a chefnogaeth ar y safle, os a phan fo angen hynny. Mae hyn yn ei dro yn rhyddhau capasiti ac amser mewn gofal cartref wedi ei leoli yn y gymuned.

Mae manteision byw mewn cyfleuster Gofal Ychwanegol yn cynnwys:

- Aros yn annibynnol am gyfnod hirach gyda chefnogaeth ar y safle, yn eich gofod byw eich hun.
- Fe ellir cynyddu neu leihau'r gefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion.
- Mae cefnogaeth mewn argyfwng ar gael, gan gynnwys yn ystod y nos.
- Mae'n galluogi cyplau, pan fo un partner yn ddibynnol iawn, i barhau i fyw gyda'i gilydd.
- Cyfleoedd i gymdeithasu gyda phreswylwyr eraill mewn lleoliad cymunedol.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor bedwar cyfleuster Gofal Ychwanegol, Llys Eleanor (Glannau Dyfrdwy), Llys Jasmine (Yr Wyddgrug), Llys Raddington (Y Fflint) a Phlas yr Ywen (Treffynnon) sydd newydd dderbyn preswylwyr, gyda chyfanswm o 238 o unedau gofal ychwanegol.

Fel ag ar Awst 2021, mae yna gyfanswm o 60 eiddo Byw â Chymorth yn Sir y Fflint, yn cael eu darparu rhwng 10 darparwr. Caiff 16 o'r eiddo hyn eu gweithredu gan y Cyngor. Hefyd mae yna gyfuniad o ddarparwyr cenedlaethol, darparwyr lleol llai a darparwyr lleol a chenedlaethol gyda statws elusennol. Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Caiff 139 o bobl eu cefnogi, y rhan fwyaf gyda dros 20 awr o gefnogaeth yr wythnos, un ai yn cael ei rannu neu un i un. Mae gan y rhan fwyaf o unigolion gytundeb tenantiaeth fel sy'n digwydd fel arfer o ran 'Byw â Chymorth'.

Mae yna ddarparwyr sy'n gallu cefnogi o lefel isel i anghenion mwy cymhleth ar y Fframwaith.

Wrth ailgomisiynu gwasanaethau presennol mae yna bosibilrwydd o drosglwyddo staff (Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth) i'r cwmni newydd. Ar gyfer gwasanaethau newydd, mae'n rhaid i'r darparwr recriwtio a all effeithio ar amserlenni a denu staff o ddarparwyr presennol sydd wedyn yn gorfod llenwi'r swyddi .

## Gofal ychwanegol, byw â chymorth a thai gwarchod yn Wrecsam

Mae yna ddau gynllun tai gofal ychwanegol yn Wrecsam gyda chyfanswm o 116 uned. Mae gan Plas Telford 56 uned ac roedd 5 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022. Mae gan Maes y Dderwen 60 uned ac roedd 10 lle gwag yma ddiwedd Mawrth 2022.

Mae'r galw ar gyfer y rhai hynny gydag anghenion cymwys yn isel, mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ail lansio cynllun i ddenu mwy o geisiadau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd yn gwerthuso eu model o dai gofal ychwanegol ar gyfer datblygu'r gwasanaeth ymhellach i sicrhau ei gynaliadwyedd wrth ddiwallu anghenion newidiol a chynyddol. Mae'n anodd rhagweld y galw gan ei bod yn ymddangos nad yw'r model presennol yn gallu ymateb i anghenion canolig ac uchel. Mae ystadegau'r boblogaeth a thystiolaeth o ddyheadau pobl hŷn yn awgrymu y dylai fod yna alw cynyddol am dai gofal ychwanegol. Y flaenoriaeth yn y tymor byr i ganolig yw i sicrhau model cynaliadwy o dai gofal ychwanegol, sy'n darparu gwerth am arian a gwasanaethau o ansawdd sy'n cynnig dewis gwirioneddol wahanol i ofal preswyl.

Yn ogystal â chynllun tai gofal ychwanegol Wrecsam, mae Adran Tai CBSW yn darparu rhaglen dreigl o ailfodelu i ddarparu llety gwell a chynyddol hygyrch i bobl hŷn ar draws y Gwasanaeth Tai Gwarchod mewnol.

Ar adeg llunio'r adroddiad, roedd 126 o bobl gydag ystod o anghenion cymorth cymhleth a lefel isel yn cael eu cefnogi yn y sector annibynnol gan 9 o ddarparwyr byw â chymorth - cymysgedd o sefydliadau elusennol a phreifat. Mae yna 19 o bobl gydag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain gan wasanaeth

byw â chymorth mewnol y cyngor ar draws 10 eiddo. Mae mwyafrif y gwasanaethau hyn yn rhai pedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos, er mae rhai ar gyfer cefnogaeth yn ystod y dydd yn unig, lle mae staff ar gael i gefnogi pobl i ddod yn fwy annibynnol.

Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn bennaf gan y Gwasanaeth Anabledd sy'n gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu er bod yna nifer o bobl sy'n byw gydag angen am gefnogaeth iechyd meddwl sy'n cael eu cefnogi gan Wasanaeth Adfer y cyngor ei hun - caiff 10 o bobl eu cefnogi mewn eiddo gyda thenantiaid a gaiff ei ariannu gan ofal cymdeithasol.

Fe gydnabyddir y gall ail dendro contractau amharu ar fywydau dinasyddion a gaiff eu cefnogi o fewn y model hwn ac felly caiff contractau hirdymor o 7+3 mlynedd eu defnyddio, gydag adolygiadau ansawdd a lles rheolaidd yn ystod cyfnod y contract. Mae Fframwaith Byw â Chymorth Gogledd Cymru nawr mewn grym ac mae wedi ei ddefnyddio ar gyfer comisiynu contractau newydd. Mae recriwtio a chadw wedi profi i fod yn heriol i ddarparwyr, yn arbennig ar gyfer staff sy'n gallu gyrru a defnyddio cerbyd symudedd unigolyn a gefnogir.

# Sefydlogrwydd y Farchnad

## Heriau Rhanbarthol

Mae yna rai heriau cyffredin ar draws Gogledd Cymru a Chymru gyfan sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y sector a restrir uchod.

- Cadw a recriwtio staff gofal a nyrsio.
- Mae angen i ffioedd cartrefi gofal gael eu gosod ar raddfa gynaliadwy. Mae nifer gynyddol o ddarparwyr yn adrodd fod ffioedd heriau ariannol presennol yn annigonol ac maent yn gweithio gyda chomisiynwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn.Galw cynyddol am wasanaethau gyda chyllidebau sy'n lleihau.
- Cymhlethdod cynyddol o ran anghenion gofal. Mae pobl yn aros adref yn hirach gyda phecyn cefnogi ac felly pan mae angen lleoliad cartref gofal arnynt, mae eu hanghenion yn fwy cymhleth ac mae mwy o gyfranogiad.
- Ymhlith yr elfennau cadarnhaol a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad oedd cyllid Llywodraeth Cymru, sydd

wedi helpu gyda lleoedd gwag yn y sector preswyl, yn ogystal â gwaith i hyrwyddo'r sector a chyllid i geisio cael cyflog byw gwirioneddol.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Ynys Môn

### Cau cartref

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf ym mis Mawrth 2022, caeodd Cartref Preswyl Caledonia (15 gwely).

### Galw am leoedd

Gostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnod cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond gwelwyd cynnydd yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau mynd heibio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref preifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod trosglwyddo pecynnau gofal presennol yn ôl.

### Recriwtio

Yr her fwyaf sy'n wynebu'r sector fu recriwtio a chadw staff ar bob lefel. Mae llawer o gartrefi gofal wedi adrodd am swyddi gwag sydd wedi effeithio ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Mae'r diffyg staff wedi'i waethygu gan staff nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd bod ganddynt Covid. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth sylweddol ar asiantaethau staffio. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector o ran staff rheoli.

### Chwyddiant

Ers dechrau 2022, mae cyfradd chwyddiant wedi cynyddu'n gyflymach ac yn uwch na chyfradd y cynnydd yn y ffioedd a delir i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant hefyd wedi cynyddu'n aruthrol. Mae hyn yn profi'n heriol iawn i lawer o ddarparwyr, sydd, ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, yn ei chael hi'n anodd amsugno'r costau hyn ar adeg pan mae cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

## Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

### Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn

Gyda'r cynnydd yn y galw mae yna bryder na all y farchnad ymateb yn ddigonol ac yn ddigon cyflym i alw o ystyried yr argyfwng staffio presennol.

Mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o ddarparwyr sy'n adrodd fod ffioedd preswyl a nyrsio pobl hŷn yn annigonol. Mae darparwyr yn rhwystredig pan maent yn adrodd am gynnydd mewn cost a phan na chynigir taliadau uwch iddynt. Mae yna gynnydd mewn ffioedd atodol ar gyfer gofal preswyl a nyrsio. Hefyd mae yna arafwch yn nifer y gweithlu sy'n cofrestru.

Mae'r trothwy ar gyfer hunan-ariannu wedi bod yn cynyddu ac mae ar hyn o bryd ar £50,000 sy'n golygu fod llai o bobl yn hunan-ariannu. Mae gan y rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain yr hawl i gael eu gofal wedi ei gomisiynu drwy'r cyngor sydd â goblygiadau o ran gallu cartrefi gofal i ofyn am ffioedd uwch gan y rhai sy'n ariannu eu hunain.

**Anabledd corfforol, iechyd meddwl ac anabledd dysgu**

Mae pob darparwr yn wahanol gyda rhai â mwy o anghenion cymorth nac eraill. Mae'r pwysau arnynt o bryd i'w gilydd yn golygu na allant fod mewn sefyllfa gref, er enghraifft, i ymateb i gyfleoedd tendro neu i gynnig tendr ar gyfer y Cytundeb Tai â Chymorth. Mae darparwyr sy'n cefnogi unigolion gydag anghenion difrifol a chymhleth yn cysylltu â'r Cyngor yn rheolaidd i roi gwybod nad yw'r lefel o gynnydd chwyddiannol a gynigir gan y Cyngor yn ddigonol.

**Effaith Covid-19**

Mae rhai darparwyr nyrsio wedi gwneud y gorau o'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael, fel lleoedd gwag, cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd, cefnogaeth ar gyfer staff a phrofi ymwelwyr. Nodir fod y darparwyr mwyaf yn cynnig am gymorth, gyda darparwyr llai yn dueddol o holi yn hwyrach ac yn ei chael yn anodd i ddilyn y canllawiau diweddaraf a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ymwneud â'r canllawiau. Mae yna bryder yn ymwneud â'r effaith y bydd dod â'r gefnogaeth ariannol i ben yn ei gael.

**Hyblygrwydd y farchnad**
Mae yna botensial ar gyfer addasu o fewn cartrefi gofal y Cyngor. Potensial i addasu rolau / tasgau o fewn cynllun gofal cartref, ond mae angen cefnogaeth gan y darparwr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd ar gyfer darparwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

**Achosion o fethiant posibl o ran busnes a chynllunio wrth gefn**
Caiff pryderon eu nodi un ai drwy wybodaeth a rennir gan Arolygiaeth Gofal Cymru neu fel rhan o gyswllt wythnosol y Tîm Sicrwydd Ansawdd.  Mae'r tîm yn darparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth os oes yna unrhyw faterion yn codi yn ymwneud â hyfywedd busnesau. Cafodd cefnogaeth ariannol ddiweddar (Cronfeydd COVID-19), fel cefnogaeth ar gyfer gwelyau gwag ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig, eu diwallu gan y Gronfa Galedi a chafodd cefnogaeth gyffredinol gyda chynaliadwyedd y farchnad ei gynnig drwy gronfa adferol a hynny drwy gronfa adfer y llywodraeth. Nid oedd yna unrhyw gronfeydd o'r fath ar gael yn uniongyrchol gan y cyngor cyn y pandemig ac eithrio fel dewis olaf neu fesur brys ac mae'r cymorth ariannol COVID-19 presennol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2022.

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn dymuno meithrin ymagwedd Cyfrifo Llyfr Agored gyda chartrefi gofal er mwyn deall eu rhwymedigaethau/cyfyngiadau ariannol ei gilydd yn well er mwyn sefydlu p'run ai yw'r rhain yn feysydd lle gallwn gynnig cefnogaeth boed yn ariannol neu drwy gynnig cefnogaeth i'r cartrefi gofal i symleiddio eu gweithdrefnau.

**Cartrefi gofal yn cau**
Mae yna 4 cartref wedi cau yng Ngwynedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dau gartref preswyl (Llwyn ym Mai 2018 a Foelas yn Ebrill 2022) a dau gartref nyrsio (Penisarwaun ym mis Gorffennaf 2018 a Penrhos yn Rhagfyr 2020). Yn gynyddol, mae'n anodd i gartrefi gofal annibynnol bach fod yn ariannol hyfyw a gallai hyn gyfrannu at gau pellach yn y dyfodol.

## Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

### Cartrefi yn cau
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae dau gartref wedi cau yn y sir. Roedd un yn ddarparwr llai ac roedd costau cynnal a chadw'r adeilad hŷn a oedd wedi ei drawsnewid yn uwch na'r incwm posibl gan breswylwyr. Fe brofodd y perchnogion y farchnad ar gyfer gwerthu ond ni chafwyd unrhyw gynigion. Ystyriwyd addasu i ofal

nyrsio neu ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) ond nid oedd y cartref o faint digonol ac nid oedd y cynllun yn ddigonol i roi'r enillion oedd eu hangen ar fuddsoddiad a chaewyd y cartref. Roedd yr ail gartref a gaeodd yn fwy ac yn llwyddiannus. Nid oedd yna unrhyw broblemau gyda gwelyau gwag nac ansawdd y gwasanaeth, ond wedi gwneud ymholiadau am gyfnod hir o amser nid oedd yna unrhyw brynwyr ar gyfer y busnes pan oedd y perchennog yn barod i ymddeol, ac felly caeodd y gwasanaeth. Yn y ddau achos cafodd preswylwyr y cartrefi hyn eu hadleoli'n llwyddiannus i gartrefi eraill yn y sir.

**Galw am leoedd**

Fe ostyngodd y galw am leoedd mewn cartrefi gofal yng nghyfnodau cynnar y pandemig yn ystod 2020, ond fe fu cynnydd sylweddol yn 2021-22 wrth i effeithiau cynnar Covid ddechrau pasio ac o ganlyniad i ddiffygion yn y sector gofal cartref. Fe welsom gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl a oedd yn cyflwyno ac angen asesiad, ond roedd y sector gofal cartref a oedd yn breifat yn bennaf ar yr un pryd yn colli staff ac yn gorfod rhoi pecynnau gofal presennol yn ôl. Roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd ar yr arfordir ym Mae Colwyn, Llandudno a'r ardaloedd o amgylch ar gyfer lleoliadau preswyl a nyrsio. Nid oes yna ddata ar gael eto ar y galw am ofal iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM), galw yr ydym ni'n teimlo sydd hefyd wedi cynyddu.

Mae'r nifer o leoliadau y tu allan i'r sir wedi gostwng yn raddol.

**Recriwtio**

Recriwtio a chadw staff ar bob lefel yw'r her fwyaf sydd wedi wynebu'r sector. Mae bron i bob cartref gofal wedi nodi swyddi gwag ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd, uwch gynorthwywyr gofal iechyd, nyrsys a staff domestig ac maent wedi dweud fod hyn wedi cael effaith ar eu gallu i gymryd lleoliadau newydd. Gwaethygwyd y sefyllfa o ddiffyg staff gan y ffaith nad oedd rhai aelodau o staff yn gallu gweithio gan fod Covid arnynt. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth uchel ar asiantaethau staffio sydd mewn rhai achosion wedi bod yn darparu 20% i 50% o'r staffio ar gyfer rhai darparwyr. Rydym hefyd wedi nodi nifer o newidiadau ar draws y sector mewn staff rheoli. Mae ymgynghoriad gyda darparwyr wedi nodi nifer o resymau posibl a allai fod yn gyfrifol am yr her o ran recriwtio.

- Mae ymadael â'r UE wedi cael ychydig o effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol ond mae wedi cael effaith sylweddol ar sectorau eraill hefyd fel manwerthu a lletygarwch sy'n sectorau mawr iawn yn sir Conwy.

- Cystadleuaeth o fanwerthu a lletygarwch. Mae cartrefi gofal yn adrodd fod staff yn gadael i ymuno â'r ddau sector hwn sydd wedi cynyddu tâl ac amodau i ddenu staff newydd. Caiff y gwaith yn aml ei ystyried fel gwaith lle mae llai o straen a gydag oriau mwy rhesymol.
- Ymddeoliad cynnar.  Mae nifer o ddarparwyr yn dweud fod aelodau o staff wedi cymryd ymddeoliad cynnar yn ystod y pandemig.
- Cystadleuaeth gan swyddi sy'n talu yn well gyda'r bwrdd iechyd, yr awdurdod lleol ac asiantaethau recriwtio.

**Chwyddiant**
Ers dechrau 2022, mae graddfa chwyddiant wedi cynyddu yn gynt ac yn uwch na'r ffioedd a gaiff eu talu i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae costau cyfleustodau, tanwydd ac yswiriant wedi cynyddu ddwywaith ac weithiau deirgwaith o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Ar ôl ymdopi drwy'r pandemig, nid yw nifer o ddarparwyr yn gallu llyncu'r costau hyn ar adeg pan fo cymorth ariannol y llywodraeth ar gyfer Covid wedi dod i ben.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae yna ffocws cynyddol wedi bod ar gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud nad ydynt eisiau byw mewn cartref gofal preswyl os oes yna ddewis i aros yn annibynnol. Mae Sir Ddinbych yn defnyddio sgyrsiau "Beth sy'n Bwysig" gyda phobl er mwyn ein galluogi ni i gytuno ar ganlyniadau priodol eu gofal a'u cymorth. Rydym yn defnyddio'r olwyn adnoddau i sicrhau ein bod yn cynnwys cefnogaeth y mae pobl yn ei gael gan deulu, ffrindiau a chymunedau wrth drafod sut i weithio tuag at y canlyniadau y cytunwyd arnynt.

Mae yna sylfaen ddarparwyr amrywiol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer gofal preswyl a nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) yn gyfyngedig.

Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif yn gartrefi gofal bach, annibynnol mewn adeiladau hŷn nad ydynt wedi eu hadeiladu'n bwrpasol.

Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ac yn cynnig y gefnogaeth sydd ei hangen.

Mae yna ddiffyg staff nyrsio sydd wedi eu hyfforddi wedi bod ar gael yn ne'r sir, sy'n golygu fod Llangollen Fechan wedi wynebu ffioedd asiantaeth afresymol ac felly penderfynwyd dod â chofrestru deuol i ben ar gyfer gofal preswyl a nyrsio, gan ganolbwyntio ar welyau preswyl yn unig. Mae hyn yn golygu fod yna lai o welyau nyrsio yn y de.

Fe ddaeth darparwr llai, Chesterton, i'r casgliad nad oedd yn ariannol hyfyw ac felly fe gaewyd y cartref dan reolaeth gyda chyfarfodydd wythnosol rhwng staff y cyngor a rheolwyr y cartref. Cafodd yr holl breswylwyr eu hadleoli mewn dull diogel a derbyniol.

Mae'r pandemig wedi amlygu problemau hyfywedd economaidd cartrefi gofal bach ac annibynnol. Mae trafferthion recriwtio a chadw staff, diffyg hyblygrwydd o ran cynllun a chyfleusterau i gyd wedi dangos y gallai fod yna symudiad yn y dyfodol tuag at adeiladau mwy a mwy modern neu rai wedi eu hadeiladu'n bwrpasol lle mae arbedion maint yn rhoi mwy o wytnwch.

**Bylchau mewn gwasanaethau / cefnogaeth:**

- Staff cefnogi sy'n siarad Cymraeg (yn bennaf yng ngogledd y sir)
- Mentrau cymdeithasol a darparwyr annibynnol sydd wedi eu lleoli yn ne'r sir.
- Ymyriadau tymor byr, sy'n canolbwyntio ar gynnydd gyda chanlyniadau y cytunwyd arnynt.
- Dewisiadau eraill i wasanaethau traddodiadol (gan gynnwys seibiant a gweithgareddau dydd)
- Mae'r gofrestr anableddau dysgu a data anghenion tai yn dangos nad yw niferoedd yn newid yn sylweddol ond mae cymhlethdod yr angen yn cynyddu.

Yn arolwg y darparwr ar gyfer yr adroddiad hwn, adroddodd darparwyr Sir Ddinbych fod angen deiliadaeth o 85% ar gyfartaledd ar gyfer cynaliadwyedd. 78% yw'r ddeiliadaeth bresennol ar gyfartaledd. Ar adeg yr arolwg roedd yna gyfradd lleoedd gwag o 25% yn Sir Ddinbych, roedd hyn yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol o 20%.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod gwerth meithrin a chefnogi darparwyr o ansawdd da - er enghraifft, yn ystod Covid-19 fe gymrwyd camau i osgoi methiant darparwr yn rhagweithiol. Ar yr un pryd mae pwysau cyllidebol yn golygu na all comisiynwyr bob amser ymateb i geisiadau yn ymwneud â ffioedd yn y modd yr hoffai darparwyr iddynt wneud hynny. Yn gyffredinol mae gennym ni berthynas dda

gyda'r rhan fwyaf o ddarparwyr. Fe all hyn fod yn fwy anodd i'w gynnal pan fo angen i ni leisio pryderon gyda darparwr (e.e. yn ymwneud ag ansawdd neu ddiogelu) a phan fo'r ffi negodi yn cynyddu neu ddatgomisiynu gwasanaeth. Yn ystod y pandemig fe geisiom sicrhau fod darparwyr (er enghraifft gwasanaethau dydd allanol) yn gallu goroesi yn ariannol a hefyd fe fuom yn gweithio'n agos gyda darparwyr i helpu i gadw pobl yn ddiogel ac iach.

Fe wellhaodd y berthynas rhwng darparwyr yn ystod y pandemig ac roedd yna enghreifftiau da o gefnogaeth cymheiriaid a chyfeillgarwch rhwng darparwyr. Un enghraifft dda hirdymor yw Cartref Gofal lleol a arweiniodd ar gymuned o gefnogaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, gyda nifer o ddarparwyr gofal, gofal yn y cartref yn bennaf, yn mynychu - pob un yn rhannu arfer da yn ymwneud ag ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gyda siaradwyr gwadd yn siarad am fentrau newydd yn Sir Ddinbych. Mae perthnasoedd yn y cyfarfod hwn yn gefnogol.

- Yr heriau eraill a nodwyd yw:
- Recriwtio a chadw
- Absenoldeb salwch uchel
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth ac atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Diffyg llety seibiant dros dro addas y gellir ei archebu ymlaen llaw - mae gofalwyr di-dâl yn ei chael yn anodd i geisio dod o hyd i gartrefi preswyl/nyrsio sy'n fodlon derbyn pobl am un tro neu ar sail achlysurol, yn arbennig os oes ganddynt anghenion uwch neu eu bod yn arddangos ymddygiad heriol. Fe all hyn fod o ganlyniad i ariannu, staffio neu rywbeth arall. Mae yna fflat seibiant yng Nghorwen ond ni chaiff ei ddefnyddio'n dda yn bennaf oherwydd diffyg argaeledd pecynnau gofal. Nid oes gan staff mewn cartref gerllaw y capasiti i lenwi er nad ydynt yn bell i ffwrdd. Mae llety seibiant i bobl gydag anableddau cymhleth yn gyfyngedig iawn - Alexandra House yn unig. Trafodaethau parhaus gydag Alexandra House a CBS Conwy.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint sail darparwr amrywiol lle na ddibynnir ar un darparwr ond mae lleoliadau

nyrsio cyfyngedig ac lleoliadau nyrsio iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM). Mae'r farchnad yn amrywiol gyda chartrefi o faint amrywiol, mewnol ac annibynnol, a gaiff eu rhedeg gan deulu neu fel rhan o sefydliad mwy. Mae'r cyngor yn symud ymlaen gyda chynyddu capasiti mewn darpariaeth breswyl fewnol. Mae'r Tîm Contractau a Chomisiynu yn gweithio'n agos gyda darparwyr ar fynediad a gadael i sicrhau fod y broses yn rhedeg yn llyfn, gan gynnig unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen. Er bod y farchnad yn gadarn a bod gan bob darparwr gynlluniau wrth gefn mewn grym i fynd i'r afael â'r mwyafrif o faterion, mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno amgylchiadau eithriadol ac nid oedd darparwyr wedi cynnwys hyn yn eu cynlluniau. Mae'r rhain ers hynny wedi eu diweddaru.

Nododd adolygiadau busnes diagnostig a gynhaliwyd gyda 18 cartref yn 2017 y materion canlynol yn ymwneud â sefydlogrwydd.

- Roedd gan gartrefi gofal a oedd yn eiddo i grŵp gefnogaeth cefn tŷ a gweinyddiaeth ganolog a ymddangosai fel pe bai'n lleihau pwysau amser a llwyth gwaith o'i gymharu â chartrefi annibynnol llai.
- Ni nodwyd unrhyw wahaniaethu rhwng cleifion preifat a'r rhai a ariannwyd gan yr awdurdod lleol ond roedd darparwyr yn gofyn am ffioedd atodol gan awdurdodau lleol o ganlyniad i bwysau ariannol.
- Recriwtio a chadw: yn cael ei effeithio gan faint y cartref a'r ffordd y caiff ei reoli, mae'n helpu i fod ar y prif lwybr bws, rhai pryderon am ddelwedd y sectorau, cyflogau a chystadlu gyda'r GIG am staff.
- Mae'r cyfraddau salwch ac absenoldeb yn uwch ac mae polisïau mewn grym. Achos mwyaf cyffredin absenoldeb yw salwch a dolur rhydd.
- Mae nifer o gartrefi mewn adeiladau hŷn gydag effeithlonrwydd ynni gwael ac mae'n anodd eu haddasu. Roedd yna fwy o ofod i ehangu a gwell gofod y tu allan mewn cartrefi gwledig, ond mae'r rhain hefyd yn llai cyfleus i'w cyrraedd. Roedd costau gwresogi yn bryder mawr ac awgrymodd rhai cartrefi y byddai polisi caffael ar y cyd o bosibl yn helpu i roi gwell grym gwario iddynt. Byddai cartrefi yn gwerthfawrogi cyngor ar bolisi gwastraff hefyd.
- Nid oedd ganddynt safbwynt clir ar yr isafswm o breswylwyr sydd eu hangen i wneud cartref yn hyfyw, ond roeddent yn ymwybodol o p'run ai a oeddent yn colli arian neu beidio.

- Gwerthfawrogiad o grant diweddar ar gyfer prynu ased ac argymhelliad ar gyfer llyfrgell asedau lle gellir benthyg offer drud, a ddefnyddir yn achlysurol yn hytrach na'i brynu yn gyfan gwbl.
- Mae cyllid yn heriol ac yn golygu fod angen ychwanegu at ffioedd awdurdod lleol a chyfran o gleifion preifat i oroesi. Mae'r cynnydd yn y cyflog byw, gostyngiad cyffredinol yng nghyfraddau diweithdra, cynnydd mewn cyflogaeth ac effaith anhysbys Brexit yn awgrymu y bydd y gronfa o ymgeiswyr yn mynd yn llai. Mae maint yr elw yn dynn a bydd unrhyw gynnydd mewn cyfraddau llog yn ogystal â chynnydd mewn costau cyffredinol eraill fel cyfraddau busnes, costau tanwydd a chostau bwyd yn cael effaith ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.

Ers y pandemig mae'r farchnad wedi dod yn hynod o ansefydlog o ganlyniad i:

- Gartrefi preswyl a nyrsio yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.
- Gartrefi preswyl a nyrsio yn cael eu cymryd drosodd gan arwain at ansefydlogrwydd a newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau
- Diffyg staff gan fod rhai yn ymddeol neu'n gadael y busnes.
- Nifer isel o leoliadau nyrsio a dim darparwyr gyda lleoliadau agored i sicrhau sefydlogrwydd y lleoliad.
- Diffyg cyllid i geisio cynorthwyo'r darparwyr mewn cyfnod anodd.
- Cartrefi Gofal yn cau, gall hyn fod o ganlyniad i nifer o ffactorau fel ffactorau ariannol neu ddiffyg staff cymwys.
- Mae recriwtio o fewn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol yn bryder parhaus, mae hyn yn cael effaith ar gynaliadwyedd darpariaethau.

Amlygodd trafodaethau gyda'r Unigolion Cyfrifol y materion canlynol:

- Newidiadau cyflym mewn canllawiau
- Cynnydd mewn costau byw
- Y Gronfa Galedi yn lleihau
- Recriwtio a chadw
- Gofalwyr da nad ydynt yn wybodus o ran TG ac nad ydynt yn awyddus i uwchsgilio ac ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar gyfer cofrestru.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Mae gan holl gartrefi gofal Wrecsam gyflenwyr allanol ac maent ar hyn o bryd yn gwerthuso hyfywedd tymor canolig i dymor hirach y farchnad breswyl breifat ac maent yn ystyried sut y gallent ddarparu datrysiadau gofal tymor byr canolradd yn y tymor canolig i'r tymor hirach gan ei bod yn ymddangos fod gan y farchnad hon rai cyfyngiadau o ran darparu yn y cyd-destun hwn.

Mae'r fethodoleg gosod ffioedd, cyllidebau a diffyg cytundeb yn rhanbarthol ar y Cytundeb Cyn Lleoli sy'n gosod y telerau a'r amodau trosfwaol hefyd yn rhwystro comisiynu gofal preswyl sy'n ymatebol ac yn hyblyg.

Mae'r rhwystrau i fynediad i'r farchnad yn cynnwys cyfleusterau ac eiddo addas a'r costau sy'n rhan o ddatblygu eiddo posibl. Hefyd y farchnad recriwtio sydd eisoes yn anodd/prinder staff mewn cyfleusterau sydd wedi'u sefydlu. Mae syniadau am ffyrdd y gallai'r cyngor lleol gefnogi yn cynnwys cymorth i ganfod eiddo addas, mentrau ariannol, benthyciadau i gynorthwyo gyda sefydlu, cymorth recriwtio posibl. Fe all y diffyg hyblygrwydd mewn fframweithiau rhanbarthol i ailagor fod yn rhwystr hefyd. Fe allai'r cyngor weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i alluogi prosesau cofrestru cyflymach a chodi cyllideb er mwyn ymateb i chwyddiant.

Mae'r holl gontractau yn destun monitro rheolaidd o dan y telerau a'r amodau a dylai hyn godi unrhyw broblemau/materion yn gynnar i alluogi i fesurau ataliol a/neu fesurau brys gael eu rhoi mewn grym i geisio osgoi argyfwng. Y prif ddangosyddion fyddai anawsterau a adroddwyd o ran recriwtio, cadw staff - nifer fawr o unigolion yn gadael, wastad wedi cael anawsterau mewn cadw staff yn y diwydiant yn ei gyfanrwydd, colledion ariannol, dim cronfeydd wrth gefn, o bosibl y llety ddim yn addas ar gyfer y dyfodol a dim arian i wneud newidiadau.
Proses uwchgyfeirio pryderon gan gynnwys ymgysylltu gyda chynghorau comisiynu eraill.

## Uwchgyfeirio pryderon

Mae nodi pryderon i'w huwchgyfeirio o fewn cartrefi gofal yn rhan o broses sicrwydd ansawdd y cyngor gyda'r broses yn arwain at welliannau ym mherfformiad ac ansawdd y gwasanaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar staff. Fe all y wybodaeth hon newid yn gyflym ond mae ciplun wedi ei gynnwys isod.

- Ynys Môn: Nid oes darparwyr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022).
- Gwynedd: Un cartref lle mae pryderon wedi eu huwchgyfeirio am resymau yn ymwneud â busnes/rhesymau ariannol. Fel ag ar Fawrth 31 2021, roedd yna dri darparwr yn y broses uwchgyfeirio pryderon, gyda phryderon ar fin cael eu huwchgyfeirio yn ymwneud ag un arall. Fe ellir crynhoi'r rhesymau dros weithredu'r broses uwchgyfeirio pryderon gyda'r pedwar cartref hwn fel rhesymau'n ymwneud ag arweinyddiaeth, rheoli a goruchwylio.
- Conwy: Un darparwr o dan y broses uwchgyfeirio pryderon pan ysgrifennwyd yr adroddiad ac un darparwr arall yn ystod y pandemig. Mae yna berthynas dda rhwng y darparwyr a'r awdurdod lleol ar y cyfan o ran y meysydd o bryder a nodwyd yn gynnar ac a ddatryswyd heb yr angen am weithdrefnau ffurfiol.
- Sir Ddinbych: 2 ddarparwr ar hyn o bryd o dan y broses uwchgyfeirio pryderon (Mai 2022) ond roedd hyd at tua 6 pan oedd y pandemig yn ei anterth. Yn ystod y pandemig polisi Cyngor Sir Ddinbych oedd i ddefnyddio'r broses uwchgyfeirio pryderon pan oedd achosion mewn unrhyw gartref gofal. Roedd hyn yn sicrhau fod yna ymagwedd strwythuredig i gyfarfodydd ac roedd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnwys.
- Sir y Fflint: 5 o gartrefi gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2021. Hysbysiad diffyg cydweithredu/hysbysiad gweithredu brys wedi ei gyhoeddi i 3 cartref gofal rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 (nid yw'n cynnwys 3 darparwr gyda pherchnogion newydd).
- Wrecsam: Tri cartref gofal wedi eu gosod o dan y broses uwchgyfeirio pryderon yn ystod cyfnod yr adroddiad hyd at Fawrth 2021, gyda dau o'r cartrefi hynny wedi cwblhau'r broses o fewn y terfynau amser. Arhosodd un cartref yn y broses wedi ei gefnogi gan gydweithwyr gofal iechyd ac iechyd tan fis Ebrill 2021.

# Cartrefi gofal yn cau

## Gwersi a ddysgwyd o gartrefi gofal yn cau

### Beth weithiodd yn dda

Mae profiad o gartrefi yn cau'n ddiweddar yn amlygu'r canlynol.

- Perthynas waith dda rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru, y cyngor a'r bwrdd iechyd gyda chydweithwyr o Ofal Iechyd Parhaus ac arweinwyr nyrsio cymunedol yn

cael eu cynnwys ochr yn ochr â staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu.

- Cysylltu ag eiriolaeth
- Darparu rhestr o leoedd gwag yn y sector ar hyn o bryd.
- Cydweithwyr iechyd yn gweithio gyda staff gofal cymdeithasol mewn Timau Adnoddau Cymunedol gan greu perthnasoedd cryfach, byrhau'r amser hyd at gyflawni canlyniadau a gwella'r profiad i breswylwyr.
- Staff uwch y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion contractau a chomisiynu yn gweithio'n fwy agos i wella deialog a chydweithio ar draws timau gweithredol a chefnogi busnes.
- Gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws yr holl dimau.
- Cyfathrebu rheolaidd gyda darparwyr
- Pwysigrwydd cychwyn trafodaethau cyn gynted â phosibl i hwyluso cydgynllunio a chydweithio.
- Tîm dynodedig o staff y cyngor i gefnogi pobl gyda'u pacio a chyfrifo ar gyfer eu heiddo, yn ogystal â darparu presenoldeb gan y cyngor yn y cartref.

**Heriau**

- A allai methiant y darparwr fod wedi ei ragweld, neu wedi ei asesu o ran risg cyn i'r hysbysiad gael ei roi? Anodd rhagweld yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael. Efallai y gallai proses ar y cyd gael ei datblygu yn seiliedig ar brofiadau i arwain sefyllfaoedd yn y dyfodol.
- Sicrhau fod digon o leoedd yn yr ardal leol, gallu bodloni lefel angen yr unigolyn, tra'n parhau i gefnogi dewis a rheolaeth. Hefyd atal derbyn i ysbytai acíwt a chymunedol.
- Rheoli disgwyliadau ac emosiynau staff a phreswylwyr yn ystod y broses.
- Deall perchnogaeth offer - beth sy'n perthyn i'r cartref, y Bwrdd Iechyd, Storfeydd, Llywodraeth Cymru fel cyfarpar diogelu personol (PPE) a sicrhau fod yr offer yn cael ei symud i leoliad newydd gyda'r preswylydd.
- Gweithio gyda thrydydd parti fel gweinyddwyr. Safbwyntiau a chanlyniadau a ddisgwylir yn wahanol, cywirdeb gwybodaeth, dealltwriaeth o bolisi Cymreig.
- Cynnal lefel ddiogel o staff yn y lleoliad sy'n cau.
- Cael mynediad i ffeiliau staff i hwyluso cyflogaeth o ran cyflogwyr newydd.
- Cymhlethdodau darparwr newydd yn dod yn gyfrifol am y cartref fel busnes gweithredol. Yn benodol, os oes yna gyfyngiadau wrth iddynt gofrestru.

Cefnogodd Sir Ddinbych ddarparwyr i ddiweddaru cynlluniau wrth gefn yn ystod y pandemig pan brofwyd anawsterau newydd ac eithriadol. Mae staff Cyngor Sir Ddinbych wedi gweithio ochr yn ochr â darparwyr pan fo staff wedi bod yn amhosibl i'w gael fel arall. Wedi dod â darparwyr ynghyd i feithrin gwell perthnasoedd a rhannu arfer orau, er enghraifft, yn ymwneud â rheoli haint. Nid yw ymweliadau monitro yn ôl yn llawn eto ers y pandemig, ond ymwelwyd â'r holl gartrefi gyda risgiau posibl ac roedd mesurau dros dro yn cynnwys galwadau ffôn. Mae cyfarfodydd ymgysylltu â darparwyr nawr yn fisol, ond ychydig sy'n eu mynychu.

Mae Sir y Fflint hefyd wedi canfod fod symud oddi wrth ymweliadau monitro systematig blynyddol tuag at ymagwedd datblygu ymarfer wedi helpu i ddatblygu perthnasoedd adeiladol a phroffesiynol effeithiol gyda darparwyr, sydd wedi bod yn hanfodol er mwyn eu galluogi i ymdrin â heriau'r pandemig gyda'i gilydd.

# Adborth gan breswylwyr cartrefi gofal

Mae gan bob sir systemau mewn grym i ymgynghori ac ymgysylltu gyda phreswylwyr cartrefi gofal. Mae crynodeb o'r adborth a dderbyniwyd isod.

- Adborth cadarnhaol, yn canolbwyntio'n benodol ar staff yn darparu cymorth. Cawsant eu disgrifio fel rhai gofalgar iawn, oedd ag amser i bobl ac yn cefnogi gyda holl agweddau gofal personol ac anghenion cysylltiedig. Cafodd rheolwyr a staff swyddfa eu crybwyll hefyd o ran ei bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn datrys problemau wedi iddynt gyrraedd. Dywedodd pawb hefyd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr adeiladau.
- Codwyd rhai materion gan unigolion, ddim yn aml ond roeddent yn bwysig, gan gynnwys hyfforddiant a nodiadau atgoffa i staff yn ymwneud â materion fel cnocio ac aros wrth ddrysau, y defnydd o ffonau symudol a sut y mae eu hymagwedd tuag at denantiaid yn bwysig. Er enghraifft peidio â brysio, eu trin fel oedolion.

## Adborth gan ddarparwyr

- Dinasyddion yn profi dirywiad cyflym neu ddigwyddiadau sy'n newid bywyd fel strôc ac yna colli galluedd meddyliol gydag arian. Yn aml nid oes unrhyw Atwrneiaeth Oes mewn grym. Fe allai fod o gymorth i hyrwyddo Atwrneiaeth Oes yn fwy ac fe allai hyn leihau rhestr aros dirprwyaeth y cyngor a'r llwyth gwaith.
- Mae cludiant yn broblem fawr i bobl hŷn, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig. Mae gwasanaethau bws

yn gyfyngedig iawn, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, ac yn aml nid yw cludiant cyhoeddus yn gwbl hygyrch neu'n gyfeillgar i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae Deialu a Theithio yn rhagorol ond dim ond yng ngogledd y sir y mae'n weithredol ac nid yw'n rhad. Mae tacsis yn ddrud ac nid ydynt bob amser ar gael neu'n hygyrch. Roedd angen ffôn symudol i archebu lle ar y bws Fflecsi newydd - mae hyn nawr wedi ei ddiwygio.

- Mae'r capasiti o ran y Gymraeg yn broblem.
- Pwysau yn ymwneud â recriwtio a chadw gyda staff yn gadael y sector yn dilyn straen Covid a gallu'r sector i dalu cyflog cystadleuol (o'i gymharu â sectorau eraill fel manwerthu). Gofynion rheoliadol. Diffyg sgiliau yn ymwneud ag ysgrifennu cynigion a deall gofynion y broses dendr.

# Effaith y prosesau comisiynu ar y farchnad

Mae gan bob cyngor systemau mewn grym i gefnogi a chydgysylltu gyda darparwyr, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau gyda darparwyr a chefnogaeth gydag hyfforddiant ac adnoddau. Mae enghreifftiau yn cynnwys Rhaglen 'Cynnydd i Ddarparwyr' mewn Cartrefi Gofal yn Sir y Fflint sy'n adnodd hunan-asesu i reolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio sut maent yn dod ymlaen o ran darparu cefnogaeth bersonol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

## Byw â Chymorth

Fe weithiodd comisiynwyr Gogledd Cymru o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd gyda'i gilydd i ddatblygu Fframwaith Byw â Chymorth a aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2020. Mae nifer o ddarparwyr gwasanaeth eisoes wedi eu derbyn i'r cytundeb fframwaith yn dilyn y gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac ansawdd gofynnol.  Mae hyn yn galluogi comisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau gan fabwysiadu'r cytundeb fframwaith a all symleiddio prosesau tra'n parhau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau yr awdurdod lleol.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 41 o gontractau byw â chymorth sydd i ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae'r rhain wedi bod mewn grym ers sawl blwyddyn ac maent wedi eu hymestyn nifer o weithiau gyda bwriad i ail dendro. Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd yn ymwneud â sut fyddai orau i ail dendro. Y pryder yw y gallai ail-dendro gael effaith a fyddai'n dadsefydlogi'r farchnad leol gan ddwysáu problemau cyfredol o ran cadw staff a chreu risg fod darparwyr yn rhoi contractau cyfredol yn ôl

yn hytrach na chynnig am fwy. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â pha ddull i'w fabwysiadu.

# Y Gymraeg

Mae tua 24% o staff gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn gallu cyfathrebu yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018b)  (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018). Ar draws Gogledd Cymru mae 20% o reolwyr cartrefi gofal cofrestredig yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae'r ganran uchaf yng Ngwynedd lle mae 57% o siaradwyr Cymraeg rhugl.

Nododd ymgysylltu yn Sir Ddinbych fod derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg yn flaenoriaeth uchel yn ardal Dinbych ac nad oes digon o ofal yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ne'r sir. Mae gan nifer o staff rai sgiliau o ran y Gymraeg ond mae yna ddiffyg hyder ac felly mae prosiect mewnol yn edrych ar ffyrdd o wella hyn. Nododd arolwg o gartref gofal Cysgod y Gaer yng Nghorwen ym Mawrth 2022 fod y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Gweithredol' o ran y Gymraeg a'i fod yn rhagweld, nodi ac yn bodloni anghenion y bobl leol sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio o ran y Gymraeg a'u hanghenion diwylliannol .

# Gwerth cymdeithasol a gwasanaethau ataliol

Mae'r cysyniad o werth cymdeithasol yn cynnwys y canlynol.

- Y gwerth a brofir gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan ddarparu 'beth sy'n bwysig' a chyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio.
- Y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd ychwanegol y gall contract ei ddarparu sydd y tu hwnt i'r gofynion craidd.
- Y ddyletswydd sydd gan gynghorau lleol i hyrwyddo gofal cymdeithasol a gwasanaethau ataliol a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr, a'r trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2014).
- Mae Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) wedi llunio canllawiau i godi ymwybyddiaeth o fodelau menter gymdeithasol a menter gydweithredol posibl yn y sector cartrefi gofal.

Rydym eisiau hyrwyddo 'modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol' sy'n:

- Cyflawni canlyniadau lles.
- Gweithio yn gydgynhyrchiol - gan roi llais cryf a gwir reolaeth i ddefnyddwyr.
- Bod â gogwydd ataliol a lleihau dibyniaeth.
- Ymgorffori cydweithio, cydweithrediad a phartneriaeth.
- Ychwanegu gwerth - cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ogystal ag i hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynnal neu'n cryfhau lles gofalwyr di-dâl a chapasiti cymunedol tu hwnt i'r farchnad - heb hynny ni all y farchnad fod yn sefydlog.

Mae pob sir yn cefnogi ystod o wasanaethau ataliol a all helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac osgoi'r angen am ofal preswyl neu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau rhanbarthol a gaiff eu hariannu drwy'r Gronfa Gofal Integredig gan gynnwys prosiectau atal cwympiadau a gofal cam i fyny/cam i lawr. Mae 'cam i fyny' yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o'r cartref/lleoliadau cymunedol i atal derbyniadau ysbyty acíwt diangen neu dderbyniadau cynamserol i ofal hirdymor. Mae 'cam i lawr' yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o ofal acíwt ar gyfer adfer ac i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.

Mae prosiectau yn cynnwys asiantwyr cymunedol, llyw-wyr a phrosiectau presgripsiynu cymdeithasol sy'n cysylltu pobl gyda'r gefnogaeth a'r gweithgareddau sydd ar gael yn eu cymuned leol. Maent hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyfeillio, eiriolaeth a seibiant.

Mae'r prosiectau Gofal Micro ac Catalyddion Cymunedol yn darparu cefnogaeth i ficro ddarparwyr i fynd i mewn i'r marchnadoedd gofal. Caiff taliadau uniongyrchol eu defnyddio i helpu pobl i gael mynediad i ofal personol a byw mor annibynnol â phosibl.

Mae yna ragor o wybodaeth am y gwasanaethau ataliol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

# Y Gweithlu

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig oedd yng Ngogledd Cymru ar 1 Ebrill 2020. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos:

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe adawodd 46 o reolwyr y gofrestr ac fe ymunodd 31, trosiant o 14%.
- Mae'r gymhareb merched i ddynion yn 6:1 ac mae 230 dros 51 oed.
- Mae gan tua thraean o reolwyr cofrestredig ychydig o sgiliau o ran y Gymraeg ac mae 20% yn rhugl.

Tabl 6: Nifer y rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig, 31 Mawrth 2020

| Cyngor lleol | Rheolwyr cartrefi gofal |
|---|---:|
| Ynys Môn | 30 |
| Gwynedd | 61 |
| Conwy | 67 |
| Sir Ddinbych | 66 |
| Sir y Fflint | 39 |
| Wrecsam | 47 |
| Gogledd Cymru | 310 |

Ffynhonnell: Gofal Cymdeithasol Cymru, rheolwyr cartrefi gofal oedolion cofrestredig

Nododd arolwg rhanbarthol a luniwyd ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad fod 1 o bob 5 swydd gweithiwr gofal yn wag ar draws y rhanbarth, gan gynnwys swyddi uwch weithwyr gofal a gweithwyr gofal.

Ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mae yna rai pryderon fod gan fwy o gartrefi yn cynnig gofal preswyl a gofal preswyl iechyd meddwl pobl hŷn (HaSM) i'll dau heb o reidrwydd ddarparu cyfleusterau ar wahân ar gyfer preswylwyr gwahanol ac o bosibl heb fod â setiau sgiliau a threfniadau mewn grym.

Mae yna gynnydd mewn anghenion hyfforddi o ganlyniad i'r diffyg hyfforddiant oedd ar gael ac yn cael ei gynnig yn ystod y pandemig, sy'n cynnwys hyfforddiant sylfaenol fel hyfforddiant sefydlu a chodi a symud yn gorfforol.

Mae yna rai pryderon y gallai staff fod wedi symud oddi wrth yr ethos ailalluogi o ganlyniad i bwysau yn ystod y pandemig. Er enghraifft, unigolion wedi eu datgyflyru

o ganlyniad i ddiffyg gweithgarwch a staff ddim yn hyrwyddo ffurfiau syml o annibyniaeth, fel mynd i'r toiled heb gymorth.

Dywed awdurdodau lleol ei bod yn dod yn fwy anodd recriwtio rheolwyr cartrefi gofal. Hwyrach y bydd gan ddulliau eraill megis 'Tyfu Eich Hun' y potensial i greu'r amodau ar gyfer datblygu gweithlu cynaliadwy.

# 4. Gwasanaethau gofal cartref

## Trosolwg o'r boblogaeth

Amcangyfrifir y bydd y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy'n cael anawsterau gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd yn cynyddu 25% erbyn 2040.

### Bydd mwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain

Gall cyfansoddiad aelwydydd effeithio hefyd ar y galw am wasanaethau i gefnogi annibyniaeth.  Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 44,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pen eu hunain, sy'n 59% o'r holl aelwydydd 65 oed a hŷn.  Canfu ymchwil gan Gyngor Gwynedd bod perthynas gref rhwng y nifer o bobl 65 oed a hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain a nifer y cleientiaid sy'n derbyn pecyn gofal cartref mewn ardal (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Ar ben hynny, mae gan tua 28% o bobl yng Nghymru incwm mor isel fel nad ydynt yn cyfrannu at gost eu gofal cartref (AGGCC, 2016). Rhagwelir bod gan 30% o bobl ddigon o gyfalaf i ariannu eu gofal eu hunain, yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal (AGGCC, 2016)

Tabl 7: Nifer y bobl 65 a hŷn y rhagwelir eu bod yn cael anhawster gyda gweithgareddau byw o ddydd i ddydd

| Cyngor lleol | nifer 2020 | canran 2020 | nifer 2040 | canran 2040 | Newid yn y nifer | Newid yn y ganran |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| Ynys Môn | 5,100 | 27% | 6,550 | 29% | 1,500 | 23% |
| Gwynedd | 8,000 | 28% | 10,050 | 29% | 2,050 | 20% |
| Conwy | 9,450 | 29% | 13,050 | 30% | 3,600 | 27% |
| Sir Ddinbych | 6,450 | 27% | 8,800 | 29% | 2,400 | 27% |
| Sir y Fflint | 9,150 | 27% | 12,350 | 29% | 3,250 | 26% |
| Wrecsam | 7,550 | 27% | 10,000 | 29% | 2,450 | 24% |
| Gogledd Cymru | 45,700 | 28% | 60,900 | 29% | 15,150 | 25% |
| Cymru | 185,300 | 28% | 248,900 | 29% | 63,600 | 26% |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn cyfansymio

Ffynhonnell: Daffodil, Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a rhagolygon y boblogaeth yn seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

# Digonolrwydd y farchnad

## Trosolwg o'r farchnad

Mae nifer yr oriau cyfartalog o ofal cartref fesul wythnos a gomisiynir gan bob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 8: Oriau gofal cartref cyfartalog a gomisiynir gan yr awdurdod lleol/bwrdd iechyd fesul wythnos

| Sir | Person hŷn | Anabledd dysgu | Iechyd meddwl person hŷn | Anabledd corfforol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3644 | 390 | | 582 | 3,643 |
| Gwynedd | | | | | 11,144 |
| Conwy | 8024 | 5523 | 382 | | 13930 |
| Sir Ddinbych | - | - | - | - | 5150 |
| Sir y Fflint (a, b) | 6,047 | 913 | 22 | 1,160 | 8,142 |
| Wrecsam | 559 | 638 | 1196 | 955 | 8388 |
| Gogledd Cymru | | | | | 44558 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Cymorth lle bo'r angen (nid mewn llety tai â chymorth)
(b) Iechyd meddwl person hŷn – sector annibynnol, ond darperir y mwyafrif o'r cymorth gan dîm iechyd meddwl mewnol)
(c) Learning disability floating support (not in supported living accommodation)
(d) Older person mental health - independent sector, but majority of support provided by in house mental health team

Yn nhermau cydbwysedd y farchnad, ar gyfartaledd mae mwy na 70% o'r farchnad gofal cartref yng Nghymru yn cynnwys darparwyr y sector annibynnol gyda'r gweddill yn gymysgedd o ddarparwyr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio yn ôl awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae gan Wynedd 44% o ofal cartref sy'n cael ei ddarparu'n fewnol ar hyn o bryd a 56% drwy'r sector annibynnol, ond yn Sir y Fflint mae'r awdurdod lleol yn darparu tua 10% o'r ddarpariaeth gofal cartref ar hyn o bryd.

Tabl 9: Canran amcangyfrifedig y farchnad o'r sector gofal cartref yn ôl math

| Sir | Mewnol | Sector annibynnol |
|---|---|---|
| Ynys Môn (a) | 18.5 | 81.5 |
| Gwynedd | 44 | 56.0 |
| Conwy | 9.7 | 90.3 |
| Sir Ddinbych | 10 | 90.0 |
| Sir y Fflint | 10.5 | 89.5 |
| Wrecsam | 3 | 97 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Dylai fod yn ddarparwr mewnol/allanol (sector annibynnol a thrydydd sector) wedi'i rannu'n 30/70%

Tabl 10: Nifer y darparwyr sy'n gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol

| **Sir** | **Nifer y darparwyr** |
|---|---|
| Ynys Môn | 1 |
| Gwynedd | 1 |
| Conwy | 3 |
| Sir Ddinbych | 6 |
| Sir y Fflint | 6 |
| Wrecsam | 4 |
| Rhanbarthol (a) | 52 |

Ffynhonnell: Rhwydwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru
(a) Mae'r darparwyr a nodwyd ar gyfer pob sir yn ddarparwyr sydd ond yn darparu gwasanaethau yn y sir honno.  Darparwyr rhanbarthol yw'r rhai sy'n gweithio mewn mwy nac un sir yng Ngogledd Cymru.

Tabl 11: Cyfradd gyfartalog fesul awr gofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£)

| Sir | Person hŷn | Anabledd dysgu | Iechyd meddwl pobl hŷn | Anabledd corfforol |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17.83 | 16.04 | 17.83 | 17.83 |
| Gwynedd | 19.13 | 19.13 | 19.13 | 19.13 |
| Conwy (a) | 20.60 | 20.60 | 20.60 | 20.60 |
| Sir Ddinbych (a) | 19.53 | 19.53 | 19.53 | 19.53 |
| Sir y Fflint (b, c) | 18.67 | 16.84 | - | 18.67 |
| Wrecsam | 20.33 | 16.90 | 20.58 | 20.28 |

Ffynhonnell: data a gasglwyd gan awdurdodau lleol
(a) Y gyfradd gyfartalog ar draws pob grŵp o'r boblogaeth
(b) Byw â chymorth
(c) Mae'r mwyafrif o ofal iechyd meddwl pobl hŷn yn cael ei gefnogi'n fewnol, ni ddarparwyd cyfartaledd.

## Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

**Mae gofal cartref yn farchnad flaenoriaeth a nodwyd gan gomisiynwyr**, ac nid yw darparwyr presennol y sector preifat yn gallu cyflawni'r galw am swm sylweddol o amser yn awr. O ganlyniad i hyn, mae twf a datblygiad gwasanaethau, gan gynnwys gofal cartref cyffredinol (sy'n cynnwys gofal cartref, ail-alluogi, byw yn y gymuned ac adferiad) wedi'u nodi fel cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

### Trosolwg o'r farchnad ar Ynys Môn

Ar Ynys Môn, mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd (Mawrth 2022) oherwydd prinder staff yn y darparwyr gofal cartref.

## Trosolwg o'r farchnad yng Ngwynedd

Yng Ngwynedd, ni fu digon o ofal cartref i gyflawni'r angen ar draws Gwynedd, yn arbennig yn ardal Eifionydd a Phwllheli ar hyn o bryd.

Yng Ngwynedd, mae diffyg argaeledd gofal cartref ar hyn o bryd, ac mae natur y trefniadau presennol yn golygu y gall darparwyr wrthod rhoi gofal, neu ddychwelyd

pecynnau.  Gall argyfyngau mynych ddigwydd, lle mae darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu darparu gofal mwyach o ganlyniad i broblemau staffio.

Ar hyn o bryd, nid oes llawer o ddewis i bobl yn y maes.  Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis.  Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal. Mae prosiect gyda 'Catalyddion Cymunedol' wedi dechrau, i annog pobl i sefydlu cwmni bychan i ddarparu gofal, gyda'r gobaith y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

## Trosolwg o'r farchnad yng Nghonwy

Mae nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy wedi lleihau yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, fel y dangosir yn y tabl isod.

Bu rhai rhesymau sylfaenol am hyn, effaith COVID a gweithwyr gofal yn gadael y sector ac nid yw'r sector yn gallu recriwtio staff newydd.

Fel y gellir gweld, yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r nifer o ddinasyddion sy'n derbyn gofal cartref wedi lleihau'n ddramatig ac mae tystiolaeth gan ddarparwyr yn dangos mai diffyg gofal cartref sy'n gyfrifol am hyn.  Yn y cyfnod o fis Mai i fis Tachwedd 2021 mae tua 950 awr o becynnau gofal cartref wedi'u dychwelyd am na allai asiantaethau'r sector preifat gyflawni'r galw.

Tabl 12: Nifer y bobl sy'n derbyn pecynnau gofal cartref yng Nghonwy

| Blwyddyn | Cyfanswm y cleientiaid |
|---|---:|
| 2017/18 | 898 |
| 2018/19 | 818 |
| 2019/20 | 799 |
| 2021/22 | 717 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r wythnos hon, 2 Ebrill 2022, mae 698 o becynnau yn cael eu darparu i bobl hŷn ar draws Conwy.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm nifer y pecynnau ac oriau sy'n cael eu cyflawni, wythnos 2 Ebrill 2022. Dangosir yr ardaloedd yn y tabl hwn fel ardaloedd y Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC).

Tabl 13: Cyfanswm nifer y pecynnau a'r oriau gofal cartref sy'n cael eu darparu yng Nghonwy (Ebrill 2022)

| Ardal TAC | Pecynnau | Oriau | Oriau cyfartalog fesul pecyn |
|---|---|---|---|
| Abergele | 146 | 1,709 | 11.7 |
| Colwyn | 206 | 2,251 | 10.9 |
| Llandudno | 172 | 2,217 | 12.9 |
| Arfordirol | 91 | 1,166 | 9.0 |
| Gwledig | 83 | 747 | 9.0 |
| Cyfanswm | 698 | 8,091 | 11.6 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn cyfansymio
Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gellir gweld mai'r ardal TAC Colwyn sydd â'r nifer fwyaf o becynnau a'r ardal Wledig sydd â'r nifer leiaf. Mae'n ddiddorol gweld hefyd nad ardaloedd Llandudno ac Arfordirol sydd â'r nifer fwyaf ond bod yr oriau cyfartalog fesul pecyn uwch nac mewn unrhyw ardal arall, mae'n debyg mai oedran cyfartalog y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn sy'n gyfrifol am hyn a'r ffaith bod angen pecynnau cymorth mwy dwys arnynt.

## Trosolwg o'r farchnad yn Sir Ddinbych

Roedd 585 o bobl yn derbyn gofal cartref yn Sir Ddinbych yn ystod 2020-21. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Tabl 14: Demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir Ddinbych

| Grŵp oedran | Canran y Ddarpariaeth |
|---|---|
| 18-24 | 1% |
| 25-64 | 19% |
| 65-74 | 11% |
| 75-84 | 24% |
| 85+ | 45% |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Nid oes gan Sir Ddinbych ddigon o ddarparwyr i roi dewis gwirioneddol i bobl neu i roi elfen o gystadleuaeth yn y farchnad. Nid yw comisiynwyr wedi llwyddo i gyflawni'r galw ac nid ydynt wedi gallu darparu gofal cartref ar gyfer pob cais. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2022 roedd 116 o bobl yn aros am becynnau gofal cartref, yr oedd 26 ohonynt yn derbyn cymorth dros dro. Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd y pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr. Mae heriau penodol yn bodoli yn ne'r sir oherwydd nifer fach iawn o ddarpariaeth annibynnol sydd ar gael. Dim ond yn y de y mae ein tîm mewnol yn gweithio ac mae eu hymyrraeth yn aml yn datblygu i fod yn hirdymor oherwydd diffyg darpariaeth amgen. Ar ben hynny, mae'r timau ail-alluogi, yn y gogledd a'r de, yn canfod eu bod yn derbyn pecynnau gofal brys yn rheolaidd ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i gynnig gwasanaethau ail-alluogi.

Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau

- gofal lliniarol

Rydym yn gweithio gyda'r Catalyddion Cymunedol i sicrhau bod trigolion Sir Ddinbych yn gallu cael mynediad at y math o ofal a chymorth sy'n eu gweddu orau. Yn ychwanegol, ma Catalyddion Cymunedol yn cefnogi dinasyddion sy'n dymuno derbyn cymorth i'w dderbyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw hwy.

**Catalyddion Cymunedol**

Mae Catalyddion Cymunedol yn fenter gymdeithasol sy'n gweithio ar hyd a lled y DU i geisio gwneud yn siŵr bod pobl sydd angen gofal a chymorth i fyw eu bywydau yn gallu cael y cymorth hwnnw mewn ffyrdd, ar adegau ac mewn lleoedd sy'n addas iddyn nhw, gyda dewis gwirioneddol o opsiynau lleol deniadol. Maent yn helpu pobl ar draws y DU i ddefnyddio eu hegni a'u talentau i sefydlu 'micro-fentrau cymunedol'. Mae micro-fentrau cymunedol yn fusnesau neu'n fentrau bach iawn neu'n grwpiau sy'n gallu cynnig cymorth gyda gofal neu iechyd neu lesiant pobl leol yn eu hardal.

Mae gan Gatalyddion Cymunedol lawer o brofiad ac arbenigedd a gallant gynnig cyngor ac arweiniad arbenigol i bobl sy'n dymuno dechrau menter gofal newydd, er mwyn iddynt allu gwneud hyn yn ddiogel a llwyddiannus.

Yn Sir Ddinbych, mae Catalyddion Cymunedol wedi'u comisiynu gan y Cyngor i ddefnyddio ei arbenigedd i helpu i fynd i'r afael â heriau gofal cymdeithasol.

**Symud gydag Urddas / Gofal Addas**

Ers blynyddoedd lawer, mae wedi bod yn arfer sefydledig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl sydd angen cael eu codi, neu ofalu amdanynt yn y gwely, i gael pecyn gofal gyda dau o bobl er mwyn cynorthwyo a chyflawni'r gofal.

Nid yw'n hysbys lle neu sut y sefydlodd yr arfer hwn, ond gydag arloesedd offer symud a thrin a symud i ddull gofalu a chefnogi sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei gwestiynu a'i herio'n gynyddol.

Amcangyfrifir y gallai o leiaf 37% o ddinasyddion Sir Ddinbych dderbyn cymorth gan un gofalwr (yn hytrach na dau) gyda'r manteision ychwanegol o gynnal urddas a chyfforddusrwydd gyda'r hyblygrwydd uwch sy'n gysylltiedig â darparu dim ond un gofalwr. Mae offer symud a chodi mwy arbenigol yn cael eu cynllunio a'u gweithgynhyrchu er mwyn hwyluso gofal gan un person sy'n galluogi i anghenion gofal ein Dinasyddion gael eu cyflawni gyda'r lefel isaf o gymorth ac ymyrraeth.

Mae Sir Ddinbych wedi bod yn hyrwyddo'r ffordd hon o weithio ar draws gofal Iechyd a Chymdeithasol a hyfforddi staff er mwyn iddynt fod yn fwy cyfarwydd ag offer arbenigol symud a chodi a'u bod felly'n teimlo'n fwy hyderus i gefnogi ein Dinasyddion i gael eu hanghenion gofal wedi'u cyflawni gyda'r lefel isaf o ymyrraeth.

Mae'r prosiect Symud gydag Urddas yn ymgorffori hyrwyddo annibyniaeth a thechnegau codi a symud priodol ar gyfer darparu gofal.  Gan ddefnyddio caredigrwydd a dull ysgafn a thosturiol mae'n cynnwys edrych ar y nifer o ofalwyr sydd eu hangen i roi sylw i anghenion person, wrth gael eu codi, eu trosglwyddo neu eu symud gan ddefnyddio technegau ac eitemau o offer penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd 5 sesiwn gyda Therapyddion Galwedigaethol i ddiweddaru sgiliau defnyddio systemau rheoli gwelyau.  O ganlyniad, mae'r system rheoli gwelyau Nordig yn stoc graidd erbyn hyn a gellir eu harchebu'n uniongyrchol gan ein Gwasanaeth Offer Cymunedol sydd wedi golygu llai o oedi rhwng yr asesiad cychwynnol a darparu gwelyau i ddinasyddion.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ffurfiol gyda 22 aelod o staff gofal o'n tîm mewnol Annibyniaeth yn y Cartref.  Yn dilyn ymlaen o'r hyfforddiant, mae'r tîm yn gweithio i sicrhau yn awr bod pecynnau gofal ar gyfer y rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu hystyried o fewn ethos Symud gydag Urddas cyn trosglwyddo gofal i ddarparwyr gofal cartref allanol.

Cyflwynwyd prosiect peilot gydag un asiantaeth Gofal Cartref, lle bydd y Rheolwr a'r hyfforddwr Symud a Chodi yn derbyn sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth i drafod ethos Symud gydag Urddas, y maent yn ei gyflwyno yn awr gyda'u tîm gofal.  Y nod yw, ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, y gwneir gwaith i adolygu'r pecynnau gofal gan ddau berson.

Cwblhaodd arweinydd ein prosiect Symud gydag Urddas sesiwn hyfforddiant gyda hyfforddwyr Symud a Chodi bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBP) i drafod gofal gan un person.

Mae Tîm Ar Ffiniau Gofal newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyd-fynd â'n gweledigaeth strategol ar gyfer dull mwy modern ac effeithiol o ddarparu cymorth gofal cymdeithasol sy'n atgyfnerthu gwytnwch unigol a chymunedol.  Mae'r tîm Ar Ffiniau Gofal yn unigryw yn y ffaith ei fod yn seiliedig yn y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae'n recriwtio, yn hyfforddi ac yn adleoli Gwirfoddolwyr.

Mae'r Rheolwr yn Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac yn fentor sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau.  Mae dau Gydgysylltydd Ar Ffiniau Gofal yn cynorthwyo'r Rheolwr i gyflawni'r prosiect.

Mae'r Tîm wedi dangos sut y gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar lwybrau gofal cynlluniedig, yn cefnogi dinasyddion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, gweithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i gyflawni dull gweithredu 'tîm o amgylch yr unigolyn', lleihau'r galw am ofal cynlluniedig traddodiadol.  Er enghraifft; mae gennym wirfoddolwyr sy'n darparu gofal seibiant i ofalwyr, ac rydym yn paru'r 'rhai sy'n derbyn gofal a gwirfoddolwyr' yn ofalus a bwriadol, ac mae hyn wedi creu profiad ystyrlon a phleserus i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn y gofal.  Mae gennym enghreifftiau pan fydd dinasyddion wedi parhau 'ar ffiniau' gofal cynlluniedig a gofal heb ei gynllunio, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl, lleoliadau Gofal Cartref a gofal cartref traddodiadol, gan alluogi dinasyddion i aros yn y gymuned.

## Trosolwg o'r farchnad yn Sir y Fflint

O ran demograffeg y bobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint, y grwp mwyaf yw pobl 85 oed a hŷn, gweler y tabl isod.

Tabl 15:  Demograffeg pobl sy'n cael mynediad at ofal cartref yn Sir y Fflint

| Grŵp oedran | Canran y ddarpariaeth |
|---|---:|
| 18 i 24 | 1% |
| 25 i 64 | 17% |
| 65 i 74 | 12% |
| 75 i 84 | 27% |
| 85 a hŷn | 43% |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

O'r rhai o dan 65 oed, mae cyfran debyg o bobl yn derbyn cymorth ar gyfer anabledd dysgu â'r gyfran â nam corfforol neu synhwyraidd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y newidiadau i'r boblogaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf yn cael effaith ar ddigonolrwydd y ddarpariaeth.  Gallai'r cynnydd hwn yn y nifer o bobl sy'n byw yn y gymuned sydd â dementia ac anghenion cymhleth gynyddu'r galw am wasanaethau gofal cartref, yn arbennig 'pecynnau gofal staffio

dwbl'.  Mae hyn yn rhywbeth y mae angen i'r awdurdod ei ystyried er mwyn parhau i gefnogi unigolion i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hwy.

Mae Gwasanaeth Cymorth Cymunedol Mewnol Sir y Fflint yn darparu gofal a chymorth i oedolion ag angen wedi'i asesu yn eu cartrefi eu hunain.  Mae'r gwasanaeth wedi'i rannu'n dair ardal ddaearyddol ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy dîm o staff gofal sy'n gweithio ar draws Sir y Fflint.  Mae'r tair ardal hyn yn atgynhyrchu'r gwaith cymdeithasol a'r timau iechyd yn lleol ac mae hyn yn cynorthwyo gyda pharhad gofal a datblygu perthnasoedd gwaith ar draws gwahanol broffesiynau.  Y tair ardal yw:

- Ardal y Gogledd-ddwyrain – ardal Glannau Dyfrdwy
- Ardal y De – ardaloedd Yr Wyddgrug / Bwcle
- Ardal y Gogledd-orllewin – ardaloedd Treffynnon / Y Fflint

Mae ethos y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn un o ail-alluogi a chefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir y Fflint.  Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn darparu cymorth ar gyfer ystod o anghenion iechyd a gofal, gan gynnwys:
Mae'r ystod o anghenion gofal yn eang ac mae'n cynnwys:

- bregusrwydd o ganlyniad i gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran
- anableddau corfforol
- anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth
- namau synhwyraidd
- salwch cronig
- cyflyrau iechyd hirdymor
- dementia
- iechyd meddwl, gan gynnwys iselder, gorbryder
- camddefnyddio sylweddau
- gofal lliniarol

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol yn cefnogi pobl drwy dri model/dull gweithredu gofal a chymorth gwahanol, sy'n amrywio yn ôl yr unigolyn a beth sy'n bwysig iddynt hwy.

**Ail-alluogi** – cynlluniwyd hyn i gynorthwyo pobl i adennill, gwella a chynnal eu sgiliau byw o ddydd i ddydd a sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth wrth iddynt barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Gwasanaeth tymor byr yw hwn y gellir ei ddarparu am hyd at chwe wythnos. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos gyda thimau rhyddhau cleifion o'r ysbyty ac mae ganddo rôl bwysig yn ceisio lleihau derbyniadau ac ail-dderbyniadau mewn ysbytai ac mae'n gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Gweithwyr Cymdeithasol, Ffisiotherapyddion a Nyrsys Ardal. Mae gan y gwasanaeth rôl bwysig hefyd yn gweithio gyda phobl i gyflawni eu nodau personol eu hunain a helpu i ymgartrefu'n ôl i'w hamgylchedd eu hunain yn eu cartref ac yn y gymuned leol. Y nod yw cynorthwyo pobl i sicrhau'r lefel uchaf o annibyniaeth cyn gynted â phosibl a sicrhau, os bydd angen gofal a chymorth parhaus ar bobl, bod hyn ar y lefel briodol.

**Byw'n Dda** – mae hyn yn darparu gofal a chymorth hyblyg i bobl sy'n byw gyda dementia. Cynlluniwyd y gwasanaeth i alluogi pobl i fyw'n annibynnol a cheisia gynorthwyo pobl i barhau i fod yn egnïol yn eu cartref ac yn eu cymunedau cyhyd ag y bo'n bosibl. Mae'r gofal a'r cymorth wedi'i deilwra o amgylch yr unigolyn. Mae gofal, cymorth a gweithgareddau yn cael eu datblygu dros amser wrth i'r staff feithrin perthynas gyda'r person a'u bod yn deall beth sydd ei angen arnynt. Mae'r dull hwn yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol ac mae'n cyfrannu i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia yn llwyddo i gynnal eu hannibyniaeth cyhyd ag y bo'n bosibl.

**Mae pobl ag anghenion gofal cymhleth hirdymor** yn derbyn cymorth i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cymorth byw dyddiol, helpu i gyflawni nodau a nodwyd, cefnogaeth gyda meddyginiaeth yn ogystal â gofal diwedd bywyd / gofal lliniarol yn ôl yr angen. Wrth gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, mae'r gwasanaeth yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd, a gall hynny helpu pobl i oresgyn argyfwng yn ôl yr angen.

Yn ogystal â darpariaeth gofal mewnol yr Awdurdod Lleol ei hun, mae'r Comisiynwyr yn Sir y Fflint yn defnyddio 28 o ddarparwyr yn weithredol o Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru. Mae yna nifer fach sy'n cyflawni gwasanaeth byw â chymorth hefyd yn benodol o dan fframwaith amgen.

Mae gwasanaethau'r sector annibynnol a gwasanaethau'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 7500 awr o ofal cartref yr wythnos ar hyn o bryd.  Mae darpariaeth fewnol Cyngor Sir y Fflint yn cyflawni tua 12% o'r farchnad hon, ond mae'n anelu at gynyddu'r gwasanaethau a gyflawnir yn yr ardal hon i gynorthwyo mwy o bobl i fyw adref, yn unol â Chynllun y Cyngor.  Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys darparu Gofal Ychwanegol, lle mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni tua 370 awr o ofal yr wythnos.

### Trosolwg o'r farchnad yn Wrecsam

Mae gan Wrecsam boblogaeth o ychydig dros 135,000 yn ôl cyfrifiad 2017. Mae mwy na 45% (58,359) o'r boblogaeth honno dros 45 oed. Mae 23% pellach (31,700) o'r boblogaeth yn 60 oed a hŷn. Mae 19,000 (14%) mewn iechyd gweddol, ac mae 6,500 (5%) mewn iechyd gwael a 1,800 (1%) mewn iechyd gwael iawn. Darperir y ddarpariaeth gofal cartref yn Wrecsam drwy fodel ardal leol.

O'r rhain, mae yna nifer sy'n darparu gwasanaethau gofal i'r rhai mewn angen ac sy'n gwneud hynny'n ddi-dâl.  Dadansoddir y rhain fel a ganlyn: mae 8,900 yn darparu 1 i 19 awr o ofal di-dâl yr wythnos; mae 2,200 yn darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos ac mae 4,000 yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos. Mae'n debygol, dros gyfnod o bum mlynedd, y bydd angen i bob un o'r bobl hyn gael mynediad at wasanaethau ar ryw lefel.

# Sefydlogrwydd y farchnad

## Heriau rhanbarthol

Mae bwlch yn bodoli yn y gwasanaethau o ran ymweliadau byr i'r cartref i ddarparu cymorth gyda meddyginiaeth.  Nid yw'r gwasanaethau iechyd na gwasanaethau cymdeithasol yn darparu ymweliadau ar gyfer meddyginiaeth yn unig, ond mae angen y gofal hollbwysig hwn ar bobl hŷn â phroblemau gyda'u cof (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol, gyda'r cynnydd mewn chwyddiant a'r costau tanwydd uwch, a chost ehangach pwysau byw ar ddechrau 2022 yn creu ansefydlogrwydd i ddarparwyr gofal cartref a'u staff, er enghraifft mewn tlodi gwaith.

Gallai gostyngiad mewn cyllidebau gyflwyno heriau pellach o ran lefel y gwasanaethau y gellir eu comisiynu a'u darparu. Ar draws Gogledd Cymru, mae

darparwyr wedi gwerthfawrogi'r cyllid cymorth a dderbyniwyd ar hyd y pandemig Covid-19. Er enghraifft, £1 filiwn ar gyfer gofal cartref sydd wedi darparu sefydlogrwydd yn ystod y pandemig. Mae pryder ynglŷn ag effaith diwedd y flwyddyn ariannol.

## Sefydlogrwydd y farchnad ar Ynys Môn

Yn dilyn y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem, gyda chyfradd trosiant y staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn 2021/22.

Mae galw cynyddol am wasanaethau ond mae cyllidebau, ynghyd â phwysau chwyddiant yn cael anhawster i gyflawni'r galw.

## Sefydlogrwydd y farchnad yng Ngwynedd

Mae Gwynedd wedi dechrau sefydlu model gofal cartref newydd yn ddiweddar ac mae'r dangosyddion cynnar yn gadarnhaol iawn, gyda darparwyr yn sicrhau mwy o lwyddiannau recriwtio. Bydd dechrau'r broses dendro ar gyfer gofal cartref ar ddechrau mis Ebrill 2022 yn rhoi cyfle i gomisiynwyr sefydlu'r model newydd ar draws y Sir, gyda'r gobaith o sicrhau llawer mwy o sefydlogrwydd yn dilyn hynny. Y gobaith yw y gellir recriwtio mwy o staff, cyflawni mwy gyda'r un lefel staffio a chyflawni mwy o arbedion (llai o deithio a llai o fiwrocratiaeth) sy'n arwain at fwy o amser i ofalu a chanlyniadau gwell i bobl (drwy ganolbwyntio ar beth sy'n gwneud gwahaniaeth i'r unigolyn a theilwra'r gofal yn briodol), drwy fabwysiadu'r model newydd. Y bwriad yn y model newydd yw cynnal y rhaniad 50:50 rhwng y sectorau mewnol ac allanol ar gyfer y ddarpariaeth. Mae cynnwys y contract newydd ar gyfer darparwyr allanol yn golygu bod gennym y rhyddid i addasu'r gymhareb hon yn ystod oes y cytundeb. Ceir argyfyngau rheolaidd wrth ddarparu gofal cartref, pan fydd darparwyr yn adrodd nad ydynt yn gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth mwyach oherwydd problemau staffio. Wrth i'r trefniadau newydd ddod i rym, bydd angen cyfnod pontio, gan gynnwys prosesau cysgodi effeithiol a hyfforddiant.

## Sefydlogrwydd y farchnad yng Nghonwy

Nid yw marchnad y sector Annibynnol wedi gallu cyflawni gofynion gofal cartref Conwy ers y pandemig. Ar hyn o bryd mae gan Gonwy (Ebrill 2022) 900 a mwy awr o ofal heb ei froceru na all y farchnad ei gyflawni (60+ o becynnau). Mae hyn wedi bod yn gyson am fwy na 12 mis ac mae'n cael ei ddarparu'n fewnol a thrwy ddarpariaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae trafodaethau gyda

Darparwyr yn awgrymu mai problemau staff / recriwtio yn y sector sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r sefyllfa yn gwella yn raddol ond yn rhy araf i gyflawni'r cynnydd yn y galw am y ddarpariaeth.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir Ddinbych

Mae ethos darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ail-alluogi ac mae'n cefnogi pobl yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn darparu gwasanaethau i bobl 18 oed a hŷn yr aseswyd bod ganddynt ofal angen gofal cymdeithasol ac sy'n byw yn Sir Ddinbych.

Mae darpariaeth fewnol Sir Ddinbych yn cynnwys Gweithwyr Ail-alluogi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Tîm Cymorth Dros Dro – bwriedir i'r holl wasanaethau fod yn ymyriadau tymor byr.

Swyddogaeth y Tîm Cymorth Dros Dro yw darparu gofal cartref a chymorth am gyfnod byr o amser tra bydd pecynnau gofal yn cael eu sicrhau drwy'r sector darparwyr yn Ne Sir Ddinbych. Gwelir yn gynyddol bod holl elfennau'r ddarpariaeth fewnol yn cynnal achosion am gyfnodau hwy oherwydd y diffyg gofal cartref sydd ar gael. Oherwydd y nifer isel o ddarparwyr sy'n gallu darparu gofal yn ne Sir Ddinbych, mae yna ymrwymiad i ehangu'r ddarpariaeth fewnol.

Gwelwyd lefelau uchel o absenoldebau staff hefyd ar draws y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â lefelau uchel o straen a gorbryder yn dilyn y pandemig.

Mae comisiynwyr yn cael anhawster i sicrhau pecynnau gofal, yn benodol yn ne Sir Ddinbych. Y prif reswm am hyn yw diffyg argaeledd staff gofal. Mae hyn yn broblem tymor hir sy'n gwaethygu. Dychwelodd darparwyr gofal cartref tua 600 awr o becynnau gofal yn 2021 oherwydd diffyg argaeledd staff.

Mae yna ystod dda o ddarparwyr yn Sir Ddinbych, er nad yw pob un ar y fframwaith yn gwneud ceisiadau gweithredol am becynnau. Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar y sector gofal cartref yn y Sir. Yn benodol, mae sicrhau pecynnau gofal dau berson yn her, yn ogystal â'r diffyg argaeledd darpariaeth gofal yn ardal ddeheuol y Sir ac mewn ardaloedd gwledig. Rydym hefyd yn ymwybodol bod gwasanaethau gofal cartref mewn lleoliadau gwledig yn ddrutach – mae ymchwil yn awgrymu ei fod 20% yn uwch, ac mae'r gyfradd gyfartalog fesul awr hyd at 11% yn uwch. Mae costau cynyddol tanwydd trafnidiaeth yn her i bob darparwr.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth gofal cartref well i ddinasyddion â lefelau uwch o anghenion gofal a chymorth. Byddai'n rhaid i'r model fod yn hyblyg (yn hytrach nac 'amser a thasg'), er mwyn cefnogi'r staff gofal i feithrin perthnasoedd a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ennill sgiliau uwch drwy hyfforddiant a chwarae rôl allweddol yn cynllunio gofal a chymorth i ddinasyddion. Yn y pen draw, byddai gan y ddarpariaeth ffocws clir ar ganlyniadau, a byddai llwyddiant yn cael ei fesur yn erbyn y canlyniadau hynny.

Mae Sir Ddinbych yn gobeithio cynnal cynllun peilot sy'n cynnwys cerbydau trydan er mwyn darparu gofal yn ystod 2022.

## Sefydlogrwydd y farchnad yn Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint, mae'r farchnad yn fodel cymysg gyda gofal cartref mewnol yn cael ei ehangu. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor er mwyn helpu i ail-gydbwyso'r sector gofal. Mae darparwyr gofal annibynnol yn parhau i weithio mewn dulliau creadigol gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y nifer o bobl sy'n aros am ofal yn y cartref mor isel â phosibl. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn heriol yn ystod dwy flynedd ddiwethaf y pandemig COVID.

Rydym yn dechrau gweld datrysiadau creadigol yn awr gan gynnwys defnyddio Cerbydau Trydan i gefnogi staff gofal cartref drwy gynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru. Cânt eu defnyddio i gefnogi staff gofal cartref na allant yrru.Cael mynediad at gynllun Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu profion gyrru ar gyfer gweithwyr gofal cartref sy'n aros am ddyddiad ar gyfer prawf. Mae Sir y Fflint yn parhau i ehangu Micro-ofal i gefnogi unigolion. Mae'r farchnad yn parhau i fod yn heriol, ond mae'r holl randdeiliaid yn parhau i weithio mewn partneriaeth i oresgyn yr heriau hysbys a wynebir ar draws y DU ar hyn o bryd.

Yn Sir y Fflint, wrth ystyried darparwyr annibynnol yn unig, nid oes gan unrhyw ddarparwr gyfradd sy'n fwy na 12% o'r farchnad annibynnol yn yr ardal wrth ystyried oriau a gyflawnir, gyda'r cyfartaledd fesul darparwr yn 4.5%.

O ran cydbwysedd y farchnad yn Sir y Fflint, mae'r mwyafrif helaeth (12 o'r 18) yn lleol, ac yn darparu gwasanaethau naill ai'n gyfan gwbl yn Sir y Fflint, neu yn Sir y Fflint a'r awdurdodau cyfagos. Mae 4 darparwr arall yn gweithio ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, ac mae gennym 2 ddarparwr cenedlaethol hefyd.

Yn Sir y Fflint, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu pwysau critigol a materion allweddol ym meysydd y gweithlu, comisiynu a meini prawf cyllido. Mae'r awdurdod lleol yn ystyried sut i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn drwy adolygu rolau gwaith cymdeithasol, gwella'r llwybrau gyrfa ym maes gofal cymdeithasol a chynnig mwy o eglurder am y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer ffrydiau cyllido penodol.

Mae yna heriau eraill y mae ffrydiau gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gobeithio mynd i'r afael â hwy, megis recriwtio gyda Gofalwn Cymru a lleoliadau plant, fodd bynnag mae'n bwysig nodi bod y rhain yn parhau i gyflwyno pwysau critigol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn Sir y Fflint.

O fis Ionawr 2022 yn Sir y Fflint, mae'r meysydd o bwysau parhaus yn cynnwys:

- gofal staff dwbl
- ardaloedd gwledig
- rhyddhau o'r ysbyty
- darparwyr yn dychwelyd pecynnau o ganlyniad i heriau staffio
- costau busnes uwch – biliau cyfleustodau ac yswiriant
- costau tanwydd uwch, yn effeithio ar y staff gofal eu hunain.

Mae angen yn drech na'r cyflenwad yn Sir y Fflint. Oherwydd yr hinsawdd ariannol heriol a'r angen i annog mwy o bobl i ymuno â'r diwydiant gofal, mae ffyrdd eraill o ddarparu yn cael eu hystyried, er enghraifft micro-ofal.

Mae yna her o ddiffyg gweithwyr gofal, mae'r rhai sydd angen yn profi anawsterau oherwydd bod llai o staff gofal ar gael. Mae gan asiantaethau gofal mawr gostau eiddo a gorbenion a buddsoddwyr/cyfranddalwyr i'w bodloni, felly mae costau gofal fesul awr yn uwch.

Yn y gwasanaethau i bobl hŷn, mae sylfaen amrywiol o ddarparwyr, ac nid oes dibyniaeth ar un darparwr neu sector. Fodd bynnag, yn y gwasanaethau anableddau dysgu ac anableddau corfforol, nifer fach o ddarparwyr sydd ar gael i ddewis ohonyn nhw ac mae dibyniaeth arnynt i gyflawni anghenion y gwasanaeth.

Mae yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn ôl yr hyn y mae'r unigolyn yn ei ddymuno, er enghraifft gofal cartref traddodiadol, Micro-ofal a Thaliadau Uniongyrchol.

### Sefydlogrwydd y farchnad yn Wrecsam

Ar hyn o bryd (Ebrill 2022) mae prinder sylweddol ym mhob maes o ofal cartref a'r farchnad iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yn Wrecsam na welwyd yn ffigurau Ebrill 2021 ac sy'n debygol o ddeillio o heriau ehangach, cenedlaethol yn ymwneud â'r gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid.

Mae datrysiadau cylchol a datrysiadau seibiant eraill hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol. Mae diffyg capasiti i gyflawni gofal seibiant rheolaidd a hyblyg a seibiannau byr yn parhau i fod yn faich ar ofalwyr di-dâl sydd eisoes yn teimlo cynnydd yn eu rôl ofalu o ganlyniad i Covid a heriau eraill yn ymwneud â'r gweithlu.

Ardaloedd mwy gwledig y sir sy'n profi'r anhawster mwyaf wrth gyflawni gwasanaethau gofal cartref cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2021, mae capasiti micro-fenter wedi cynyddu ac mae Wrecsam wedi cysylltu gyda Lloegr i gefnogi'r galw ond nid yw cynaliadwyedd y dulliau hyn wedi'i werthuso.

Ychydig iawn o hyblygrwydd sy'n bodoli yn y farchnad bresennol (Ebrill 2022) oherwydd heriau sylweddol y gweithlu a'r adferiad yn dilyn Covid ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Er y gwelwyd gostyngiad o 30% yn y rhestrau aros am ofal cartref ers Ebrill 2021, mae'n parhau i fod yn uchel iawn ac nid yw datrysiadau tymor byr i'r tymor canolig wedi'u gwerthuso a'u profi eto yn nhermau eu sefydlogrwydd tymor hwy yn y farchnad. Cefnogodd cyllid adfer Covid a chyllid caledi lawer o'r adferiad hwn yn ystod 2021-22 gyda sefydlogrwydd ariannol tymor hwy yn parhau i fod yn her.

Gall cofrestru gofal cartref lesteirio hyblygrwydd y prosesau comisiynu a chyflawni gwasanaethau hefyd. Gall gofynion RISCA, er eu bod yn ceisio gwella ansawdd, fod yn rhwystr i rai sefydliadau a staff pan mae recriwtio eisoes yn her iddynt. Yn ogystal, fel tref ar y ffin, rydym yn dibynnu ar ddarparwyr o Loegr mewn rhai ardaloedd. Mae darparwyr wedi'u cyfyngu o ran nifer y bobl y gallant eu cefnogi y tu allan i gofrestriad AGC, a all fod yn hir iawn..

# Adborth gan ddinasyddion a darparwyr

Er bod gofal brys yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn sy'n disgyn ac sy'n cael eu hanafu, mae angen gwasanaeth ymateb ar gyfer pobl sy'n disgyn ac nad ydynt yn cael eu hanafu a gofal cartref y tu allan i oriau arferol. Ar hyn o bryd, os oes angen

cymorth ychwanegol ar unigolyn hŷn oherwydd digwyddiad annisgwyl, er enghraifft eu gofalwr yn mynd yn sâl, nid oes ganddynt unrhyw fynediad at gymorth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

"Mae darparwyr gofal cartref annibynnol wedi dweud wrthym eu bod wedi llwyddo i ddechrau darparu gofal o fewn y 48 awr ond mae wedi bod yn anodd.  Yr heriau a'r oedi mwyaf yw trefnu gofal ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth" (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

"Dywedodd darparwyr annibynnol gofal cartref wrthym ynglŷn â darparu gofal i bobl nad ydynt wedi gallu manteisio ar gyfnod o ail-alluogi pan nad oes unrhyw gapasiti yn y tîm ail-alluogi.  Canfuom mai'r rheswm yn aml am hyn yw bod rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth ail-alluogi oherwydd mae'r gwasanaeth yn darparu'n bennaf ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ag anghenion lefel isel, sydd angen cyfnod ymadfer" (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2019a)

Mae adborth o'r arolwg Darparwyr Rhanbarthol [Chwefror 2022] yn nodi'r heriau a wynebir gan ddarparwyr fel a ganlyn:

- Recriwtio staff. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol iawn ac mae'n rhaid i ni allu cynnig pecyn ariannol i weithwyr gofal, sy'n gystadleuol ac sy'n teilyngu'r rôl.
- Cadw staff oherwydd telerau ac amodau gwael yn y sector gofal cartref.  Mae costau tanwydd a'r argyfwng costau byw yn dechrau cael eu teimlo yn y sector yn awr, lle mae darparwyr yn gweld mwy o staff yn dioddef tlodi mewn gwaith.
- Staff yn gadael y sector oherwydd amodau gwaith gwael a diffyg parch am y gwaith a wnânt a'r lefelau o gyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â hyn.  Mae staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael eu gorweithio.
- Cadw staff sy'n newydd i'r sector na allant ddelio â natur ddwys y swydd o gefnogi pobl gyda chyflyrau fel awtistiaeth, pobl sydd angen gofal personol ac yn y blaen.  Mae angen cefnogaeth well ar staff i gyflawni heriau'r rôl hon.

Cafwyd awgrymiadau hefyd gan y darparwyr ar ffyrdd i wella'r sector ac ansawdd y gofal, gan gynnwys:

- Galluogi hyblygrwydd wrth ddefnyddio oriau gofal wedi'u comisiynu.  Er eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pawb, gall fod yn rhwystredig pan na all darparwyr dibynadwy fod yn hyblyg gydag oriau ac yn y blaen.  Treulir mwy o amser yn cyfiawnhau unrhyw amrywiaeth, yn hytrach nac ar allu 'bancio'r oriau hyn er mwyn cyflawni canlyniadau pobl a gwella ansawdd yn sgil hynny.  Weithiau hyblygrwydd yw'r ffordd orau i gefnogi rhywun (gwneud y gorau o hwyliau neu gymhelliant penodol).
- Datblygu gwaith partneriaeth gwirioneddol gyda darparwyr.
- Strwythur cyflog cyfartal i bob darparwr er mwyn rhwystro pobl rhag symud o un i'r llall ar gyfer cyfraddau gwell.
- Cydnabod costau *gwirioneddol* darparu gwasanaethau gofal er mwyn galluogi darparwyr i barhau i ddarparu gwasanaethau o safon a denu / cadw staff o safon.
- Mwy o bwyslais ar ddefnyddio darparwyr lleol yn hytrach na chwmnïau cenedlaethol gyda swyddfeydd lleol.
- Rhannu adnoddau rhwng darparwyr, er enghraifft hyfforddi staff.

# Ffactorau sefydlogrwydd eraill yn y farchnad

## Ystyried safon y farchnad

Mae Sir y Fflint yn defnyddio *Cynnydd i Ddarparwyr* mewn cartrefi gofal, sy'n offer hunanasesu y gall rheolwyr ei ddefnyddio gyda'u staff i wirio eu cynnydd yn cyflawni cymorth wedi'i bersonoli i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.  Mae 'Cymorth wedi'i Bersonoli' yn un o nodau allweddol polisi cenedlaethol ac mae'n golygu teilwra cymorth i'r unigolion, a'u galluogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl dros eu gwasanaeth, yn hytrach na chefnogi pawb yn yr un ffordd.  Mae'r rhaglen wedi'i ehangu i gynnwys gofal cartref a gwasanaethau gofal ychwanegol yn 2020/21.

Yn Sir Ddinbych, mae comisiynwyr wedi cydnabod yr angen i weithio gyda darparwyr gofal cartref i fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Gwneir gwaith pellach ar y cyd gyda darparwyr yn y dyfodol.

Yng Ngwynedd, mae comisiynwyr wedi gweithio gyda'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd ar brosesau 'Diwydrwydd Dyladwy'. Mae'n rhaid i bob darparwr sy'n gwneud cais i fod yn rhan o fodel cyflawni newydd y Cyngor gyflawni rhai gofynion penodol.

## Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Croesewir y ffaith bod y Gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Cyllid Trawsnewid yn symud i raglen pum mlynedd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, fodd bynnag rydym yn parhau i weithio drwy'r canllawiau ac effaith y newidiadau. Oherwydd gwerth y cyllid hwn, mae'n hollbwysig bod unrhyw newidiadau i'r meini prawf yn cael eu cyfleu ymlaen llaw er mwyn i Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill ystyried a chynllunio gwasanaethau gyda hyn mewn cof.

Pan fydd angen comisiynu'n uniongyrchol gyda darparwr, mae arfer Caffael presennol wedi bod yn rhwystr yn aml i'r angen i weithredu'n gyflym. Mae prosesau caffael wedi bod yn feichus ac yn anneniadol i rai darparwyr, yn arbennig yn y trydydd sector, sydd yna'n llesteirio'r nifer o gyflenwyr sy'n cyflwyno ceisiadau tendro.

Mae Timau Contractau a Chomisiynu ym mhob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal preswyl, gofal cartref a darparwyr Byw â Chymorth. Er bod y cyfarfodydd hyn wedi'u cynnal cyn y pandemig, mae eu hamlder wedi cynyddu. Mae'r cymorth a'r rhwydweithio yn adnodd hanfodol i ddarparwyr. Cafodd y cyfarfodydd eu mynychu hefyd gan gydweithwyr o'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a swyddogion BIPBC er mwyn i bartneriaid allu rhoi cyngor a chymorth pan fyddai angen.

Ochr yn ochr â'r cyfarfodydd hyn, sefydlwyd cyfeiriad e-bost penodedig lle gallai darparwyr holi cwestiynau ac ymholiadau ynglŷn â Covid-19 a gellid ymateb iddynt mewn dull amserol.

Roedd y tîm mewn cysylltiad dyddiol dros y ffôn gyda darparwyr i gasglu data, holi ynghylch cyflenwadau PPE, trafod unrhyw faterion a oedd yn codi neu fod yn glust i wrando a rhoi cefnogaeth yn y cyfnod anodd hwn.

Mae Sir Ddinbych yn defnyddio Cyllidebau Cymorth wedi'u Gweinyddu gan Drydydd Parti. Yn yr achos hwn trosglwyddir arian gan yr Awdurdod Lleol yn uniongyrchol i drydydd parti a allai fod yn darparu rhywfaint o ofal a chymorth y person yn uniongyrchol neu ddarparu gwasanaeth cyfrif wedi'i reoli. Caiff yr arian ei wario ar

beth bynnag y cytunir arno yng nghynllun gofal a chymorth yr unigolyn i'w cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau cytunedig.  Yn y trefniant hwn trydydd parti sy'n gyfrifol am y gyllideb yn gyfrifol am dalu darparwyr neu wasanaethau a phryniannau unigryw a chyd-gynhyrchu gydag ymarferwyr.

Bydd Sir Ddinbych hefyd yn parhau i gomisiynu rhywfaint o ofal a chymorth tymor hir gan gynnwys gofal cartref a gofal preswyl i'r rhai sydd ei angen.

## Darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gwybodaeth yn PNA2022 yn datgan bod llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref yn cael anhawster i ddarparu siaradwyr Cymraeg.  Mae angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn a chefnogi staff i wella eu Cymraeg. Mae angen i hyn gynnwys cyfleoedd i'r rhai sy'n newydd i'r iaith a'r rhai sydd angen meithrin hyder.  Mae llawer o sefydliadau yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol.  Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cyrsiau a gynigir gan y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd.
- Grwpiau siarad Cymraeg amser cinio.
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cynnal gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Yn yr Arolwg Darparwyr (Chwef 2022) mae'r darparwyr yn datgan ei bod yn her recriwtio siaradwyr Cymraeg yn eu lleoliad, ac y byddai cymorth i hysbysebu/cyfieithu yn ddefnyddiol i gwmnïau llai.

Mae darparwyr yn ymdrechu'n weithredol i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg, ond ei bod yn anodd cynnal unrhyw ddysgu pan nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigon aml (ar lefel bersonol yn ogystal ag i'r sefydliad).

Mae Sir y Fflint yn nodi, fel rhan o'r fframwaith Mwy Na Geiriau, mae'r Cyngor yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn derbyn y Cynnig Gweithredol. Er y manteisiwyd ar hyn ar gyfer rhai asesiadau gwaith cymdeithasol, mae unigolion a'u teuluoedd yn ymwybodol o'r prinder staff gofal ar hyn o bryd ac nid ydym wedi derbyn ceisiadau i ofal gael ei ddarparu gan ofalwyr sy'n gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, maent yn ymwybodol iawn o hyn ac ar hyd y pandemig diweddar maent wedi gweld cynnydd yn y nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n ail-afael yn eu sgiliau Cymraeg blaenorol nad ydynt wedi'u defnyddio ers blynyddoedd lawer

o bosibl.  Mae’r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda’n Sefydliadau Addysg Bellach lleol i ddarparu cyrsiau’r iaith Gymraeg ar bob lefel er mwyn cyflawni anghenion unigol.

Mae Sir Ddinbych yn sicrhau bod preswylwyr yn derbyn y Cynnig Gweithredol pryd bynnag y byddant yn cysylltu â’r awdurdod lleol i gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth.  Mae diffyg capasiti cyffredinol yn y rhwydwaith darparwyr ac mae diffyg argaeledd gwasanaethau gyda siaradwyr Cymraeg yn broblem iddynt. Defnyddir offer defnyddiol megis symbolau Cymraeg ar ffeiliau fel nodiadau atgoffa amserol i staff. Fodd bynnag, mae’r argyfwng recriwtio yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar hyn o bryd.  Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg lleol, er enghraifft Y Bedol.

Cyflwynir y sefyllfa yng Ngwynedd yn nhermau siaradwyr Cymraeg yn y tabl isod.

Mae gan Wynedd weithlu gofal cartref sylweddol sy’n gallu siarad Cymraeg, ac mae cyfran ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae Gwynedd wedi buddsoddi’n helaeth yn hyrwyddo a datblygu sgiliau’r iaith Gymraeg ymhlith staff gofal ac wrth recriwtio staff gofal sy’n gallu siarad Cymraeg neu sy’n barod i wella eu sgiliau Cymraeg.  Yn nhermau tasgau gofal, mae sgiliau Cymraeg llafar yn bwysicach wrth gyfathrebu â dinasyddion a rhoi gofal yn eu dewis iaith iddynt.

Tabl 16: Staff Gofal sy’n Siarad Cymraeg yn narpariaeth gofal cartref Gwynedd (Ebrill 2020)

| Swydd | % sydd wedi cofrestru sy’n ‘rhugl’ yn y Gymraeg | % sydd wedi cofrestru sydd â ‘rhywfaint’ o sgiliau’r iaith Gymraeg | % sydd wedi cofrestru nad oes ganddynt unrhyw sgiliau’r iaith Gymraeg |
|---|---:|---:|---:|
| Gweithwyr Gofal Cartref | 51.2 | 23.0 | 9.8 |
| Rheolwyr Gofal Cartref | 56.4 | 17.9 | 12.8 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan Gyngor Gwynedd

## Cynaliadwyedd y ddarpariaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cyflogi Swyddog Cynllunio a Datblygu yn ddiweddar i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol annibynnol i oedolion drwy'r pandemig Covid-19 diweddar, ac i ddod yn hyderus a chydnerth er mwyn cyflawni anghenion cymorth pobl hŷn yn Sir y Fflint i'r dyfodol. Bydd y swyddog yn gweithio'n agos gyda'r sector gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn cynorthwyo cynaliadwyedd ac adferiad yn dilyn y pandemig. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi gyda chynlluniau cynaliadwyedd ac ymgyrchoedd recriwtio yn fewnol ac ar draws y sector.

Ychydig iawn o ddewis a roddir i bobl mewn gwirionedd. Mae sicrhau unrhyw ofal yn her, heb sôn am gael dewis. Gall pobl ddewis derbyn Taliadau Uniongyrchol i drefnu eu gofal eu hunain, ond nid yw'n rhwydd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal.

## Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad

Mae gan ddarparwyr gofal mewnol ac annibynnol swyddi gwag sylweddol oherwydd mae gofalwyr presennol yn gadael y sector gofal am lawer o wahanol resymau. Mae hyn yn peri pryder o ran sefydlogrwydd y farchnad, ac yn benodol y gallu i gyflawni gofal, yn benodol mewn ardaloedd anos eu cyrraedd.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth i gyflawni'r cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal uniongyrchol, bydd hyn yn cael effaith ar gywasgiad tâl a'r gallu i recriwtio / darparu datblygiad gyrfa i rolau uwch. Gallai hyn gael effaith ar sefydlogrwydd y farchnad wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf ddechrau.

Mae costau busnes, y tu hwnt i gyflogau hefyd yn cynyddu gyda chwyddiant, ac mae costau tanwydd yn benodol yn cynyddu'n sylweddol. Ym maes Gofal Cartref mae hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar ddengarwch y rôl a hyfywedd ariannol modelau busnes presennol.

Nododd ymarfer ymgynghori gyda darparwyr [mewnol ac allanol] a gynhaliwyd gan Sir y Fflint y Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau canlynol i'r farchnad. Rhennir y themâu hyn ar draws y rhanbarth.

### Cryfderau

- Perthnasoedd Broceru da gyda darparwyr a chyfathrebu rhagorol rhwng y tîm a'r darparwyr.

- Cymorth gan gyfarfodydd darparwyr gyda chyfarfodydd rhithwir a chynrychiolaeth yr uwch arweinwyr.
- Mae'r comisiynwyr ar ben arall y ffôn i gynnig cymorth a chyngor.
- Mae'r darparwyr yn cydweithio ac nid oes gwrthdaro na chystadleuaeth.
- Mae cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer Unigolion Cyfrifol yn gadarnhaol a defnyddiol er mwyn cael cymorth gan gyfoedion.
- Cydweithio agored – datblygu rhwydwaith cymorth
- Mae cael llyfr agored ar gyllid a chael sgyrsiau onest yn galluogi i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud.
- Mae'r comisiynwyr yn deall y sefyllfa "ar lawr gwlad"

**Gwendidau**

- Gweinyddu ymatebion i alwadau, er enghraifft, os yw'r gofalwr yn hwyr
- Parhau i ddefnyddio tasg ac amser
- Mae diweithdra yn yr economi gyffredinol yn isel sy'n creu cystadleuaeth am staff, megis swyddi manwerthu tymhorol
- Gall disgwyliadau'r dynasyddion fod yn heriol ar gyfer tasgau y tu hwnt i'r cynllun gofal
- Colli staff i sectorau economaidd eraill, i'r bwrdd iechyd ac i rolau eraill yn y sector gofal cymdeithasol er enghraifft cartrefi gofal / Byw â Chymorth
- Gofalwyr nad ydynt yn gallu defnyddio TG
- Mae angen cefnogaeth well ar ddarparwyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru
- Nid yw'r cyflogau y gallwn eu cynnig i staff yn ddigon cystadleuol ar gyfer y gwaith a wneir mewn gofal cartref

**Cyfleoedd**

- Mae gofal cymdeithasol ar yr agenda wleidyddol - ni all y rhai sy'n gwneud penderfyniadau anwybyddu gofal cymdeithasol mwyach
- Hyblygrwydd o fewn bandiau amser a thasgau
- Gellir datblygu'r ymgysylltiad â chomisiynwyr a'r rhwydwaith o ddarpariaeth fframwaith
- Mae angen i ddarparwyr ymgysylltu â darpar gyflogeion wyneb yn wyneb a dangos iddynt beth yw'r gwaith
- Dealltwriaeth well o gost rhedeg asiantaeth gofal cartref – edrych ar y ddogfen "Unfair to Care"

- Asesiad realistig o'r cyfrifoldebau yn y rôl ofalu o gymharu â rolau eraill, er enghraifft swyddogion heddlu
- Angen clywed mwy gan y defnyddwyr gwasanaeth a buddiannau'r cymorth hwn
- Hysbysebu rolau drwy gyfryngau niferus, nid dim ond ar-lein, er enghraifft radio, bysiau, hysbysfyrddau.
- Cyfle am fwy o gydweithio gyda'r gwasanaethau iechyd i sicrhau bod gan bobl mewn ysbytai fynediad at therapyddion er mwyn cynorthwyo i'w rhyddhau o'r ysbyty.

**Bygythiadau**

- Nid yw pobl ifanc yn cael eu denu gan ofal cartref neu ofal yn gyffredinol
- Gweithlu sy'n heneiddio a dim cynllunio olyniaeth
- Mae'r Telerau ac Amodau yn y sector yn wael ar gyfer y math o waith a wneir a'r cyfrifoldebau cysylltiedig
- Nid yw gofal yn cael ei werthfawrogi na'i ystyried yn bwysig o gymharu â sectorau eraill, er enghraifft gwasanaethau brys ac iechyd
- Mae'r fframweithiau cofrestru a chymwysterau yn rhwystr i bobl, yn arbennig y rhai â heriau llythrennedd a rhifedd
- Mae'r sector gofal yn agos at fethu'n llwyr
- Nid yw'r sector Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd gofal cartref
- Mae rôl gofalwyr yn heriol a gofynnir iddynt ymgymryd fwyfwy â thasgau mwy cymhleth – mae angen meithrin perthynas gryfach gyda nyrsio ardal
- Telerau ac amodau gwell mewn rolau gofal Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn arwain at ddad-sefydlogi
- Mae cyfyngiadau Budd-daliadau'r Wladwriaeth yn creu anfantais i weithwyr gofal ac yn creu tlodi mewn gwaith

# Gwasanaethau Ataliol

Un flaenoriaeth hirdymor yw parhau i gynorthwyo pobl i adennill eu hannibyniaeth, lleihau dibyniaeth ar y sector gofal statudol. Gwneir hyn drwy ddarparu mynediad effeithiol at wasanaethau presgripsiynau cymdeithasol / trydydd sector drwy'r Un Pwynt Mynediad yn ogystal â rheoli derbyniadau yn effeithiol i sefydlu / rhyddhau gwelyau.

Rhai o'r enghreifftiau Lleol o ddulliau ataliol cymunedol yw:

Cymunedau Oed-gyfeillgar – Mae Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda yn Sir y Fflint yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud a chan bwy, er mwyn sicrhau bod Sir y Fflint yn lle da i heneiddio.

Mae prosiect tymor byr i sefydlu prawf cysyniad ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol yn cael ei redeg hefyd gan FLVC ar ran y Bwrdd Iechyd.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a BIPBC yn comisiynu gwasanaeth seibiant gofalwyr i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth eistedd a gofal cartref yn Sir y Fflint. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy Crossroads. Mae'r seibiant ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sydd â rolau gofalu heriol iawn, ac mae hyn yn cynnwys gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia. Cynigir y gwasanaeth hwn am gyfnod o 12 wythnos ac yna cyfeirir pobl at SPOA er mwyn archwilio opsiynau seibiant parhaus.

Llyw-wyr Cymunedol - Defnyddir Presgripsiynau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych gan Y Groes Goch Brydeinig ac Age Connects. Mae'r Llyw-wyr Cymunedol yn rhan o'r pedwar Tîm Adnoddau Cymunedol. Maent yn defnyddio 'Pwyntiau Siarad' yn Llyfrgelloedd Sir Ddinbych fel lle i bobl gwrdd, er na fu hyn yn bosibl yn ystod y pandemig Covid-19 a darparwyd llawer o'r cymorth dros y ffôn yn ystod y cyfnod hwn. Maent yn ffynhonnell wybodaeth gyfredol, gywir ac amserol ynghylch yr ystod o gymorth sydd ar gael yn y gymuned. Maent yn hollbwysig er mwyn cysylltu pobl, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. Yn ystod 2020-21, fe wnaeth y Llyw-wyr Cymunedol 2,424 o drigolion Sir Ddinbych.

Mae Sir Ddinbych yn ceisio comisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr sy'n:

- Cynnal sgyrsiau ystyrlon gyda phobl
- Cysylltu pobl gyda'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- Gweithio gyda phobl i gael rheolaeth dros eu bywydau
- Adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl i adnabod datrysiadau unigol

Mae Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynharach, cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod pobl yn ganolog yn y penderfyniadau a wneir ynghylch y math o wasanaethau cymorth cymunedol maent yn eu cael. I lawer o bobl, bydd hyn yn golygu y gellir rhoi cyllideb cymorth iddynt reoli eu gofal eu hunain a chymorth i gyflawni canlyniadau cytunedig. Gallai hyn fod ar ffurf Taliad Uniongyrchol, Cyllideb

Cymorth a Reolir gan Drydydd Parti neu Gyllideb Cymorth a Reolir gan Awdurdod Lleol ar gyfer yr unigolyn. Bydd cyllidebau cymorth yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol llai cyfyngol, ac un sy'n cefnogi arloesedd. Yn Sir Ddinbych gwneir y gwaith canlynol.

- Sied Dynion – Mae Cymdeithas genedlaethol Siediau Dynion y DU yn darparu lle i ddynion rannu'r offer a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i weithio ar brosiectau o'u dewis hwy ac ar eu cyflymder eu hunain ac mewn lleoliad diogel, cyfeillgar a chynhwysol. Maent yn lleoliadau i rannu sgiliau a dysgu gweithgareddau unigol a phrosiectau cymunedol, o ddiben, cyflawniad a rhyngweithio cymdeithasol. Mae sied dynion lleol yn gweithredu yn Ninbych.

- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru yn cynnig 'Gofal Gwalia' sy'n cyflawni rolau'r gofalwr er mwyn iddynt allu cael rhywfaint o seibiant. Gall hyn fod yn rheolaidd neu ar sail ad hoc a chodir tâl am y gwasanaeth hwn.

- Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) – Mae ACNEW yn rhan o raglenni cenedlaethol Age Connects Cymru, menter gymdeithasol sy'n darparu cymorth i bobl 50+ oed. Yn lleol, mae'r gwasanaethau'n darparu cymorth tai tymor byr, torri ewinedd traed, gwasanaeth glanhau a siopa a gweithgareddau cymdeithasol.
- Addysg a Dysgu – Mae llawer o brosiectau lleol yn atgyfeirio pobl at Brifysgol y Drydedd Oes (U3A). Mae U3A yn darparu cyfleoedd i bobl sydd wedi ymddeol ac sydd wedi lled-ymddeol i ddod at ei gilydd a dysgu, nid ar gyfer cymwysterau, ond 'am ei wobr ei hun'.
- DEWIS – Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n ceisio helpu pobl gyda'u llesiant, naill ai eu llesiant eu hunain neu lesiant aelod o'u teulu neu ffrind. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth a all helpu pobl i feddwl beth sy'n bwysig iddyn nhw ac mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau a all ddarparu cymorth. Gall sefydliadau ar draws Cymru lwytho eu gwybodaeth eu hunain i'r safle.

- Asiantau Cymunedol – yn Wrecsam mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan Gynghorau Cymuned a'i reoli ganddynt Gall Asiantau Cymunedol ddefnyddio gwasanaethau'r trydydd sector o amgylch y sir i gefnogi pobl yn eu cymunedau. Mae meddygon teulu yn cysylltu pobl â'r Asiantau Cymunedol.

Yn Wrecsam maent yn cefnogi gwasanaethau canlynol y trydydd sector.

- NEWCIS: Gwybodaeth, cyngor, cymorth a gwasanaethau seibiant i ofalwyr

- Cymorth Alzheimer's: Y brif thema yng nghynllun gweithredu dementia Llywodraeth Cymru yw galluogi pobl sy'n byw gyda dementia (gan gynnwys dementia cynnar) i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i fyw gartref pan fydd hynny'n bosibl, gan osgoi derbyniadau diangen yn yr ysbyty neu ofal preswyl ac oedi pan fydd rhywun yn barod i gael eu rhyddhau o ofal neu'r ysbyty.
- Catalydd Cymunedol: Sefydlu a chefnogi cyfeirlyfr ar-lein o fentrau gofal cymdeithasol yn Wrecsam er mwyn galluogi mynediad haws at wybodaeth i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Darparu gwerth 6 diwrnod o gymorth i ddatblygu sefydliadau'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn datblygu darpariaeth gofal cartref.
- Cymorth golwg: Diben y gwasanaeth yw galluogi oedolion sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg i gyflawni eu gweithgareddau dyddiol gyda hyder, drwy ddarparu hyfforddiant proffesiynol mewn sgiliau byw'n annibynnol newydd a/neu addasol, yn ogystal â chofrestru unigolion yr aseswyd eu bod wedi colli eu golwg, nam difrifol ar y golwg, fel yr argymhellwyd gan Offthalmolegydd ymgynghorol drwy'r broses Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVI). Bydd y Darparwr yn meddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u nam gweledol.
- Rhwydwaith Cymorth Pobl Fyddar: Diben y gwasanaeth hwn yw darparu cymorth ymarferol, gwybodaeth a chyngor i blant ac oedolion sy'n fyddar (yn aelod o'r Gymuned Ddiwylliannol Fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf), sy'n colli eu clyw neu sy'n Fyddar Ddall (nam deuol ar y synhwyrau). Yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol, disgwylir i'r darparwr llwyddiannus atgyfeirio unigolion at wasanaethau eraill a allai gynorthwyo'r unigolyn. Disgwylir i'r darparwr feddu ar nifer fach o ddarnau o offer arbenigol y gellir eu benthyca i unigolion i'w cefnogi gyda'u hanghenion cyfathrebu / colli clyw.
- Delta (Teleofal): Mae Teleofal yn wasanaeth a all helpu i'ch cadw'n ddiogel yn eich cartref a'ch galluogi i alw am gymorth mewn argyfwng. Gall Teleofal eich helpu i fyw'n annibynnol yn eich cartref, gan ddarparu tawelwch meddwl i chi y bydd rhywun yn cael eu hysbysu'n awtomatig os bydd angen cymorth arnoch neu os bydd argyfwng.
- Y Groes Goch Brydeinig: Gweithiwr Cyswllt y Trydydd Sector a ddarperir i weithio gyda Phwynt Mynediad Unigol Wrecsam i sicrhau bod gwybodaeth am ddarpariaeth y trydydd sector ar gael yn gyfleus i weithwyr proffesiynol perthnasol. Cefnogi dinasyddion Wrecsam i gael mynediad at fathau anstatudol

o gymorth, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'w galluogi i gynnal eu hannibyniaeth ac osgoi cynnydd mewn angen.

- Hafal (partneriaeth gyda'r gwasanaethau tai): Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Adferiad: Llety â Chymorth a chymorth lle bo'r angen i'r rhai â chyflyrau Iechyd Meddwl
- Cerrig Camu: Cwnsela, cymorth a gwaith grŵp arbenigol unigol ar gyfer goroeswyr (oedolion) cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys cymorth cwnsela i unigolion cyn, yn ystod ac ar ôl achos llys.  Mae hwn yn faes cwnsela arbenigol a bwriedir iddo gyflawni anghenion yr unigolyn/unigolion, gydag ymrwymiad i gefnogi'r unigolion cyhyd ag y bydd angen, gan gydnabod bod llawer o bobl yn agored iawn i niwed ac y gallent hunan-niweidio neu gael teimladau hunanladdol ar adegau.

# Ystyriaethau eraill sy'n effeithio ar y farchnad

## Gwerth cymdeithasol

Mae'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn nodi: "Cyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol: Wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn mae'n rhaid ystyried barn y boblogaeth. Dylai fod gan bobl hŷn lais i ddylanwadu ar y gwasanaethau y gallant eu defnyddio. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi papur sy'n esbonio sut y gellir comisiynu gwasanaethau, fel gofal cartref, drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r ddarpariaeth ac yn canolbwyntio ar les yn ogystal ag unrhyw angen brys." (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Sir y Fflint wedi symud at fodelau cyflawni Micro-ofal ac mae ganddynt raglen beilot i fod yn rhan o'r cynnig Gwasanaethau Cymdeithasol parhaus.  Er mwyn cyflawni'r galw cynyddol am ofal, sefydlwyd y Prosiect peilot Micro-ofal i ehangu'r cyflenwad o ofal a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ar draws Sir y Fflint.  Mae mentrau micro-ofal yn fusnesau bach sy'n amrywio o unig fasnachwyr i fusnesau sy'n cyflogi 5 o bobl sy'n cynnig gofal a gwasanaethau cymorth hyblyg ac wedi'u personoli i bobl sy'n agored i niwed, ac sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion unigol.  Y nod yw annog pobl i ddod yn ficro-ofalwyr sydd â:

- Diddordeb mewn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn ond nad oes ganddynt unrhyw brofiad o bosibl
- Yn gweithio yn y sector gofal yn awr ond sydd â diddordeb mewn bod yn fos eu hunain
- Yn cefnogi pobl yn weithredol yn eu cymunedau lleol
- Eisiau gwneud rhywbeth sy'n cynorthwyo eraill ac sy'n gwneud gwahaniaeth.

Mae'r tîm Micro-ofal yn gweithio gydag unigolion i:

- Eu cefnogi i ddatblygu eu busnes neu syniad
- Darparu gwybodaeth am hyfforddiant, cyllid a mathau eraill o gymorth ac adnoddau sydd ar gael
- Cefnogi unigolion i ddatblygu a chyflawni gwasanaeth o safon yn unol â deddfwriaethau a rheoliadau presennol Llywodraeth Cymru
- Darparu cysylltiadau i rwydwaith o ddarparwyr micro-ofal eraill er mwyn cefnogi ei gilydd

O fis Chwefror 2022, roedd 27 o ficro-ofalwyr yn masnachu yn Sir y Fflint. Mae Tîm Micro-Ofal Sir y Fflint hefyd wedi creu tudalennau gwe micro-ofal i'w defnyddio gan y micro-ofalwyr a'r bobl sy'n chwilio am ficro-ofalwyr. Mae'n darparu gwybodaeth allweddol i bobl sy'n ystyried gweithio fel micro-ofalwr. Mae hefyd yn darparu esboniadau i'r cyhoedd ynghylch micro-ofal ac yn rhestru micro-ofalwyr a'u manylion cyswllt. Bydd hyn yn cefnogi ein nod o ddatblygu cynaliadwyedd parhaus yn y prosiect. Mae'r wefan ar gael yn www.careatflintshire.co.uk Mae'r rhaglen hon yn symud allan o'r cam 'peilot' yn awr ac mae wedi'i hymgorffori yn ein cynnig.

Hefyd yn Sir y Fflint, dechreuwyd ar y gwaith o **recriwtio gwirfoddolwyr** ddechrau mis Ebrill 2021, a ysgogwyd gan ein cydweithwyr yng Nghyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae Tîm Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir y Fflint, gyda chefnogaeth FLVC, wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant sylfaenol i wirfoddolwyr, ynghylch diogelu, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch, cydsyniad, diogelu data, urddas, egwyddorion gofal a chyfrinachedd. Erbyn diwedd Ebrill 2020, yn dilyn yr hyfforddiant a'r gwiriadau DBS gofynnol, roedd grŵp o 64 o wirfoddolwyr ar gael i'w lleoli mewn cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y sir.

Mae Sir y Fflint yn elwa o bresenoldeb cadarn a rhwydweithiau'r trydydd sector ac mae perthynas gadarnhaol rhwng y Cyngor a Chyngor Gwirfoddol Sir y Fflint (FLVC). Mae'r Tîm Llesiant yn FLVC a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) yn cefnogi'r trydydd sector a'u partneriaid statudol mewn nifer o ffyrdd:

- Hyrwyddo sefydliadau, gwasanaethau a gweithgareddau'r trydydd sector i bartneriaid statudol
- Cynrychioli'r trydydd sector mewn grwpiau cynllunio a phartneriaeth strategol
- Ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymgynghoriadau ac ymgysylltiadau ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Hyrwyddo gwaith partneriaeth o fewn y trydydd sector ac ar draws sectorau
- Cyfeirio at neu ddarparu cymorth a chyllid busnes
- Darparu hyfforddiant i sefydliadau er mwyn gwella eu capasiti a'u heffeithiolrwydd
- Esbonio natur gymhleth comisiynu a chaffael
- Helpu i sicrhau bod y gwasanaethau yn gyfredol gyda'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf, a'ch tywys drwy'r newidiadau i strwythurau'r GIG ac awdurdodau lleol
- Helpu i ddechrau gwasanaethau neu grwpiau newydd
- Cynorthwyo'r trydydd sector yn Sir y Fflint a Wrecsam i gael mynediad at wasanaethau FLVC ac AVOW.

Comisiynir Catalyddion Cymunedol fel prosiect drwy Gronfa Trawsnewid Cymunedol Llywodraeth Cymru yn Wrecsam. Nod y prosiect yw cefnogi datblygiad micro-fentrau i gefnogi'r cynnig gofal cartref yn Wrecsam. Ni fwriedir i'r mentrau hyn ddisodli'r cynnig gan asiantau Gofal Cartref ond yn hytrach eu bwriad yw cefnogi sefydlogrwydd a chaniatáu dewis a rheolaeth i ddinasyddion. Mae'n cefnogi'r opsiynau taliad uniongyrchol i ddinasyddion. Mae gennym 37 o ficro-fentrau ar hyn o bryd sydd wedi cwblhau'r safonau gwneud yn dda ac sydd ar ein cofrestr o ddarparwyr yn Wrecsam.

Mae Gwynedd yn datgan bod 44% o ofal cartref yn cael ei ddarparu'n fewnol heddiw. Mae yna nifer o gwmnïau bach annibynnol sy'n lleol i Wynedd a rhai cwmnïau mwy. Nid oes gan y farchnad yng Ngwynedd lawer o gydweithredwyr a mentrau cymdeithasol, ond maent yn datblygu. Mae darparwyr y trydydd sector yn y sir ond nid yw'n bresenoldeb cyson yr hoffai'r awdurdod lleol ei weld ym mhob rhan

o Wynedd.  Mae Comisiynwyr yn cael anhawster mawr i sicrhau darpariaeth mewn ardaloedd gwledig.  Mae gan rai ardaloedd rwydwaith cymunedol anffurfiol cryf ar waith.

Mae Gwynedd yn cynnig datblygu Mentrau Cymdeithasol drwy hybiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr elfennau llesiant a hefyd datblygu darpariaeth asesu offer arbenigol – tŷ technegol.  Mae gan Wynedd 15 o Ddarparwyr y Trydydd Sector sy'n gweithredu yng Ngwynedd.

Fel yr esboniwyd uchod, ychydig iawn o ddewis o ddarpariaeth gofal cartref sydd gan bobl yng Ngwynedd.  Mae sicrhau gofal yn her, heb sôn am gael dewis.  Gall pobl ddewis trefnu eu gofal eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol, ond nid yw'n hawdd dod o hyd i bobl sy'n gallu cynnig gofal.  Mae prosiect wedi dechrau gyda 'Chatalyddion Cymunedol', i annog pobl i sefydlu cwmnïau bach i ddarparu gofal, a'r gobaith yw y bydd hyn yn gwella'r sefyllfa.

## Taliadau uniongyrchol

Mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo Taliad Uniongyrchol trwy amlygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n adlewyrchu llais, dewis a rheolaeth trwy rymuso unigolion i fod mor annibynnol â phosibl yn eu cymuned leol.

Rhai o fanteision dewis Taliadau Uniongyrchol yw:

- Mae unigolion yn dewis pwy sy'n darparu eu gofal a chymorth
- Mae unigolion yn dewis pryd y darperir eu gofal i weddu i'w bywyd bob dydd
- Mae taliadau uniongyrchol yn hyblyg i fodloni gofynion unigol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i ddatblygu'r gwasanaeth drwy ymgynghori'n rheolaidd ag arbenigwyr taliadau uniongyrchol (dinasyddion) ac i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas.

Mae ein gweledigaeth a'n ffordd o weithredu newid wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ac mae ei lwyddiant wedi arwain at 243 o unigolion yn cymryd rheolaeth o'u pecyn gofal ac yn dewis derbyn cymorth trwy daliadau uniongyrchol ar yr ynys o gymharu â 35 o unigolion yn 2015.

Bydd Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu a defnyddio Taliadau Uniongyrchol, lle bydd unigolion, neu'r person cyfrifol a ddewisir ganddynt, yn derbyn arian yn uniongyrchol gan y cyngor i ariannu eu hanghenion gofal a chymorth cytunedig yn y ffordd o'u dewis.  Gallai hyn gynnwys recriwtio cynorthwyydd personol neu dalu am wasanaethau asiantaeth neu sefydliad o'u dewis.

Ar hyn o bryd nid oes digon o ddarparwyr i roi dewis i bobl neu gyflwyno elfen o gystadleuaeth.  Mae Catalyddion Cymunedol yn cynorthwyo darparwyr lleol bach (Micro ddarparwyr) i lansio gwasanaethau ond ychydig iawn ohonynt sy'n barod i ddarparu gofal personol, a dyna lle mae'r bwlch mwyaf yn bodoli.  Er y bydd gostyngiad o bosibl yn y gofal a'r cymorth sydd ei angen ar unigolion oherwydd ein hymyriadau a'n gwaith ataliol cynharach, rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn y nifer o bobl ag anghenion mwy cymhleth, er enghraifft dementia.  Mae Sir Ddinbych wedi recriwtio i ddwy swydd cynghorwyr byw'n annibynnol.  Rhan o'u rôl yw cydgysylltu pethau a chynnig cyngor cyson a defnyddiol i deuluoedd, er enghraifft ynghylch Taliadau Uniongyrchol, Micro ddarparwyr a'r mathau eraill o gymorth sydd ar gael i ddinasyddion a gofalwyr.

Yn Sir y Fflint mae Taliadau Uniongyrchol yn ddull pwysig i bobl allu arfer dewis, llais a rheolaeth a phenderfynu sut i gyflawni eu hanghenion ar gyfer gofal a chymorth a chyflawni eu canlyniadau personol.  Yn Sir y Fflint, mae'r dulliau gweithredu yn canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau, gan geisio galluogi dinasyddion i gynnal ymreolaeth dros eu bywyd, eu cefnogaeth, eu hunan benderfyniad a'u hymreolaeth yn ogystal â defnydd effeithlon o adnoddau.

Yn y blynyddoedd diweddar mae Gwasanaethau Cymorth Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi'u trawsnewid yn llwyr ac maent bellach yn darparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n fuddiol i Ddinasyddion, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid y trydydd sector Sir y Fflint.  Rhai o fanteision allweddol y gwasanaeth yw:

- Llawer mwy o reolaeth dros y gwasanaeth a sut mae'n cyflawni blaenoriaethau'r adran.
- Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â thimau gwaith cymdeithasol i ymgorffori'r arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Systemau a rennir, dulliau cyfathrebu gwell a mynediad gwell at y gwasanaeth.

- Proses Atgyfeirio sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr hyn i'w gyflawni ac sy'n cefnogi cydweithrediad gyda'r unigolyn i fod yn berchen ar y canlyniad a datblygu datrysiadau pwrpasol.
- Mewn sefyllfa well i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r trydydd sector.
- Ymreolaeth i ddatblygu, profi ac ymgorffori arloesedd yn unol ag uchelgeisiau a blaenoriaethau'r adran.
- Dull llawer mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar anghenion y dinasyddion yn yr achos cyntaf, ond hefyd anghenion ymarferwyr, cymunedau, partneriaid ac yn y blaen.
- Ystyriaeth o'r farchnad Cynorthwywyr Personol yn nhermau safonau, ansawdd, hyfforddiant a chyfleoedd i wneud cynnydd.
- Cymorth sy'n gymesur. Yn bwysicaf, nid ydym eisiau cefnogi pobl yn ormodol, ond yn hytrach eu galluogi i reoli eu trefniadau eu hunain.

Yn ystod Chwarter 2 (Gorffennaf i fis Medi) derbyniodd 498 o bobl Daliad Uniongyrchol yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynrychioli'r nifer fwyaf o dderbynwyr y pen o'r boblogaeth mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Taliadau Uniongyrchol yn cynrychioli 39% o'r gwasanaethau a ddarperir yn y cartref.

Tabl 17: Taliadau uniongyrchol Sir y Fflint yn ôl categori Ch2 2021/22

| Categori Gwasanaeth | Nifer y taliadau uniongyrchol |
|---|---|
| Anableddau dysgu | 169 |
| Nam corfforol / ar y synhwyrau | 104 |
| Plant ag anableddau | 78 |
| Pobl hŷn | 65 |
| Gwasanaethau plant | 49 |
| Iechyd meddwl | 24 |
| Oedolion agored i niwed | 9 |
| Cyfanswm | 498 |

Ffynhonnell: Data a gasglwyd gan yr awdurdod lleol

Gan weithio mewn partneriaeth â chwmni ffilm lleol (Follow Films) Mae derbynwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint wedi cael cymorth i adrodd straeon unigryw o'u

bywydau a sytTaliadau Uniongyrchol Sir y Fflint i adrodd eu hanesion unigryw o'u bywydau a sut mae taliadau uniongyrchol wedi eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a phrofiadau bywyd gwell. Mae effaith y ffilmiau hyn a'r adborth iddynt wedi bod yn arwyddocaol ac mae'r ffilmiau yn cael eu defnyddio yn awr gan awdurdodau lleol a sefydliadau ymhell ac agos.

## Y Gweithlu

Fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth o Weithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, mae'r sector o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i:

- Newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Fframwaith cymhwyster newydd
- Strwythurau cyflog cystadleuol gyda sectorau eraill
- Cystadleuaeth gan sectorau eraill

Mae yna flaenoriaeth frys i sicrhau bod gweithlu digonol ar gyfer cyflawni gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau gofal cymdeithasol. Mae recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr gofal uniongyrchol yn her benodol erbyn hyn ar draws Gogledd Cymru.

Mae Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru yn profi cyfnod o newidiadau digynsail, lle mae angen iddynt gyflawni gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol, gyda phwyslais ar atal, diogelu, ymyrryd, gweithio mewn partneriaeth a gweithio integredig, cyd-gynhyrchu a grymuso, sy'n galw am bwyslais gwahanol ar sgiliau a hyfforddi'r gweithlu.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu ar y materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a dethol yn y gweithlu Gofal Cartref. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil ar y 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a dethol gweithwyr gofal cartref ac i'r graddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref' (Atkinson, Crozier a Lewis, 2016). Roedd gwaith ymchwil gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion yn ceisio nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad pobl i 'ddewis a pharhau i weithio fel gweithwyr gofal cartref'.

Mae yna tua 17,000 aelod o staff gofal cartref sy'n cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal cartref sydd wedi'u comisiynu yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Gweithlu Gofal Cartref (Llywodraeth Cymru, 2016) yn argymell bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn derbyn cydnabyddiaeth fel gweithwyr proffesiynol medrus. Mae'n rhaid herio'r ddelwedd negyddol o'r sector ac annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Y prif ffactorau a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad hwn oedd:

- Cyflogau isel
- Pwysau gwaith
- Oriau anghymdeithasol
- Telerau ac amodau gwael
- Contractau 'dim orau' neu 'oriau heb eu gwarantu' sy'n atal pobl rhag ymuno â'r sector, am nad oedd unrhyw oriau wedi'u gwarantu
- Nid yw amser rhai ymweliadau yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn
- Diffyg hyfforddiant a chyfleoedd datblygu gyrfa
- Yn cael ei ystyried fel swydd statws isel o gymharu â gofal iechyd

Mae Awdurdodau Lleol wedi ehangu eu Rhaglenni Carefirst a rhaglenni eraill Cymorth i Gyflogeion i'r gweithlu allanol [nid yr awdurdod lleol]. Mae Rhaglenni Carefirst/Cymorth i Gyflogeion yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ar-lein neu drwy'r rhif rhadffôn. Mae'r gwasanaeth am ddim i bob cyflogai allu cael mynediad ato pryd bynnag y bydd ei angen arnynt.

Gellir gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr cartref i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl drwy sicrhau bod staff yn cael eu hannog i weithio yn y maes y maent yn fwyaf galluog ynddo. Mae angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol i gwblhau tasgau ar y rhai sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia. Mae yna ddiffyg gweithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn dementia, a gallai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Mae comisiynwyr yn awyddus i sicrhau bod yr asiantaethau a gyflogir ganddynt i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu rhwymedigaethau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y

proffesiwn er mwyn denu staff o safon uchel. (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae Gwynedd yn datgan bod potensial i addasu rolau / tasgau o fewn eu cynlluniau gofal cartref ond bod angen cymorth gan ddarparwyr i'w gweithredu. Mae staffio yn broblem fawr ar hyn o bryd i ofalwyr gofal cartref a chartrefi gofal.

Yn Sir y Fflint, mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio hefyd gyda Mind Gogledd Ddwyrain Cymru i ddarparu cymorth ychwanegol i weithwyr gofal cymdeithasol. Roedd gwybodaeth, therapïau siarad a gweithgareddau a gynlluniwyd i gefnogi llesiant yn ystod y cyfnod anodd hwn ar gael.

Mae darparwyr yn Sir y Fflint wedi datgan ei bod yn anodd defnyddio ffair swyddi Cymru Gyfan a bod y TG yn drwsgl, yn arbennig os nad oes gennych unrhyw gefnogaeth TG.

Mae Sir y Fflint wedi gweithio mewn partneriaeth â Dinasyddion i gynllunio a gweithredu llwyfan unigryw sy'n cefnogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol a Chynorthwywyr Personol. Mae Porth Cymhorthydd Personol Sir y Fflint yn galluogi cyflogwyr taliadau uniongyrchol i chwilio am Gymorthyddion Personol sydd ar gael yn eu hardal eu hunain ac i Gymorthyddion Personol hyrwyddo eu hunain a'u hargaeledd i weithio. Mae Cymorthyddion Personol yn cwblhau proffil i ddisgrifio eu hunain, eu profiad, eu gallu ac yn y blaen a gall darpar gyflogwyr taliadau uniongyrchol chwilio drwy'r gronfa ddata ac ymgysylltu â'r bobl maent yn credu y gallent helpu i gyflawni eu hanghenion a/neu gyflawni canlyniadau llesiant personol. Yn ddiweddar maent wedi ychwanegu tudalen swyddi gwag sy'n galluogi dinasyddion i bostio eu gofynion h.y. yr anghenion/canlyniadau i'w cyflawni, gan wneud y system yn broses ddwy ffordd.

Mae cynllun taliadau uniongyrchol Sir y Fflint wedi mynd ati'n fwriadol i newid y cymorth sydd ar gael ar gyfer y gweithlu arwyddocaol hwn, ond sydd weithiau'n ddatgysylltiedig. Rhai o'r mentrau hyd yma yw:

- Cydgysylltydd Cymorthyddion Personol yn ymgysylltu â'r gweithlu. Cymorth bugeiliol ar gyfer Cymorthyddion Personol sy'n gweithio mewn swyddi cymhleth/ynysedig yn cael ei ymgorffori yn y rôl.

- Datblygu a gweithredu Cod Ymddygiad Cymorthyddion Personol. Mae hyn wedi helpu'r Cymorthyddion Personol i ddeall eu rôl, eu swyddogaethau a beth yw'r disgwyliadau ohonynt.
- Mae Tystysgrif Sefydlu Cymorthyddion Personol Sir y Fflint wedi'i datblygu ar sail 7 modiwl craidd ac sydd wedi'i chynllunio'n benodol o amgylch y rôl Cymorthyddion Personol. Ers ei chyflwyno, mae 11 CP wedi cwblhau eu tystysgrif ac mae 35 arall yn gweithio tuag at y dyfarniad. Ar gyfer CP sydd wedi cofrestru ar y cynllun, mae yna 50 o fodiwlau hyfforddiant pellach y gallant gael mynediad atynt yn eu hamser eu hunain. Dyma'r fenter gyntaf o'i bath ac rydym yn trafod potensial hyn gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer dull gweithredu Cenedlaethol.
- Datblygwyd Porth Cymorthyddion Personol i helpu cyflogwyr taliadau uniongyrchol i recriwtio ac i hyrwyddo cyfleoedd gwaith i ddarpar CP.

Mae recriwtio staff gofal a chymorth wedi bod yn anodd yn hanesyddol oherwydd y gronfa fach o weithwyr yn y maes, diffyg ymwybyddiaeth neu gydnabyddiaeth o'r rolau a'r risg o ddad-sefydlogi'r farchnad breifat. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'n dulliau recriwtio a lansiad mentrau newydd sy'n cynnwys yr ymgyrch Gofalwn Cymru a'r gwaith recriwtio ar sail gwerthoedd, rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr newydd ac ymgeiswyr sy'n dychwelyd i'r proffesiwn.

# 5. Gwasanaethau preswyl (plant)

Mae’r bennod hon yn canolbwyntio ar wasanaethau gofal preswyl i blant a phobl ifanc. At ddibenion yr asesiad hwn, mae’r bennod yn cynnwys rhai rhwng 0 ac 18 oed yn ogystal â’r rhai sy’n gymwys am wasanaethau nes eu bod yn 25 oed, megis pobl anabl a’r rhai sy’n gadael gofal.

Mae gwasanaethau preswyl yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal (Plant) - gofal mewn cartref â staff cyflogedig
- Llety Diogel - lle diogel a saff
- Gwasanaethau Preswyl Teulu - llety ble mae rhieni a phlant yn aros gyda’i gilydd i gael eu hasesu / cael gofal


Mae penodau ar wahân ar wasanaethau maethu a mabwysiadu.

# Trosolwg o’r boblogaeth

### Rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y plant

Yn 2020, roedd tua 123,700 o blant rhwng 0 a 15 oed yng Ngogledd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021b). Ychydig iawn o wahaniaeth a welwyd yn nifer y plant rhwng 2015 a 2020 ar draws Gogledd Cymru neu ym mhob sir. Amcangyfrifir y bydd nifer y plant yn gostwng 7% yng Ngogledd Cymru yn ystod y 15 mlynedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae’r lefel yn amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol o ostyngiad o 2% yng Ngwynedd i 12% yn Wrecsam, fel y dangosir yn y siart isod. Mae hwn yn batrwm cenedlaethol, ac amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 5% yng Nghymru gyfan.

Siart 1: Amcanestyniadau poblogaeth, plant 15 oed ac iau (seiliedig ar 2018)




Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar 2018 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

## Mae nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth wedi cynyddu

Yn 2020, roedd bron i 2,900 o blant yn cael gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn 2,300 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth, sydd ychydig is na'r gyfradd i Gymru gyfan, sef 2,550 i bob 100,000 o blant yn y boblogaeth. Mae'r niferoedd yn amrywio ar draws Gogledd Cymru a thros amser ac nid oes patrwm clir.

Yn 2018-19 roedd 575 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o yn flwyddyn i'r llall ar gyfer pob awdurdod lleol, mae'r lefel wedi parhau'n debyg yn gyffredinol dros Ogledd Cymru, gyda gostyngiad bychan o 3% (15 o blant). Oherwydd bod y niferoedd mor fach, nid yw'n bosibl dynodi patrymau clir oherwydd, er enghraifft, gallai newid dramatig o un flwyddyn i'r llall ddigwydd oherwydd bod un teulu wedi symud i ardal neu o ardal.

## Nid oes disgwyl i nifer y plant sy'n derbyn gofal barhau i gynyddu

Er bod y ffigurau cyffredinol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal wedi dangos cynnydd cyson o un flwyddyn i'r llall hyd yma, ni ddisgwylir i hyn barhau yn y dyfodol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

## Roedd plant sydd wedi profi gofal yn fwy diamddiffyn yn ystod y pandemig

Amlygodd yr Adolygiad Cyflym o Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2020) effaith y pandemig ar blant sydd wedi profi gofal, ac roedd yn cynnwys unigedd ac unigrwydd a tharfu ar fynediad at wasanaethau. Yng Ngogledd Cymru, cafwyd gostyngiad cychwynnol mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ond wedyn, cododd y cyfraddau yn ôl i’r lefel ddisgwyliedig. Cynhaliwyd mwy o ymweliadau monitro i aelwydydd ble roedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant - ymweliadau wythnosol yn hytrach na’r amserlen 10 diwrnod.

## Mae cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal o’r newydd

Yn 2021 roedd 1,470 o blant a phobl ifanc lleol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Gogledd Cymru, sy’n debyg i’r darlun cenedlaethol yng Nghymru gyfan. Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 350 yn ystod yr amser a ddangosir yn y tabl isod. Mai llai o blant yn derbyn gofal fesul 100,000 o’r boblogaeth yng Ngogledd Cymru na gweddill Cymru, ond mae amrywiadau sylweddol ar draws y rhanbarth, o 800 yn Sir y Fflint i 1,300 yn Wrecsam. Mae’n bwysig nodi bod y nifer yn newid yn sydyn ar hyn o bryd gyda chynnydd sylweddol mewn pobl ifanc sydd newydd gael llety.

Tabl 18: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o blant sy'n derbyn gofal (dan 18 oed) gan awdurdod lleol, 2017 a 2021

| Cyngor lleol | 2017 Nifer | 2017 Cyfradd | 2021 Nifer | 2021 Cyfradd | Newid Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 140 | 1,039 | 160 | 1,214 | 20 |
| Gwynedd | 220 | 927 | 280 | 1,210 | 65 |
| Conwy | 180 | 829 | 215 | 1,015 | 35 |
| Sir Ddinbych | 160 | 825 | 180 | 923 | 20 |
| Sir y Fflint | 210 | 654 | 255 | 795 | 45 |
| Wrecsam | 215 | 736 | 375 | 1,304 | 160 |
| Gogledd Cymru | 1,120 | 805 | 1,470 | 1,063 | 350 |
| Cymru | 5,960 | 949 | 7,265 | 1,153 | 1,305 |

Ffynhonnell: StatsCymru

# Trosolwg o'r farchnad

Er gwaetha'r ymrwymiad ar y cyd i atal ac ymyrryd yn gynnar, bydd cyfran fach o blant sy'n derbyn gofal angen lleoliadau preswyl bob amser.  Yn dibynnu ar anghenion gofal, gall hyn fod mewn:

Cartrefi Gofal Preswyl â staff gofal cyflogedig
Uned Llety Diogel
Uned Breswyl Teulu

Rhoddodd y Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad  (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) ddadansoddiad o ddarpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Cymru. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 70 o blant Gogledd Cymru yn byw mewn cartref gofal. Cynyddodd cyfanswm y plant oedd yn byw mewn cartref gofal 133% yng Ngogledd Cymru rhwng 2016 (30 o blant) a 2020 (70 o blant). Mae'r tabl isod yn dangos bod y ffigwr hwn wedi mwy na dyblu i 158 rhwng 2020-2021.

Tabl 19: Ciplun o nifer y bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl ar 31 Mawrth 2021.

| Sir | Preswyl |
|---|---|
| Ynys Môn | 10 |
| Gwynedd | 21 |
| Conwy | 37 |
| Sir Ddinbych | 20 |
| Sir y Fflint | 39 |
| Wrecsam | 31 |
| Gogledd Cymru | 158 |

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Nodiadau: Mae preswyl yn cynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl teulu, lleoliadau ysgol preswyl

## Cyfran o'r farchnad

Roedd 17 darparwr annibynnol gofal preswyl i blant yn rhedeg 42 o sefydliadau ac yn darparu 180 o leoliadau cofrestredig ('gwely') ar draws Gogledd Cymru.

Oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig o leoliadau mewnol yn y rhanbarth, mae'n rhaid i awdurdodau dalu i sefydliadau allanol a elwir yn 'ddarparwyr'. Mae mwy o wybodaeth ar y gwaith i gynyddu capasiti preswyl mewnol yn yr adran ar y Rhaglen Drawsnewid i Blant.

### Llety diogel

Nid oes darpariaeth llety diogel yng Ngogledd Cymru. Mae cartref diogel cenedlaethol, pwrpasol i blant yn Ne Cymru. Mae lle i 18 o blant a phobl ifanc o bob rhyw rhwng 12 a 17 oed yn Hillside.

Rhoddir plant mewn llety diogel drwy orchymyn llys ac mae'r niferoedd yn isel iawn, rhwng 0 a 2 fesul awdurdod bob blwyddyn heb unrhyw batrwm clir. Nid oes cynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth hon yng Ngogledd Cymru.

Trafodir darpariaeth cam i lawr o lety diogel a lleoliadau lles diogel yn yr adran llety brys.

# Digonolrwydd a sefydlogrwydd y farchnad

Mae lleoliad yn y sir neu gerllaw yn bwysig i blant a bobl ifanc gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol sefydledig gyda theulu (rhieni, brodyr a chwiorydd ac eraill) a'r ysgol – sy'n eu helpu i ddatblygu eu hunaniaeth ac aeddfedrwydd emosiynol (NICE, 2021).

Mae'r tabl isod yn dangos mai yng Nghonwy a Gwynedd mae'r gyfradd uchaf o leoliadau y tu allan i Ogledd Cymru. Mae dros hanner y lleoliadau preswyl ar draws y rhanbarth y tu allan i Ogledd Cymru.

Tabl 20: Nifer y lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir

| Sir | Cyfanswm y lleoliadau | Lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru | % y lleoliadau y tu allan i Ogledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 16 | 5 | 31% |
| Gwynedd | 16 | 10 | 63% |
| Conwy | 16 | 12 | 75% |
| Sir Ddinbych | 10 | 5 | 50% |
| Sir y Fflint | 31 | 17 | 55% |
| Wrecsam | 18 | 8 | 44% |
| Gogledd Cymru | 107 | 57 | 53% |

Ffynhonnell: Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019)

## Mae prinder darparwyr preswyl lleol

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru adroddiad oedd yn archwilio'r achos dros ail-gydbwyso darpariaeth gofal cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2020). Nododd yr adroddiad anghydbwysedd grym sylweddol yn y farchnad gofal preswyl plant, sy'n effeithio ar leoliadau a dewis, y gallu i wneud y dewis gorau ar gyfer anghenion plentyn, y llwyth gwaith a'r canlyniadau i blant. Heb ail-gydbwyso, bydd dibyniaeth barhaus ar ddarparwyr preifat, mewn rhai achosion gyda chostau uchel ac amheuaeth o werth

am arian, mwy o ansefydlogrwydd a chanlyniadau gwael i blant. Rhaid i nod unrhyw ail-gydbwyso fod i ddatblygu marchnadoedd sefydlog, cryf, sy’n cynnig opsiynau a dewis, gofal o ansawdd, llai o leoliadau’n methu a chanlyniadau da i blant.

Mae galw cynyddol am leoliadau preswyl a diffyg cyflenwad o ddarparwyr preswyl lleol wedi arwain at ‘farchnad darparwyr’. Mae darparwyr yn gallu dewis a dethol pa bobl ifanc maent yn eu derbyn, sy’n gallu golygu ei bod yn fwy anodd dod o hyd i leoliad i rai ag anghenion a heriau ymddygiad mwy cymhleth. Gall hyn fod oherwydd sgiliau/arbenigedd y darparwr, pryder am sut gallai’r ymddygiad amharu ar breswylwyr eraill a’r gymuned leol, a phryder y gallai hyn i gyd gael effaith ar ganlyniadau’r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â’r pwysau ariannol, mae pwysau hefyd ar amser staff. Os bydd gwely’n dod yn rhydd, mae’n bosibl y bydd nifer o wasanaethau lleol yn ceisio ei sicrhau, gan arwain at gystadleuaeth.

Mae’r galw uchel hwn yn rhoi pwysau ar gyllideb awdurdodau lleol, ac mae darparwyr yn gallu pennu cost y ddarpariaeth.  Mae perygl y bydd gwariant ar leoliadau y tu allan i’r sir yn cynyddu wrth i gostau lleoliadau gynyddu mewn marchnad sy’n cael ei harwain gan alw.

Ar hyn o bryd, mae Gogledd Cymru yn dibynnu ar y sector annibynnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl plant. Mae’r Rhaglen Drawsnewid i Blant a Chyllid Gofal Integredig wedi cael eu defnyddio i gynyddu’r ddarpariaeth fewnol ac ariannu gweithgarwch ataliol. Mae awdurdodau lleol yn parhau i archwilio cyfleoedd i hwyluso dull gwahanol i helpu i leihau’r ddibyniaeth ar leoliad y tu allan i'r sir sy’n arwain at bwysau ariannol anghynaladwy i wasanaethau cymdeithasol ac addysg.

## Mae prinder darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad cymhleth

Yn 2019, roedd dros hanner y plant a roddwyd mewn gofal preswyl yn cael gofal yn bennaf oherwydd anghenion emosiynol ac ymddygiad ac roedd dau draean ohonynt rhwng 13 a 16 oed (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Mae prinder sylweddol o leoliadau arbenigol i bobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiad sylweddol yng Ngogledd Cymru. Mae plant yn cael eu lleoli yn Lloegr yn aml, oddi wrth eu teuluoedd.  Mae darpariaeth gyfyngedig yn Lloegr. Mae gweithwyr

cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoedd i geisio lleoli plentyn ag anghenion llai dwys.

Mae'n bosibl y bydd rhai plant wedi cael eu haddysg yn Gymraeg, ac felly byddant yn ei chael yn anodd ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gymhorthydd i roi cymorth ychwanegol.

Mae pobl ifanc mewn argyfwng yn aml yn mynd i'r Adran Achosion Brys ac yn aros mewn ysbyty mewn sefyllfaoedd brys.

## Mae prinder llety brys

Mae gwasanaethau cymdeithasol ar hyd a lled y DU yn wynebu pwysau cynyddol i ddod o hyd i leoliadau mewn achosion brys. Yn lleol, mae rhai sefyllfaoedd yn codi pan na allwn ddod o hyd i leoliad i blentyn. Oherwydd hyn mae'n rhaid datblygu sefyllfa dros dro i ddarparu llety a chymorth nes gellir dod o hyd i leoliad. Gall y sefyllfaoedd hyn godi o anawsterau i leoli pobl ifanc yn dilyn methiant perthnasoedd yn y cartref, trosglwyddo plant pan fydd yr heddlu wedi defnyddio eu grym gwarchod i symud plant a diffyg gwelyau diogel i bobl ifanc ag anghenion a risgiau lles dwys.

Mae'n bwysig pwysleisio mai fel dewis olaf mewn sefyllfaoedd brys y defnyddir y trefniadau hyn, oherwydd amgylchiadau eithriadol ac am gyfnod byr nes gellir dod o hyd i ddarpariaeth sy'n cael ei rheoleiddio. Mae trefniadau diogelu ynghylch lleoliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn cynnwys cymeradwyaeth uwch reolwr, hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru fel ein rheoleiddiwr, cynllun gofal a chymorth, cwblhau ymweliadau gan weithwyr cymdeithasol, cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol a goruchwylio gweithwyr cymdeithasol i edrych ar drefniadau / cynlluniau symud ymlaen.

Gall y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi yn eu lle mewn achosion brys fod gyfystyr â lleoliadau heb eu rheoleiddio. Dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n drosedd i rywun ddarparu gwasanaeth wedi'i reoleiddio heb gael ei gofrestru yn gysylltiedig â'r gwasanaeth hwnnw.

# Trosolwg o'r farchnad leol

Mae Datganiad Sefyllfa'r Farchnad 2021 yn arfarnu'r farchnad ac yn nodi beth sy'n digwydd, y gwasanaethau preswyl sydd eu hangen i blant yn y rhanbarth a'r dyheadau ar gyfer darparwyr y dyfodol.

- Mae nifer y plant sy'n byw mewn cartref plant wedi cynyddu, gallai rhai o'r plant hyn fyw gyda theulu maeth ond ar hyn o bryd, nid oes digon o ofalwyr maeth gyda'r sgiliau cywir i'w cefnogi.
- Mae rhai o'n plant sy'n byw mewn cartref plant yn byw y tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol er gwaethaf capasiti digonol yn yr ardal.

Yr hyn nad oes arnom ei angen:

- Nid ydym yn annog i ddarparwyr annibynnol gofal preswyl i blant nad yw eu gwasanaethau'n cael eu datblygu i fodloni anghenion ein plant, ehangu yng Ngogledd Cymru.
- Nid oes arnom eisiau i ddarparwyr weithredu cartrefi plant heb fodel gofal clir na chyflenwi darpariaeth safonol yn unig.

Yr hyn y mae arnom ei eisiau:

- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion ein plant.
- Mae arnom eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i'n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Mae arnom eisiau darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am ein plant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Mae arnom eisiau darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â'u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

## Ynys Môn

Mae 3 adnodd cartref grŵp bychan yn Ynys Môn gyda'r potensial i gynnig 5 gwely i blant sydd angen y gwasanaeth. Mae ein 4ydd eiddo yn cael ei adnewyddu a bydd wedi ei orffen ym mis Awst 2022. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol gynnig 3 gwely posibl arall yn lleol i gyrraedd cyfanswm o 8 gwely.

Mae gwasanaeth cartref grŵp bychan Ynys Môn yn galluogi pobl ifanc ag anghenion cymhleth i aros gyda'u teulu biolegol mor hir â phosibl. Y nod yw osgoi'r angen am leoliadau preswyl arbenigol 'y tu allan i'r sir' os bydd y teulu'n chwalu.

Mae ein tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn cefnogi'r teulu a staff gofal fydd yn gyfrifol am ofal yr unigolyn ifanc o ddydd i ddydd. Mae hyn yn rhoi cysondeb ar draws yr ystod o ofal a chymorth a roddir i unigolion.

**Canlyniadau**

- Gallu datblygu a chynnig opsiwn cynyddol o 'ofal ar y cyd' i unigolion a theuluoedd rhag i'r teulu chwalu'n llwyr.
- Cyfle i'r unigol ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd a allai eu galluogi i symud ymlaen i lety â chymorth arall i fodloni eu hanghenion unigol.
- Gallu darparu gofal tymor hirach a chyfle i weithio mewn partneriaeth yn gynt gyda'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion i'w cefnogi drwy'r broses bontio.
- Bod ar gael i fodloni anghenion pobl ifanc eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth, yn dibynnu ar yr anghenion a aseswyd.

## Gwynedd

Mae diffyg capasiti wedi'i nodi mewn lleoliadau gofal preswyl plant yng Ngwynedd ac yng Nghymru yn ehangach. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn ymdrin â'r angen ac nid oes rhagolwg o ddarpariaeth newydd yn y dyfodol agos. Mae darparwyr presennol yn rhai bach iawn, sy'n golygu fod plant yn gorfod mynd i Loegr, sy'n gallu arwain at broblemau eilaidd, yn enwedig gan nad oes cyflenwad digonol yn Lloegr ychwaith. Mae gweithwyr cymdeithasol yn ei chael yn anodd lleoli plant ag anghenion dwys gan fod darparwyr yn tueddu i gadw lleoliadau i blant ag anghenion llai dwys. Nodwyd ei bod yn bosibl sicrhau lleoliad i bob unigolyn, ond bod angen trafodaethau pellach er mwyn lleoli'r rhai ag anghenion mwy dwys. Mae'r ffioedd hefyd yn uchel iawn.

Codwyd y materion canlynol fel rhwystrau i ddatblygu gofal preswyl:

- Mae stigma o hyd yn gysylltiedig â chartref gofal plant.
- Mae angen i blant sy’n cael eu rhoi gyda’i gilydd mewn lleoliad gofal allu cyd-fyw ac yn aml iawn mae ganddynt anghenion gwahanol neu rai sy’n gwrthdaro, sy’n gallu bod yn gymhleth ac yn frawychus iawn i ddarparwyr newydd oherwydd y risgiau ariannol wrth sefydlu busnes o’r fath.
- Mae’r cynnydd sylweddol ym mhrisiau’r stoc dai yng Ngwynedd yn gwneud achos busnes yng Ngwynedd yn llai deniadol.

## Conwy

Mae’r tabl isod yn dangos y mathau a nifer y lleoliadau yng Nghonwy dros y pum mlynedd diwethaf.

Tabl 21: Math a nifer y lleoliadau, Conwy, 2017 i 2021

| Sir | | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau maethu | - | 249 | 221 | 212 | 203 | 208 |
| Mabwysiadu/Lleolwyd ar gyfer Mabwysiadu | - | 11 | 16 | 15 | 17 | 22 |
| Byw’n Annibynnol | | 15 | 16 | 23 | 29 | 23 |
| Cartrefi Preswyl/Ysgolion/Hostel | | 30 | 31 | 33 | 37 | 48 |
| Troseddwyr Ifanc/Llety Diogel | | 1 | 2 | 2 | | |
| Lleolwyd gyda Rhiant/Rhiant arall | | 46 | 41 | 38 | 24 | 39 |
| Gofal Meddygol/Nyrsio | | 11 | 4 | 1 | 1 | |
| Canolfan Deulu neu uned Mam a’i phlentyn | | | | | 1 | 5 |
| Lleoliad heb ei Reoleiddio dan Gyfarwyddyd y Llys, Adran 38(6) | | | | | 3 | 12 |
| Lleoliadau Dros Dro | | | | | 3 | 11 |

Ffynhonnell: Casglu data awdurdodau lleol

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng, mae hyn yn cyd-fynd â buddsoddiad a phwyslais sylweddol ar wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal. Cafodd tîm Cymorth i Deuluoedd ac Ymyrraeth Conwy 4,400 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021. Mae'r tîm wedi cael mwy o atgyfeiriadau. Yn anecdotaidd, mae'r achosion wedi bod yn fwy cymhleth.

Mae'r prif heriau i gynnal darpariaeth yn cynnwys:

- Gweithlu - Mae recriwtio gweithwyr gofal plant, yn enwedig rhai â phrofiad, yn her sylweddol**.** Mae gweithwyr cymdeithasol profiadol yn chwilio am swyddi eraill oherwydd natur y gwaith amddiffyn plant ac effaith hyn ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac iechyd meddwl**.** Mae awdurdodau lleol yn cystadlu ag asiantaethau i ddenu gweithwyr cymdeithasol, sy'n talu cyflogau uwch.
- Ymdrechu i newid statws plant sy'n derbyn gofal drwy Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (Perthnasau).
- Mae gweithio mewn partneriaethau effeithiol gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn parhau i fod yn anghyson gan fod gan bob asiantaeth safbwyntiau gwahanol a blaenoriaethau sy'n gwrthdaro - gwaith achos heriol, risg uchel, sy'n cymryd amser.
- Prinder llety brys a dibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir / dros dro. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i ni ar hyn o bryd.

Mae costau lleoliadau wedi dyblu bron iawn, o gyfartaledd yr wythnos o £3,500 yn 2017 i rai sy'n gofyn rhwng £6,000 a £7,000 yn 2021/22.

## Sir Ddinbych

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych 20 o blant neu bobl ifanc mewn darpariaeth cartrefi gofal, ac mae mwy na'u hanner y tu allan i Gymru. Er bod y plant a'r bobl ifanc hyn wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, mae diffyg opsiynau lleol wedi golygu bod rhai lleoliadau yn bell iawn o'u cartrefi.

Mae galw am leoliadau preswyl i blant â phroblemau iechyd meddwl sydd ag ymddygiad cymhleth oherwydd trawma. Mae diffyg lleoliadau hefyd sy'n gallu

cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef Camfanteisio Rhywiol neu Gamfanteisio Troseddol.

## Sir y Fflint

Mae Cyngor Sir y Fflint yn comisiynu 39 o wasanaethau cartrefi gofal plant, mae hanner y plant a phobl ifanc hyn yn cael eu lleoli y tu allan i'r wlad, yn Lloegr neu'r Alban. Mae angen pwyslais ar fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r dechrau. Er bod y plant wedi cael eu rhoi'n briodol mewn lleoliadau preswyl yn seiliedig ar eu hanghenion, ychydig iawn o ddulliau hyfyw eraill oedd ar gael a allai fod wedi arwain at ddad-ddwysau, gan ddileu'r angen am leoliad y tu allan i'r sir.

Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy'n dioddef â'u hiechyd meddwl ac nid oes digon o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i'w darparu. Mae gwasanaethau y tu allan i'r sir yn cael eu defnyddio, sy'n achosi mwy o oblygiadau o ran cost.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n gyfle arall mewn partneriaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion lleol.

Dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y sector, nod y cyngor yw:

- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau gofal fydd yn bodloni anghenion plant.
- Gweithio gyda darparwyr newydd a rhai presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn modd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i'n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Gweithio gyda darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am blant sydd ag anghenion dwys lluosog ac sy'n gallu darparu llety amgen i ddiogelu darpariaeth lles.
- Nodi darparwyr fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda ni yn ystod cyfnodau o drawsnewid yn cynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwyr maeth neu gael eu haduno â'u teulu.
- Mae diwylliant Cymru yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac mae arnom eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Wrecsam

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn comisiynu unrhyw ddarpariaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal plant, er bod gennym ni 33 o blant a phobl ifanc wedi’u lleoli mewn lleoliadau y tu allan i’r sir yng Nghymru a Lloegr. Mae angen ffocws ar fentrau sydd wedi'u cynllunio i leihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir o'r cychwyn cyntaf.

Gan ddefnyddio Cyllid Cyfalaf Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, eleni roeddem yn gallu lansio ein Rhaglen Gofal yn Nes at y Cartref a fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar brynu, ailbwrpasu a/neu ailddatblygu eiddo naill ai gan CBSW neu mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cynlluniau byw â chymorth a chartrefi plant bach yn Wrecsam, gan alluogi pobl i ddychwelyd i'r Fwrdeistref i gwrdd â'u tai a/neu anghenion gofal ac atal yr angen i gomisiynu lleoliadau all-sirol yn y dyfodol. Eleni, fe wnaethom sicrhau tri eiddo ac mae mwy yn y cynllunio o dan gynlluniau grant cyfalaf newydd ac ehangedig Llywodraeth Cymru. Mae galw am wasanaethau preswyl i blant sy’n dioddef o’u hiechyd meddwl, ac nid oes lefel ddigonol o ofal a chymorth yn ardal yr awdurdod lleol i ddarparu hyn. Mae gwasanaethau'n cael eu ceisio y tu allan i'r sir sy'n golygu goblygiadau cost pellach.

Mae gan nifer o ddarparwyr preswyl lleol hefyd gynlluniau ar gyfer ehangu, sy'n rhoi cyfle arall i weithio mewn partneriaeth i alinio'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol. Dros y flwyddyn i ddod, bydd ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar:

- Uchafu cyllid cyfalaf rhanbarthol i ehangu gofal yn nes at y cartref a datblygu datrysiadau gofal lleol dielw ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Prosiect fframwaith aduno – defnyddio proses NSCC i wella llwyddiant ailuno.
- Gwella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion gyda chymorth cyfreithiol a gwaith cymdeithasol penodol wedi'i ymrwymo i gynllunio i ryddhau cleifion a darparu Gorchmynion Gofal Rhyddhau.
- Twf parhaus yn y cynnig gwarcheidiaeth arbennig a chefnogaeth.
- Lansio ‘Myfyrio’ – rhaglen i gefnogi gostyngiad yn nifer y beichiogrwydd cylchol sy’n dod i ben gyda phlant yn cael eu tynnu.

- Gwerthusiad o gyfraddau tâl ar gyfer Gofalwyr Maeth i adlewyrchu costau byw yn well a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â thlodi.
- Cyflwyno Prosiectau Kickstart a Llety â Chymorth
- Therapi Aml-Systemig – parhau i gyflwyno dull Therapi Aml-systemig ar draws gwasanaethau i gynnwys cymorth symud ymlaen/cam-i-lawr i deuluoedd.
- Proses Sefydlogrwydd Cynnar i'w sefydlu gan flaenoriaethu sefydlogrwydd o'r cychwyn, Rydym hefyd yn anelu at;
- Uchafu'r defnydd o gyllid cyfalaf rhanbarthol newydd a chynyddol i ddatblygu llety/unedau lleoliadau brys newydd i gynyddu'r ddarpariaeth o lety seibiant brys i'r teuluoedd hynny mewn argyfwng.

# Darpariaeth cartrefi plant mewnol

Cafodd Gogledd Cymru gyllid grant o £3.8m ar gyfer rhaglen drawsnewid ranbarthol i blant a phobl ifanc yn 2021/22. Mae'r bartneriaeth strategol o awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ym mhob ardal ddaearyddol yn y rhanbarth yn goruchwylio darpariaeth y rhaglen drawsnewid. Yn ardaloedd y Canol a'r Dwyrain, bydd dwy Ganolfan Asesu Preswyl pwrpasol yn agor yn 2022/23. Byddant yn cefnogi darpariaeth gofal mewnol yn nes at y cartref i blant ag anghenion ymddygiad ac emosiynol cymhleth.

Tabl 22: Capasiti blynyddol ychwanegol a grëwyd gan Gyllid y Rhaglen Drawsnewid 2021/22

| Ardal | Lleoliadau Asesu Blynyddol | Lleoliadau Brys Blynyddol | Lleoliadau Cartref Gofal |
|---|---|---|---|
| Gorllewin (Ynys Môn a Gwynedd) | | | - |
| Canol (Conwy a Sir Ddinbych) | 12 | - | 12 |
| Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam) | 12 | 182 | 4 |
| Gogledd Cymru | 24 | 182 | 4 |

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol
Nodiadau: Asesiadau blynyddol y Dwyrain a'r Canol yn seiliedig ar 4 lleoliad 16 wythnos. Lleoliadau brys blynyddol y Dwyrain yn seiliedig ar 1 lleoliad gydag arhosiad o ddim mwy na 2 noson.

## Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a BIPBC (Gorllewin)

Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu canolfan breswyl teulu llawn amser. Mae capasiti presennol yn cael ei fodloni'n ddigonol.

Mae'r Tîm Trawsnewid ar Ynys Môn yn wasanaeth newydd fydd yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn.

Bydd y Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel.

Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned.

## Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Canol)

### Bwthyn y Ddôl

Mae tîm amlddisgyblaethol Bwthyn y Ddôl yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ar ymylon gofal ac mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal.

Bydd y tîm yn canolbwyntio i ddechrau ar gwblhau asesiad holistaidd drwy broses ymgynghori er mwyn argymell rhaglen o ymyriadau.

Mae model gofal newydd yn seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddatblygu drwy dîm aml-asiantaeth. Mae hwn wedi cael ei deilwra i anghenion pobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod yr ymyrraeth wedi helpu pobl ifanc aros gartref yn ddiogel.

Mae dull teulu cyfan sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cynnwys cynnal trafodaethau aml-asiantaeth yn rheolaidd, sydd wedi hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws pob asiantaeth.

Bydd y ganolfan asesu breswyl newydd yn cynnig:

Pedwar lleoliad ar gyfer asesiadau preswyl
Llety 'brys' tymor byr, heb ei gynllunio i ddau o blant a phobl ifanc
Rhagwelir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau yn gynnar yn 2023.

## Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Dwyrain)

Bydd Tŷ Nyth, Canolfan Asesu Breswyl a chartref preswyl i blant yn darparu cefnogaeth wedi'i danategu gan y dull Pontio Ymyriadau Teuluol (FIT) Therapi Aml Systemig (MST).

Daeth y Tîm MST (Therapi Aml-Systemig) yn weithredol ym mis Mai 2020 yn ystod y cyfnod cloi COVID, yn cynnwys Goruchwyliwr, pedwar Therapydd a Gweinyddwr. Mae'r tîm Therapi Aml-systemig yn darparu asesiad dwys a chymorth therapiwtig i bobl ifanc ag anghenion sylweddol, yn aml gyda lefelau uchel o ymddygiad heriol ar

draws meysydd lluosog a all gynnwys ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol, cam-drin sylweddau, colli cartref, hunan-niweidio a phatrymau gwahardd o'r ysgol / risg o waharddiad. Mae gan bob teulu becyn gofal pwrpasol wedi'i deilwra i anghenion eu teulu, gan ddefnyddio cryfderau presennol y teulu i roi'r cyfle gorau posibl ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r Tîm Therapi Aml-systemig wedi bodloni'r meini prawf i weithredu model MST UK o dan ofynion trwyddedu llym gan gynnwys cymhwysedd i ymarfer trwy hyfforddiant dwys. Mae MST yn fodel clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gweithio gyda'r holl systemau sy'n ymwneud â'r plentyn, gan gynnwys addysg, dylanwadau cymunedol ac unrhyw oedolion arwyddocaol / eraill yn y teulu. Mae'n meithrin gwydnwch y teulu ac yn cynnig cymorth sy'n hygyrch '24/7'. Cydnabod y gall problemau yn y teuluoedd godi ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Cynhelir apwyntiadau yng nghartref y teulu ar adegau sy'n gyfleus i'r teulu. Mae'r tîm yn gweithredu gydag ethos MST o 'beth bynnag sydd ei angen.' Mae'r Tîm yn darparu cymorth uniongyrchol i feithrin gwydnwch teuluoedd am rhwng 3 a 5 mis. Mae'r ffocws ar atal lleoliad y tu allan i'r cartref trwy ofal neu ddalfa ymhlith pobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol gartref, yn y gymuned a/neu yn yr ysgol.

Bydd y gwasanaeth yn darparu;

- 4 lleoliad asesu preswyl ar yr un adeg (hyd arhosiad 12 i 16 wythnos) i bobl ifanc rhwng 12 a 17 oed.
- Cefnogaeth i ofalwyr pobl ifanc gan y tîm MST FIT i gynyddu sgiliau a chefnogi pontio llyfn i'r cartref.
- Cymorth parhaus i deuluoedd am hyd at 4 mis pellach a gydag asiantaethau allweddol eraill megis gofal cymdeithasol ac ysgolion a rhwydweithiau cefnogi eraill yn y gymuned. Y nod yw gwella annibyniaeth teuluoedd a lleihau dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau statudol.

Hefyd, bydd y gwasanaeth yn darparu:

- 1 lleoliad i blant sydd angen llety brys (arhosiad o ddim mwy na 2 noson)

Bydd Park Avenue yn cynnig 4 lleoliad hirdymor i blant nad yw cymorth mewn lleoliadau mwy yn addas iddynt. Mae'r bartneriaeth strategol yn ceisio ymrwymo i 6 chartref grwpiau bychan dros y 3 blynedd nesaf.

# Ystyried ansawdd y farchnad

## Rhanbarthol

Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn dîm cenedlaethol i Gymru sy'n gweithio i gefnogi Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Awdurdodau Lleol i gomisiynu a chontractio lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Maent yn rheoli Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru.

Mae monitro prosesau Sicrwydd Ansawdd a Rheoli Risg yn y Fframwaith yn nodi patrymau o ran darparwyr a phroblemau.

## Ynys Môn

Mae gan Ynys Môn ddau Gartref Grwpiau Bychan cofrestredig – sef "Cartrefi Clyd Môn" – sydd wedi eu cofrestru ac sy'n cynnal Cartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll. Mae'r ddau wedi bod yn rhedeg ar gapasiti llawn drwy gydol y flwyddyn, yn gweithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod cynnar ac yn brwydro ag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, mae Ynys Môn ar fin agor y trydydd o'u Cartrefi Clyd Môn yng Nghaergybi, cartref grŵp bychan arbenigol, fydd yn gyfle am seibiant i blant sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau arbenigol plant.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd pedwerydd cartref y agor, sy'n dal yn y cam cynllunio a chofrestru – Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

Mae prosiect arall yn y cam cynllunio a chofrestru sef Cartrefi Clyd Môn Llangristiolus, fydd yn gyfleuster modern yn arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd i'r Gwasanaethau Arbenigol Plant. Oherwydd y bydd y ddau gyfleuster newydd hwn yn agor yn 2022, bydd llai o alw am leoliad y tu allan i'r sir.

Cafodd y cyfleusterau yng Nghartref Clyd Bryn Hwfa a Chartref Clyd Llanfairpwll eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn 2020 a dyfarnwyd eu bod yn Rhagorol.

### Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych  wedi ymrwymo i welliant parhaus drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, eu gofalwyr a staff cyflogedig a gwrando arnynt drwy arolygon ar gamau allweddol y broses gefnogi er enghraifft, ar ddiwedd lleoliadau.

Mae plant wedi helpu i siapio contractau ar gyfer y Gwasanaeth i Rai sy'n Gadael Gofal a'r Gwasanaethau Eiriolaeth Rhanbarthol drwy'r broses werthuso.

Mae Ymgynghoriad parhaus â Phlant a Phobl Ifanc ar yr iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wrth drafod ar lafar neu'n ysgrifenedig am fywydau ac amgylchiadau gofal a brofwyd gan blant a phobl ifanc. Mae hyn mewn ymateb i geisiadau gan Voices from Care, Comisiynwyr Ifanc a Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol sydd wedi amlygu'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

Mae Hyfforddiant Sgyrsiau Cydweithredol wedi galluogi ymarferwyr Gwasanaethau Plant i ystyried sut i feithrin perthnasoedd gwell â phobl.  Cafwyd adborth sylweddol gan ymarferwyr fel rhan o ymarfer myfyriol.

### Sir y Fflint

Yn ystod mis Ebrill 2021, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru wiriad sicrwydd i adolygu pa mor dda mae Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant gyda phwyslais ar ddiogelwch a lles.  Roedd y prif lwybrau ymholi yn canolbwyntio ar bedwar egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac roedd y darganfyddiadau / dyfarniadau'n cyd-fynd â nhw – Pobl – Llais a Rheolaeth, Lles, Partneriaethau ac Integreiddio.

# Tueddiadau presennol a'r rhai disgwyliedig

- Heriau wrth gael mynediad at welyau lles diogel a dewisiadau eraill lleol sy'n darparu ymyrraeth mewn argyfwng a dargyfeirio o lety diogel.
- Heriau wrth gael gafael ar leoliadau lleol priodol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

- Mae angen trefniadau a chyfleusterau tymor byr ychwanegol a phriodol i blant. Mae hyn hefyd yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol ac weithiau eu brodyr a chwiorydd.
- Yn aml mae gan blant dros 16 oed anghenion cymhleth ac ychydig o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau, mae angen dull strategol i gefnogi anghenion llety a chymorth pobl ifanc rhwng 16 – 18 oed a'r rhai sy'n gadael gofal.

## Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Defnyddir Fframweithiau Awdurdodau Lleol Cymru gyfan i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws ystod o fathau o leoliadau. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu partneriaethau lefel strategol â darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Defnyddir y fframweithiau un ai pan fo angen comisiynu'n allanol dan Ddyletswydd Digonolrwydd y Rhanbarth neu pan fo'r ansawdd gorau, cyflawni canlyniadau a gwerth am arian yn cael ei gyflawni drwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu'r gwasanaeth yn fewnol. Mae'r Fframweithiau Cymru gyfan yn cael eu rheoli gan yr egwyddorion uchod.

Y dull a ddefnyddir i e-dendro lleoliadau maethu a phreswyl allanol yw'r Adnoddau Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant sy'n cynnig comisiynu tryloyw, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i leoliadau a reolir gan y Fframwaith a'r rhai sydd y tu allan i'r Fframwaith ac mae'n caniatáu cydymffurfio â'r arweiniad a rheoliadau caffael sy'n sylfaen i gomisiynu.

## Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg

Nid oes gan y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir (neu wlad) – **IS IT COUNTY OR COUNTRY?** oherwydd diffyg lleoliadau arbenigol, y dewis o gael gwasanaethau gofal yn Gymraeg. Mae hon yn broblem benodol yng Ngwynedd.

# Gwasanaethau ataliol

Dynododd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth flaenoriaeth allweddol i gefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc gyda phwyslais ar wasanaethau ataliol. Cafodd hyn ei ddynodi fel maes blaenoriaeth allweddol ar draws y rhanbarth.

Defnyddiwyd y Gronfa Gofal Integredig 2016-22 i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ymyrraeth gynnar i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Heb y cyllid hwn, mae'n

bosibl y byddai plant a phobl ifanc angen mwy o ymyriadau gan Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn Haen 3 a 4 a Heddlu Gogledd Cymru , ac mae'n bosibl na fyddent wedi gallu aros gyda'u teuluoedd.

Dylid defnyddio gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol i archwilio datblygiad gwasanaethau ataliol ymhellach drwy'r Gronfa Fuddsoddi Ranbarthol 2022-27.

## Ynys Môn

Mae'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fel bod llai o blant a phobl ifanc angen derbyn gofal. Y prif ddarpariaeth ataliol yw'r tîm teuluoedd cryf.  Maent yn cynnig cefnogaeth ddwys i deuluoedd ble mae problemau camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a phroblemau iechyd meddwl ymhlith rhieni wedi cael eu nodi ac yn cyfrannu at y risgiau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu gartref. Drwy ddefnyddio ymyrraeth yn seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi ei llywio gan seicoleg, mae'r tîm wedi dangos yn gyson bod y rhain yn ffyrdd effeithiol o leihau risg a hwyluso newid sy'n caniatáu i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Hefyd, datblygwyd rhaglen mentor cymheiriaid ac er ei bod yn ddyddiau cynnar, rydym yn disgwyl i hon fod yn ychwanegiad effeithiol i'r ddarpariaeth.

Mae'r Tîm Trawsnewid yn wasanaeth newydd a sefydlwyd yn 2021. Byddant yn cynnig darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd un ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu ble mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel.  Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd ymarfer, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cefnogi. Mae eu pwyslais ar weithio gyda phlant a phobl ifanc y mae cyflwr niwrolegol yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned.  Yn 2022, bydd y tîm yn cael ei ymgorffori i'r tîm teuluoedd cryf, gan ehangu cylch gwaith a chwmpas y tîm hwnnw.

Nod y gwasanaeth yw darparu'r gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynharaf bosibl i deuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys y tîm o amgylch y teulu sydd wedi tyfu'n ddiweddar o 6 i 8 gweithwyr cefnogi. Mae ein gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig GORWEL, lles emosiynol a gofalwyr ifanc

Gweithredu dros Blant, cymorth iechyd meddwl i rieni gan Adferiad, Canolfan Cymorth Cynnar a chyfarfodydd aml-asiantaeth Un Drws Ffrynt.

## Gwynedd

Drwy gyllid ICF, mae Gweithredu dros Blant wedi sefydlu gwasanaeth Dychwelyd ac Atal Gwynedd i Blant sy'n Derbyn Gofal, sy’n darparu gwasanaeth therapiwtig uniongyrchol i leihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn cynnwys lleihau’r angen a nifer y lleoliadau drud y tu allan i’r sir ac i gefnogi datblygiad darpariaeth gofal lleol o ansawdd uchel i blant Gwynedd. Mae’r gwasanaeth hefyd yn atal achosion o chwalu teulu yn cynnwys lleoliadau mabwysiadu’n methu sy’n arwain at fod angen lleoliad plant sy’n derbyn gofal.

Yr angen mwyaf o atgyfeiriadau yw i sefydlogi lleoliadau maeth, rydym yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy ofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae’r gefnogaeth i rieni maeth nid yn unig i rieni maeth newydd, ond i ofalwyr profiadol hefyd. Fel bob amser, mae cydweithio’n allweddol i lwyddiant ac yn yr enghreifftiau hyn, mae gweithio mewn partneriaeth agos gyda maethu yn hanfodol, gan ganolbwyntio’n benodol ar hunan-ofal i rieni maeth. Mae’r gwasanaeth Dychwelyd ac Atal wedi parhau i fod ar agor i aelodau grŵp maethu preifat Gwynedd ar Facebook, yn rhannu cyngor a dolenni ar amrywiaeth o bynciau o rianta i faterion yn ymwneud â’r pandemig.

Canlyniadau’r gwasanaeth yw:

- Lleihau nifer y Plant Sy’n Derbyn Gofal.
- Datblygu dull therapiwtig system gyfan i’r teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu.
- Atal plant rhag bod angen derbyn gofal drwy ddarparu Therapi’n Canolbwyntio ar Ymlyniad i alluogi plant, pobl ifanc a’u teuluoedd ddeall trawma a’i effaith yn well.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni a chynnal lleoliadau gofal sefydlog drwy gefnogi gofalwyr yn therapiwtig i ddeall a rheoli ymddygiad sy’n herio.
- Cefnogi ac uwchsgilio gofalwyr i ddatblygu ymatebion gofalgar, therapiwtig i ymddygiad, sy’n helpu i sefydlogi lleoliadau a’u hatal rhag methu.
- Darparu gwasanaeth hygyrch, prydlon sy’n canolbwyntio ar ddatrysiadau ac nad yw’n creu stigma.

- Darparu cymorth dwys a mewnbwn therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal sy'n addas i gael eu dychwelyd i'w cymunedau yng Ngwynedd.
- Gweithio gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu i gyflawni lleoliadau sefydlog.
- Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae creadigrwydd a chefnogaeth hyblyg y staff yn sicrhau hyn.

Mae'r adborth wedi bod yn bositif iawn, gweler un enghraifft isod:

"Hollol wych a chefnogaeth a chyngor amhrisiadwy. Mae'r gwasanaeth hwn wedi bod yn gymorth gwirioneddol ac yn rhywbeth y mae gennym hyder ynddo a gwybod eu bod yno i ni bob amser fel teulu i'n helpu drwy'r amseroedd gwael ac i ninnau rannu ein rhwystredigaeth hefyd! Mae lefel eu hymrwymiad i ni yn dangos yn eu gofal ohonom ar ôl cyswllt gan wneud yn siŵr ein bod yn iawn neu ar ôl penwythnos gwael.  Ni allwn ganmol digon ar y gwasanaeth hwn."

## Conwy

### Cyfiawnder Ieuenctid

- Gorchmynion Atgyfeirio - ymgysylltwyd â 38 o bobl ifanc yn y 6 mis diwethaf, 4 wedi ail-droseddu
- Gwaith Cyfiawnder Adferol Uwch - 66 atgyfeiriad cychwynnol
- Cefnogwyd 78 o bobl oedd wedi cael niwed ac yna cefnogwyd 44 o'r bobl ifanc (oedd wedi cyflawni'r drosedd) i ymgysylltu ag ymyriadau penodol wedi'u harwain gan safbwynt y dioddefwyr i ddatblygu dealltwriaeth o effaith eu hymddygiad.
- Ni chafodd unrhyw bobl ifanc oedd wedi ymgysylltu â'r prosiect ddedfryd o garchar.

Tabl 23: Atgyfeiriadau Cyfiawnder Ieuenctid Conwy Ebrill i Medi 2021

| Math o atgyfeiriad | Nifer |
|---|---|
| Cardiau melyn | 203 |
| Datrysiad cymunedol fflat | 13 |
| Atgyfeiriadau atal | 44 |
| Datrysiad cymunedol + | 24 |
| Rhybudd ieuenctid | 0 |
| Rhybudd amodol ieuenctid | 6 |
| Cyfanswm | 290 |

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

## Sir Ddinbych

Yn 2021 sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT) drwy gyllid Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Tîm yn cynnig cefnogaeth gynnar wedi'i thargedu ar gyfer teuluoedd sy'n cael problemau i reoli anawsterau emosiynol ac ymddygiad.

Mae'r Tîm, sy'n cynnwys Llyw-wyr Lles, Therapyddion Galwedigaethol, Arbenigwyr Cymorth Ymddygiad a Seicolegwyr, yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall yr ymddygiad heriol a gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chefnogaeth i helpu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ymddygiad positif a rhoi ymgynghoriad arbenigol pan fo angen.

Mae'r tîm aml-asiantaeth sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol wedi datblygu model gofal penodol a dull partneriaeth o gefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Maen nhw bellach ar waith ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi uwchsgilio 78 o staff awdurdod lleol mewn therapïau fydd y tîm yn eu defnyddio, mae hyn wedi annog dull cyson ac iaith a rennir, gan roi cysondeb ar draws asiantaethau partner a thimau. Nododd y gwerthusiad annibynnol o'r prosiect;

- Roedd dull partneriaeth cryf ar lefel uchel yn allweddol wrth sefydlu'r gwasanaethau newydd.
- Roedd staff asiantaethau partner wedi eu plesio o ran pa mor gyflym roedd y tîm LIFT yn ymateb i atgyfeiriadau a cheisiadau am gyngor ac arweiniad.

- Cyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau a chydweithio, oedd yn cyfrannu at ddysgu a datblygu ar gyfer y gweithlu plant.
- Mae teuluoedd wedi ymgysylltu'n dda.

Adborth gan rieni:

- "Mae bywyd yn llawer gwell gartref rwan ers i [aelodau staff] wneud y fideo i ni"
- "Mae gan M lawer gwell cyswllt â'i deimladau, fel finnau, ers i'r LIFT ein helpu ni, mae ei ymddygiad wedi gwella hefyd"
- "Mae wedi bod yn hyfryd cael rhywun sy'n gwrando a ddim yn barnu"

Yn ystod y cyfnod ble mae'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael ei darparu i Sir Ddinbych, mae'r cymorth hwn ar gyrion gofal wedi gweithio gyda 122 o deuluoedd (sef 200 o blant).

**Rhaglen Integredig Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg**

Mae'r rhaglen hon yn darparu ystod o Gefnogaeth i Deuluoedd a Rhieni yn Sir Ddinbych. Ein nod yw darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i deuluoedd diamddiffyn cyn i broblemau waethygu a sicrhau bod plant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn cael cymorth ychwanegol.

Yn 2021-22, cafodd ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf 302 o atgyfeiriadau. Roedd gennym restr aros fisol o 18 ar gyfartaledd ac amser aros o 26 diwrnod ar gyfartaledd o dderbyn yr atgyfeiriad i ddyrannu gweithiwr. Fe wnaethom gefnogi 369 o deuluoedd ac asesu anghenion 114 o deuluoedd o'r newydd.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu llawer o wasanaethau ac ymyriadau o amgylch teuluoedd unigol, gan sicrhau ymgysylltu, asesu angen a chynllunio cefnogaeth. Yng nghanol materion parhaus ac anghenion anwadal oherwydd Covid-19, hyd yma mae'r Tîm wedi creu 29 o gynlluniau gweithredu yn llwyddiannus gyda theuluoedd. Gan ddefnyddio methodoleg a brofwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion cost posibl a gyflawnwyd gan y Tîm i wasanaethau eraill. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Ionawr i Rhagfyr 2021 yn dangos arbedion o £122,823.

Tabl 24: Arbedion cost posibl gan y Tîm o Amgylch y Teulu i wasanaethau, Ionawr i Rhagfyr 2021

| Maes gwasanaeth | Amcangyfrif o’r arbedion | Materion yr ymdriniwyd â nhw |
|---|---|---|
| Trosedd | £52,272 | Ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig ac ymddygiad troseddol |
| Addysg | £22,264 | Absenoldeb, gwahardd a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol |
| Iechyd | £6,187 | Camddefnyddio cyffuriau |
| Iechyd meddwl | £18,052 | Materion iechyd meddwl i blant, pobl ifanc ac oedolion |
| Cyflogaeth | £24,048 | Cymorth i gael gwaith |
| Cyfanswm | £122,823 | |

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Yn 2021, cefnogodd ein Hymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg 1,182 o blant dan 4 yn y rhannau mwyaf o amddifadedd lluosog ym Mhrestatyn, y Rhyl a Dinbych. Fe wnaethom gefnogi 52 o deuluoedd eraill ar draws y sir drwy Allgymorth. Helpodd ein Therapyddion Iaith a Lleferydd 102 o blant ochr yn ochr â’n tîm Datblygiad Iaith Cynnar, sydd wedi darparu ymyriadau Portage a Chwerthin a Dysgu i 36 o blant. O fis Ionawr i fis Rhagfyr 2021, fe wnaethom ddarparu 31,998 o sesiynau gofal plant di-dâl i 366 o blant, gan ddarparu 1,348 o sesiynau ychwanegol.

Mae ein Hymwelwyr Iechyd yn cyfrannu’n sylweddol at ddiogelu plant yn Sir Ddinbych. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021, gwaeth y tîm 218 cyswllt â phlant mewn mesurau Amddiffyn Plant, 135 cyswllt â phlant gyda Chynllun Gofal a Chefnogaeth a 115 gyda Phlant Sy'n Derbyn Gofal. Gwnaethant 639 cyswllt â phlant sydd angen gwasanaeth Dwys Haen 3.

Tabl 25: Gweithgareddau Ymwelwyr Iechyd Sir Ddinbych , 2021

| Gweithgaredd | Nifer |
|---|---|
| Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant | 102 |
| Adroddiadau Llys / Datganiadau'r Heddlu | 12 |
| Adroddiadau / presenoldeb mewn Cynadleddau Achos | 77 |
| Adroddiadau MARAC | 26 |
| Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a fynychwyd | 29 |
| Asesiadau Diogelu Cyn Geni | 97 |
| Cyfarfodydd yn ymwneud â diogelu a fynychwyd | 337 |

Ffynhonnell: Data awdurdod lleol

Ym mis Ionawr, fe wnaethom benodi Nyrs Diogelu newydd, sydd wedi mynychu pedair Cynhadledd Achos a chwech cyfarfod gweithwyr proffesiynol (Grwpiau Craidd / Cynlluniau Gofal a Chefnogaeth / Plant Sy'n Derbyn Gofal).

## Sir y Fflint

**MYFYRIO**

Mae'r Gwasanaeth MYFYRIO yn cefnogi merched sydd wedi colli un plentyn neu fwy drwy achosion gofal ac sydd mewn perygl uwch o golli mwy o blant drwy'r un profiad.

Mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn adnodd help cynnar aml-asiantaeth i blant a theuluoedd sydd â dau neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae partneriaid yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd, Cyfiawnder Ieuenctid, Tai, Sir y Fflint yn Cysylltu â Chwsmeriaid, Addysg, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Cymorth y Blynyddoedd Cynnar a Chyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint.

Cafodd y Ganolfan Cymorth Cynnar 2,641 o atgyfeiriadau rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Mawrth 2021 ac mae'r tîm wedi addasu i fodloni anghenion yn ystod y pandemig. Symudodd holl aelodau'r Ganolfan Cymorth Cynnar yn gyflym i gynnal trafodaethau ar-lein ac addasodd asiantaethau'n dda yn ystod y cyfnod clo ac ni chafwyd unrhyw darfu ar gyfarfodydd. Arafodd nifer yr atgyfeiriadau ychydig yn ystod Ebrill/Mai gan gynyddu eto o fis Mehefin.

**‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’**
Mae’r ymgyrch recriwtio ‘Lleoliad Rhiant a Phlentyn Gyda’i Gilydd’ yn dechrau dwyn ffrwyth. Ei nod yn cadw plant gyda’u rhieni mewn lleoliad gofal maeth a aseswyd yn arbennig.

Mae Sir y Fflint yn craffu’n agos ar benderfyniadau a ddylid rhoi pobl ifanc hŷn mewn gofal, ac yn enwedig, pa wahaniaeth y gellir ei gyflawni ar y cam hwyr hwn.

**Gwasanaeth Cyfarfod Sir y Fflint**
Bwriad Gwasanaethau Cyfarfod Sir y Fflint yw cadw teuluoedd gyda’i gilydd pan fo’n bosibl. Mae teuluoedd yn cael cynnig Cyfarfod Grŵp Teulu cyn gynted â phosibl, i’w hatal rhag cyrraedd argyfwng. Mae Cyfarfodydd Cyfarfod Teuluoedd yn archwilio a fyddai aelodau’r teulu ehangach neu unigolion cysylltiedig yn barod i gynnig cael eu hasesu i ofalu am y plentyn. Mae mwy o gyllid ar gael i atgyfnerthu’r dull hwn. Rydym wedi gweld cynnydd yn yr atgyfeiriadau i’r gwasanaeth, a nodwyd bod teuluoedd angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith COVID-19 a’r straen a’r pwysau cynyddol ar fywyd teuluol. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd cyflym mewn atgyfeiriadau gan wasanaethau statudol, sydd eto’n amlygu’r pwysau y mae’r pandemig wedi’i gael ac yn dal i’w gael ar deuluoedd.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**
Mae’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth statudol gan yr awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth ddiduedd am ddim i deuluoedd (a’r rhai sy’n gweithio gyda nhw) ar ystod o bynciau ac mewn fformatau gwahanol.

Mae pynciau’n cynnwys iechyd, addysg, hamdden, cyllid a gofal plant cofrestredig. Mae’r gwasanaeth yn prosesu 20,000 o ymholiadau’r chwarter ar gyfartaledd, un ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac e-bost neu ar y wefan a thrwy’r cyfryngau cymdeithasol.

Wrecsam

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Adran wedi gwneud cynnydd cyson o ran datblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd y ddogfen Fframwaith Cymorth Cynnar ac Atal, yn dilyn lansiad aml-asiantaeth ynghyd â dogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

Diben y ddogfen Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar yw cynorthwyo pawb wrth gynllunio Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Gynnar. Mae'n cefnogi wrth ystyried pwy sydd angen cymryd rhan, beth yw'r egwyddorion a fydd yn llywio trafodaethau a phenderfyniadau ac i alluogi unigolion i ddatblygu achos busnes clir ar gyfer gwella, ehangu neu ail-bwrpasu gwasanaethau presennol.

Ers datblygu'r Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar, mae Partneriaeth Atal a Chymorth Cynnar newydd wedi'i sefydlu ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth a fydd yn helpu i ganolbwyntio'r Cyngor a'i Bartneriaid ar sicrhau bod cymorth i blant a phobl ifanc. ac mae teuluoedd ar gael iddynt cyn i faterion waethygu. Ei nod yw helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu eu hunain yn y lle cyntaf ond pan fydd angen mwy o help, ein nod yw darparu'r cymorth cywir yn llawer cynharach. Bydd datblygiad pellach y Bartneriaeth Atal a Chymorth Cynnar yn parhau trwy gydol y flwyddyn i ddod.

# 6. Gwasanaethau maethu

## Trosolwg o'r boblogaeth

### Rhagwelir y bydd nifer y plant yn lleihau

Mae nifer amcangyfrifedig y plant (0-15 oed) yn 2020 a'r rhagamcanion ar gyfer 2040 yn dangos bod disgwyl i nifer y plant yng Ngogledd Cymru leihau yn ystod y blynyddoedd i ddod (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r lleihad hwn i'w weld ar draws pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Gwynedd lle rhagwelir y bydd cynnydd bach (1.8%). Yn gyffredinol, disgwylir y bydd gostyngiad o 6.1% yn nifer y plant yng Ngogledd Cymru.

Roedd diweddariad y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad 2021 yn rhoi trosolwg o'r ystadegau allweddol;

- Roedd cynnydd o 34% yn nifer y plant yr oedd angen gofal maeth arnynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 (600 o blant) a mis Mawrth 2020 (805 o blant).
- Ar 31ain Mawrth 2020, roedd 805 o blant yng Ngogledd Cymru yn byw gyda gofalwr maeth, roedd 40% (325 o blant) yn byw gyda gofalwr maeth annibynnol - roedd angen lleoliad gofal arbenigol ar y rhan fwyaf o'r plant hynny er mwyn cynnal eu hanghenion, gan nad oedd modd i'r gwasanaethau mewnol wneud hynny.
- Ar hyn o bryd mae 11 o blant yn byw mewn cartrefi plant y gellid gofalu amdanynt gan ofalwyr maeth arbenigol. Nid oes digon o ofalwyr maeth â'r sgiliau cywir i gefnogi proffiliau anghenion ein plant.
- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a diwedd mis Chwefror 2021, roedd angen lleoliad ac asesiad rhiant a phlentyn ar 34 o blant.

### Mae'r galw am ofal maeth wedi cynyddu

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal maeth yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2015 i tua 945 yn 2020. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Wrecsam, gyda nifer y plant yn dyblu. Roedd cynnydd sylweddol yng Ngwynedd hefyd. Mae'r niferoedd mewn awdurdodau lleol eraill wedi amrywio.

Tabl 26: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2015 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 90 | 100 | 100 | 90 | 110 |
| Gwynedd | 145 | 145 | 145 | 165 | 200 |
| Conwy | 120 | 125 | 150 | 140 | 140 |
| Sir Ddinbych | 125 | 110 | 110 | 115 | 115 |
| Sir y Fflint | 135 | 140 | 135 | 150 | 140 |
| Wrecsam | 120 | 135 | 170 | 175 | 240 |
| Gogledd Cymru | 735 | 755 | 810 | 835 | 945 |
| Cymru | 4,250 | 4,425 | 4,700 | 4,840 | 4,990 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol sydd mewn lleoliadau maeth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf y cynnydd yn nifer y lleoliadau maeth, roedd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (2019) yn nodi nad oedd disgwyl cynnydd mawr yn y dyfodol.

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio lleoliadau gofal maeth mewnol ac asiantaethau maethu annibynnol i ddarparu gofal. Mae rhai o'r asiantaethau maethu annibynnol yn elusennau neu'n fentrau cydweithredol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran y mathau gwahanol o ddarpariaeth lleoliadau maeth, yn ôl Awdurdod Lleol.

Tabl 27: Nifer y lleoliadau maeth yn ardal yr awdurdod lleol a gomisiynwyd yn ôl y math o ddarparwr

| Cyngor lleol | Mewnol (nifer) | Darparwr annibynnol (nifer) | Cyfanswm (nifer) | Mewnol (canran) | Darparwr annibynnol (canran) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 37 | 32 | 69 | 54% | 46% |
| Gwynedd | 98 | 31 | 129 | 76% | 24% |
| Conwy | 82 | 41 | 123 | 67% | 33% |
| Sir Ddinbych | 69 | 19 | 88 | 78% | 22% |
| Sir y Fflint | 55 | 13 | 68 | 81% | 19% |
| Wrecsam | 119 | 21 | 140 | 85% | 15% |
| Gogledd Cymru | 460 | 157 | 617 | 75% | 25% |

Ffynhonnell: Darparwyd gan bob awdurdod lleol

## Rhagweld cynnydd yn y galw am rieni maeth

Cyfrifodd y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol fod angen tua 550 o rieni maeth newydd ar draws Cymru bob blwyddyn i ateb y galw. Mae hyn yn awgrymu y bydd prinder lleoliadau maeth yn y blynyddoedd i ddod, o ystyried y galw cynyddol.

## Materion yn ymwneud â digonolrwydd ar gyfer rhai plant

Gwelodd y Datganiad o Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol, 2019) fod problemau yn ymwneud â digonolrwydd wrth geisio dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys:

- Gofal seibiannol
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Sefyllfaoedd brys

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem, ac wrth i'r galw am leoliadau gynyddu y disgwyl yw na fydd digon o leoliadau gofal i ateb y galw a ragwelir.

Mae gwefan Maethu Cymru wedi hwyluso'r ffordd i'r 22 Awdurdod Lleol ffurfio rhwydwaith o arbenigedd lleol ym maes maethu. Mae'n ceisio gwneud argraff fwy ar lefel genedlaethol, gan weithio gyda gofalwyr maeth er mwyn adeiladu gwell dyfodol i blant lleol. Mae'n rhannu un brand ac un llais i gryfhau prosesau recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

### Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) wedi canfod bod plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a bod plant mewn darpariaeth awdurdod lleol yn fwy tebygol o aros yn eu hawdurdod lleol, gan eu galluogi i gadw cysylltiadau pwysig. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cynyddu lleoliadau lleol ac yn lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal.
Yn ôl y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018), mae cynnydd wedi bod yn y galw am faethu cysylltiedig (gyda theulu neu ffrindiau) hefyd. Mae'n nodi hefyd bod lleoliadau awdurdodau lleol yn arwain at gwell ganlyniadau i'r plant. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen i awdurdodau lleol gael y capasiti i hwyluso hyn neu sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i gadw cysylltiadau os bydd yn cael ei roi mewn lleoliad maeth o fath arall.

# Trosolwg o'r farchnad

### Trosolwg o'r farchnad ranbarthol

Mae'r tabl isod yn dangos manylion y ddarpariaeth faethu yn ôl y math o ddarparwr.

Tabl 28: Lleoliadau maethu, gwelyau a chyfran y farchnad yn ôl y math o ddarparwr.

| Math o ddarparwr | Cyfran y farchnad (Canran) | Lleoliadau (nifer) | Lleoliadau gofal (nifer) |
|---|---:|---:|---:|
| Mewnol | 62% | 776 | 453 |
| Preifat | 37% | 469 | 206 |
| Trydydd sector | 1% | 16 | 7 |
| Gogledd Cymru | 100% | 1261 | 666 |

Ffynhonnell: Data CCSR a gyrchwyd 31/05/22

## Trosolwg o'r farchnad yn Ynys Môn

Mae'r tabl  yn dangos faint o blant yn Ynys Môn sy'n cael eu lleoli fwyfwy y tu allan i'w hawdurdod lleol.

Tabl 29: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul ardal – Ynys Môn

| Lleoliad y gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol | 65 | 60 | 70 | 80 | -45 |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol (Cymru) | 30 | 30 | 30 | 20 | 50 |
| Y tu allan i Gymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiadau Plant sy'n derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 30: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth fesul math – Ynys Môn

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 30 | 25 | 25 | 35 | 5 |
| Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 20 | 20 | 40 | 40 | 20 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 15 | 15 | 10 | 10 | -5 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol | 5 | 0 | 0 | 0 | -5 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol | 25 | 25 | 25 | 25 | 0 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

## Trosolwg o'r farchnad - Gwynedd

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos bod plant yn ardal Gwynedd wedi cael eu lleoli fwyfwy mewn lleoliadau maeth o fewn Sir Gwynedd. Mae'r nifer a gafodd eu lleoli y tu allan i Wynedd ond yng Nghymru wedi lleihau. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru.

Tabl 31: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Gwynedd

| Lleoliad y Gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | 110 | 120 | 140 | 135 | 25 |
| Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, Cymru | 35 | 40 | 50 | 50 | 15 |
| Y tu allan i Gymru | 0 | 5 | 5 | 15 | 15 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigyrau isod yn dangos bod nifer cynyddol o blant yng Ngwynedd yn derbyn gofal mewn lleoliadau maeth y tu mewn a'r tu allan i Wynedd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu/ffrindiau.

Tabl 32: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Gwynedd

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 35 | 50 | 50 | 45 | 10 |
| Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 70 | 65 | 85 | 85 | 15 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod | 5 | 10 | 15 | 25 | 20 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol | 10 | 15 | 15 | 10 | 0 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol | 20 | 20 | 30 | 30 | 10 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Gwynedd ei hun yn adrodd bod "darpariaeth gymharol dda" o leoliadau maeth ar gael yn y sir, o'i gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth ond mae'n cydnabod y gall prinder gofalwyr maeth fod yn broblem yn y dyfodol agos. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y byddai angen tua 10 – 12 lleoliad maeth newydd bob blwyddyn i gynnal hyn ac o leiaf 18 – 20 i wella'r ddarparieth.

## Trosolwg o’r farchnad - Conwy

Mae Conwy wedi cynyddu nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol ac mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gymru wedi lleihau’n sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer y lleoliadau y tu allan i Gonwy ond yng Nghymru wedi cynyddu, gweler y ffigyrau isod.

Tabl 33: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Conwy

| Lleoliad y Gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid - nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | 95 | 85 | 100 | 100 | 5 |
| Y tu allan i’r Awdurdod Lleol, Cymru | 20 | 35 | 35 | 35 | 15 |
| Y tu allan i Gymru | 35 | 25 | 5 | 5 | -30 |

Mae’r niferoedd wedi’u talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy wedi gweld gostyngiad yn nifer y lleoliadau maeth o fewn yr awdurdod lleol a chynnydd bach mewn lleoliadau gydag asiantaethau.

Tabl 34: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math - Conwy

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 25 | 20 | 15 | 20 | -5 |
| Gyda’r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 65 | 60 | 55 | 55 | -10 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 25 | 30 | 35 | 30 | 5 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i’r awdurdod lleol | 10 | 10 | 10 | 15 | 5 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i’r awdurdod lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i’r awdurdod lleol | 20 | 20 | 20 | 20 | 0 |

Mae’r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly mae’n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Conwy yn dweud bod gwir angen lleoliadau brys a rhai mwy tymor hir ar unwaith. Mae'r awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd lleoliadau lleol i blant, mae'n ystyried amrywiaeth o ddewisiadau i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sir a lleihau'r ddibyniaeth ar drefniadau dros dro, costus a lleoliadau y tu allan i'r sir sy'n bell o'r teulu.

## Trosolwg o'r farchnad – Sir Ddinbych

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod yn dangos cynnydd yn nifer y lleoliadau ar gyfer plant o Sir Ddinbych o fewn y Sir honno a'r tu allan iddi ond yn dal i fod yng Nghymru.

Tabl 35: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal – Sir Ddinbych

| Lleoliad y Gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol | 85 | 90 | 90 | 90 | 5 |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol, yng Nghymru | 15 | 15 | 15 | 20 | 5 |
| Y tu allan i Gymru | 10 | 10 | 10 | 10 | 0 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Sir Ddinbych wedi gwneud defnydd cynyddol o asiantaethau y tu mewn a'r tu allan i'r ardal ac mae cynnydd hefyd yn nifer y lleoliadau gyda theulu /ffrindiau y tu allan i'r ardal.

Tabl 36: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math – Sir Ddinbych

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid - nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 20 | 20 | 20 | 20 | 0 |
| Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 60 | 70 | 65 | 65 | 5 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 0 | 5 | 10 | 5 | 5 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol | 5 | 10 | 10 | 10 | 5 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol | 10 | 5 | 0 | 0 | -10 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol | 10 | 10 | 10 | 15 | 5 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi nodi bod angen cynyddu'r capasiti gofal er mwyn ateb anghenion poblogaeth Sir Ddinbych am wasanaethau gofal maeth. Mae hefyd yn cydnabod bod prinder llety seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth.

## Trosolwg o'r farchnad – Sir y Fflint

Yn Sir y Fflint mae plant wedi bod yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir, yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Mae'r ffigyrau hefyd yn dangos gostyngiad yn nifer y lleoliadau yn Sir y Fflint.

Tabl 37: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal – Sir y Fflint

| Lleoliad y Gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | 95 | 95 | 90 | 90 | -5 |
| Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, yng Nghymru | 25 | 35 | 30 | 45 | 20 |
| Y tu allan i Gymru | 15 | 20 | 15 | 20 | 5 |

Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r data yn y tabl isod yn dangos bod cynnydd sylweddol yn y defnydd o asiantaethau gan Sir y Fflint ar gyfer lleoliadau o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt.

Tabl 38: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math – Sir y Fflint

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 35 | 35 | 35 | 30 | -5 |
| Gydag awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 60 | 60 | 50 | 55 | -5 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 5 | 5 | 5 | 15 | 10 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol | 15 | 15 | 15 | 15 | 0 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol | 15 | 15 | 10 | 15 | 0 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol | 5 | 15 | 20 | 25 | 20 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Yn ôl Sir y Fflint, ar 31 Mawrth 2021, roedd 109 o blant a phobl ifanc mewn lleoliadau gofal maeth o fewn a'r tu hwnt i Ardal yr Awdurdod Lleol (heb gynnwys lleoliadau teulu) ac ar 16 Chwefror 2022, roedd y ffigwr hwn yn 102. Mae'r awdurdod lleol yn dweud y gall ofalu am y rhan fwyaf o blant o dan 8 oed o fewn y gwasanaethau maethu mewnol ar hyn o bryd.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r materion canlynol yn ymwneud â digonolrwydd y farchnad:

- Yr angen i ateb y galw a ragwelir am ofalwyr maeth mewnol
- Rhieni maeth i gynorthwyo plant yn y categorïau oedran 10–14 ac 15+
- Dod o hyd i leoliadau lleol addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Ateb y galw ar gyfer plant y mae angen pecynnau gofal amlasiantaeth cymhleth arnynt neu mae ganddynt gynlluniau rheoli risg heriol, er enghraifft, materion yn ymwneud â rheoli dicter, ymddwyn yn ymosodol yn eiriol neu'n gorfforol tuag at oedolion
- Prinder lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd a phlant ag anableddau
- Dim digon o rieni maeth â sgiliau ar gyfer plant ym mhen uchaf y proffil anghenion, sy'n byw mewn cartrefi gofal ar hyn o bryd
- Oherwydd diffyg lleoliadau mae plant yn cael eu gosod mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio
- Dim digon o ofalwyr sy'n siarad Cymraeg
- Mae prinder lleoliadau rhiant a phlentyn yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint

## Trosolwg o'r farchnad - Wrecsam

Mae'r tabl yn dangos cynnydd ym mhob math o leoliadau yn Wrecsam, gan gynnwys plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r ardal.

Tabl 39: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl ardal - Wrecsam

| Lleoliad y gofal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid - nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| O fewn yr Awdurdod Lleol | 115 | 120 | 145 | 150 | 35 |
| Y tu allan i'r Awdurdod Lleol, yng Nghymru | 30 | 40 | 65 | 75 | 45 |
| Y tu allan i Gymru | 20 | 15 | 20 | 25 | 5 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos cynnydd mawr yn y defnydd o asiantaethau yn Wrecsam, gyda'r cynnydd mwyaf y tu allan i'r awdurdod lleol.

Tabl 40: Nifer y plant mewn lleoliadau gofal yn ôl math - Wrecsam

| **Math o Leoliad** | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid - nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas / ffrind, o fewn yr awdurdod lleol | 60 | 70 | 75 | 80 | 20 |
| Gyda'r awdurdod lleol, o fewn yr awdurdod lleol | 65 | 55 | 70 | 70 | 5 |
| Gydag asiantaeth, o fewn yr awdurdod lleol | 15 | 20 | 25 | 30 | 15 |
| Gyda pherthynas / ffrind, y tu allan i'r awdurdod lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i'r awdurdod lleol | 20 | 20 | 15 | 15 | -5 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i'r awdurdod lleol | 15 | 15 | 40 | 55 | 40 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly mae'n bosibl na fyddant yn adio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae cynnydd wedi'i wneud o ran gweithredu Fframwaith 4C a phenodwyd Swyddog Lleoli i reoli cronfa ddata'r Fframwaith yn Wrecsam. Mae'r defnydd a'r disgwyliadau o Fframwaith 4C yn parhau i gael eu hymgorffori mewn ymarfer fel tystiolaeth fel arfer gorau. Rydym wedi profi galw cynyddol am leoliadau sy'n gallu bodloni anghenion pobl ifanc hynod gymhleth. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer a chost

lleoliadau o'r fath. Er mwyn cyflawni yn erbyn yr agenda di-elw, bydd angen buddsoddiad pellach yn natblygiad gofal preswyl awdurdodau lleol.

Mae Wrecsam yn ystyried rhoi blaenoriaeth i geisio lleihau nifer y plant sy’n derbyn gofal, yn ogystal â dileu elw o’r farchnad lleoliadau plant. Mae’r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod bod diffyg lleoliadau dros dro neu dymor byr i blant.

# Sefydlogrwydd y farchnad

## Heriau rhanbarthol

Mae’r Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad (2019) a ‘Maethu Cymru’ (2021) wedi nodi heriau sy’n wynebu sefydlogrwydd gwasanaethau maethu yng Ngogledd Cymru a Chymru yn gyffredinol; mae’r rhain wedi’u rhestru isod:

- Problemau recriwtio a chadw staff
- Lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol, gan gynnwys; gofal seibiannol, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr/chwiorydd a sefyllfaoedd argyfwng
- Amcangyfrifir y bydd angen 550 o rieni maeth newydd yng Nghymru bob blwyddyn i ateb y galw

## Sefydlogrwydd y farchnad – Ynys Môn

Mae’r awdurdod lleol yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu yn y dyfodol:

- Gweithlu – recriwtio a chadw staff, proffil oedran y gweithlu, costau
- Cyflenwad a dewisiadau sydd ar gael
- A all yr argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar yr amcanestyniad o ostyngiad yn y galw?
- Effaith plant sy'n ceisio lloches ar adnoddau gan gynnwys lleoliadau a chymorth sydd ar gael.
- Effaith cyraeddiadau heb eu cynllunio i Borthladd Caergybi.

## Sefydlogrwydd y farchad – Gwynedd

Mae Gwynedd wedi nodi sawl ffactor a all ddylanwadu ar sefydlogrwydd maethu:

- Recriwtio a chadw staff
- Prinder posibl o leoliadau maeth, amcangyfrifir y bydd angen 10-12 lleoliad newydd bob blwyddyn i gynnal y ddarpariaeth ac o leiaf 18-20 i'w gwella
- Cyllid – pryderon yn ymwneud â chynnal ansawdd gwasanaethau ag adnoddau cyfyngedig
- Mae diffyg cyllid yn aml yn arwain at ddefnyddio darparwyr y tu allan i'r sir sy'n golygu costau uwch, ac mae hyn yn ychwanegu at y broblem

## Sefydlogrwydd y farchad – Conwy

Mae Conwy yn cyfeirio at faterion allweddol yn ymwneud â sefydlogrwydd eu gwasanaeth maeth yn y dyfodol:

- Recriwtio a chadw staff (yn gysylltiedig â thâl ac amodau ond nid yn gyfyngedig i'r materion hyn)
- Mae dirfawr angen lleoliadau brys a mwy hirdymor yn y sir

## Sefydlogrwydd y farchnad – Sir Ddinbych

Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod rhai ffactorau allweddol a all effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth:

- Cynnydd yn y capasiti i ateb anghenion y boblogaeth yn Sir Ddinbych
- Materion yn ymwneud â staffio a recriwtio
- Hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol
- Problemau ariannu hirdymor posibl
- Anghenion yn dod yn fwyfwy cymhleth
- Nid yw'r cyflenwad o ofal arbenigol yn ateb y galw
- Gofal seibiannol dros nos ar gyfer plant ag anableddau cymhleth
- Diffyg lleoliadau i blant ag ymddygiad heriol/cymhleth

**Cynaliadwyedd y ddarpariaeth**

- Mae Sir Ddinbych yn cydnabod bod y materion canlynol yn effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth: mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at wneud mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

- Mae'r diffyg lleoliadau sydd ar gael yn golygu nad oes unrhyw leoliadau yn cael eu cynnig neu cynigir lleoliadau sydd gryn bellter i ffwrdd, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.
- Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt, ond ni ellir dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer, yn cael eu rhoi mewn gofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae'n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Gall hyn arwain at leoliad gofal sydd cryn bellter i ffwrdd.
- Pwysau penodol os bydd plentyn/unigolyn ifanc yn hunan-niweidio neu'n dangos tueddiadau hunanladdol, mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau ac mae'r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

**Camau ataliol ar gyfer plant 'ar gyrion gofal'**

Yn ystod y cyfnod pan wnaeth y gronfa gofal integredig gynnal y ddarpariaeth 'ar gyrion gofal', cafodd 122 o deuluoedd (200 o blant) gymorth, gan gynnwys y canlynol:

Gwnaeth 7 o rieni a 2 ofalwr maeth (19 o blant) fynychu Grŵp Cyfranogi Rhieni newydd (gwaith cydweithredol gyda 'Parents and Carers against Exploitation', Heddlu Gogledd Cymru, cydweithwyr Iechyd ac Adran Arweiniol Diogelu Sir Ddinbych). O blith y rhain, nid yw 6 bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trosolwg amlasianaeth ym Mhanel Ecsbloetio Sir Ddinbych ac nid yw 2 ohonynt bellach yn cael eu gweld gan yr adran gofal cymdeithasol.

Derbyniodd 2 o blant mewn lleoliadau maeth tymor hir ymyrraeth ddwys a wnaeth sefydlogi eu lleoliad a galluogi'r gofalwr maeth a'r rhiant i gael dealltwriaeth ar y cyd o anghenion pob plentyn unigol.

Gwnaeth 16 aelod staff ar draws Gofal Cymdeithasol, Ymyrraeth Gynnar a Thai fynychu hyfforddiant Sgiliau Therapi Ymddygiadol Dilechdidol (DBT: Dialectical Behavioural Therapy) a bydd y Gwasanaeth Therapiwtig yn mentora'r staff hyn i ddatblygu grwpiau sgiliau DBT ar gyfer Gofalwyr Maeth a Pherthnasau, Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant a Phobl Ifanc sy'n Gadael Gofal a Phrosiectau Rhannol-annibynnol a Digartrefedd.

Derbyniodd 1 unigolyn ifanc ymyrraeth ddwys gan y Gwasanaeth Therapiwtig ar ôl i gydweithwyr yr heddlu ddefnyddio Pwerau Amddiffyn yr Heddlu. Roedd angen gofal

maeth tymor byr ar yr unigolyn ifanc a chafodd ei ailgartrefu gyda'i deulu cyn pen 6 wythnos, nid yw bellach yn cael ei weld gan Gofal Cymdeithasol.

Ymgysylltu

Mae Sir Ddinbych yn rhestru'r dulliau canlynol a ddefnyddir er mwyn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth:

- Cynhelir gwerthusiad ansawdd gofal gan Wasanaeth Maethu Sir Ddinbych ym mis Ebrill a mis Mai 2022. Bydd holiaduron yn cael eu hanfon er mwyn ceisio barn plant/pobl ifanc, gofalwyr maeth, gofalwyr sy'n berthnasau, aelodau'r panel a rhieni, a bydd y canlyniadau yn helpu i wneud gwelliannau lle bo'r angen yn ogystal â nodi arfer da.
- Datblygwyd grŵp Facebook caeëdig ar gyfer gofalwyr maeth gan holi barn gofalwyr maeth ac mae'n cael ei ddiweddaru'n gyson â gwybodaeth newydd. Mae creu'r tudalen/grŵp wedi cynnig ffordd arall o gasglu adborth, mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu ar draws ardal ddaearyddol fwy ac mae'n haws dod o hyd i'r wybodaeth hon.
- Mae dau fforwm plant/pobl ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd. Nid yw wedi bod yn bosibl iddynt gyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond mae staff sy'n rhedeg y fforymau yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.
- Fforwm Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal (Clwb KIC) ar gyfer pobl ifanc 8 - 15 oed sy'n byw gyda gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod ac yn gwneud gweithgareddau yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu eu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Mae Clwb KWC (Kids who care) yn grŵp o blant/pobl ifanc y mae eu rhieni yn ofalwyr maeth ac maent hefyd yn rhan o'r broses faethu. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor, yn rhannu profiadau, yn dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.
- Boreau coffi rhithiol i ofalwyr maeth – cafodd gwahoddiadau eu hanfon ynghyd â phecyn yn cynnwys cwdyn te a phecyn o fisgedi. Er mwyn hwyluso'r sgwrs, cafodd gofalwyr maeth eu rhannu'n grwpiau yn seiliedig ar eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Cafodd y boreau coffi eu harwain gan y gweithiwr cymorth goruchwyliol gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr y Gwasanaeth, Rheolwr y Tîm Maethu a'r Swyddog Comisiynu Lleoliadau/Swyddog Recriwtio yn 'galw heibio' hefyd. Daeth llawer o bobl i'r

digwyddiadau hyn, a chafwyd llawer o chwerthin, trafodaeth ac adborth cadarnhaol iawn gan y rhai oedd yn bresennol.

- Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi gwella ei ddulliau o gyfathrebu gyda gofalwyr maeth drwy anfon newyddlen reolaidd, a chynnal Cystadleuaethau Gwasanaeth Maethu Sir Ddinbych lle gofynnir i blant gynllunio cardiau Nadolig, paentio cerrig a thyfu blodyn haul.

## Sefydlogrwydd y farchnad – Sir y Fflint

Nododd Sir y Fflint nifer o faterion a oedd yn effeithio ar sefydlogrwydd gwasanaethau maeth:

- Gofalwyr maeth â sgiliau/profiad i gefnogi pobl yn eu harddegau a grwpiau o frodyr/chwiorydd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc 14, 15 ac 16 oed sy'n dod i mewn i'r system ofal
- Lleoliadau rhiant a phlentyn

### Camau a gymerwyd i wella sefydlogrwydd

Mae recriwtio rhieni maeth wedi bod yn broblem yn Sir y Fflint ac mewn ymateb i hyn datblygwyd porth Maethu gyda Sir y Fflint i hyrwyddo rolau Maethu. Mae'r wefan yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth, adnoddau a straeon gan rai o rieni maeth presennol Sir y Fflint. Mae'r awdurdod hefyd wedi targedu ei strategaeth recriwtio i roi sylw i'r galw am rieni maeth â sgiliau a phrofiad i gefnogi plant 12 oed a throsodd.

### Rhaglen Mockingbird

Sir y Fflint oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r model Mockingbird sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer lleoliadau maeth. Mae'r rhaglen yn meithrin y berthynas rhwng plant, pobl ifanc a theuluoedd maeth gan eu helpu i adeiladu cymuned gadarn a gofalgar sy'n cynnwys rhwng chwech a deg teulu i greu clwstwr. Nod y model yw gwella gofal maeth a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu maethu.

### Action for Children – Gwasanaeth Ailgartrefu ac Atal (RAP)

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth therapiwtig dwys ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gyda chefnogaeth gan ofalwyr maeth profiadol. Mae'r gwasanaeth yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol, iechyd, CAMHS a'r elusen Action for Children.

Nod y gwasanaeth yw:

- Atal lleoliadau rhag chwalu neu sefyllfaoedd rhag mynd yn waeth a chyrraedd pwynt lle bydd angen lleoli pobl y tu allan i'r sir
- Dychwelyd pobl ifanc i leoliadau sefydlog yn eu cartrefi
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael cyfleoedd addysgol
- Gwella cadernid a hyder plant a gofalwyr

**Addasiadau i Bolisi Cartrefi Gofalwyr Maeth**
Cafodd y polisi 'Addasiadau i Gartrefi Gofalwyr Maeth' ei gyflwyno yn 2020, er mwyn cynorthwyo gofalwyr maeth i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w cartref i ddarparu lle digonol ar gyfer plant/pobl ifanc. Mae'n helpu i ddarparu lleoliadau ar gyfer grwpiau o frodyr/chwiorydd, bodloni anghenion plant ag anableddau lluosog, sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer lleoliadau maeth a bodloni gofynion iechyd a diogelwch a fyddai fel arall yn golygu bod yn rhaid symud plentyn.

Mae'r cyllid yn ategu'r cymorth sydd ar gael ac mae'n gam ymlaen i sicrhau lleoliadau lleol a sefydlog ar gyfer plant. Bydd ceisiadau ar gyfer arian grant yn cael eu hystyried hyd at £36,000, ac £20,000 ar gyfer adleoli i eiddo mwy addas. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant, mae'n rhaid i ofalwyr a gweithiwr cymdeithasol sicrhau eu bod wedi ystyried pob dewis/adnodd arall yn gyntaf.

Mae grantiau ar gael ar gyfer y canlynol hefyd: teuluoedd sy'n mabwysiadu neu sy'n ystyried gwneud hynny, teuluoedd a ffrindiau /gofalwyr plant o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr sydd wedi ymrwymo i'w rôl gofalu am y tymor hir, neu o leiaf nes bydd y plentyn yn 18 oed.

**Cyfarfodydd sefydlogrwydd lleoliadau** – Mae'r rhain yn cael eu trefnu'n fewnol pan fydd problemau yn codi wrth geisio cynnal lleoliad a bydd yr Asiantaeth Faethu Annibynnol yn eu cadeirio yn ôl yr angen.

**Cyfarfodydd Tarfu** – Bydd y gwasanaeth yn trefnu cyfarfodydd grŵp er mwyn dod â'r teulu a rhanddeiliaid ynghyd ac ystyried y gwersi a ddysgwyd.

## Sefydlogrwydd y farchnad - Wrecsam

Nododd Wrecsam y materion canlynol a allai effeithio ar sefydlogrwydd lleoliaddu maethu:

- Yr angen i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal
- Dileu elw o'r farchnad lleoliadau gofal plant
- Lleoliadau dros dro/tymor byr
- Prinder staff
- Diffyg lleoliadau addas

Mae angen gofalwyr i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau a mamau a babanod yn ardal Wrecsam. Er mwyn recriwtio gofalwyr i ddiwallu'r anghenion hyn, mae'r awdurdod lleol wedi;

- Dechreuwyd adolygiad o gyfraddau tâl gofalwyr, gan gynnig cyfradd uwch ar gyfer gofalwyr arbenigol/medrus sy'n gallu gofalu am blant ag anghenion cymhleth.
- Cynnal ymgyrch recriwtio gan ddefnyddio bysiau, hysbysfyrddau a chyfryngau cymdeithasol.

Mae Cynnig Gadawyr Gofal Wrecsam wedi'i ddatblygu drwy gydol y flwyddyn ac mae'r gwaith o ddatblygu llwybrau llety ar gyfer pobl ifanc ar y gweill. Bydd hyn yn darparu graddau amrywiol o gymorth ar eu llwybr i annibyniaeth a'u tenantiaeth eu hunain.

Cyflawnir hyn drwy ddatblygu gwasanaethau mewnol gan gynnwys;

- Gwasanaeth Llety â Chymorth
- Prosiect Kick Start
- Prosiect Cam i Lawr
- Defnyddio fflat hyfforddi.

Mae'r Tîm Gadael Gofal wedi'i leoli mewn 'siop wybodaeth' hygyrch gyda'u gweithwyr cymdeithasol a'u cynorthwywyr personol tra'n gallu manteisio ar y 'siop un stop' ar gyfer unrhyw feysydd cymorth a nodwyd gan gynnwys mynediad at grantiau cyllid a chymorth cyflogaeth.

# Ystyriaeth o ansawdd y farchnad

Roedd yr adroddiad 'The State of the Nation' gan yr Asiantaeth Faethu (2021) yn cynnig mewnwelediad i ansawdd gwasanaethau maeth ar draws Cymru, ac roedd y canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- dywedodd 44% o ofalwyr maeth annibynnol a 51% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol nad oeddynt yn derbyn cymorth i gadw mewn cysylltiad â phlant roeddynt wedi gofalu amdanynt. Roedd gofalwyr maeth yn ystyried bod hyn yn 'greulon', ac yn dod â pherthynas bwysig i ben yn achos plant sydd eisoes wedi dioddef llawer o golled yn barod.
- nid yw rhai gwasanaethau maethu yn cynnal cymeradwyaeth gofalwyr maeth, hyd yn oed os ydynt yn bwriadu parhau i faethu. Mae'r sefyllfa hon a'r ffaith bod cymorth ariannol yn dod i ben yn atal pobl ifanc rhag symud ymlaen i'r cam 'Pan rydw i'n barod / When I am Ready'.
- nid oes gan 20% o ofalwyr maeth annibynnol ac 12% o ofalwyr maeth yr awdurdodau lleol blant yn eu gofal. Argymhellir eu bod yn gwneud gwell defnydd o sgiliau gofalwyr maeth i fodloni anghenion plant.
- roedd gan 57% o ofalwyr maeth awdurdodau lleol gynllun dysgu a datblygu a gytunwyd, nid oedd gan 31% gynllun o'r fath a doedd 12% ddim yn gwybod. Roedd gan 66% o ofalwyr maeth annibynnol gynllun dysgu a datblygu, nid oedd gan 22% gynllun o'r fath a doedd 12% ddim yn gwybod
- roedd cymeradwyaeth maethu gan awdurdodau lleol yn fwy cyfyngedig na chymerawyaeth annibynnol, ac argymhellir bod asesiadau awdurdodau lleol yn defnyddio statws cymeradwyo mwy eang, gweithdrefnau paru cadarn a phrosesau sefydlogi lleoliadau
- mae gofalwyr maeth yn dymuno meithrin perthynas gyda gweithwyr cymdeithasol a phlant yn eu gofal er mwyn cynnig sefydlogrwydd a pharhad o ran y gweithwyr cymdeithasol. Dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd 53% o ofalwyr maeth wedi cael un gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, roedd 29% wedi cael dau, roedd 12% wedi cael tri ac roedd 6% wedi cael pedwar neu ragor
- Roedd gofalwyr maeth yn teimlo eu bod yn cael eu 'diystyru' a'u 'hanwybyddu' ac nad oedd eu rôl yn cael ei gwerthfawrogi gan y gweithlu gofal

cymdeithasol. Mae diffyg parch i'w hymrwymiad, sgiliau a'u hymroddiad yn broblem hirdymor sy'n aml yn cael ei nodi yn y maes maethu

- Mae gofalwyr maeth eisiau lwfansau i dalu am yr holl gostau o ofalu am blentyn a thaliad sy'n adlewyrchu eu gwerth fel aelod o'r tîm o amgylch y plentyn. Mae taliadau digonol yn hanfodol er mwyn denu gofalwyr maeth newydd ymroddedig â'r sgiliau cymwys
- Diffyg dewis o ran lleoliad. Er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu paru â lleoliadau addas, byddai angen i wasanaethau weld cynnydd sylweddol yn y mynediad at leoliadau lleol o ansawdd
- Nid yw lefelau staffio yn ddigonol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer teuluoedd maeth. Mae'r gwasanaethau am weld lefelau staffio a fyddai'n eu galluogi i ddarparu arfer gorau a gwella safonau
- Ymarfer sy'n wybodus am drawma – pryderon ynglŷn â mynediad at hyfforddiant a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer pobl sy'n gofalu am blant sydd wedi wynebu trawma. Mae'r gwasanaethau yn dymuno i blant sy'n derbyn gofal gael eu blaenoriaethu i dderbyn gwasanaethau ar draws y sectorau iechyd ac addysg
- Cymorth i ofalwyr maeth gyda gwell gwasanaethau cymorth cymheiriaid a darpariaeth y tu allan i oriau. Roedd y gwasanaethau hynny a oedd yn gallu cynnig y cymorth hwn wedi gwella eu lefelau cadw a sefydlogrwydd

# Tueddiadau presennol a'r dyfodol

Prif dueddiadau presennol a'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau maeth yw:

- Cynnydd yn y galw am leoliadau
- Llai o leoliadau ar gyfer plant hŷn
- Llai o leoliadau ar gyfer plant â chynlluniau gofal cymhleth /problemau ymddygiad
- Diffyg rhieni maeth â sgiliau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth
- Cynnydd tebygol yn y galw am leoliadau
- Prinder tebygol o leoliadau, nid yw'r cyflenwad yn cyfateb i'r galw

# Y Gymraeg

Nodwyd bod prinder rhieni maeth Cymraeg eu hiaith yn Sir y Fflint.

Trafodir y ddarpariaeth o ran y Gymraeg ar draws gweddill Gogledd Cymru yn y bennod ar wasanaethau plant yn yr adroddiad hwn.

# Darpariaeth arall

Mae diffyg sylweddol o leoliadau maeth neu breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ymddygiad heriol neu gymhleth.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar y gwaith o recriwtio gofalwyr maeth mewnol ac mae diffyg ymgeiswyr. Mae hyn wedi arwain at mwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maeth Annibynnol.

Mae'r diffyg hyn wedi golygu nad oes modd cynnig lleoliadau o gwbl, neu gellir cynnig lleoliadau gryn bellter i ffwrdd yn unig, ac nid yw hyn bob amser er lles yr unigolyn ifanc.

Mae plant y mae angen lleoliad gofal arnynt ond nid yw'n bosibl dod o hyd i ofal maeth ar eu cyfer yn cael eu symud i ofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae'n ymddangos bod amharodrwydd i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Unwaith yn rhagor, gall hyn arwain at gynnig lleoliad gryn bellter i ffwrdd.

Mae pwysau pendol os yw'r plentyn /unigolyn ifanc yn dangos tueddiadau hunan-niweidio eu hunanladdol, ac mae darparwyr yn amharod i gynnig lleoliadau i'r garfan hon. Mae'r ddarpariaeth frys yn hynod o gyfyngedig.

# Gweithlu

Cyfeiriodd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) at y ffaith bod nifer o aelwydydd sydd wedi'u cymeradwyo i faethu yn cael eu colli o'r system. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn cynyddu ymholiadau, trosiadau, cymeradwyaeth a chadw rhieni maeth.

Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y rhieni maeth a'r lleoliadau wedi cynyddu rhywfaint ar draws Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych gwelwyd lleihad yn nifer y rheini maeth a'r lleoliadau sydd ar gael, ac yn Sir y Fflint roedd lleihad yn nifer y rheini maeth ond cynnydd yn nifer y lleoliadau. Os bydd y lleihad hwn yn nifer y rhieni maeth neu'r lleoliadau yn parhau, gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fydd digon o leoliadau i blant yn yr awdurdodau lleol hyn.

Tabl 41: Nifer y lleoliadau maeth a gymeradwywyd ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 86 | 69 | 43 |
| Gwynedd | 164 | 178 | 198 |
| Conwy | 113 | 130 | 127 |
| Sir Ddinbych | 156 | 155 | 149 |
| Sir y Fflint | 133 | 157 | 156 |
| Wrecsam | 161 | 172 | 166 |
| Gogledd Cymru | 813 | 861 | 839 |
| Cymru | 4,075 | 4,170 | 4,317 |

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 42: Nifer y rhieni maeth a gymeradwywyd, ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 45 | 38 | 39 |
| Gwynedd | 103 | 111 | 120 |
| Conwy | 70 | 84 | 80 |
| Sir Ddinbych | 78 | 77 | 74 |
| Sir y Fflint | 77 | 77 | 76 |
| Wrecsam | 100 | 112 | 110 |
| Gogledd Cymru | 473 | 499 | 499 |
| Cymru | 2,347 | 2,443 | 2,462 |

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

## Sgiliau a hyfforddiant sy'n ddymunol ar gyfer gofalwyr:

Gofalwyr sy'n gallu gweithio gyda'n gwasanaethau mewnol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddarparu gofal therapiwtig sy'n wybodus am drawma.

Gofalwyr sy'n ymwybodol o effaith llinellau cyffuriau ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i gefnogi plant sy'n agored i gael eu hecsbloetio gan y gangiau hyn. Mae hyn yn cynnwys y cadernid i weithio gyda phlant sy'n cael eu hecsbloetio gan gangiau, sy'n diflannu'n aml ac sy'n gallu ymddwyn yn ymosodol yn eiriol ac weithiau'n gorfforol.

Gofalwyr sy’n gydnerth ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i weithio gyda thrawma yn ystod plentyndod, plant yn diflannu, ecsbloetio a hunan-niweidio.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant i ddeall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ar y plant maent yn gofalu amdanynt.

Gofalwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn ymyrraeth frys, ac sy’n gallu gweithio’n ddigynnwrf o dan bwysau cynllunio brys.

Gofalwyr sy’n gydnerth pan fyddant yn wynebu bygythiad o niwed corfforol ac sydd wedi derbyn hyfforddiant i dawelu sefyllfaoedd, ynghyd â chynllunio ar gyfer rheoli ymddygiad cadarnhaol, lleihau’r defnydd o ddulliau atal corfforol.

Gofalwyr sy’n gallu siarad Cymraeg neu sydd wedi ymrwymo i ddysgu’r iaith.

# Gwerth cymdeithasol

Mae tri darparwr yn cynnig cyfanswm o 16 gwely mewn 7 lleoliad gofal ar draws y rhanbarth, mae’r rhain yn cyfrif am 1.3% o’r farchnad.

## Dileu elw o’r sector gofalu am blant sy’n derbyn gofal

Un o’r amcanion llesiant a sefydlwyd yn Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-2016 yw amddiffyn, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Un flaenoriaeth allweddol yn y maes gwaith hwn yw dileu elw preifat o’r sector gofalu am blant sy’n derbyn gofal.

Gall comisiynu lleoliadau i asiantaethau annibynnol gael effaith ar ddarpariaethau sy’n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol yn awyddus i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal annibynnol i sicrhau bod y farchnad fewnol a marchnad y sector annibynnol yn gweithredu i ddiwallu anghenion gofal maeth. Amlygwyd hyn fel risg bosibl gan awdurdod lleol Sir y Fflint, a ddywedodd ei fod yn canolbwyntio ar ddefnyddio asiantaethau maethu annibynnol ar gyfer y gwasanaethau hynny roeddynt yn cael trafferth eu darparu drwy wasanaethau’r awdurdod lleol.

Er bod holl awdurdodau lleol Cymru yn talu isafswm y lwfans cenedlaethol neu fwy na hynny, gwelodd yr arolwg o lwfansau gofal maeth o’r Rhwydwaith Maethu (2020)

fod gofalwyr maeth yn teimlo nad yw eu lwfans presennol yn talu am gostau llawn gofalu am blentyn. Mae’r rhwydwaith yn argymell gwneud taliadau maeth yn dryloyw fel bod gofalwyr maeth yn gallu gweld yn union faint yw’r lwfans, faint y mae’n rhaid ei wario ar y plentyn, faint yw’r ffî a faint sy’n daliad am amser a sgiliau’r gofalwr maeth.

# 7. Gwasanaethau mabwysiadu

## Trosolwg ar Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae gweithio'n rhanbarthol yn helpu i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, lleoli plant yn gynt a gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Ym mis Ebrill 2014, cafodd ei integreiddio i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol cyfredol mabwysiadu, yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) ac yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu. Mae ganddo fframwaith sy'n ceisio ei gwneud yn haws i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc gael cymorth pan mae ei angen.

Mae gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y gwasanaeth mabwysiadu yn cynnwys:

- Paratoi'r plentyn i gael ei fabwysiadu
- Canfod teuluoedd a pharu
- Diogelu Plant
- Darparu cymorth mabwysiadu
- Recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr
- Hyfforddiant paratoi i fabwysiadu (cyn/ar ôl cael cymeradwyaeth)
- Cymorth mabwysiadu (cyn/ar ôl mabwysiadu, system 'bydis', cyswllt ar ôl mabwysiadu)
- Gwasanaeth cwnsela i rieni biolegol
- Babanod sy'n cael eu hildio
- Gwasanaethau i oedolion wedi'u mabwysiadu

# Trosolwg o'r boblogaeth

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i'w mabwysiadu ym mhob awdurdod lleol. Mae hi werth nodi bod y gwasanaeth wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol ers 2020, felly mae'n anodd cymharu data lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r gwasanaeth erbyn hyn.

Tabl 43: Nifer y plant yn derbyn gofal a gafodd eu rhoi i'w mabwysiadu yn ôl awdurdod lleol 2020/21

| Cyngor lleol | Nifer y plant |
|---|---|
| Ynys Môn | 6 |
| Gwynedd | 2 |
| Conwy | 17 |
| Sir Ddinbych | 7 |
| Sir y Fflint | 1 |
| Wrecsam | 11 |
| Gogledd Cymru | 44 |

Ffynhonnell: Ffigyrau wedi'u darparu gan bob awdurdod lleol

# Tueddiadau heddiw a rhagolygon y dyfodol

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer plant:

- Mwyaf o alw am leoliadau i blant o'r Dwyrain
- Nifer uchaf o fabwysiadwyr o'r Dwyrain
- Llai o fabwysiadwyr yn y Gorllewin a phlant angen eu lleoli oddi wrth y Dwyrain
- Yn genedlaethol, mae mwy o blant nag sydd o fabwysiadwyr ar gael
- Ystyriaeth i nifer y siaradwyr Cymraeg (mabwysiadwyr/plant)

Codwyd y materion canlynol mewn perthynas â gwasanaethau mabwysiadu ar gyfer oedolion:

- Oedolion yn gofyn am eu cofnodion geni i ddod o hyd i'w rhieni biolegol – gwasanaeth wedi'i atal yn ystod y pandemig, ond mae mwyafrif y gwasanaethau wedi ailddechrau, ond mae rhestr hir
- Staffio – 43 o staff, 10 ar fin mynd neu ar gyfnod mamolaeth ac mae'n anodd recriwtio i swyddi cyfnod penodol felly efallai y bydd yn effeithio ar y gallu i asesu yn 2022/23

# Adroddiadau ansawdd

Pwysleisiodd Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) y meysydd canlynol i wella sefydlogrwydd y farchnad:

- Cynyddu nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu cymeradwyo
- Lleihau nifer y plant sy'n disgwyl am deulu i'w mabwysiadu
- Datblygu'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu
- Recriwtio – gweithwyr sesiynol a seddi gwag ar y panel mabwysiadu

Nododd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) y meysydd hyn i'w gwella:

- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac asesu i ba raddau mae amcanion y datganiad o ddiben yn cael eu cyflawni a dangos tystiolaeth i brofi sut mae'r rhain yn cefnogi canlyniadau lles i blant
- Argaeledd y 'Cynnig Gweithredol', i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg
- Y datganiad o ddiben a'r pecyn gwybodaeth i fabwysiadwyr yn cynnwys gwybodaeth am y system adolygu annibynnol fel bod mabwysiadwyr yn ymwybodol o hyn
- Dylai ffeiliau canolwyr gynnwys llwybr archwilio clir o waith sydd wedi'i wneud

# 8. Gofalwyr di-dâl

## Trosolwg o'r boblogaeth

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt ac mae'n ddyletswydd ar gynghorau lleol i asesu eu hanghenion a hyrwyddo eu lles. Mae cefnogi gofalwyr di-dâl yn fesur ataliol ar gyfer y gofalwr unigol yn ogystal ag ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal.

Yn ôl cyfrifiad 2011 ceir oddeutu 79,000 o bobl, o bob oed, yn darparu gofal yn ddi-dâl yng ngogledd Cymru – ac mae disgwyl i'r niferoedd godi wrth i'r galw am ofal a chymorth gynyddu. Daeth mwy o ofalwyr di-dâl atom yn ystod y pandemig i dderbyn cymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'r cymorth y mae ar ofalwyr di-dâl ei angen yn cael ei ddarparu i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano, felly mae diffyg darpariaeth yn y farchnad ofal yn arwain at alw ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Mae'r asesiad o'r boblogaeth wedi amlygu bod problemau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, o ran recriwtio a chadw staff, yn arwain at ofynion ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar ofal cymhleth, sy'n golygu bod gofalwyr di-dâl yn gyfrifol am ofal unigolion sydd ag anghenion gofal uwch. Mae'r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn cynnwys adnabod gofalwyr yn fuan, seibiant i ofalwyr (gofal seibiant), gwella asesiadau gofalwyr di-dâl a chynhwysiant digidol.

# Digonolrwydd yn y farchnad

Mae nifer y gofalwyr yn cynyddu. Mae'r twf mwyaf i'w weld yn y rheiny sy'n darparu rhwng 20 a 48 awr o ofal yr wythnos. Mae cynnydd hefyd yn nifer y gofalwyr sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos; yn Sir Ddinbych mae oddeutu 46% o'r gofalwyr hyn dros 65 oed. Rhain yw'r gofalwyr sy'n debygol o fod â rolau gofalu dwys a gydag anghenion cymorth uwch.

Mae'r tueddiadau demograffig hyn yn cael eu hadlewyrchu gan y nifer cynyddol o bobl sy'n byw gydag anhwylderau hirdymor, yn cynnwys anableddau dysgu,

dementia a chyflyrau iechyd meddwl, yn ogystal â thwf cyffredinol yn y boblogaeth hŷn.

Gwyddom o siarad gyda gofalwyr di-dâl a'r gwaith mapio sydd wedi'i wneud, bod rhai gofalwyr sydd angen cymorth yn ei chael hi'n anodd canfod gofal amgen ac mae llawer yn methu cymryd seibiant am gyfnodau hir, oherwydd effaith pandemig Covid-19.

Yn ôl adroddiad 'Road to Respite' (Gorffennaf 2021) Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru seibiant byr yw unrhyw seibiant sy'n cryfhau a/neu'n cynnal perthynas ofalu anffurfiol ac sy'n gwella lles gofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.

Yn 2021-22 dyfarnodd Llywodraeth Cymru grant seibiant gofalwyr i awdurdodau lleol, gyda phwyslais ar gefnogi datblygiad seibiant hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach na'r gwasanaeth eistedd traddodiadol neu gymorth gofal amgen.

Nododd yr asesiad o'r boblogaeth fod yna ystod eang o wasanaethau ar gael yn y rhanbarth i gefnogi gofalwyr. Mae'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, sy'n arwain ar ofalwyr o fewn y tîm cydweithio rhanbarthol, yn mapio'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yn y gogledd yn rheolaidd, gan nodi unrhyw faes sy'n cael ei ddyblygu yn ogystal â chyfleoedd i gydweithio ar draws y chwe chyngor a'r bwrdd iechyd.

Yn ogystal â'r angen am fwy o seibiant i ofalwyr (gofal seibiant) ar draws y rhanbarth, mae'r anghenion lleol canlynol wedi'u hamlygu hefyd:

Mae'r ffactorau canlynol yn effeithio ar ofalwyr di-dâl;

- Bylchau yn y ddarpariaeth gyffredinol mewn gwasanaethau i ofalwyr pobl hŷn a'r unigolion sy'n derbyn gofal
- Rhestrau aros am gefnogaeth gofal cartref ym mhob rhan o Wynedd oherwydd diffyg darpariaeth
- Bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer seibiant tymor byr o ofalu pan fo gan yr unigolyn sy'n derbyn gofal anghenion na ellir eu diwallu gan gefnogaeth sector gwirfoddol/trydydd sector.
- Mae canolfannau dydd wedi bod ar gau yn ystod cyfnod COVID – rydym wedi bod yn gweithio i ddarparu cymorth amgen ar sail 1:1. Rydym yn ailagor canolfannau dydd yn raddol ac yn y broses o ailfodelu gwasanaethau gofal

dydd i bobl hŷn gan ddatblygu darpariaeth fwy lleol ar gyfer nifer llai o unigolion.

- Daeth gofal seibiant mewn cartrefi preswyl i ben yn ystod y cyfnod COVID o ganlyniad i'r rheoliadau. Mae’r ddarpariaeth hon wedi dechrau eto, ond mae heriau staffio yn bodoli yn un ar ddeg o gartrefi preswyl y Cyngor.
- Mae ardaloedd lle mae canran uchel o fewn y boblogaeth hŷn, a chanran isel o'r boblogaeth oedran gweithio - her recriwtio a chystadlu gyda gwasanaethau lleol eraill/unigolion iau yn gadael yr ardal am gyfleoedd gwaith.
- Mae daearyddiaeth yr ardal yn cyfrannu at y bylchau, gyda nifer yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus am fynediad i gefnogaeth briodol.

**Ynys Môn**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl trwy gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Meddwl i'r Dyfodol Cynllunio I’r Dyfodol yn o fewn Cynnal Gofalwyr a ariennir gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gael sgyrsiau gyda gofalwr am eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol. Mae cael sgwrs ar y cam cynharaf posibl yn caniatáu amser i nodi a threfnu unrhyw newidiadau neu addasiadau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r person y maent yn gofalu amdano, a hwy eu hunain fel y gofalwr.

**Gwynedd**

Mae’r gwasanaeth anabledd dysgu wedi llwyddo i barhau i gynnig seibiant i wasanaethau dros gyfnod Covid. Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi llwyddo i gynyddu’r ddarpariaeth yma, gan gyflwyno unigolion i seibiant am y tro cyntaf e.e. unigolion oedran pontio, yn ogystal â gallu cynnig arosiadau rheolaidd i unigolion sy’n byw gartref gyda gofalwyr/teulu di-dâl.

Mae’r galw am wasanaethau cwnsela a ddarperir gan y trydydd sector (Cynnal Gofalwyr) yn sylweddol uwch na’r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae cyfleoedd dydd a gwasanaethau cefnogol yn parhau i wynebu her o ran y diffyg staffio/recriwtio felly mae nifer o unigolion yn derbyn llai o ddyddiau/oriau.

Mae defnydd o fyngalo gwyliau (a ddarperir gan Antur Waunfawr) wedi ei ymestyn am chwe mis arall, gyda'r cynnig i unrhyw un sy'n gofalu yng Ngwynedd drefnu arhosiad byr am ddim. Mae nifer o ofalwyr wedi manteisio ar hyn.

Mae rhaglen waith gwydnwch cymunedol Gwynedd yn edrych ar ddatblygu hybiau gwybodaeth/mentrau cymunedol i gwrdd ag anghenion ar lefel leol.

Mae cyfleoedd seibiant i unigolion ag anableddau dysgu ar gael trwy Gynllun Rhannu Bywydau Gwynedd a Môn a Seren Cyf. Mae gwaith yn parhau trwy'r hybiau cymunedol a grybwyllwyd uchod i gynnig cyfleoedd a gweithgareddau yn lleol a hefyd trwy ein Tîm Llwybrau Llesiant.

## Sir Ddinbych

Mae galw cynyddol am ddarpariaeth gofal amgen a gofal seibiant mwy hyblyg ar benwythnosau, dros nos neu gyfnodau wedi'u trefnu ymlaen llaw fel 'Respitality' ar gyfer oedolion hŷn a phlant ac oedolion gydag anableddau cymhleth, i atal perthynas y gofalwr a'r unigolyn rhag chwalu, i leihau derbyniadau brys i ofal preswyl ac i roi mwy o ddewis i bobl.

## Sir y Fflint

- Mae'r galw am seibiant a chymorth i rieni sy'n gofalu yn cynyddu, oherwydd cymhlethdodau'r cyflyrau iechyd amrywiol sydd gan rai plant, yn ogystal â'r nifer uchel sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol
- Mae canfod seibiant i blant ac oedolion gydag anghenion cymhleth, yn cynnwys anghenion iechyd, yn her barhaus
- Mae canfod cynorthwywyr personol addas yn her ac yn faes sydd arnom ni angen ei ddatblygu yn ogystal ag ehangu cymorth cymunedol i wella gwydnwch a gallu teuluoedd i gynnal eu rolau gofalu. Cefnogi proses recriwtio cynorthwywyr personol

Cafodd cyfleoedd seibiant lleol eu heffeithio'n fawr gan y pandemig, gyda lleoedd brys yn unig yn cael eu cynnig

## Wrecsam

Mae ymgysylltu â gofalwyr di-dâl yn Wrecsam wedi amlygu nifer o heriau sylweddol ers y pandemig. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymorth. Er mwyn gyrru'r agenda yn ei blaen mae cyllid

ar gyfer Swyddog Arweiniol Gofalwyr Di-dâl wedi'i sicrhau o'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol 22/23.

Lansiwyd Cynllun Taliad Uniongyrchol Gofalwyr Di-dâl yn 2021/22. Gwnaed 31 o daliadau y llynedd. Roedd hyn yn galluogi gofalwyr di-dâl i brynu atebion seibiant a oedd yn bodloni eu hanghenion yn hyblyg.

# Sefydlogrwydd y farchnad

Mae llawer o'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yng ngogledd Cymru yn cael ei ariannu drwy grantiau neu'n cael ei gomisiynu i sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi gofalwyr. Mae'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn gallu denu cyllid allanol yn effeithiol i ddatblygu gwasanaethau er mwyn i ofalwyr di-dâl ychwanegu gwerth ychwanegol at y ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae dibynnu ar gyllid grant yn gallu peryglu sefydlogrwydd rhai gwasanaethau. Mae rhai gwasanaethau i ofalwyr yn cael eu comisiynu'n rhanbarthol neu'n is-ranbarthol i geisio symleiddio'r gofynion comisiynu ac adrodd sydd ar sefydliadau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.

Amlygodd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fod modd cyflawni modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol a gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy'r profiad a rennir gyda chyd-ofalwyr, cefnogi'r naill a'r llall a chydgyfnewid. Bydd angen cymorth ar ofalwyr di-dâl i greu trefniadau cydweithredol a bydd angen strategaeth fuddsoddi ar gomisiynwyr sy'n creu gallu y tu hwnt i'r farchnad.

Mae'n bwysig cydbwyso gwasanaethau ataliol sy'n mynd i'r afael ag iechyd a lles gofalwyr a gwasanaethau a gomisiynir sy'n cwrdd ag anghenion asesedig gofalwyr.

Mae comisiynu gwasanaethau wedi'i osod yn erbyn yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol a wynebir yn genedlaethol, ac felly mae buddsoddi mewn gwasanaethau cynaliadwy yn allweddol er mwyn cwrdd â'r galw.

Rydym yn comisiynu gwasanaethau sy'n:

- Hyblyg, ar gael ledled y sir ac yn cwrdd ag anghenion unigol gofalwyr
- Cynaliadwy yn yr hirdymor
- Annog ymgysylltu gyda, a mynediad i, weithgareddau cymunedol sy'n cefnogi'r gofalwr a/neu'r sawl sy'n derbyn gofal

- Galluogi gofalwyr i barhau i ofalu, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth gan gymheiriaid, hyfforddiant a seibiant byr o’r rôl ofalu

## Gwynedd

Yn gyffredinol, a yw'r farchnad yn debygol o ddarparu a chynnal y lefelau gwasanaeth gofynnol i fodloni'r cyflenwad

Mae’r prosiect gofal cartref yn gweithio i fynd i’r afael â’r materion sy’n ymwneud â gofal a chymorth cartref i unigolion yn y gymuned. Mae’r agenda atal cydnerthedd cymunedol yn edrych ar ddatblygu cymunedau i gefnogi’r agenda ataliol. Rydym hefyd yn addasu cartrefi preswyl y Cyngor i greu mwy o unedau gofal dementia a darpariaeth gofal dydd a seibiant.

## Sir Ddinbych

Yn lleol, mae llawer wedi’i gyflawni i foderneiddio cymorth ac i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu comisiynu gyda mewnbwn gofalwyr di-dâl a theuluoedd er mwyn helpu i nodi ‘beth sy’n bwysig’ a defnyddio dull Sir Ddinbych sy’n seiliedig ar asedau i’w helpu nhw i ganfod datrysiadau.

Rydym ni’n annog pobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol a thalebau pontio’r bwlch yn greadigol i gefnogi dewis unigolion ac i ganiatáu i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant neu fwynhau gweithgareddau cymdeithasol a hamdden gyda’r sawl sy’n derbyn gofal a hebddo. Er enghraifft, galluogi gofalwyr di-dâl i fynd i gyngerdd neu briodas neu dalu am aelodaeth campfa, peiriant golchi newydd, cyrsiau hyfforddiant neu wersi gyrru.

Mae’r anghenion dynodedig yn Sir Ddinbych yn cynnwys:

- Mwy o gymorth seibiant arbenigol (penodol i gyflwr) i adlewyrchu’r gwahanol anghenion, e.e. lleoedd sy’n addas i bobl sydd ag anaf i’r ymennydd, strôc, dementia a chyflyrau niwrolegol eraill (mewn argyfwng ac ar gael i’w harchebu ymlaen llaw)
- Gweithgareddau/digwyddiadau cymunedol sy’n darparu gofal seibiant ac o les i ofalwyr, gyda digon o staff/gwirfoddolwr hyfforddedig i barhau i gefnogi pobl gyda chyflyrau cynyddol sydd angen lefelau uwch o ofal
- Amrywiaeth o ddewisiadau hyblyg, yn cynnwys mwy o wasanaethau sesiynol a chymunedol ar draws Sir Ddinbych, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig

- Cymorth mewn argyfwng i helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol gartref ac allan o'r ysbyty, a mwy o ddewisiadau seibiant rheolaidd a chyson sy'n hawdd eu harchebu ymlaen llaw
- Cymorth grŵp/unigol ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau, yn enwedig i ofalwyr sy'n gweithio a methu mynd i grwpiau cymorth neu fanteisio ar wasanaethau eraill yn ystod y dydd
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da am y dewisiadau seibiant amrywiol sydd ar gael

Mae seibiant yn gweithio orau pan fo gofalwyr yn hapus gyda'r trefniadau, sydd wedyn yn helpu i leihau gorbryder. Mae'r argyfwng recriwtio bresennol yn effeithio ar ddarparwyr – sydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff a gwirfoddolwyr gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir i ddarparu seibiant o'r radd flaenaf.

Mae cymorth seibiant sy'n gweithio orau i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal yn cynnwys gweithgareddau ystyrlon sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u hobïau. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn hyrwyddo datblygiad Catalyddion Cymunedol / Cyflogwyr Micro a defnyddio gwirfoddolwyr ychwanegol ochr yn ochr â gwasanaethau a gomisiynir. Rydym ni hefyd yn annog mentrau cymdeithasol lleol i gynnal prosiectau arloesol i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Rydym ni'n aros am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu llety seibiant a chynllun seibiant byr cenedlaethol. Yn lleol gall gofalwyr archebu llety gwesteion mewn cynlluniau gofal ychwanegol a dau eiddo sydd wedi'u haddasu'n ddiweddar yn Rhuthun a Chorwen. Mae Rhannu Bywydau hefyd ar gael, yn bennaf ar gyfer pobl gydag anableddau cymhleth, lle mae unigolion yn cael eu paru gyda theuluoedd Rhannu Bywydau. Mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC) a Chynnal Gofalwyr eiddo seibiant a charafán.

## Sir y Fflint

Rydym ni'n croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i wella'r ystod o ddewisiadau seibiant sydd ar gael i ofalwyr er mwyn cwrdd â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am wasanaethau seibiant yn sgil effaith y pandemig ar iechyd meddyliol a chorfforol gofalwyr.

Rydym ni'n parhau i archwilio dewisiadau seibiant hyblyg i ofalwyr yn seiliedig ar y canlyniadau y mae'r gofalwr yn dymuno eu cyrraedd, ochr yn ochr â gweithgareddau ystyrlon i'r rheiny sy'n derbyn gofal.

Mae ein ffocws ar sicrhau sefydlogrwydd y cymorth i ofalwyr di-dâl yn cynnwys:

- Ystyried sut mae modd i meicro-ofal gefnogi gwasanaethau dydd / seibiant
- Datblygu ein cynnig taliadau uniongyrchol ymhellach i ofalwyr
- Datblygu Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a'r cerdyn ID ymhellach

# 9. Gwasanaethau eirioli

Mae eiriolaeth yn golygu derbyn cefnogaeth gan unigolyn arall er mwyn helpu rhywun i fynegi ei safbwyntiau a'i ddymuniadau, a'i helpu i wneud safiad dros ei hawliau.

Mae pob unigolyn yn wahanol. Mae eu hanghenion cymorth yn wahanol, ac yn gallu newid yn ystod eu bywydau. Mae amrywiaeth o wasanaethau eirioli wedi'u datblygu er mwyn cydnabod y gwahaniaethau yma.

Mae'r holl fathau o eirioli yn gyfartal o ran gwerth. Dylai defnydd yr eiriolaeth, a phryd, ddibynnu ar yr hyn sydd orau i'r person sydd ei angen. Un math o eiriolaeth yw Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol sy'n cynnwys eiriolwr hyfforddedig proffesiynol yn gweithio ar sail un-i-un gydag unigolyn i sicrhau bod barn yr unigolyn hwnnw yn cael ei gyfleu'n gywir a'i hawliau'n cael eu cynnal.

# Plant a phobl ifanc

Mae eiriolaeth yn garreg sylfaen allweddol i gyflawni ein hymrwymiad i hawliau plant ac mae arnom ni angen gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth pan fydd arnynt ei angen a hynny gan bobl a fydd yn gwrando arnynt ac yn cynrychioli eu barn.

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i awdurdodau lleol Cymru fod â gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc ac fe ddylent hefyd wneud cynnig gweithredol o eiriolaeth. Mae Tros Gynnal Plant yn darparu gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yn y gogledd.

Pan fydd ar blant a phobl ifanc angen gwasanaethau, weithiau bydd angen eiriolwr i gwrdd â nhw i egluro'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gallu helpu. Dyma yw cynnig gweithredol.

Mae'n rhaid gwneud cynnig gweithredol i:

- Blant mewn gofal
- Bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Blant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol

Mae'n gyfrifoldeb statudol ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc, gan gydymffurfio â'r holl reoliadau, safonau,

deddfwriaeth, cyfarwyddiadau, codau ymarfer, fframweithiau canlyniadau ac unrhyw ddiwygiad neu amnewidyn sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Mae'r gwasanaeth yn 'wasanaeth eirioli' at ddibenion paragraff 7(1) Atodlen 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac yn unol â hynny yn wasanaeth rheoledig y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r darpariaethau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth)
- Canllawiau statudol yn ymwneud â Rhannau 2 i 15 Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

# Gofalwyr ifanc

Un o'r pethau a nodir gan ddarparwyr gwasanaethau sydd ei angen ar ofalwyr ifanc yw cymorth eirioli er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.

Mae'r trydydd sector wedi comisiynu cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar draws y gogledd. Mae Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych/Credu wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y siroedd hynny; gyda GOGDdC yn darparu'r gwasanaeth yn Sir y Fflint a Gweithredu dros Blant yn darparu'r gwasanaeth yng Ngwynedd a Môn.

# Oedolion

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolion o ran cymorth eirioli wrth ymgymryd â swyddogaethau amrywiol sy'n cynnwys penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd dyddiol unigolion e.e.

- Asesiad o’r angen am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Paratoi, cynnal neu adolygu cynlluniau gofal a chymorth
- Diogelu eiddo unigolyn sy’n derbyn gofal oddi cartref
- Penderfynu ar allu unigolyn i dalu ffi
- Diogelu a dyletswydd i roi gwybod am blant neu oedolion mewn perygl
- Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd
- Derbyn cwynion neu sylwadau am wasanaethau cymdeithasol

**Eiriolaeth:**

- Diogelu unigolion sy’n ddiamddiffyn, yn profi gwahaniaethu neu y mae gwasanaethau yn ei chael hi’n anodd eu gwasanaethu
- Siarad ar ran unigolion sy’n methu gwneud hynny drostynt eu hunain
- Grymuso unigolion sydd angen llais cryfach drwy eu galluogi i fynegi eu hanghenion a gwneud eu penderfyniadau gwybodus eu hunain
- Galluogi unigolion i gael mynediad at wybodaeth, i archwilio a deall eu dewisiadau, ac i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a’u teimladau
- Cefnogi pobl yn weithredol i wneud dewisiadau gwybodus

# Pobl hŷn

Ariannwyd Rhaglen Eiriolaeth y Llinyn Aur gan Lywodraeth Cymru am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020 fel cynllun ychwanegol ac ategol i weithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae’r rhaglen bellach wedi dod i ben ond mae Age Cymru yn parhau i ymrwymo i eiriolaeth yng Nghymru drwy’r prosiect HOPE.

**Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam:**Mae Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru yn cynnig gwasanaethau eirioli i bobl dros 65.

**Conwy a Sir Ddinbych:**Mae Canolfan Byw’n Annibynnol DEWIS yn cynnig eiriolaeth i unrhyw un dros 65 oed, neu unrhyw ofalwr.

**Pobl sy’n byw gyda dementia (pob sir):**Mae Cymdeithas Alzheimer's yn cynnig cymorth i unrhyw un sy’n byw gyda dementia, boed ganddynt alluedd a’r gallu i gyfathrebu neu beidio.

# Iechyd Meddwl

Efallai y bydd ar bobl sy’n derbyn gofal iechyd meddwl eilaidd angen cymorth gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010) neu Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol.

Efallai y bydd angen eiriolaeth ar bobl hŷn gyda dementia, sydd wedi colli cysylltiad â ffrindiau a theulu, neu bobl gydag anableddau dysgu difrifol neu broblemau iechyd meddwl hirdymor sydd wedi bod mewn sefydliadau preswyl am gyfnod hir a heb lawer o gysylltiadau allanol.

Efallai y bydd ar bobl eraill gyda chyflyrau iechyd meddwl angen cymorth gan unigolyn arall er mwyn mynegi barn neu ofyn am gyngor ar benderfyniadau sy’n effeithio arnynt.

Mae’r sefydliadau canlynol yn darparu cymorth eirioli arbenigol i bobl gydag anghenion iechyd meddwl:

- Gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS) (Conwy a Sir Ddinbych)
- Gwasanaethau Eirioli Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW) (Wrecsam a Sir y Fflint)
- Cynllun Adfocatiaeth Iechyd Meddwl (Gwynedd ac Ynys Môn)

# Anabledd dysgu

Yn aml iawn mae mynediad pobl gydag anabledd dysgu at wasanaethau gwella iechyd a thriniaethau cynnar yn salach, e.e. gwasanaethau sgrinio cancr, adolygiadau clefyd y siwgr blynyddol, cyngor ar ryw a pherthnasoedd a chymorth gyda dulliau atal cenhedlu(Harris *et al.*, 2016). Mae Gwasanaeth Cyswllt ar gyfer Iechyd Anableddau Dysgu BIPBC yn gweithio ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth ac i leihau anghydraddoldeb.

Mae eiriolaeth hefyd ynghlwm wrth ganlyniadau lles. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion eiriolaeth unigolion wrth gynnal asesiadau a chynllunio gofal. Efallai y bydd ar bobl gydag anabledd dysgu angen cymorth i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed a'u hawliau'n cael eu cynnal.

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol DEWIS yn darparu gwasanaethau eirioli i oedolion diamddiffyn 18 i 64 oed, yn cynnwys pobl gydag anableddau dysgu. Mae Ynys Môn hefyd yn comisiynu Cymdeithas Adfocatiaeth Gogledd Cymru.

# Awtistiaeth

Mae eirioli ar gyfer oedolion a phlant awtistig a'u gofalwyr yn sicrhau bod hawliau'r unigolyn yn cael eu cynnal. Gall eiriolaeth ddarparu cymorth mewn sawl ffordd, yn cynnwys i dderbyn diagnosis, goresgyn rhwystrau a defnyddio gwasanaethau.

# Hunaneiriolaeth

Yn ogystal, mae Swyddog Hunaneiriolaeth Rhanbarthol wedi'i benodi o ganlyniad i'r angen am ddod â lleisiau newydd i grwpiau hunaneiriolaeth ar draws y gogledd. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyswllt Conwy, Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru a Phobl yn Gyntaf Cymru. Mae gan y Swyddog Hunaneiriolaeth anabledd dysgu ac mae wedi'i gyflogi gan Cyswllt Conwy. Ei rôl yw cysylltu gyda sefydliadau a grwpiau lleol ar draws y gogledd i godi ymwybyddiaeth am, a hyrwyddo buddion hunaneiriolaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

# Cyfeiriadau


Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2020) *Rebalancing Social Care: A report on Children's Services at ADSS Cymru*. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/en/blog/post/rebalancing-social-care-a-report-on-children-s-services (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Atkinson, P.C., Crozier, D.S. & Lewis, L. (2016) *Ffactorau sy'n effeithiol ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithiwr gofal cartref ac i ba raddau mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref*. Llywodraeth Cymru: Canolfan Pobl a Pherfformiad, Ysgol Fusnes Prifysgol Metropolitan Manceinion. Ar gael yn (Saesneg yn unig): https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019a) 'Archwiliad o Wasanaethau Pobl Hŷn: Cyngor Sir Ynys Môn'. Ar gael yn: https://arolygiaethgofal.cymru/arolygiad-o-wasanaethau-oedolion-hyn-cyngor-sir-ynys-mon (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) 'Adroddiad Arolygu ar Gymdeithas Plant Dewi Sant'. Ar gael yn: https://www.adoptionwales.org/wp-content/uploads/2019/05/Inspection-Report-St-Davids-Children-Society.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022)

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2016) '"Uwchben a Thu Hwnt": Adolygiad Cenedlaethol o Ofal Cartref yng Nghymru'. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/161027aboveandbeyonden.pdf.

Maethu Cymru (2021) 'Fframwaith Maethu Cenedlaethol: Adroddiad Terfynol 2018 i 2021'. Ar gael yn: https://www.adss.cymru/cy/blog/post/national-fostering-framework-final-report-2018-2021 (Defnyddiwyd: 20 Mai 2022)

Harris, J. *et al.* (2016) 'Learning disabilities and autism: a health needs assessment for children and adults in Cheshire and Merseyside'. Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl. Ar gael yn: https://www.ljmu.ac.uk/~/media/phi-reports/pdf/2016_01_learning_disabilities_and_autism_a_health_needs_assessment_for_children_and_adults.pdf (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Laing, W. (2020) 'Care Cost Benchmarks, Financial year 2019/20 and projections for financial year 2020/21'. LaingBuisson Healthcare Intelligence.

Matthews, F.E. *et al.* (2016) 'A two decade dementia incidence comparison from the Cognitive Function and Ageing Studies I and II', *Nature Communications, Published online: 19 Ebrill 2016; | doi:10.1038/ncomms11398* [Rhag brint]. doi:10.1038/ncomms11398.

NICE (2021) 'Looked-after children and young people NICE guideline [NG205]'. NICE. Ar gael yn: https://www.nice.org.uk/guidance/ng205 (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) ‘Adolygiad Ansawdd Gofal: Ebrill 2020 – Medi 2020’. Ar gael yn: https://northwalesadoption.co.uk/wp-content/uploads/2021/03/Quality-of-Care-report-2020.pdf (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

ONS (2021) *Care homes and estimating the self-funding population, England*. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/carehomesandestimatingtheselffundingpopulationengland/2019to2020 (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2019) Datganiad o Sefyllfa’r Farchnad ar gyfer gofal preswyl i blant a phobl ifanc, maethu a llety diogel’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/comisiynu/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) *Adolygiad Cyflym Asesiad o Anghenion Poblogaeth.* Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/adolygiad-cyflym/ (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (2020) ‘Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru’. Ar gael yn: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/ (Defnyddiwyd: 19 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018a) *Gweithlu gofal cartref, fesul rôl.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/IAS/themes/workforceandqualifications/socialcareworkforce/tabular?viewId=2505&geoId=141&subsetId= (Defnyddiwyd: 27 Mai 2022).

Gofal Cymdeithasol Cymru (2018b) *Proffil Staff Gofal Cymdeithasol – Iaith.* Ar gael yn: https://www.socialcaredata.wales/ (Defnyddiwyd: 13 Mai 2022).

Canolfan Cydweithredol Cymru (2021) ‘Cartrefi Gofal yng Nghymru: hyrwyddo mentrau cymdeithasol’. Ar gael yn: https://wales.coop/wp-content/uploads/2021/06/Care-Home-Guide-1-final.pdf (Defnyddiwyd: 18 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents (Defnyddiwyd: 9 Awst 2916).

Llywodraeth Cymru (2016) *‘Gweithlu Gofal Cartref: Gwella’r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref yng Nghymru.* Dogfen Ymgynghori WG27421. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/y-gweithlu-gofal-cartref

Llywodraeth Cymru (2020) ‘Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer Cymru ar sail-2018’. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2018-based (Defnyddiwyd: 24 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021a) ‘Adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad: cod ymarfer’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/adroddiadau-sefydlogrwydd-y-farchnad-cod-ymarfer (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

Llywodraeth Cymru (2021b) *‘Amcangyfrifon canol blwyddyn o’r boblogaeth’*. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority

Llywodraeth Cymru (2021c) ‘Datganiad ysgrifenedig: Y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso gofal a chymorth – camau nesaf (29 Hydref 2021)’. Ar gael yn: https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-papur-gwyn-ar-ailgydbwyso-gofal-chymorth-y-camau-nesaf (Defnyddiwyd: 17 Mai 2022).

KeyRing (2022) *Lle mae KeyRing yn gweithio yng Nghymru*, *KeyRing*. Ar gael yn: https://www.keyring.org/where-we-work/wales (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022).

The King’s Fund (2006) *Tyfu Rhai Eich Hun*, *The King’s Fund*. Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/publications/grow-your-own (Defnyddiwyd: 30 Mehefin 2022)

# ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD AR GYFER ARDAL AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN

## Cynnwys

**ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD AR GYFER ARDAL AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN** ........ 1

CRYNODEB WEITHREDOL ........ 3

PENNOD 1 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Cartref Gofal (Oedolion) ...... 6

PENNOD 2 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Cartref Gofal (Plant)) ......... 24

PENNOD 3 – MATHAU O DDARPARIAETH RHEOLEDIG: Gwasanaethau Llety Diogel (Plant) ........... 34

PENNOD 4 - MATH O DDARPARIAETH REOLEDIG: Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd . 37

PENNOD 5 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Mabwysiadu ........ 42

PENNOD 6 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Maethu ........ 49

PENNOD 7 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Lleoli Oedolion (‘Cysylltu Bywydau’) ........ 61

PENNOD 8 – MATH O DDARPARIAETH A GAIFF EI RHEOLEIDDIO: Gwasanaethau Eirioli ........ 66

PENNOD 9 - MATH O DDARPARIAETH REOLEDIG: Gwasanaethau Cymorth Gofal Cartref ........ 75

## CRYNODEB WEITHREDOL

**Ffactorau Allweddol Digonolrwydd y Farchnad**

**1. Gwasanaethau Cartref Gofal (Oedolion)**
Mae'r galw am leoliadau mewn cartrefi gofal yn debygol o gynyddu

**2. Gwasanaethau Cartref Gofal (Plant)**
Roedd problemau digonolrwydd o ran dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys gofal seibiant, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau brodyr a chwiorydd, argyfyngau

**3. Gwasanaethau Llety Diogel (Plant)**
Nid oes darpariaeth llety diogel i blant yn Ynys Môn nac yng Ngogledd Cymru. Nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth hon yng Ngogledd Cymru. Felly, nid yw digonolrwydd y farchnad yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn.

**4. Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd**
Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu uned breswyl i deuluoedd amser llawn. Mae'r capasiti presennol yn cael ei gyflawni'n ddigonol.

**5. Gwasanaethau Mabwysiadu**
Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, yn gosod plant yn gyflymach ac yn gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

**6. Gwasanaethau Maethu**
Nododd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) faterion digonolrwydd o ran dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys:

- Gofal seibiant
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau o frodyr a chwiorydd
- Argyfyngau

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem, gyda'r galw cynyddol am leoliadau a nifer y lleoliadau yr amcanestynir na fyddant yn ateb y galw a ragwelir.

**7. Gwasanaethau Lleoli Oedolion ('Cysylltu Bywydau')**
Teimlir nad yw'r prosiect wedi cael cyfle teg i ddatblygu oherwydd y pandemig. Mae'r prosiect wedi cael ei ymestyn am 12 mis arall.

**8. Gwasanaethau Eirioli**
Yn seiliedig ar y data diweddaraf, mae'r ddarpariaeth Eirioli yn ddigonol ac yn rhoi gofal a chefnogaeth o ansawdd da i gwrdd a'r galw, Mae staff sydd wedi eu hyfforddi'n darparu gofal a chefnogaeth o ansawdd da.

**9. Gwasanaethau Cymorth Gofal Cartref**
Mae'r galw am wasanaethau yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd oherwydd prinder darparwyr gofal cartref, yn allanol ac yn fewnol.

| Ffactorau Allweddol Sefydlogrwydd y Farchnad |
|---|
| **1. Gwasanaethau Cartref Gofal (Oedolion)**<br>**Trosolwg o'r unedau sydd ar gael**<br>Mae cyfanswm o 118 o unedau Gofal Ychwanegol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ac mae 71 uned o Lety â Chymorth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.<br>**Galw am Dai Gofal Ychwanegol**<br>Mae'r galw am Dai Gofal Ychwanegol yn uwch na'r capasiti presennol.<br>**2. Gwasanaethau Cartref Gofal (Plant)**<br>Bod cynnydd yn nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth<br>Roedd plant sydd wedi bod mewn gofal yn fwy agored i'r pandemig<br>Mae cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd newydd eu lletya<br>Mae prinder darparwyr preswyl lleol<br>Mae prinder darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth<br>Mae prinder llety brys<br>Mae sefydlogrwydd gweithlu gwasanaethau cartredfi gofal plant yn broblem. Mae galw cynyddol am leoliadau ac nid yw nifer y lleoliadau a ragwelir yn diwallu'r galw a ragwelir.<br>**3. Gwasanaethau Llety Diogel (Plant)**<br>Nid yw sefydlogrwydd y farchnad yn berthnasol I Gyngor Sir Ynys Môn.<br>**4. Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd**<br>Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu uned breswyl i deuluoedd amser llawn. Mae'r capasiti presennol yn cael ei gyflawni'n ddigonol.<br>**5. Gwasanaethau Mabwysiadu**<br>Mae'n werth nodi bod y gwasanaeth wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol ers 2020, felly mae'n anodd cymharu data lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r gwasanaeth nawr.<br>**6. Gwasanaethau Maethu**<br>Mae'r heriau i sefydlogrwydd gwasanaethay maethu yng Ngogledd Cymru ar y cyfan wedi eu rhestru isod:<br>• Materion recriwtio a chadw staff<br>• Lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys; gofal seibiant, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr a chwiorydd ac argyfyngau<br>• Amcangyfrifir y bydd angen 550 o rieni maeth newydd ar Gymru bob blwyddyn i ateb y galw<br>**7. Gwasanaethau Lleoli Oedolion ('Cysylltu Bywydau')**<br>Mae'r gefnogaeth a roddir yn ddigonol a hyblyg ac wedi ei deilwrs at ofynion personol yr unigolun.<br>**8. Gwasanaethau Eirioli**<br>Mae'r gwasanaeth a ddarperir i weld yn ddigonol.<br>**9. Gwasanaethau Cymorth Gofal Cartref**<br>Post pandemic, the recruitment and retention of staff remains an issue with the staff turnover rate in Social Services having increased during 2021/22.<br>There is an increasing demand for services, but budgets along with inflationary pressures are struggling to keep up with this demand.<br>Yn dilyn y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem gyda chyfradd trosiant staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn ystod 2021/22.<br>Mae galw cynyddol am wasanaethau, ond mae cyllidebau ynghyd â phwysau chwyddiant yn ei gwneud hi'n anodd cwrdd â'r galw hwn. |

| **Paratowyd yr Adroddiad gan:** |
| --- |
| Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion<br>Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen<br>Saul Ainsworth, Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro<br>Ceri H. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Anableddau Dysgu a Iechyd Meddwl<br>Rachel Williams, Rheolwr Gwasanaeth<br>Llyr ap Rhisiart, Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth Cynnar ac Atal<br>Olwenna Davey, Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro (Pobl Hŷn ac Oedolion Ifanc) |

## PENNOD 1 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Cartref Gofal (Oedolion)

### ADRAN 1A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD

**Digonolrwydd y farchnad**

**Mae'r galw am leoliadau cartrefi gofal yn debygol o gynyddu**
Mae asesiad o'r boblogaeth yn dangos bod nifer y bobl dros 65 oed ym Môn wedi cynyddu 18.5% rhwng 2011 a 2020 a disgwylir iddo gynyddu 17.2% arall erbyn 2040. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r galw am wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r tabl isod yn dangos bod y newid disgwyliedig ychydig yn llai na ffigyrau rhanbarthol a chenedlaethol Cymru.

Tabl 1: Amcangyfrifir nifer y bobl dros 65 oed yn 2020 a'r nifer a ragwelir yn 2040

| Ardal | 2020 - nifer | 2040 - nifer | Newid o ran nifer | Newid o ran canran |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 18,650 | 22,500 | 3,850 | 17.2% |
| Gogledd Cymru | 164,700 | 207,600 | 42,900 | 20.7% |
| Cymru | 668,600 | 850,750 | 182,150 | 21.4% |

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; a rhagamcanion poblogaeth 2018, Llywodraeth Cymru

Nid y ffaith bod poblogaeth pobl hŷn yn cynyddu yw'r unig ffactor sy'n effeithio ar y galw. Mae newidiadau hefyd mewn disgwyliadau a pholisi sy'n golygu efallai na fydd y galw yn cynyddu ar yr un raddfa â chyfanswm y boblogaeth. Er enghraifft, bydd y galw'n newid wrth i bobl gael cefnogaeth i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach, neu fynd i lety gofal ychwanegol er mwyn cadw annibyniaeth â'r opsiwn o dderbyn cymorth yn ôl yr angen.

Tabl 2: Nifer y cartrefi oedolion yn ôl math ac ardal (pob oedran)

| Ardal | Preswyl | Preswyl gydag iechyd meddwl | Nyrsio | Nyrsio gydag iechyd meddwl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 20 | 0 | 4 | 0 | 24 |
| Gogledd Cymru | 111 | 42 | 35 | 12 | 90 |

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelâu iechyd meddwl ac nid yw'r rhain wedi cael eu gwahanu.

Tabl 3: Nifer presennol o leoliadau cartrefi gofal parhaol ar gael i bobl hŷn

| Ardal (a) | Preswyl | Preswyl gydag iechyd meddwl | Nyrsio | Nyrsio gydag iechyd meddwl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 423 | 0 | 190 | 0 | 613 |
| Gogledd Cymru | 3,077 | 1,075 | 1,320 | 475 | 5,947 |

(a) Mae'r categorïau gofal wedi dod yn haws ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 felly dim ond darlun a rydd y categorïau hyn o'r

rhaniad rhwng mathau o ofal. Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi rai gwelâu iechyd meddwl felly nid yw'r rhain wedi cael eu gwahanu.

Disgwylir i'r boblogaeth dros 65 ar Ynys Môn gynyddu o 26.4% o boblogaeth yr ynys i 32.4% erbyn 2040. Gallai hyn arwain at nifer gynyddol o bobl yn dioddef o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran fel anhwylderau corfforol a synhwyraidd cronig, dementia a chwympiadau. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith negyddol bosibl ar les cyffredinol pobl ac yn eu tro yn debygol o gynyddu'r galw ar wasanaethau. Mae hyn yn deillio o ystadegau e.e. mae nifer y **bobl 65+ oed sy'n mynd i'r ysbyty oherwydd cwympiadau** wedi cynyddu.

Yn 2015, 450 oedd y nifer. Ond erbyn 2020 roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 501.

**Darpariaeth Presennol Cartrefi Gofal**

Mae nifer y **gwlâu cofrestredig yn ôl y sector** hefyd wedi cynyddu ers yr Asesiad Blaenorol o Anghenion y Boblogaeth. Yn 2015, roedd 614 o wlâu (Cyngor lleol - 162; Sector Annibynnol/ Preifat - 452; Sector gwirfoddol/ trydydd sector - 0). Mae'r cyfanswm cyffredinol wedi cynyddu o 10, yn 2020, i gyfanswm o 624 (Cyngor lleol - 161; Sector annibynnol/ Preifat - 463; Sector gwirfoddol/ trydydd sector - 0).

**Tabl 4**

| Blwyddyn | Cyngor lleol | Sector preifat/annibynnol | Trydydd sector/gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | 162<br>26% | 452<br>74% | 0 | 614 |
| 2020 | 161<br>26% | 463<br>74% | 0 | 624 |

Mae nifer y **gwlâu cofrestredig yn ôl sir** wedi gweld cynnydd sydyn ers 2016. Yn 2016, roedd cyfanswm o 614 o welâu (Preswyl - 344; Iechyd Meddwl Preswyl - 90; Nyrsio Cyffredinol – 124; Iechyd Meddwl Nyrsio – 56). Erbyn 2020, roedd cyfanswm o 755 o welâu (Tai gyda gofal - 117; Gofal Preswyl - 441; Gofal nyrsio - 177).

### Yr hyn rydyn ni'n ei wybod am y boblogaeth

- Gwyddom fod nifer y **bobl 65+ oed** wedi cynyddu o 17,000 yn 2015, i 18,639 yn 2020.
- Yn cyd-fynd â'r uchod, mae **nifer y bobl 85+ oed** hefyd wedi cynyddu. Nifer y bobl 85+ oed ar Ynys Môn yn 2015 oedd 2,200 ond yn 2020 roedd 2,403 o bobl yn y categori hwn.

**Tabl 5**

| Blwyddyn | Nifer y bobl 65+ oed | Nifer y bobl 85+ oed |
|---|---|---|
| 2015 | 17,000 | 2,200 |
| 2020 | 18,639 | 2,403 |

- Gwyddom fod nifer y **bobl 65+ oed a'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau** wedi cynyddu ers 2015. Yn 2015, 1,200 oedd nifer y bobl yn y categori hwn. Ar gyfer 2020, mae'r nifer yn 1,488.
- Roedd **nifer y bobl 65+ oed sy'n derbyn gofal cartref (oriau o ofal cartref sy'n cael ei dderbyn)** yn 340 yn 2015, gyda 3,900 awr o ofal yn cael ei ddarparu bob wythnos (cyfartaledd o 11 awr yr wythnos). Ar gyfer 2020, roedd y nifer wedi gostwng gyda 316 o bobl dros 65 oed yn cael gofal cartref. Mae hyn hefyd wedi golygu bod

3,760 awr yr wythnos o ofal yn cael ei ddarparu ar gyfartaledd yr wythnos (fodd bynnag, mae'r oriau cyfartalog yr wythnos, fesul cleient wedi cynyddu i 12 awr yr wythnos ar gyfartaledd, fesul cleient).

- Mae **nifer y bobl 65+ oed sydd â dementia** wedi aros fwy neu lai'r un peth ers 2015. Yn 2015, 1,300 oedd y ffigwr. Erbyn 2020, roedd ychydig o gynnydd i 1,305.
- Mae nifer y **gwlâu cofrestredig, ar gyfer pob 100+ o bobl 65+ oed** wedi gostwng, ond mae nifer cyfartalog y gwlâu ym mhob cartref wedi cynyddu. Yn 2015, nifer y cartrefi oedd 23, nifer y gwlâu oedd 611 a nifer y gwlâu ar gyfartaledd ym mhob cartref oedd 27. Erbyn 2020, nifer y cartrefi oedd 19, nifer y gwlâu oedd 576, ond nifer y gwlâu ym mhob cartref ar gyfartaledd oedd 30.

Table 6

| Blwyddyn | Nifer y cartref | Nifer y gwelâu cofrestredig | Cyfartaledd gwelâu ym mhob tŷ |
|---|---|---|---|
| 2015 | 23 | 611 | 27 |
| 2020 | 19 | 576 | 30 |

- Yn 2015, dangosodd **nifer y gwelâu cofrestredig, ar gyfer pob 100 o bobl 65+ oed**, fod cyfanswm o 3.5 gwely ym mhob 100 o bobl 65+ oed. Gyda 2.5 o'r llefydd hynny'n dod o lefydd preswyl a'r 1 arall yn dod o lefydd nyrsio. Yn 2020 fodd bynnag, nid oedd yr ystadegau y llwyddwyd i'w casglu yr un fath â rhai 2015, ond roedd yn dal i helpu i greu trosolwg o'r sefyllfa. Roedd cyfanswm y gwelâu yn 9.3. Gyda 5.4 o'r gwelâu hynny yn y categori gofal preswyl, 1.4 yn yn y categori gofal tai a 2.2 yn yn y categori gofal nyrsio.

**BYW Â CHYMORTH**

Ym mis Ionawr 2020, cynhaliwyd adolygiad o les ac annibyniaeth ac i asesu’r cysylltiad rhwng tenantiaid â’u hystâd a’u cymunedau. Diben yr adolygiad hwn hefyd oedd rhoi gwybodaeth i Tai Môn am lefelau bodlonrwydd tenantiaid ynglŷn â’u llety ac i helpu i ddatblygu tai’r Cyngor yn y dyfodol mewn cynlluniau gwarchod a henoed.

**Cyd-destun Lleol**

Mae'r tabl isod yn dangos y bydd Ynys Môn yn wynebu cynnydd uwch o lawer na’r cyfartaledd cenedlaethol mewn pobl hŷn.

Tabl 7

| | Nifer a % y bobl 65 + (2012) | | Nifer a % y bobl 65 + (2036) | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 585,149 | 19.02% | 869,846 | 26.09% |
| **Ynys Môn** | **16,277** | **23.27%** | **22,199** | **32.62%** |
| **Gwynedd** | 25,990 | 21.34% | 33,377 | 25.31% |
| **Conwy** | 29,179 | 25.27% | 40,725 | 35.32% |
| **Sir Ddinbych** | 20,539 | 21.78% | 30,368 | 29.92% |
| **Sir y Fflint** | 28,452 | 18.59% | 44,775 | 28.97% |
| **Wrecsam** | 24,002 | 17.60% | 38,804 | 23.73% |

Yn 2019, comisiynwyd Housing LIN gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil a gwneud asesiad annibynnol o'r galw am anghenion tai a llety arbenigol pobl hŷn hyd at 2035.

Mae'r rhagdybiaethau a wnaed gan Housing LIN yn seiliedig ar dystiolaeth leol, a ddefnyddir i amcangyfrif y galw am dai a llety ar Ynys Môn yn y dyfodol.

Yn y tabl isod dangosir bod y tai a'r llety presennol i bobl hŷn ar Ynys Môn, a fynegir fel nifer yr achosion fesul 1,000 o bobl 75 oed, cyfradd nifer achosion Cymru ac amcangyfrif o gyfraddau nifer yr achosion 2035.

Table 8

| | Gwelâu/unedau presennol | Cyfradd nifer yr achosion presennol | Cyfradd nifer yr achosion Cymru | Amcangyfrifir o gyfradd nifer yr achosion 2035 |
|---|---|---|---|---|
| **Tai i bobl hŷn** | 755 | 93 | 106 | 94 |
| **Llety gyda gofal** | 117 | 14 | 10 | 20 |
| **Gofal preswyl** | 441 | 54 | 38 | 36 |
| **Gofal nyrsio** | 177 | 22 | 36 | 25 |

Amcangyfrif o'r galw am dai ar Ynys Môn yn y dyfodol erbyn 2035. Caiff y ddarpariaeth bresennol ei thynnu o'r amcangyfrif o alw yn y dyfodol i gael amcangyfrifir o'r diffyg ar gyfer gwahanol fathau o dai a llety i bobl hŷn.

Tabl 9

| | Unedau/gwelâu presennol | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|---|
| **Tai i bobl hŷn** | 1,381 | 966 | 1,061 | 1,146 |
| **Llety gyda gofal (Gofal Ychwanegol)** | 117 | 166 | 203 | 244 |
| **Gofal preswyl** | 441 | 441 | 441 | 441 |
| **Gofal nyrsio** | 177 | 239 | 271 | 305 |

**Galw net Ynys Môn (diffyg mewn unedau / gwelâu) erbyn 2035:**

Tabl 10

| | 2025 | 2030 | 2035 |
|---|---|---|---|
| **Tai i Bobl Hŷn** | 211 | 306 | 391 |
| ***Ar rent*** | 137 | 199 | 254 |
| ***Ar werth*** | 74 | 107 | 137 |
| **Llety gyda Gofal** | 49 | 86 | 127 |
| ***Ar rent*** | 32 | 56 | 82 |
| ***Ar werth*** | 17 | 30 | 44 |
| **Gofal preswyl** | 0 | 0 | 0 |
| **Gofal nyrsio** | 62 | 94 | 128 |

**I grynhoi, mae hyn yn dangos bod yr amcangyfrif o ofynion net Ynys Môn erbyn 2035 fel a ganlyn:**

- Tai ar gyfer pobl hŷn: 391 o unedau gyda 254 ohonynt ar rent a 137 ar werth.
- O'r 254 uned ar rent, mae tua 50% (127) yn dai cymdeithasol ar gyfer oedran penodol, a thua 50% (127) yn llety gwarchod cyfoes
- Llety gyda gofal: 127 uned y mae 82 ohonynt ar rent a 44 ar werth
- Awgrymir tua 3% o'r tai rhent hyn gydag unedau gofal (2) i'w defnyddio fel unedau camu i lawr / camu i lawr
- Gofal preswyl: ±0 gwely
- Gofal nyrsio: 128 gwely

**Amcangyfrifir o’r diffyg mewn llety arbenigol i bobl hŷn, yn ôl math a deiliadaeth, ym mhob awdurdod lleol ac ar draws Cymru i gyd, erbyn 2030.**

Tabl 11

| | Tai cymdeithasol i oedran penodol ar rent (unedau) | Llety gwrachod cyfoes ar rent (unedau) | Tai ymddeol ar werth (unedau) | Tai gyda gofal ar rent cymdeithasol (unedau) | Tai â gofal ar werth (unedau) | Tai Camu fyny / camu i lawr (unedau) | Gwelâu gofal preswyl (unedau) | Gwelâu gofal nyrsio (unedau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Unedau** | 100 | 100 | 107 | 55 | 30 | 1 | 0 | 94 |

**Argymhellion:**
- Strategaeth llety pobl hŷn i lywio'r galw a'r cyllid yn y dyfodol a sut rydym yn anelu at fodloni'r cynnydd hwn a ragwelir
- Angen llunio grŵp rhyng-adrannol Gwasanaethau Oedolion a Thai er mwyn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y galw hwn

**ADRAN 1B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD**

**Crynodeb**

**Trosolwg o'r unedau sydd ar gael (a ddefnyddir / nas defnyddir)**
Mae cyfanswm o 118 o unedau Gofal Ychwanegol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ac mae 71 uned o Lety â Chymorth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

**Trosolwg o'r Capasiti / Galw**
Ar hyn o bryd mae'r galw yn uwch na'r capasiti o ran Gofal Ychwanegol a Llety â Chymorth.

**Galw am Dai Gofal Ychwanegol**
Mae'r galw am Dai Gofal Ychwanegol yn uwch na'r capasiti presennol. Ar hyn o bryd mae 'na 12 ar y rhestr aros.

**Darparwyr**
Fel y nodwyd uchod, er bod nifer y **gwelâu cofrestredig yn ôl y sector** wedi cynyddu ers yr Asesiad Anghenion Poblogaeth blaenorol, mae'r sylfaen darparwyr wedi aros yn sefydlog, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn darparu 26% o'r gwelâu, tra bod y gweddill (74%) yn cael ei ddarparu gan y Sector Annibynnol/ Preifat.

Tabl 12

| Blwyddyn | Cyngor lleol | Sector preifat/annibynnol | Trydydd sector/gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2015 | 162<br>26% | 452<br>74% | 0 | 614 |
| 2020 | 161<br>26% | 463<br>74% | 0 | 624 |

Mae gan unigolion sydd angen gofal a chymorth lais o ran eu gofal a'u cymorth drwy gyfrwng arolygon a anfonir atyn nhw. Mae sawl arolwg wedi'u hanfon allan dros y blynyddoedd diwethaf:

- Anfonwyd arolwg mewnol at bob tenant tai gwarchod a phensiynwyr (1,200 i gyd) gyda 445 o'r arolygon yn cael eu dychwelyd naill ai wedi'u cwblhau, neu eu cwblhau'n rhannol. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 35%.
- Arolwg ymgysylltu rhanbarthol
- Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Arolwg gan Mind Cymru (Mehefin 2020)

**Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant y Darparwr**

Mae nodi pryderon cynyddol mewn cartrefi gofal yn rhan o broses sicrhau ansawdd y Cyngor, gyda'r broses yn arwain at welliannau mewn gwasanaeth. O Orffennaf 2022, nid oes darparwyr yn destun pryderon cynyddol.

| ADRAN 1C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD |
| --- |
| **Ystyried Ansawdd y Farchnad** |
| Pan ofynnwyd beth oedd pobl yn teimlo oedd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd o safbwynt pobl hŷn, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y gofal roedden nhw'n cael ei gynnig gan staff wedi bod yn dda iawn. Esboniodd un ymatebwr fod clybiau wythnosol, lle mae pobl sy'n byw â dementia yn gallu cyfarfod am baned o de heb gymorth gofalwr, yn rhywbeth yr oedd yn ei fwynhau. Mae'r clwb yn fodd i unigolion fwynhau cwmni ei gilydd, tra bod gofalwyr yn cael cyfle i dderbyn cefnogaeth ganddynt ei gilydd. Ategodd ymatebwr arall y gwaith da sy'n cael ei ddarparu i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Roedden nhw o'r farn fod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yng nghanolfan ddydd Hafan i bobl â dementia wedi bod o fudd mawr i'r defnyddiwr, gan roi seibiant angenrheidiol i'r gofalwr.<br><br>I ychwanegu at y pwynt uchod, tynnodd yr ymatebwyr sylw at y defnydd da o rwydweithio a chyfathrebu a oedd yn digwydd o fewn y cartrefi gofal ar draws yr ynys. Nododd un ymatebwr fod lefel dda o gyfathrebu rhwng rhanddeiliaid allweddol, sy'n golygu bod pobl yn gwbl ymwybodol beth yw'r materion o ddydd i ddydd. Roedd ymateb un ymatebwr arall yn cyd-fynd â hyn, gan fynegi bod cefnogaeth i bobl gael yr opsiwn i ymgysylltu â gwasanaethau a'u cymunedau – ar-lein ac all-lein.<br><br>Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg ymgysylltu rhanbarthol sydd ag anawsterau synhwyraidd eu bod yn credu bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith amrywiaeth BIPBC yn gweithio'n dda, yn ogystal â darparu cymhorthion, addasiadau a'r gwasanaeth cyfeillio a gynigir gan y prosiect Byw'n Dda gyda Cholled Clyw. Dywedodd un darparwr gwasanaeth fod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a mudiadau'r trydydd sector yn gadarn. Mae'n cefnogi'r broses o ddarparu ystod eang o wasanaethau o ansawdd, rhwydweithio a rhannu arfer da. |
| **Tueddiadau Presennol a'r rhai a Ragwelir** |
| Dyma'r tueddiadau o ran darpariaeth ym Môn:<br><br>Ar ôl y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem, ac mae cyfradd trosiant staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn 2021/22.<br>Mae 'na alw cynyddol am wasanaethau ond mae cyllidebau ynghyd â phwysau chwyddiant yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â'r galw yma.<br><br>Mae'r gyfradd o bobl hŷn (65+) mewn Cartrefi Gofal Preswyl wedi gostwng yn y 2 flynedd ddiwethaf wrth i bobl hŷn aros gartref yn hirach gyda phecyn cymorth. Pan fydd angen lleoliad cartref gofal mae eu hanghenion yn fwy cymhleth ac mae angen ymyrraeth fwy dwys arnynt. |
| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad** |
| Mae gan Gyngor Môn systemau ar waith i gefnogi a chysylltu gyda darparwyr, yn cynnwys cyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd gyda darparwyr a chefnogaeth gyda hyfforddiant ac adnoddau.<br><br>**Byw â Chymorth**<br><br>Bu comisiynwyr y gogledd o'r chwe chyngor lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Fframwaith Byw â Chymorth aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2020. Mae darparwyr gwasanaethau lluosog eisoes wedi'u derbyn i'r cytundeb fframwaith yn dilyn y diwydrwydd |

dyladwy a'r gwiriadau ansawdd gofynnol. Mae hyn yn galluogi comisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau sy'n mabwysiadu'r cytundeb fframwaith. Gall hyn symleiddio prosesau gan barhau i weithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Rheolau Gweithdrefn contract yr awdurdod lleol.

**Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg**

Cafodd sgiliau Cymraeg gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol eu dadansoddi yn 2022, ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

**Oedolion**

Nifer staff yn y gwasanaeth: 422

Nifer ffurflenni a ddychwelwyd 422

Canran ffurflenni a ddychwelwyd: 100%

Tabl 13

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 19 | 41 | 31 | 20 | 57 | 254 |
| **Canran** | 5% | 10% | 7% | 5% | 14% | 60% |

**Plant**

Nifer staff yn y gwasanaeth: 238

Nifer ffurflenni a ddychwelwyd: 238

Canran ffurflenni ddychwelwyd: 100%

Tabl 14

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 8 | 6 | 14 | 12 | 52 | 146 |
| **Canran** | 3% | 3% | 6% | 5% | 22% | 61% |

Mae cyfanswm o 74% o'r staff yn yr adran Oedolion yn siarad Cymraeg i lefel 4 o leiaf (Gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Cymraeg / Saesneg). Yn yr adran Plant roedd y ganran gyfatebol yn 83%.

Mae hyn yn ateb y galw am ddarpariaeth gofal yn y Gymraeg.

Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 – Blaenoriaethau / Camau Gweithredu - Cynnydd fel ym mis Rhagfyr 2020**

- Yn ystod 2020, gwnaed cyflwyniadau ar weithredu Safonau'r Gymraeg a chyfathrebu a gofal cwsmeriaid (gan gynnwys y gofyniad i wneud y cynnig rhagweithiol ar gyfer gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i bob cwsmer) mewn cynadleddau staff.

- Mae codi ymwybyddiaeth o Mwy na Geiriau a Safonau'r Gymraeg yn parhau i fod yn elfen ofynnol o'r holl sesiynau cynefino i staff adrannau.
- Anfonwyd nodyn atgoffa ysgrifenedig at bob aelod o staff drwy'r system e-bost am bwysigrwydd ateb y ffôn yn ddwyieithog.
- Mae ffyrdd o Fonitro'r drefn gofnodi ar gyfer y Cynnig Gweithredol a dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio ystadegau o'r system cofnodion achosion electronig yn cael eu datblygu, er mwyn monitro perfformiad y wybodaeth hon a gofnodir.
- Mae'r gwasanaethau yn parhau i fonitro ac yn sicrhau bod digon o staff Cymraeg eu hiaith ar draws holl feysydd y Gwasanaethau er mwyn gallu darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws pob maes.

Mae gwasanaethau yn parhau i annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol er mwyn datblygu eu sgiliau iaith.

- **Mwy na Geiriau**

  Mae rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg ar gael i staff sy'n dymuno dysgu, gwella neu ddatblygu hyder yn eu galluoedd Cymraeg. Mae amrywiaeth o adnoddau Datblygu'r Gymraeg wedi'u cynnig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; gan gynnwys cyrsiau preswyl 'Dysgu Cymraeg'; gwersi wythnosol; sesiynau hunan-astudio a meithrin hyder ar-lein. Trefnwyd gweithdy Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer y Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a'r Hyfforddeion Galwedigaethol fel rhan o'u sesiwn gynefino a oedd yn cynnwys cyflwyniad a chyfle i bawb rannu profiadau a myfyrio.

  Crëwyd tudalen newydd ar ein Pŵl Dysgu i helpu i hyrwyddo ac i arddangos yr holl opsiynau sydd ar gael i'r holl staff ac aelodau partneriaeth.

**Cynaliadwyedd y ddarpariaeth**

Mae sylfaen y darparwyr wedi aros yn sefydlog ers 2015 gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn darparu 26% o'r gwelâu, tra bod y gweddill (74%) yn cael eu darparu gan y Sector Annibynnol/ Preifat.

**Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad**

**Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad**

- Y boblogaeth gynyddol o bobl hŷn. Gallai'r rhain yn eu tro arwain at nifer cynyddol o bobl sy'n profi cyflyrau sy'n gysylltiedig ag oedran oedran fel anhwylderau corfforol a synhwyraidd cronig, dementia a chwympiadau. Gallai hyn gael effaith negyddol bosibl ar les cyffredinol pobl a byddai hynny yn ei dro yn debygol o gynyddu'r galw ar wasanaethau

- Newidiadau mewn disgwyliadau a pholisi a allai golygu na fydd y galw yn cynyddu ar yr un raddfa â chyfanswm y boblogaeth.

- Recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol.

- Cynnydd mewn costau byw.

- Ers dechrau 2022, mae cyfradd chwyddiant wedi cynyddu yn gynt ac yn uwch na chyfradd y cynnydd ar gyfer ffioedd sy'n cael eu talu i ddarparwyr cartrefi gofal. Mae cyfleustodau, costau tanwydd ac yswiriant hefyd wedi cynyddu'n aruthrol. Mae hyn

| |
|---|
| yn profi'n heriol iawn i lawer o ddarparwyr, sydd, ar ôl ymdopi trwy'r pandemig, yn ei chael hi'n anodd talu'r costau hyn ar adeg pan fo cefnogaeth ariannol y llywodraeth i COVID-19 wedi dod i ben. |

**ADRAN 1D – DARPARIAETH HEB EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDAF YN BAROD AC ATI]**

Linc Cymunedol Môn yw'r Pwynt Mynediad Unigol i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y Trydydd Sector. Linc Cymunedol Môn hefyd yw'r man atgyfeirio ar gyfer prosiect prescreibio cymdeithasol Ynys Môn sydd wedi'i leoli ym Medrwn Môn. Mae gan y tîm bedwar Cydlynydd Asedau Lleol sy'n gweithio ar draws Ynys Môn, byddant yn cael sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' gyda'r unigolyn sydd angen cefnogaeth, ac ar ôl cael y sgwrs honno byddant yn cytuno ar gynllun gweithredu i helpu'r unigolyn gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo. Roedd llawer o bobl sydd wedi elwa o'r gwasanaeth yn unig, yn ynysig, neu'n weddw. Wedi dweud hynny, mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth i ystod eang o bobl.

Mae'r Model Hwb Cymunedol wedi'i hen sefydlu ar Ynys Môn. Adnodd cymunedol aml-bwrpas yw Hwb Cymunedol sy'n darparu mynediad at gymorth ac amryw o wasanaethau sydd wedi eu dewis i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Mae hefyd yn cynnig canolbwynt a chyfleusterau i annog a hwyluso mwy o weithgarwch cymunedol lleol a dod â thrigolion ynghyd i wella ansawdd bywyd yn eu hardaloedd. Cam nesaf y gwaith yw sicrhau bod cynifer â phosibl o'n Hybiau Cymunedol ar Ynys Môn ar gael i bawb, a bod gweithgareddau a digwyddiadau yn rhoi cyfleoedd i integreiddio. Ar hyn o bryd mae gan yr Hybiau Cymunedol amryw o weithgareddau ar draws Ynys Môn sy'n cefnogi'r gwaith atal drwy sicrhau rhyngweithio cymdeithasol a mwy o gyfranogiad. Dyma rai enghreifftiau’n unig, Men's Shed, Grwpiau Cyfeillgarwch, Dementia Actif, Dosbarthiadau TG, Grwpiau Hanes, Celf a Chrefft. Yr Awdurdod Lleol hefyd sy’n ariannu swydd Swyddog Cyswllt a Chymorth Hwb Cymunedol Ynys Môn yn Age Cymru Gwynedd a Môn.

Prosiect o fewn Cynnal Gofalwyr yw Meddwl a Chynllunio Ymlaen a gaiff ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gynnal sgyrsiau gyda gofalwr am eu hanghenion presennol ac am y dyfodol. Mae cael sgwrs cyn gynted â phosibl yn golygu bod amser i nodi a threfnu unrhyw newidiadau neu addasiadau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r person y maent yn gofalu amdano, a nhw'u hunain fel y gofalwr.

Yn wreiddiol, ffurfiwyd Cynllun Tro Da Benllech a'r Cylch ym mis Awst 2000 a'i brif nod oedd cymell pobl leol i helpu pobl leol. Dros 20 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth, gan ddarparu cludiant cymunedol i drigolion lleol fynychu apwyntiadau meddygol, gweithgareddau hamdden, a chymdeithasol. Nid yn unig mae'r cynllun yn cefnogi unigolion i fynychu eu hapwyntiadau, ond mae'r sgwrs ffôn i drefnu'r daith, a'r daith car ei hun yn rhoi cyfle gwerthfawr i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gwirfoddolwyr ryngweithio. Mae Cynllun Tro Da Benllech hefyd wedi ychwanegu gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn i gefnogi unigolion sy'n dymuno derbyn galwad ffôn gan wirfoddolwr.

**Atal Cwympiadau**
Mae ein tîm Môn Actif yn darparu amrywiaeth o ddosbarthiadau gweithgareddau corfforol i bobl hŷn, sy'n cynnwys Atal Cwympiadau, Nofio am Ddim, Ymarferion Cadair. Mae cynyddu gweithgarwch ymysg pobl hŷn yn gallu gwyrdroi dirywiad corfforol a eiddilwch, a helpu pobl i fyw'n annibynnol wrth fynd yn hŷn. Mae hefyd yn ceisio addysgu a grymuso pobl â'r sgiliau a'r wybodaeth i ddeall manteision bod yn egnïol yn ogystal â chynnwys yr elfen gymdeithasol sydd yr un mor bwysig. Cynhelir y sesiynau yn ein Canolfannau Hamdden, hybiau Cymunedol, yn ogystal ag ar-lein.

**Canolfan Dementia**
Rydym ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Mencap Môn i sefydlu Canolfan Dementia yn Hwb Mencap, gan ei wneud yn hwb aml-ddefnydd sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu Dementia Gogledd Cymru yma ar Ynys Môn.

**Cynhwysiant Digidol**
Tynnwyd sylw at allgáu digidol ar ddechrau'r pandemig, ac felly mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau cymorth a dyfeisiau sydd ar gael i Hybiau a Grwpiau Cymunedol hyrwyddo Cynhwysiant Digidol. Unwaith eto, drwy'r Gronfa Integredig Ranbarthol rydyn ni wedi gallu ariannu swydd Fy Iechyd Ar-lein ym Medrwn Môn. Mae'r swydd yn cefnogi pobl i drefnu a chael apwyntiadau ar-lein, ond hefyd yn gwella sgiliau pobl i ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar-lein a fydd yn cefnogi eu hiechyd a'u lles.

Mewn partneriaeth ag Age Cymru Gwynedd a Môn a Medrwn Môn, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi creu Gwefan 'CYMUNED', sy'n neuadd bentref rithwir. Mae CYMUNED yn darparu gwybodaeth am weithgareddau Hybiau ar Ynys Môn, ac mae hefyd yn llwyfan i bartneriaid rannu gwybodaeth a gweithgareddau. Byddwn ni'n ceisio rhannu gwybodaeth am hygyrchedd pob Hwb yn y dyfodol agos.

**Hybu a mynd ati i annog gweithleoedd sy'n ystyriol o oedran**
Drwy ein gwaith Cymunedau Sy'n Ystyriol o Oedran, byddwn yn darparu sesiynau gwybodaeth a chyflwyniadau i hyrwyddo ac annog lleoedd gwaith i fod yn ystyriol o oedran. Codir ymwybyddiaeth a chefnogri lleoedd gwaith i wneud newidiadau cadarnhaol a fydd yn cefnogi nifer cynyddol y gweithwyr hŷn a gofalwyr yn ein gweithlu.

Byddwn yn gweithio gyda Gofalwyr Cymru a grwpiau Gofalwyr eraill i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth i gyflogwyr ar Ynys Môn ynglŷn â manteision cael Polisi Gofalwyr o fewn y sefydliad

**ADRAN 1E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**

**Gwerth cymdeithasol**

**Gwerth cymdeithasol a gwasanaethau ataliol**

Y cysyniad o werth cymdeithasol yn cynnwys y canlynol.

Y gwerth y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei brofi, wrth ddarparu gwasanaethau 'beth sy'n bwysig' a chyd-baratoi gyda phobl sy'n eu defnyddio.

Y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd ychwanegol y gall contract ddarparu yn ychwanegol at y gofynion craidd.

Y ddyletswydd sydd gan gynghorau lleol i hyrwyddo gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ataliol a ddarperir gan fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr, a'r trydydd sector (Llywodraeth Cymru, 2014).

Mae Canolfan Gydweithredol Cymru (2021) wedi paratoi canllaw i godi ymwybyddiaeth o fodelau posibl mentrau cymdeithasol a chydweithredol yn y sector cartrefi gofal.

Rydym am hyrwyddo 'modelau darparu gwerth cymdeithasol' sef:

Sicrhau canlyniadau llesiant.

Gweithio ar y cyd– gan roi llais cryf a rheolaeth go iawn i ddefnyddwyr.
Cael gogwydd ataliol ac sy'n lleihau dibyniaeth.

Ymgorffori cydweithio, cydweithredu a phartneriaeth.
Ychwanegu gwerth - cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Yn ogystal ag i hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynnal neu'n cryfhau lles gofalwyr di-dâl a chapasiti cymunedol y tu hwnt i'r farchnad – a hebddyn nhw does dim modd i'r farchnad fod yn sefydlog.

Mae pob sir yn cefnogi ystod o wasanaethau ataliol sy'n gallu helpu pobl i aros yn eu cartrefi ac osgoi'r angen am ofal preswyl neu nyrsio. Mae hyn yn cynnwys prosiectau rhanbarthol a ariennir trwy'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) gan gynnwys prosiectau atal cwympiadau a gofal camu i fyny / camu i lawr. Mae 'camu i fyny' yn swyddogaeth gofal canolradd i dderbyn cleifion o leoliadau cymunedol/cartrefi er mwyn atal derbyniadau acíwt diangen i'r ysbyty neu dderbyniadau cynamserol i ofal hirdymor. Mae 'Camu i Lawr' yn swyddogaeth gofal canolradd i dderbyn cleifion o ofal acíwt i'w hadsefydlu ac i helpu eu rhyddhau'n amserol o'r ysbyty.

Ymhlith y prosiectau mae; asiantau cymunedol, prosiectau prescreibio cymdeithasol a hwyluso sy'n cysylltu pobl â chymorth a gweithgareddau sydd ar gael yn eu cymuned leol. Maent hefyd yn cynnwys; gwasanaethau cyfeillio, eiriolaeth a seibiant.

Mae prosiectau Micro Ofal a Chatalyddion Cymunedol yn darparu cymorth i ficro ddarparwyr gael mynediad i'r marchnadoedd gofal. Defnyddir taliadau uniongyrchol i helpu pobl i gael mynediad at ofal personol ac i fyw mor annibynnol â phosibl.

Gweler adran 1D uchod am wasanaethau ataliol.

**Adnoddau**

Mae llawer o ddefnyddwyr yn teimlo bod y newid i gefnogaeth ddigidol wedi bod yn newid i'w groesawu. Nododd un ymatebwr fod pobl bellach yn fwy agored i ddefnyddio opsiynau TG gan fod mwy o ddulliau i ddarparu rhaglenni. Cytunodd ymatebwr arall â'r pwynt hwn. Egluron nhw fod nifer o wasanaethau statudol yr oedd pobl yn eu defnyddio wedi cau yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, roedd ymdrech enfawr yn y trydydd sector i fynd ar-lein, ac yn fwy felly, i sicrhau eu bod yn llwyddo i gael pobl ag anableddau i fynd ar-lein a theimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny. Roedd yr ymatebwr yn credu mai dull hybrid yw'r ffordd ymlaen erbyn hyn, a bydd helpu pobl i gynnal eu lles (lleihau unigrwydd ac unigedd) wrth ddarparu cymorth yn bwysig iawn yn y pen draw.

Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg ymgysylltu rhanbarthol eu bod yn credu bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith amrywiaeth BIPBC yn gweithio'n dda, yn ogystal â darparu cymhorthion, addasiadau a'r gwasanaeth cyfeillio a gynigir gan y prosiect Byw'n Dda gyda Cholled Clyw. Dywedodd un darparwr gwasanaeth fod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a mudiadau'r trydydd sector yn gadarn. Mae'n cefnogi'r broses o ddarparu ystod eang o wasanaethau o ansawdd, rhwydweithio a rhannu arfer da.

- Yn ogystal â hyn, ac oherwydd Covid-19, mae aelwydydd oedd yn cysgodi wedi dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr lleol i'w helpu gyda'u siopa ac felly wedi gorfod addasu eu rhestr siopa a'u cyllidebau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael eu cefnogi.

**Taliadau uniongyrchol**

Caiff contractau eu tendro drwy'r fframwaith rhanbarthol neu eu comisiynu drwy daliadau uniongyrchol.

Mae datblygiadau pellach ar y gweill i hybu'r broses recriwtio ac arfogi unigolion â gwybodaeth am fanteision dewis a rheolaeth. Mae gwaith o ran cynlluniau cydweithredol gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn cryfhau'r rhwydwaith taliadau uniongyrchol ar yr ynys.

**Hunan-gyllidwyr**

Nid yw cyfanswm y bobl sy'n ariannu eu lleoliadau cartrefi gofal eu hunain ar draws gogledd Cymru ar gael ar gyfer pob sir oherwydd bod polisiau Cynghorau'n gwahaniaethu. Ond mae'r ffigwr ar gyfer Ynys Môn i'w weld yn y tabl isod:

Tabl 15

| Darparwr | Gwag | ALl | ALl arall (rhanbarth) | ALl eraill (cenedlaethol) | ALl heb fod yng Nghymru | Byrddau Iechyd Cymru | Hunan gyllidwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cartref gofal 1(YM yn unig) | 2 | 14 | 3 | 0 | 1 | 17 | 15 |
| Cartref Gofal 2 (YM + Gwy) | 0 | 12 | 2 | 0 | 1 | 0 | 7 |
| Darparwr Gofal Cartref | 0 | 108 | 2 | 0 | 0 | 10 | 6 |
| Cyfanswm | 2 | 134 | 7 | 0 | 2 | 27 | 28 |

Mae lleoliadau'n ymwneud â darpariaeth mewn cartrefi gofal, mae pecynnau gofal yn ymwneud â darpariaeth mewn llety byw â chymorth.

**Gweithlu**

**<u>Gweithlu CSYM</u>**

Isod ceir tabl sy'n dangos trosiant staff o fewn adrannau Oedolion a Phlant Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â chyfartaledd yr Awdurdod:

Tabl 16

| | **Trosiant staff** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **Cyfartaledd** |
| Oedolion | 6% | 12% | 10% | 8% | 14% | 10% |
| Plant | 18% | 10% | 11% | 6% | 15% | 12% |
| Cyfartaledd yr Awdurdod | 11% | 11% | 9% | 6% | 10% | 9% |

Yn gyffredinol, mae trosiant staff wedi bod yn uwch o fewn yr adran Plant nag o fewn yr adran Oedolion ond mae cyfartaledd y ddwy adran yn uwch na'r cyfartaledd i'r Awdurdod.

Bu gostyngiad yng nghyfradd trosiant staff yn 2019/20 a 2020/21 o bosibl y pandemig. Fodd bynnag, yn 2021/22, cynyddodd cyfradd trosiant staff yn y ddwy adran. Mae'n debygol y byddai hyn wedi cyfrannu at y gyfradd trosiant staff uwch ar gyfer yr Awdurdod.

Mae'n bosibl bod y gyfradd trosiant staff gymharol uchel ar gyfer 2021/22 o ganlyniad i staff yn penderfynu symud ymlaen ar ôl y pandemig, a gallai fod yn arwydd o broblem cadw staff.


**Proffil oedran**

Isod ceir tabl o staff Gwasanaethau Cymdeithasol CSYM:

Tabl 17

| Gwasanaeth | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ | Nifer staff 31.03.22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion | 5 | 27 | 30 | 29 | 18 | 2 | 111 |
| % | 5% | 24% | 27% | 26% | 16% | 2% | |
| Darparwr | 14 | 49 | 43 | 82 | 138 | 27 | 353 |
| % | 4% | 14% | 12% | 23% | 39% | 8% | |
| Plant | 32 | 79 | 52 | 56 | 29 | 3 | 251 |
| % | 13% | 31% | 21% | 22% | 12% | 1% | |


Mae proffil oedran staff Gwasanaethau Oedolion yn dangos bod 77% o staff rhwng 35 a 64 mlwydd oed. Gellir gweld hyn o'r siart isod:




Oedran cyfartalog staff y gwasanaeth Oedolion yw 45 oed.


**Gwasanaeth Darparu**

Ond mae proffil oedran staff y Gwasanaeth Darparu yn wahanol gyda bron hanner y staff (47%) yn 55 oed neu'n hŷn. Mae cyfanswm o 39% o'r staff rhwng 55 a 64 oed. Gallai hyn arwain at brinder staff yn y dyfodol agos pan fydd aelodau staff y grŵp rhwng 55 a 64 oed yn ymddeol




**Plant**

Mae proffil oedran staff y Gwasanaeth Plant ychydig yn iau na staff y Gwasanaeth Darparu. Mae bron dwy ran o dair o'r staff (65%) rhwng 16 oed a 44 oed.




Oedran staff y Gwasanaeth Plant ar gyfartaledd yw 40 oed.

Tabl 18

| Adran | Oedran cyfartalog |
|---|---|
| Oedolion | 45 |
| Plant | 40 |
| Darparwr | 50 |

Mae cynllunio olyniaeth a recriwtio a chadw staff yn faterion sydd angen sylw a'u datrys.

Yn ôl arolwg darparwyr MSR, datgelodd yr ymatebwyr y materion y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd wrth recriwtio a chadw eu gweithlu, sef:

**Cyfradd tâl isel**
Mae lefel y sgiliau sydd eu hangen i weithio gydag oedolion ag anableddau dysgu pan fo ganddyn nhw ymddygiad heriol ac anghenion iechyd meddwl yn llawer uwch na'r gyfradd cyflog. Mae lefelau cyflog yn y sector yn isel, fel bod angen i nifer y staff sydd ar gael i lenwi'r oriau sy'n cael eu talu amdanynt, fod yn amrywiol iawn yn eu galluoedd. Does dim digon o arian i allu cael staff sy'n arbenigo mewn rhai o'r tasgau sydd eu hangen fel cydlynydd a chogydd. Mae angen i bob aelod o staff allu gwneud yr holl dasgau rhyngddynt ond yn ddelfrydol, yn unigol hefyd fel bod modd diwallu anghenion y preswylwyr bob amser.

**Cost gynyddol tanwydd**
Swyddi eraill sy'n talu cyfradd uwch o gyflogau. Oriau hir, mwy o bwysau ar staff oherwydd absenoldeb / salwch / Covid a phrinder cyffredinol o staff ar gael.

**Ardal wledig**
Mae recriwtio bob amser yn her, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol gan fod yr ardal yn eang.

## DATBLYGU'R GWEITHLU 2021-22

### Sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud – Ein Gweithlu a sut rydyn ni'n cefnogi eu rolau proffesiynol

Mae Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i Wasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn.

Ystyrir blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu a manteisir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth gyda'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun. Mae meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir fel y nodir yng Nghylchlythyr Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cafodd y cynllun a luniwyd unwaith eto ar gyfer 2021/2022 ei effeithio gan y pandemig, ond roedd y dulliau hyfforddi digidol o bell sydd wedi hen ennill eu plwyf a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn amhrisiadwy i sicrhau parhad digwyddiadau dysgu. Oherwydd y cyfyngiadau ar y gallu i gynnig sesiynau wyneb yn wyneb/dosbarth cafodd ambell raglen allweddol fodd bynnag eu heffeithio a'u cyfyngu h.y. sgiliau digidol; iechyd a diogelwch; codi a chario ac ati.

**Crynodeb**
Wrth i ni symud ymlaen, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i sicrhau bod cyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol ac amserol yn cael eu cynnig i staff ar draws y sector Gofal Cymdeithasol fel bod gan y gweithlu'r sgiliau, y rhinweddau a'r galluoedd i sicrhau ansawdd a lefel angenrheidiol y gwasanaeth.

Wrth nodi hyn, mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod chynlluniau llesiant yn parhau i fod yn ffocws yn y cynllun arfaethedig er mwyn cynnal a datblygu gwytnwch. Rhan allweddol o'r cynllun hefyd yw ail-gysylltu a bwrw ymlaen gyda'r strategaeth ddigidol er mwyn sicrhau y mynediad gorau bosibl at wybodaeth a chyfleoedd hyfforddiant.

**Gweithlu**

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o reolwyr cofrestredig cartrefi gofal i oedolion yng Ngogledd Cymru ar 1 Ebrill 2020. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos:

Bod 46 o reolwyr wedi gadael y gofrestr y llynedd a bod 31 wedi ymuno â hi, sef trosiant o 14%. Cymhareb merched i ddynion yw 6:1 ac mae 230 dros 51 oed.

Mae gan tua thraean o reolwyr cofrestredig rai sgiliau Cymraeg ac mae 20% yn rhugl.

Tabl 19: Nifer rheolwyr cofrestredig cartrefi gofal i oedolion, 31 Mawrth 2020

| Cyngor lleol | Nifer Rheolwyr Cartrefi Gofal |
|---|---|
| Ynys Môn | 30 |
| Gwynedd | 61 |
| Conwy | 67 |
| Sir Ddinbych | 66 |
| Sir y Fflint | 39 |
| Wrecsam | 47 |
| Gogledd Cymru | 310 |

Ffynhonnell: Gofal Cymdeithasol Cymru, Rheolwyr cofrestredig cartrefi gofal i oedolion

Nododd arolwg rhanbarthol a gynhaliwyd ar gyfer Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad fod 1 o bob 5 rôl gweithiwr gofal yn wag ar draws y rhanbarth, gan gynnwys uwch weithwyr gofal a rolau gweithwyr gofal.

Ers cyflwyno Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae rhai pryderon fod mwy o gartrefi'n cynnig gofal preswyl a gofal preswyl pobl hŷn (EMI) heb ddarparu cyfleusterau ar wahân i wahanol breswylwyr o reidrwydd ac o bosibl heb fod â setiau sgiliau a threfniadau addas ar waith.

Mae cynnydd mewn anghenion hyfforddi oherwydd y diffyg hyfforddiant yn ystod y pandemig, sy'n cynnwys hyfforddiant sylfaenol fel sesiynau cynefino.

Mae rhai pryderon y gallai staff fod wedi symud oddi wrth ethos ailalluogi oherwydd pwysau yn ystod y pandemig. Er enghraifft, unigolion yn dechrau datgyflyru oherwydd diffyg gweithgarwch a staff ddim yn hyrwyddo ffurfiau syml ar annibyniaeth, fel mynd i'r tŷ bach heb gymorth.

**Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol**

Gweler yr Asesiad Effaith

**ADRAN 1F – CRYNODEB O'R DDARPARIAETH A REOLEIDDIR AR GYFER Gwasanaethau Cartrefi Gofal (Oedolion)**

- Mae'r galw am leoliadau cartrefi gofal yn debygol o gynyddu
- Rhagweld y bydd y boblogaeth dros 65 a dros 85 yn cynyddu
- Mae cyfanswm o 118 o unedau Gofal Ychwanegol i gyd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ac mae 71 uned o Lety â Chymorth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae'r galw yn uwch na'r capasiti o ran Gofal Ychwanegol a Llety â Chymorth.
- Mae'r galw am Dai Gofal Ychwanegol yn uwch na'r capasiti presennol.

- Recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Cynnydd mewn costau byw.
- Mae'r gweithlu yn Ynys Môn yn heneiddio.

## PENNOD 2 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Cartref Gofal (Plant)

### ADRAN 2A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD

Materion digonolrwydd i rai plant
Yn ôl Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) roedd problemau digonolrwydd o ran dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys:

- Gofal seibiant
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau brodyr a chwiorydd
- Argyfyngau

Mae sefydlogrwydd y gweithlu'n broblem, gyda galw cynyddol am leoliadau a'r ffaith nad yw nifer y lleoliadau a ragwelir yn bodloni'r galw a ragwelir.

Hwylusodd gwefan Maethu Cymru'r cyfle i 22 Awdurdod Lleol ddod at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o arbenigedd maethu lleol. Mae'n canolbwyntio ar gael mwy o effaith ar lefel genedlaethol, gan gydweithio gyda gofalwyr maeth, er mwyn creu dyfodol gwell i blant lleol. Rhannu un brand ac, un llais, i gryfhau'r drefn recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

### ADRAN 2B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

**Sefydlogrwydd y farchnad**

Mae'r gwaith hyd yma ar ddatblygu '**Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru**', wedi adnabod y canlynol:

Bod cynnydd yn nifer y plant sy'n cael gofal a chymorth
Yn 2020, roedd bron i 2,900 o blant yn cael gofal a chymorth ar draws gogledd Cymru. Mae hyn yn 2,300 o blant ar gyfer pob 100,000 o blant yn y boblogaeth, sydd ychydig yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan o 2,550 o blant mewn angen ar gyfer pob 100,000 o blant yn y boblogaeth. Mae'r niferoedd yn amrywio ar draws Gogledd Cymru a dros amser heb unrhyw duedd glir.

Yn 2018-19, roedd 575 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol, ar gyfer Gogledd Cymru yn gyffredinol, mae'r lefel wedi aros yn debyg, gyda gostyngiad bach o 3% (15 o blant). Oherwydd y niferoedd bychan dan sylw nid oes modd nodi tueddiadau clir gan y gallai newid dramatig o'r naill flwyddyn i'r llall, er enghraifft, ddeillio o ganlyniad i un teulu'n symud i ardal neu ei gadael. Does dim disgwyl i nifer y plant sy'n derbyn gofal barhau i gynyddu.

Er bod y ffigyrau cyffredinol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal wedi dangos cynnydd cyson o flwyddyn i flwyddyn hyd yn hyn does dim disgwyl i hyn barhau yn y dyfodol (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).
Roedd plant sydd wedi bod mewn gofal yn fwy agored i'r pandemig
Yn yr Adolygiad Cyflym o'r Asesiad Anghenion Poblogaeth (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2020) tynnwyd sylw at effaith y pandemig ar blant sydd wedi bod mewn gofal

a oedd yn cynnwys unigrwydd ac unigedd a thrafferthion o ran mynediad at wasanaethau. Yng Ngogledd Cymru, roedd yna ostyngiad cychwynnol mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant ond yna fe ddychwelodd y gyfradd atgyfeiriadau i'r lefelau disgwyliedig. Bu cynnydd yn lefel yr ymweliadau monitro i aelwydydd lle'r oedd plant ar y gofrestr amddiffyn plant - ymweliadau wythnosol yn lle'r amserlen 10 diwrnod.

Cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal oedd newydd eu lletya

Yn 2021, roedd 1,470 o blant lleol a phobl ifanc yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru, sy'n debyg i'r darlun cenedlaethol ar draws Cymru gyfan. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 350 yn ystod y cyfnod rhwng 2017 a 2021. Yng Ngogledd Cymru mae nifer is o blant sy'n derbyn gofal i bob 100,000 o'r boblogaeth o gymharu â gweddill Cymru, ond mae amrywiaethau sylweddol ar draws y rhanbarth, o 800 yn Sir y Fflint i 1,300 yn Wrecsam. Mae'n bwysig nodi bod y nifer yn amrywio'n gyflym ar hyn o bryd gyda chynnydd sylweddol mewn pobl ifanc sydd newydd eu lletya.

Trosolwg o'r farchnad

Er gwaethaf ymrwymiad a rennir i atal ac i sicrhau ymyrraeth gynnar, fe fydd yna wastad ganran fach o blant ag arnynt angen lleoliadau preswyl. Yn dibynnu ar anghenion gofal, gall hyn fod mewn:

1. Cartrefi Gofal Preswyl gyda staff gofal cyflogedig
2. Uned Llety Diogel
3. Uned Teulu Preswyl

Rhoddodd y diweddariad o'r Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) ddadansoddiad o ddarpariaeth gofal preswyl yng Ngogledd Cymru. Ar 31 Mawrth 2020, roedd 70 o blant y Gogledd yn byw mewn cartref gofal. Cynyddodd cyfanswm y plant sy'n byw mewn cartref plant 133% yng Ngogledd Cymru rhwng 2016 (30 o blant) a 2020 (70 o blant).

Mae prinder darparwyr preswyl lleol

Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd ADSS Cymru adroddiad oedd yn edrych ar yr achos dros ail-gydbwyso darpariaeth gofal cymdeithasol yng Ngwasanaethau Plant (ADSS Cymru, 2020). Nododd yr adroddiad fod anghydbwysedd sylweddol o bŵer yn y farchnad gofal preswyl plant, sy'n effeithio ar leoliadau a dewis, y gallu i baru anghenion plentyn orau bosibl, y llwyth gwaith, a'r canlyniadau i blant. Heb ail-gydbwyso, bydd dibyniaeth barhaus ar ddarparwyr preifat, ac mewn rhai achosion, bydd cost uchel, a gwerth dadleuol am arian, mwy o ansefydlogrwydd i blant a chanlyniadau gwael. Wrth ail-gydbwyso dylid wastad anelu at ddatblygu marchnadoedd sefydlog, gwydn, sy'n cynnig opsiynau a dewis, gofal o ansawdd, llai o achosion o leoliadau'n chwalu, a chanlyniadau da i blant.

Mae galw cynyddol am leoliadau preswyl a diffyg cyflenwad o ddarparwyr preswyl lleol wedi arwain at 'farchnad darparwyr'. Mae darparwyr yn gallu bod yn fwy dethol wrth ddewis y bobl ifanc y maen nhw'n eu derbyn. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae'r rhai sydd â lefelau uwch o anghenion cymhleth a heriau ymddygiadol yn anos eu lleoli. Gall hyn fod oherwydd sgil / arbenigedd y darparwr, pryder ynghylch sut y gallai ymddygiad effeithio ar drigolion eraill a'r gymuned leol, a phryderon y gallai hyn oll effeithio ar ganlyniadau'r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â'r pwysau ariannol, mae pwysau hefyd ar amser staff. Os bydd gwely'n dod ar gael, efallai y bydd nifer o wasanaethau lleol yn ceisio ei sicrhau, gan arwain at gystadleuaeth.

Mae'r galw uchel hwn yn rhoi pwysau ar gyllid awdurdodau lleol, gyda darparwyr yn gallu pennu cost y ddarpariaeth. Mae perygl y bydd gwariant ar leoliadau y tu allan i'r sir yn cynyddu wrth i gostau lleoliad gynyddu mewn marchnad a arweinir gan y galw.

Ar hyn o bryd mae Gogledd Cymru yn ddibynnol ar y sector annibynnol ar gyfer darpariaeth gofal preswyl i blant. Defnyddiwyd y Rhaglen Trawsnewid Plant a Chyllid Gofal Integredig i gynyddu darpariaeth tai ac i ariannu gweithgaredd ataliol. Mae awdurdodau lleol yn parhau i edrych ar gyfleoedd i hwyluso dull gwahanol i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir sy'n arwain at bwysau ariannol anghynaladwy i wasanaethau cymdeithasol ac addysg.

Mae prinder darpariaeth arbenigol i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth

Yn 2019 roedd dros hanner y plant a roddwyd mewn gofal preswyl yn cael gofal yn bennaf oherwydd anghenion emosiynol ac ymddygiadol ac roedd dwy ran o dair o'r plant hynny rhwng 13 ac 16 oed (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019).

Mae yna brinder sylweddol o leoliadau arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol sylweddol yng Ngogledd Cymru. Mae plant yn cael eu lleoli yn aml yn Lloegr, ymhell oddi wrth eu teuluoedd. Mae'r ddarpariaeth yn Lloegr yn gyfyngedig. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cael trafferth lleoli plant ag anghenion difrifol gan fod darparwyr yn tueddu i gadw llefydd wrth gefn i geisio lleoli plentyn ag anghenion llai difrifol.

Efallai y bydd rhai plant wedi derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg ac felly'n cael trafferth ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gynorthwyydd i ddarparu cymorth ychwanegol.

Mae pobl ifanc sydd mewn argyfwng yn aml yn mynychu Damweiniau ac Achosion Brys ac yn aros mewn lleoliadau ysbyty mewn sefyllfa argyfyngus.

Mae prinder llety brys

Mae gwasanaethau cymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig yn wynebu mwy o bwysau i ddod o hyd i leoliadau mewn argyfyngau. Yn lleol, mae sefyllfaoedd yn codi pan na ellir dod o hyd i leoliad ar gyfer plentyn. Mae hyn yn golygu bod angen datblygu gofal dros dro i ddarparu llety a chefnogaeth nes y gellir dod o hyd i leoliad. Gall y sefyllfaoedd hyn ddeillio o anawsterau wrth leoli pobl ifanc ar ôl i berthnasau chwalu gartref, wrth drosglwyddo plant lle mae'r heddlu wedi defnyddio eu pwerau gwarchodaeth i symud plant a diffyg gwelyau diogel i bobl ifanc sydd ag anghenion lefel uchel a pheryglon o ran lles.

Mewn sefyllfaoedd brys, mae'n bwysig pwysleisio mai fel dewis olaf y defnyddir y trefniadau hyn, oherwydd amgylchiadau eithriadol ac am gyfnod byr nes bod modd dod o hyd i ddarpariaeth a reoleiddir. Ymhlith y mesurau diogelu ar gyfer lleoliadau nas rheoleiddir mae angen cymeradwyaeth uwch reolwyr, hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel ein rheoleiddiwr, cynllun gofal a chymorth, cwblhau ymweliadau gwaith cymdeithasol, cynnwys Swyddogion Adolygu Annibynnol a goruchwylio gweithwyr cymdeithasol i edrych ar drefniadau / cynlluniau symud ymlaen.

Gall y trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith mewn argyfwng fod yn gyfystyr â lleoliadau nas rheoleiddir. O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mae'n drosedd i unigolyn ddarparu gwasanaeth a reoleiddir heb fod wedi ei gofrestru mewn perthynas â'r gwasanaeth hwnnw.

Trosolwg o'r farchnad leol

Roedd y Datganiad ar Sefyllfa'r Farchnad 2021 yn gwerthuso'r farchnad ac yn nodi'r hyn sy'n digwydd, y gwasanaethau preswyl sydd eu hangen ar gyfer plant yn y rhanbarth a dyheadau ar gyfer darparwyr yn y dyfodol.

- Mae nifer y plant sy'n byw mewn cartref plant wedi cynyddu, mae rhai o'r plant hyn yn gallu byw mewn lleoliad maeth ond ar hyn o bryd does dim digon o ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau cywir i'w cefnogi.

- Mae rhai o'n plant sy'n byw mewn cartref plant yn byw y tu allan i ffin yr awdurdod lleol er bod digon o gapasiti o fewn yr ardal.

Yr hyn nad oes ei angen arnom:

- Nid ydym yn annog trefniadau i ehangu darpariaeth yng Ngogledd Cymru gan ddarparwyr annibynnol gofal preswyl ar gyfer plant nad yw eu gwasanaethau wedi'u datblygu i ddiwallu anghenion ein plant.
- Nid ydym am i ddarparwyr weithredu cartrefi plant heb fodel clir o ofal na darparu darpariaeth safonol yn unig.

Yr hyn yr ydym ei eisiau:

- Rydym eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a darparwyr presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau gofal a fydd yn diwallu anghenion ein plant.
- Rydym eisiau gweithio gyda darparwyr newydd a darparwyr presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn ffordd sydd, nid yn unig yn gwella canlyniadau i'n plant, ond hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Rydym eisiau darparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am ein plant sydd â nifer o anghenion uchel ac sy'n gallu darparu llety amgen i sicrhau y darperir ar gyfer eu lles.
- Rydym eisiau darparwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â ni yn ystod cyfnodau o bontio gan gynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwr maeth neu ailuno gyda'u teulu.
- Mae diwylliant Cymraeg yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac rydym eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

**Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant y Darparwr**

Amherthnasol

**ADRAN 2C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD**

**Ystyried Ansawdd y Farchnad**

**Ystyried ansawdd y farchnad**

**Rhanbarthol**

Tîm Cenedlaethol Cymru yw Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru, sy'n gweithio i gefnogi Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Awdurdodau Lleol i gomisiynu a threfnu contractau ar gyfer lleoliadau i Blant sy'n Derbyn Gofal. Nhw sy'n rheoli Fframwaith Preswyl Cymru Gyfan ar gyfer darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl ifanc sy'n derbyn gofal ledled Cymru.

Mae monitro fframwaith prosesau Sicrhau Ansawdd a Rheoli Risg o fewn y Fframwaith yn nodi tueddiadau mewn perthynas â darparwyr a materion.

**Ynys Môn**

Mae gan Ynys Môn ddau Gartref Grŵp Bach cofrestredig – o dan yr enw "Cartrefi Clyd Môn" - sydd wedi eu cofrestru ac yn weithredol – Cartref Clyd Bryn Hwfa, a Chartref Clyd Llanfairpwll, - mae'r ddau wedi bod yn gweithredu i'w capasiti llawn drwy'r flwyddyn, gan

weithio gyda phobl ifanc ag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma yn ystod eu plentyndod cynnar ac yn cael trafferth gydag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, mae Ynys Môn ar hyn o bryd ar fin agor trydydd Cartref Clyd Môn yng Nghaergybi (Caergybi), sef cartref grŵp bach arbenigol, a fydd yn gyfle i gynnig seibiant i blant gyda chefnogaeth y gwasanaethau arbenigol i blant.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd pedwerydd eiddo'n cael ei agor. Mae hwn yn dal i fod yn ei gam cynllunio a chofrestru -Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

Mae prosiect arall yn y cam cynllunio a chofrestru, sef Cartref Clyd Môn Llangristiolus, a fydd yn darparu cyfleusterau modern sy'n arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer ei Wasanaethau Plant Arbenigol. Ar ôl agor y ddau gartref newydd hyn yn 2022, bydd llai o leoliadau tu allan i'r sir yn cael eu defnyddio.

Cafodd y cyfleusterau yng Nghartref Clyd Bryn Hwfa yn Llangefni a Chartref Clyd Llanfairpwll eu harchwilio gan AGC yn 2020 a barnwyd bod y ddau yn Rhagorol.

**Tueddiadau Presennol a’r rhai a Ragwelir**

Tueddiadau presennol a’r rhai a ragwelir

- Heriau wrth gael mynediad at welyau lles diogel a dewisiadau lleol eraill sy'n darparu ymyrraeth argyfwng a dargyfeirio o lety diogel.
- Heriau o ran cael gafael ar leoliadau lleol priodol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.
- Angen trefniadau a chyfleusterau gofal tymor byr ychwanegol a phriodol i blant. Mae hyn hefyd yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol ac ar adegau eu brodyr a’u chwiorydd.
- Yn aml mae gan blant 16+ oed anghenion cymhleth ac mae opsiynau ar gyfer eu lleoli’n gyfyngedig, mae angen dull strategol o gefnogi anghenion llety a chymorth pobl ifanc rhwng 16-18 oed ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal.

**Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad**

Effaith arferion comisiynu ar y farchnad

Defnyddir Fframweithiau Cymru Gyfan i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws amryw o fathau o leoliadau. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu partneriaethau lefel strategol gyda darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Defnyddir y fframweithiau lle mae naill ai Dyletswydd Digonolrwydd y Rhanbarthau yn golygu bod angen comisiynu allanol neu lle ceir yr ansawdd, y canlyniadau a’r gwerth am arian gorau trwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu gwasanaethau mewnol. Rheolir Fframweithiau Cymru Gyfan gan Gonsortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru.


Yr adnodd a ddefnyddir ar gyfer e-dendro lleoliadau maethu a phreswyl allanol yw'r Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) sy'n cynnig trefn dryloyw o gomisiynu lleoliadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y lleoliadau a reoleiddir o fewn y Fframwaith ac nad ydynt yn y Fframwaith gan sicrhau y cydymffurfir â'r canllawiau caffael a'r rheoliadau perthnasol sy'n sail i gomisiynu.

| **Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg** |
|---|
| Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg<br><br>Efallai y bydd rhai plant wedi derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg ac felly'n cael trafferth ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gynorthwyydd i ddarparu cymorth ychwanegol. Does gan blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r wlad oherwydd diffyg lleoliadau arbenigol mo'r dewis i dderbyn gwasanaethau gofal yn y Gymraeg. Mae hon yn broblem arbennig yn Ynys Môn. |
| **Cynaliadwyedd y ddarpariaeth** |
| O dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar Ynys Môn i ystyried llesiant unigolion wrth greu cynlluniau cynaliadwyedd. Bydd nodau llesiant y ddeddf yn llywio pa mor ddigonol fydd y trefniadau ar gyfer dod o hyd i lety amgen, gan ystyried ei effaith ar les yr unigolyn yn ogystal â'i effaith ehangach ar gynaliadwyedd yng Nghymru. |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| Er bod nifer y plant 'sy'n derbyn gofal' yn Ynys Môn wedi sefydlogi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r galw am leoliadau i gefnogi plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth wedi parhau, tra nad yw'r farchnad wedi ymateb mewn ffordd all gynnig lleoliadau ac sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth.<br><br>Y prif risg o ran yr ansefydlogrwydd hwn yn y farchnad yw'r pwysau cynyddol i ddefnyddio trefniadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn bwysau/risg a wynebir ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda darparwyr ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn gyson i liniaru risg a chynnig cefnogaeth i sicrhau y cedwir at y rheoliadau yn y dyfodol. |

| **ADRAN 2D – DARPARIAETH HEB EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDAF YN BAROD etc]** |
|---|
| Pan fydda i'n Barod:<br><br>Mae yna ddeg o drefniadau Pan fydda i'n Barod ar hyn o bryd (tua 17% o'r plant sy'n derbyn gwasanaethau gofal sy'n gadael).<br><br>Camu i lawr o leoliad diogel:<br><br>Mae gan yr Awdurdod brofiad o un achos o gamu i lawr o lety diogel o fewn y deuddeg mis diwethaf. Mae'r profiad yn dangos diffyg cenedlaethol sylweddol mewn sefydliadau preswyl sydd â'r adnoddau i gefnogi anghenion y garfan hon o bobl ifanc. |

| ADRAN 2E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD<br><br>Gwerth cymdeithasol |
|---|
| Mae rhywfaint o gyfeirio at ddefnyddio mentrau cymdeithasol/mentrau cydweithredol fel darparwyr lleoliadau maeth annibynnol |
| **Adnoddau** |
| Mae ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i fuddsoddi ym mhrosiect cartrefi grŵp bach wedi talu ar ei ganfed. Hyd yn hyn, mae ansawdd y gofal a ddarparwyd wedi cael ei archwilio'n annibynnol (AGC) a barnwyd fod y gofal a ddarperir o safon uchel. Yn ogystal â hyn, ni chafwyd unrhyw achos o leoliadau'n chwalu hyd yma. |
| **Taliadau uniongyrchol** |
| Byddai unrhyw gymorth ôl-fabwysiadu a aseswyd cyn lleoliad y Plentyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Cymorth Mabwysiadu a gytunwyd ar gyfer y plentyn unigol.<br>Cyfrifoldeb y rhieni mabwysiadol fyddai ariannu gwasanaethau gofal plant cyffredinol y gallai fod eu hangen h.y. gwarchodwr plant neu feithrinfa ddydd breifat.<br><br>Os yw plentyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol ac yn cael ei leoli gyda gofalwyr maeth cofrestredig, byddai ei 'anghenion gofal a chymorth' yn cael eu hasesu ymlaen llaw ac yn barhaus gan weithiwr cymdeithasol y plentyn a Swyddog Adolygu Annibynnol drwy broses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal.<br><br>Byddai unrhyw gymorth a gafodd ei asesu cyn lleoliad y Plentyn yn cael ei gynnwys yn y Cytundeb Lleoliad a'r cynllun Gofal a Chymorth.<br><br>Mae'n annhebygol y byddai'r taliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd gan fod y mwyafrif sy'n derbyn y Taliadau Uniongyrchol yn deuluoedd plant anabl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwywyr personol i ddarparu 'seibiant i ofalwyr' neu 'ofal a chefnogaeth' drwy Asesiad Gofalwyr a/neu Asesiad Gofal a Chymorth. Gellir adnabod Gofalwyr Maeth fel 'Gofalwyr Cyflogedig'.<br><br>Hyd yn hyn does dim pecynnau Taliadau Uniongyrchol wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r Broses Fabwysiadu cyn neu ar ôl i blentyn gael ei nodi a'i baru â rhieni mabwysiadol.<br>Fodd bynnag, gallai'r math hwn o gymorth ddiwallu anghenion asesiedig plant unigol a'u teuluoedd ac felly mae'n faes y dylid gwneud rhagor o ymchwil iddo a'i archwilio fel opsiwn gwasanaeth.<br><br>Nid oes unrhyw becynnau Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r plant a'u gofalwyr maeth cyn neu ar ôl i blentyn gael ei nodi a'u paru â'r teulu maeth.<br>Fodd bynnag, gallai'r math hwn o gymorth ddiwallu anghenion asesiedig plant unigol a'u teuluoedd ac felly mae'n faes dylid gwneud rhagor o ymchwil iddo a'i archwilio fel opsiwn gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. |

| **Hunan gyllidwyr** |
|---|
| Mae'n bosibl y gallai rhieni mabwysiadol ariannu gwasanaethau therapiwtig preifat ar gyfer y plant neu nhw eu hunain pe baen nhw'n teimlo nad oedd y gwasanaethau oedd eu hangen arnynt ar gael neu nad oedd mynediad iddynt drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Asiantaeth Fabwysiadu, na'r Bwrdd Iechyd.<br><br>Os yw plentyn yn cael ei gymryd i ofal yr Awdurdod Lleol byddai ei anghenion asesiedig yn cael eu hadnabod a'u diwallu gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd.<br><br>Mae'n annhebygol y byddai pecyn gofal a chymorth yn cael ei hunan gyllido gan ofalwyr maeth oni bai i gael mynediad at rai mathau o wasanaethau gofal/gweithgaredd plant cyffredinol i wella ansawdd bywyd a phrofiadau'r plentyn. |
| **Gweithlu** |
| Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem. Mae galw cynyddol am leoliadau ac nid yw nifer y lleoliadau a ragwelir yn diwallu'r galw a ragwelir.<br><br>Mae proffil oedran staff y Gwasanaeth Plant ychydig yn iau na staff y Gwasanaeth Darparu. Mae bron i ddwy ran o dair y staff (65%) rhwng 16 a 44 oed. |




Oedran cyfartalog staff y Gwasanaeth Plant yw 40 oed.

Mae cynllunio olyniaeth a recriwtio a chadw staff yn faterion sydd angen sylw a'u datrys.

Yn arolwg darparwyr MSR, datgelodd yr ymatebwyr y materion y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd gyda recriwtio a chadw eu gweithlu, sef:

**Cyfradd tâl isel**
Mae lefel y sgiliau sydd eu hangen i weithio gyda phlant ag anableddau dysgu pan fo ganddyn nhw ymddygiad heriol ac anghenion iechyd meddwl yn llawer uwch na'r gyfradd cyflog. Mae lefelau cyflog yn y sector yn isel, fel bod angen i nifer y staff sydd ar gael i lenwi'r oriau sy'n cael eu talu amdanynt, fod yn amrywiol iawn yn eu galluoedd. Does dim digon o arian i allu cael staff sy'n arbenigo mewn rhai o'r tasgau sydd eu hangen fel cydlynydd a

chogydd. Mae angen i bob aelod o staff allu gwneud yr holl dasgau rhyngddynt ond yn ddelfrydol, yn unigol hefyd, fel bod modd diwallu anghenion y preswylwyr bob amser.

Cyflogaeth arall sy'n talu cyfradd uwch o gyflog. Oriau hir, mwy o bwysau ar staff oherwydd absenoldeb / salwch / Covid a phrinder cyffredinol o staff ar gael.

**Ardal wledig**
Mae recriwtio bob amser yn her, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol gan mai'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu yn eang.

**Cynnydd yng nghostau tanwydd**
Mewn ardaloedd gwledig gall cost teithio i becynnau gofal a rhyngddynt fod yn ffactor yn enwedig gan fod yn rhaid darparu pecynnau ar adegau a bennwyd ymlaen llaw.

**Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol**

Gweler Asesiad Effaith

**ADRAN 2F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER DARPARIAETH A REOLEIDDIR Gwasanaethau Cartrefi Gofal (Plant) O RAN CYFLAWNI'R DDYLETSWYDD DIGONOLRWYDD: PLANT SY'N DERBYN GOFAL [Adran 6 o'r SSWA]**

Heriau:

- Cynyddu'r galw am gartrefi gofal ar draws Cymru – 133% 2016-20
- Rhagweld nifer y lleoliadau i beidio â bodloni'r galw yn y dyfodol
- Prinder darparwyr lleol
- Prinder darparwyr o ran plant â chyflwyniadau emosiynol/ymddygiadol cymhleth
- Prinder lleoliadau brys

Effaith Bosibl:

- Plant ag anghenion ddim yn cael eu diwallu
- Cynnydd mewn symudiadau lleoliad ar gyfer plant mwyaf agored i niwed
- Mwy o ddefnydd o leoliadau anrheoledig
- Cynnydd mewn costau wrth i'r galw alltudion gyflenwi

Lliniaru:

- Defnyddio Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru i reoli'r farchnad a risgiau
- Prosiect Tai Grŵp Bach – dau gartref ar waith â dau arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2022
- Defnydd effeithiol o 'When I'm Ready'

**ADRAN 2G – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER DARPARIAETH A REOLEIDDIR Gwasanaethau Cartrefi Gofal (Plant)**

Defnyddwyr y Gwasanaeth:

- Mwy o alw ar draws yr ystod o ofal a chymorth hyd at blant 'gofal sy'n derbyn gofal'
- Effaith pandemig ar blant a theuluoedd agored i niwed
- Effaith rhagamcanol costau byw ar lefelau tlodi

Adnoddau:

- Cyflenwad y farchnad ddim yn ateb y galw, yn enwedig i'r rhan fwyaf o blant 'sy'n derbyn gofal' - yn debyg ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- Gorddibyniaeth ar y sector annibynnol
- Mwy o ddibyniaeth ar leoliadau anrheoledig anghyfreithlon
- Pwysau ar gyllidebau oherwydd costau cynyddol y darpariaethau

Ateb yr Her:

- Rydym am weithio gyda darparwyr newydd a darparwyr presennol a'u cefnogi i ddarparu modelau o ofal a fydd yn diwallu anghenion ein plant.
- Rydym am weithio gyda darparwyr newydd a darparwyr presennol a'u hannog i ddatblygu eu busnesau mewn ffordd sydd, yn ogystal â gwella canlyniadau i'n plant, hefyd yn darparu gwerth cymdeithasol ehangach i'n cymunedau.
- Rydym am i ddarparwyr sy'n gallu gofalu'n ddiogel am ein plant sydd â sawl anghenion uchel ac sy'n gallu darparu llety arall i sicrhau darpariaeth les.
- Rydym am i ddarparwyr a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â ni yn ystod cyfnodau o bontio gan gynnwys camu i lawr i fyw gyda gofalwr maeth neu ailuno gyda'u teulu.
- Mae diwylliant Cymraeg yn bwysig iawn i ni fel rhanbarth ac rydyn ni eisiau mwy o ddarparwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg
- Rhagor o weithio'n fewnol i ddatblygu prosiect tai grŵp bach

## PENNOD 3 – MATHAU O DDARPARIAETH RHEOLEDIG: Gwasanaethau Llety Diogel (Plant)

| ADRAN 3A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD |
|---|
| **Llety diogel**<br><br>Nid oes darpariaeth llety diogel i blant yn Ynys Môn nac yng Ngogledd Cymru. Mae cartref plant diogel cenedlaethol pwrpasol yn Ne Cymru. Gall Hillside ddarparu ar gyfer hyd at 18 o blant a phobl ifanc o'r ddau ryw rhwng 12 ac 17 oed.<br><br>Mae'r plant a leolir mewn llety diogel yn cael eu lleoli trwy orchymyn llys ac mae'r niferoedd yn isel iawn, rhwng 0 a 2 fesul awdurdod bob blwyddyn heb unrhyw dueddiad clir. Nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth hon yng Ngogledd Cymru.<br><br>Felly, nid yw digonolrwydd y farchnad yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. |

| ADRAN 3B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD |
|---|
| Ddim yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. |
| **Camau a gymerwyd o ganlyniad i fethiant darparwyr** |
| Ddim yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. |

| ADRAN 3C – FFACTORAU SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD ERAILL |
|---|
| **Ystyriaeth o Ansawdd y Farchnad** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Tueddiadau Presennol ac a Ragwelir** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Effaith ar arferion Comisiynu ar y farchnad** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Darpariaeth o'r gwasanaeth yn Gymraeg** |
| Ddim yn berthnasol |

| **Cynaliadwyedd y ddarpariaeth** |
| --- |
| Ddim yn berthnasol |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| Ddim yn berthnasol |

| **ADRAN 3D - DARPARIAETH HEB EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN PAN FYDDAF YN BAROD ac ati]** |
| --- |
| Ddim yn berthnasol |

| **ADRAN 3E – YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**<br><br>**Gwerth cymdeithasol** |
| --- |
| Ddim yn berthnasol |
| **Adnoddau** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Taliadau uniongyrchol** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Hunan Arianwyr** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Gweithlu** |
| Ddim yn berthnasol |
| **Cydraddoldeb, dyletswydd cymdeithasol-economaidd a hawliau dynol** |
| Ddim yn berthnasol |

| **ADRAN 3F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Llety Diogel (I Blant) DARPARIAETH WEDI'I RHEOLEIDDIO er mwyn BODLONI'R DDYLETSWYDD DIGONEDD: PLANT SY'N DERBYN GOFAL [Adran 6 o'r SSWA]** |
|---|
| Ddim yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. |

| **ADRAN 3G – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Llety Diogel (I Blant) DARPARIAETH WEDI'I RHEOLEIDDIO** |
|---|
| Ddim yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. |

## PENNOD 4 - MATH O DDARPARIAETH REOLEDIG: Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd

### ADRAN 4A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD

Mae Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd yn llety lle mae rhieni a phlant yn aros gyda'i gilydd i gael eu hasesu / derbyn gofal.

Mae'r Tîm Trawsnewid ar Ynys Môn yn wasanaeth newydd a fydd yn darparu darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn.

Bydd y Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd naill ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu lle mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. .

Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd practis, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cymorth. Maent yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc lle gallai cyflwr niwrolegol fod yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned.

### ADRAN 4B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a BIPBC (Gorllewin)

Nid oedd digon o alw i gyfiawnhau comisiynu uned breswyl i deuluoedd amser llawn. Mae'r capasiti presennol yn cael ei gyflawni'n ddigonol.

**Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant Darparwr**

Amherthnasol

### ADRAN 4C – FFACTORAU SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD ERAILL

**Ystyried Ansawdd y Farchnad**

Mae gan CSYM ddau Gartref Grŵp Bach - "Cartrefi Clyd Môn" - sydd wedi'U cofrestru ac yn rhedeg - Cartref Clyd Bryn Hwfa, a Chartref Clyd Llanfairpwll, - y ddau wedi bod yn gweithredu i'w llawn gapasiti drwy gydol y flwyddyn, gan weithio gyda phobl ifanc gydag anghenion gofal cymhleth sydd wedi dioddef trawma plentyndod cynnar ac sy'n cael trafferth ag anhwylderau ymlyniad.

Yn dilyn llwyddiant y ddau gartref cyntaf, mae CSYM ar hyn o bryd ar fin agor ei thrydydd Cartref Clyd Môn yng Nghaergybi, cartref grŵp bach arbenigol, a fydd yn gyfle i roi seibiant i blant a gefnogir gan y gwasanaethau plant arbenigol.

Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd CSYM yn gweithio tuag at agor y pedwerydd eiddo, sydd yn y cyfnod cynllunio a chofrestru ar hyn o bryd - Cartrefi Clyd Môn Rhosybol.

| |
|---|
| Mae CSYM hefyd yng nghyfnod cynllunio a chofrestru Cartref Clyd Môn Llangristiolus, a fydd yn gyfleuster modern yn arbenigo mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer ei Wasanaethau Arbenigol Plant. Gyda'r 2 gyfleuster newydd hyn yn agor yn 2022, bydd lleoliadau y tu allan i'r sir yn cael eu lleihau ymhellach.<br><br>Cafodd y cyfleusterau yng Nghartref Clyd Bryn Hwfa yn Llangefni a Chartref Clyd Llanfairpwll eu harolygu gan AGC yn 2020 a dyfarnwyd bod y ddau yn Ardderchog. |
| **Tueddiadau Presennol a Rhagamcanol** |
| Ar gyfer Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a BIPBC (Gorllewin), nid oes digon o alw i gyfiawnhau comisiynu uned breswyl llawn amser i deuluoedd. Mae'r capasiti presennol yn cael ei gyflawni'n ddigonol. |
| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad** |
| Effaith arferion comisiynu ar y farchnad<br>Defnyddir Fframweithiau Cymru Gyfan i gomisiynu lleoliadau unigol ar draws ystod o fathau o leoliadau. Mae'r fframweithiau hyn yn darparu partneriaethau lefel strategol gyda darparwyr mewn gwasanaethau maethu a phreswyl. Defnyddir y fframweithiau lle mae naill ai Dyletswydd Digonolrwydd y Rhanbarthau yn gofyn am gomisiynu allanol neu lle mae cyflawni ansawdd, canlyniadau a gwerth am arian gorau yn cael eu cyflawni trwy gomisiynu allanol yn hytrach na darparu gwasanaeth mewnol. Rheolir Fframweithiau Cymru Gyfan gan Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (4C).<br><br>Y cyfrwng a ddefnyddir ar gyfer e-dendro lleoliadau maethu allanol a phreswyl yw'r Adnoddau Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) sy'n cynnig trefniadau comisiynu agored sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer lleoliadau a reoleiddir gan y Fframwaith a lleoliadau nad ydynt yn rhan o'r Fframwaith ac sy'n caniatáu cydymffurfio â'r canllawiau a'r rheoliadau caffael perthnasol sy'n sail i'r comisiynu. |
| **Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg** |
| Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg<br><br>Mae'n bosibl bod rhai plant wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly'n cael trafferth ymdopi mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac angen tiwtor neu gynorthwyydd i ddarparu cymorth ychwanegol. Nid oes gan blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r wlad oherwydd diffyg lleoliadau arbenigol yr opsiwn i dderbyn gwasanaethau gofal yn Gymraeg. Mae hon yn broblem arbennig ym Môn. |
| **Cynaliadwyedd y ddarpariaeth** |
| Gan nad oes digon o alw i gyfiawnhau comisiynu uned breswyl teulu llawn amser ar gyfer Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, ystyrir bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Mae'r capasiti presennol yn cael ei gyflawni'n ddigonol. |

**Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad**

Ar hyn o bryd mae gennym 3 o adnoddau cartref grŵp bach ar Ynys Môn gyda'r potensial i gynnig 5 gwely i blant sydd angen y gwasanaeth. Mae ein 4ydd eiddo yn cael ei adnewyddu a bydd y gwaith wedi'i orffen erbyn Awst 2022. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i gynnig 3 gwely posibl arall yn lleol ar yr Ynys i gyrraedd cyfanswm o 8 gwely.

**Canlyniadau**

- Gallu datblygu a chynnig opsiwn 'rhannu gofal' i unigolion a theuluoedd er mwyn gohirio chwalu'r teulu yn llwyr
- Bod yn gyfle i'r person ifanc ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd a allai eu galluogi i symud ymlaen i lety â chymorth amgen i ddiwallu ei anghenion unigol.
- Gallu darparu gofal tymor hwy a'r cyfle i weithio mewn Partneriaeth yn gynharach gyda Gwasanaethau Anabledd Dysgu Oedolion er budd y bobl ifanc a nodwyd i'w cefnogi trwy'r broses bontio.
- Bod ar gael i gwrdd ag anghenion pobl ifanc eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth cymhleth, yn dibynnu ar eu hanghenion a aseswyd.

**ADRAN 4D – DARPARIAETH HEB EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATAL, CAM I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDAF YN BAROD ayyb]**

Pan fyddaf yn barod:

Ar hyn o bryd mae yna ddeg trefniant Pan Fyddaf yn Barod (tua 17% o blant yn derbyn gwasanaethau gadael gofal).

Cam i lawr o leoliad diogel:

Mae gan yr Awdurdod brofiad o un cam i lawr o lety diogel o fewn y deuddeg mis diwethaf. Mae'r profiad yn dangos diffyg cenedlaethol sylweddol mewn sefydliadau preswyl sydd wedi'u cyfarparu i gefnogi anghenion y garfan hon o bobl ifanc.

**ADRAN 4E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**

**Gwerth Cymdeithasol**

Mae rhywfaint o gyfeirio at y defnydd o fentrau cymdeithasol/cwmnïau cydweithredol fel darparwyr lleoliadau maeth annibynnol

**Adnoddau**

Mae ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i fuddsoddi yn y prosiect cartrefi grwpiau bach wedi talu ar ei ganfed. Hyd yn hyn, mae ansawdd y gofal a ddarperir wedi'i archwilio'n annibynnol (AGC) a chanfuwyd bod y ddapariaeth gofal o safon uchel. Yn ogystal, ni fu unrhyw dorriadau yn unrhyw un o'r trefniadau hyd yma.

| **Taliadau uniongyrchol** |
| --- |
| Amherthnasol |
| **Hunan-arianwyr** |
| Amherthnasol |
| **Gweithlu** |
| Mae'r Tîm Trawsnewid ar Ynys Môn yn wasanaeth newydd a fydd yn darparu darpariaeth aml-asiantaeth o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Bydd y Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, rhwng 0 a 25 oed, sydd naill ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu lle mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. .<br><br>Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd practis, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cymorth. Maent yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc lle gallai cyflwr niwrolegol fod yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned. |
| **Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol** |
| Gweler yr Asesiad Effaith |
| **ADRAN 4F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER DARPARIAETH RHEOLEDIG Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd wrth GWRDD Â'R DYLETSWYDD DIGONEDD: PLANT SY'N DERBYN GOFAL [Adran 6 o'r SSWA]** |
| Mae Cartref Clyd wedi gallu dod ag un plentyn yn ôl o leoliad y tu allan i'r sir. Mae hefyd wedi atal dau blentyn rhag cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae Cartref Clyd wedi gallu helpu un person ifanc i drosglwyddo yn ôl adref i'w teulu a bydd person ifanc arall yn trosglwyddo yn ôl adref at eu teulu ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Wrth symud i Gartref Clyd, mae un plentyn wedi gallu cynyddu'r amser mae'n gweld ei deulu ac wedi dweud mai dim ond ers byw yn Cartref Clyd y mae wedi gallu gweld ei fam ar benblwyddi / Nadolig.<br><br>Roedd Cartref Clyd yn gallu cefnogi un person ifanc i gwblhau ei haddysg yn yr ysgol a symud ymlaen i gwblhau cwrs coleg, mae hi nawr yn chwilio am waith sydd hefyd yn cael ei gefnogi gan y tîm. Cafodd person ifanc arall a oedd wedi bod allan o addysg ers amser maith, ei gefnogi i ymgysylltu ag addysg eto gan y tîm. |

| **ADRAN 4G – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER DARPARIAETH RHEOLEDIG** <br> **Gwasanaethau Canolfan Breswyl i Deuluoedd** |
|---|
| Mae Cartref Clyd Llanfair a Chartref Clyd Bryn Hwfa eisoes yn weithredol, gyda Chartref Clyd Caergybi yn agor yn fuan i ddarparu seibiannau byr i blant ag anawsterau dysgu ac anghenion cymhleth. Cyn bo hir bydd Cartref Clyd Rhosybol yn barod i fynd trwy broses gofrestru AGC a bod yn barod i groesawu mwy o bobl ifanc Ynys Môn yn ôl i'r gymuned. |

## PENNOD 5 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Mabwysiadu

### ADRAN 5A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD

]

**Trosolwg o Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Mae gweithio'n rhanbarthol yn helpu i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, yn gosod plant yn gyflymach ac yn gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu. Ym mis Ebrill 2014 cafodd ei integreiddio i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r gwasanaethau'n cydymffurfio â deddfwriaeth fabwysiadu, rheoliadau a chanllawiau statudol wedi'u diweddaru yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) a pholisi a gweithdrefnau'r gwasanaeth, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd. Mae yna fframwaith sy'n ceisio ei gwneud yn haws i fabwysiadwyr, plant a phobl ifanc gael cymorth pan fo angen.
Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y gwasanaeth mabwysiadu yn cynnwys:

- Paratoi'r plentyn i'w fabwysiadu
- Canfod a pharu teuluoedd
- Diogelu plant
- Darparu cymorth mabwysiadu
- Recriwtio, asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr
- Hyfforddiant paratoi i fabwysiadu (cyn/ar ôl cymeradwyo)
- Cymorth mabwysiadu (cyn/ar ôl mabwysiadu, system gyfeillio, cyswllt ar ôl mabwysiadu)
- Cwnsela rhieni biolegol
- Babanod wedi'u rhoi yn ôl
- Gwasanaethau i oedolion wedi'u mabwysiadu neu unrhyw un sydd wedi eu haffeithio gan fabwysiadu
- Partner Asesiad Rhiant (Atodiad A)
- Mabwysiadu gydad eflen dramor

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gyfrannu at **Wasanaeth Mabwysiadu rhanbarthol Gogledd Cymru**. Yn ystod 2020-21, lleolwyd pump o blant o Ynys Môn gyda theuluoedd i'w mabwysiadu ac o'r pump hynny, mae un wedi dod yn destun gorchymyn mabwysiadu ac felly mae wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol. Mae'n debygol y bydd y pedwar plentyn arall yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ystod 2021-22.

### ADRAN 5B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

**Trosolwg o'r boblogaeth**

Nifer y plant sy'n derbyn gofal a leolwyd i'w mabwysiadu yn Ynys Môn oedd 6 yn 2020/21. Mae'n werth nodi bod y gwasanaeth wedi cael ei drawsnewid yn sylweddol ers 2020, felly mae'n anodd cymharu data lleol ac nid yw'n adlewyrchu'r gwasanaeth nawr.

### Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant Darparwr

Ddim yn berthnasol

| ADRAN 5C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD |
|---|
| **Ystyried Ansawdd y Farchnad** |

### Adroddiadau ansawdd

Amlygodd yr Adolygiad o Ansawdd y Gwasanaeth gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (2020) y meysydd canlynol i wella sefydlogrwydd y farchnad:

- Cynyddu nifer y mabwysiadwyr cymeradwy
- Lleihau nifer y plant sy'n aros am deulu mabwysiadol
- Datblygu'r gwasanaeth cymorth mabwysiadu
- Recriwtio - swyddi gwag gweithwyr sesiynol a phanel mabwysiadu

Nododd arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (2019b) y meysydd hyn i'w gwella:

- Datblygu prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac asesu i ba raddau y mae nodau ac amcanion y datganiad o ddiben yn cael eu cyflawni a thystiolaeth sy'n dangos sut mae'r rhain yn cefnogi canlyniadau llesiant i blant
- Argaeledd y 'Cynnig Rhagweithiol', i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- Mae'r datganiad o ddiben a phecyn gwybodaeth mabwysiadwyr yn cynnwys gwybodaeth am y dull adolygu annibynnol fel bod mabwysiadwyr yn ymwybodol o hyn
- Dylai ffeiliau cysylltiedig gynnwys trywydd archwilio clir o'r gwaith a wnaed

| **Tueddiadau Presennol a'r Tueddiadau a Ragwelir** |
|---|

### Tueddiadau presennol a'r tueddiadau a ragwelir

Codwyd y materion canlynol o ran gwasanaethau mabwysiadu i blant:

- Mae'r angen mwyaf am leoliadau ar gyfer plant o'r Dwyrain
- Daw'r nifer uchaf o fabwysiadwyr o'r Dwyrain
- Llai o fabwysiadwyr yn y Gorllewin ac mae angen i blant gael eu lleoli heb fod yn y Dwyrain
- Yn genedlaethol mae mwy o blant na mabwysiadwyr cymeradwy ar gael
- Ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg (mabwysiadwyr/plant)

Codwyd y materion canlynol o ran gwasanaethau mabwysiadu i oedolion:

- Cafodd y gwasanaeth oedolion sy'n gofyn am eu cofnodion geni i ddod o hyd i'w rhieni biolegol ei gau yn ystod y pandemig, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi ailddechrau ond mae ôl-groniad
- Staffio - mae 43 o staff, 10 i ffwrdd neu ar fin mynd i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth, mae'n anodd recriwtio i swyddi tymor sefydlog felly gall y gallu i asesu gael ei effeithio yn 2022/23

**Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad**

Mae gweithredu Cofrestr Mabwysiadu Cymru wedi bod yn sylfaenol wrth chwilio am deuluoedd mabwysiadol ledled Cymru ar gyfer plant sy’n aros, yn enwedig plant na ellir eu lleoli yng Ngogledd Cymru.

Mae pob mabwysiadwr cymeradwy a phlentyn sy'n aros yng Nghymru wedi'u cofrestru ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru. Mae mabwysiadwyr ac ymarferwyr yn gallu rhannu gwybodaeth am blant yn aros, gan leihau'r amser y mae plant yn aros.

**Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg**

Mae ethnigrwydd poblogaeth plant 'sy'n derbyn gofal' Ynys Môn yn wyn Cymreig/Prydeinig (98%+) gan mwyaf. Mae dau blentyn wedi'u dynodi'n 'Blant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches'.

Mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Darperir gwasanaethau gan y Cyngor yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn annog ei asiantaethau partner i fabwysiadu dull tebyg o ran y gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

**Cynaliadwyedd y ddarpariaeth**

Mae’r asiantaeth fabwysiadu yn parhau i weithio’n agos gyda darparwyr y sector preifat a’r trydydd sector fel Barnardo’s, St David’s ac Adoption UK.

Mae darparwyr y Sector Preifat a’r Trydydd Sector yn rhan o fframwaith cydweithredu’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol sy’n gweithio ledled Cymru i ddatblygu gwasanaeth rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer teuluoedd sy’n mabwysiadu.

**Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad**

Un o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer NWAS 2022/2023
Gyriannau recriwtio wedi'u targedu
Cynyddu nifer y mabwysiadwyr 2022/2023 i 42 o deuluoedd mabwysiadol cymeradwy.
Cynyddu nifer y mabwysiadwyr sy’n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion plant hŷn, grwpiau brodyr a chwiorydd sy’n siarad Cymraeg a phlant ag anabledd
Lleihau'r amser y mae plant yn aros.

- Staffio - mae 43 o staff, 10 i ffwrdd neu i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth, mae'n anodd recriwtio i swyddi cyfnod penodol felly mae'n bosibl y bydd effaith ar y gallu i asesu yn 2022/23. Mae hyn yn debygol o effeithio ar argaeledd lleoliadau mabwysiadol ar gyfer plant sy'n aros, cynyddu'r graddfeydd amser aros ac oedi i blant sy'n cael eu lleoli mewn lleoliad mabwysiadol.

Mae asesiadau Atodiad A ar gyfer mabwysiadu Partneriaid Rhiant, yn parhau i roi pwysau sylweddol ar adnoddau. Ar hyn o bryd mae rhestr aros o Bartner Rhieni sy'n dymuno mabwysiadu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i blant sy'n derbyn gofal gael blaenoriaeth.

**ADRAN 5D – DARPARIAETH NAD YW'N CAEL EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDA I'N BAROD AC ATI]**

**Gwasanaethau Ataliol**

Mae'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i leihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen derbyn gofal. Y brif ddarpariaeth ataliol yw’r tîm teuluoedd gwydn sy’n darparu cymorth dwys i deuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac anawsterau iechyd meddwl rhieni wedi’u nodi ac sy’n cyfrannu at y risgiau y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu gartref. Trwy ddefnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfder a seicolegol gwybodus, mae'r tîm wedi dangos yn gyson bod y rhain yn ffyrdd effeithiol o leihau risg, gan hwyluso newid sy'n caniatáu i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Yn ogystal, rydym wedi datblygu rhaglen mentoriaid cymheiriaid ac er ei bod yn ddyddiau cynnar rydym yn disgwyl i hyn fod yn ychwanegiad effeithiol i’r cynnig.

Yn 2021 sefydlwyd tîm trawsnewid newydd gydag arian o’r rhaglen drawsnewid ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru. Mae’r Tîm Trawsnewid yn wasanaeth newydd a fydd yn darparu darpariaeth aml-asiantaethol o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, 0 - 25 oed, sydd naill ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu lle mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd Practis, seicolegydd, gweithiwr cymdeithasol a dau weithiwr cymorth. Maent yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc lle gallai cyflwr niwrolegol fod yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned. Yn 2022 bydd y tîm yn cael ei ymgorffori yn y tîm teuluoedd cydnerth gan ehangu cylch gorchwyl a chwmpas y tîm hwnnw.

Ein nod yw darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd cyn gynted â phosibl. Ymhlith y darpariaethau mae'r tîm o amgylch y teulu sydd wedi'i gynyddu'n ddiweddar mewn maint o 6 i 8 gweithiwr cymorth. Mae ein gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig GORWEL, lles emosiynol Gweithredu dros blant a gofalwyr ifanc, cymorth iechyd meddwl rhieni Adferiad a’r Hwb Cymorth cynnar a chyfarfodydd amlasiantaethol Un drws Ffrynt.

**Pan Fydda i'n Barod:**

Ar hyn o bryd mae yna ddeg trefniant Pan Fydda i’n Barod (tua 17% o blant yn derbyn gwasanaethau gadael gofal).

**Camu i lawr o leoliad diogel:**

Mae gan yr Awdurdod brofiad o un cam i lawr o lety diogel o fewn y deuddeg mis diwethaf. Mae'r profiad yn dangos diffyg cenedlaethol sylweddol mewn sefydliadau preswyl sydd wedi'u cyfarparu i gefnogi anghenion y garfan hon o bobl ifanc.

| ADRAN 5E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD<br><br>Gwerth cymdeithasol |
|---|
| Mae mabwysiadu yn opsiwn cadarnhaol i rai plant sy'n 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol ac yn cynnig sefydlogrwydd i unigolion mewn amgylchedd teuluol.<br><br>Mae effaith y gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r broses fabwysiadu yn y pen draw yn ymwneud â'r sefydlogrwydd hirdymor posibl y gall hyn ei gynnig i blant agored i niwed ag anghenion amrywiol. Mae'r rhieni mabwysiadol yn gyfreithiol yn croesawu plentyn neu blant i fod yn rhan o'u teulu.<br><br>Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yn y rhanbarth ac mae'n rheoli gweithwyr cymdeithasol Mabwysiadu ym mhob awdurdod lleol i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y boblogaeth o blant sy'n 'derbyn gofal' ym mhob awdurdod lleol.<br><br>Mae asiantaethau mabwysiadu annibynnol/preifat yn gweithio gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru a'r awdurdod lleol i ddiwallu anghenion lleol. Mae darpar fabwysiadwyr yn cael eu recriwtio a'u cefnogi drwy'r broses asesu gan yr asiantaeth fabwysiadu ac mae ganddynt gyfleoedd i gwrdd ag eraill sy'n mynd drwy'r un broses a darparu cymorth ar y cyd i eraill ar yr un daith. Fodd bynnag, os a phan fydd plentyn yn cael ei baru'n llwyddiannus a'i gysylltu â darpar rieni mabwysiadol efallai na fyddant yn dymuno parhau i gael eu nodi'n wahanol i unrhyw deulu arall. Byddant yn parhau i gael cymorth ar ôl mabwysiadu gan yr awdurdod lleol yn dibynnu ar y cynllun sydd wedi'i asesu a'i gytuno cyn i'r lleoliad gael ei wneud.<br><br>Mae'r model darparu ar gyfer y broses Fabwysiadu yn unigryw ac wedi'i arwain gan brosesau cadarn, a reolir gan wasanaethau cofrestredig o fewn fframwaith cyfreithiol clir. Felly mae cysylltiadau â'r fforwm gwerth cymdeithasol rhanbarthol yn gyfyngedig a byddent yn bennaf trwy Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. |
| **Adnoddau** |
| Mae awdurdodau lleol i gyd yn cyfrannu at ariannu Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ac mae nhw wedi eu cysylltu â'r Gwasanaeth Cenedlaethol. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i elwa ar yr arbedion maint sydd ar gael i hyrwyddo ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol a hefyd cael gweithwyr arbenigol ym mhob awdurdod lleol i ddiwallu anghenion ardal leol Ynys Môn. |
| **Taliadau uniongyrchol** |
| Byddai unrhyw gymorth ar ôl mabwysiadu a oedd wedi'i asesu cyn lleoli'r Plentyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Cymorth Mabwysiadu y cytunwyd arno ar gyfer y plentyn unigol.<br><br>Cyfrifoldeb y rhieni mabwysiadol fyddai ariannu gwasanaethau gofal plant cyffredinol y gallai fod eu hangen h.y. gwarchodwr plant neu feithrinfa ddydd breifat.<br><br>Byddai taliadau uniongyrchol yn annhebygol o gael eu defnyddio yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd gan fod y mwyafrif sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn deuluoedd plant anabl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwywyr personol i ddarparu 'rhyddhad gofalwyr' neu 'ofal a chymorth' drwy Asesiad Gofalwyr. a/neu Asesiad Gofal a Chymorth. |

| |
|---|
| Hyd yma ni ddefnyddiwyd unrhyw becynnau Taliad Uniongyrchol i gefnogi'r Broses Fabwysiadu cyn neu ar ôl i blentyn gael ei nodi a'i baru â rhieni mabwysiadol.<br><br>Fodd bynnag, gallai'r math hwn o gymorth ddiwallu anghenion asesedig plant unigol a'u teuluoedd ac felly mae'n faes y mae angen ei ymchwilio a'i archwilio ymhellach fel opsiwn gwasanaeth. |
| **Hunan-arianwyr** |
| Mae'n bosibl y gallai rhieni sy'n mabwysiadu ariannu gwasanaethau therapiwtig preifat i'r plant neu eu hunain os oeddent yn teimlo nad oedd y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt ar gael neu'n hygyrch drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Asiantaeth Mabwysiadu, neu'r Bwrdd Iechyd. |
| **Gweithlu** |
| Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fylchau o fewn y sefydliad staffio ar draws gwasanaethau rheoleiddiedig, er bod tair swydd yn cael eu llenwi gan weithwyr cymdeithasol asiantaeth ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn y broses o hysbysebu am bedwar ymarferydd gofal cymdeithasol heb gymhwyso i gynorthwyo gyda'r galw dros dro am ddeuddeng mis. |
| **Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol** |
| Gweler yr Asesiad Effaith |

| **ADRAN 5F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Mabwysiadu DARPARIAETH A REOLEIDDIR WRTH GYFLAWNI'R DDYLETSWYDD DIGONOLRWYDD: PLANT SY'N DERBYN GOFAL [Adran 6 o'r SSWA]** |
|---|
| Mae datblygiad pellach wedi'i wneud ochr yn ochr â'r gwasanaeth mabwysiadu Cenedlaethol i wella ymgyrchoedd recriwtio er mwyn cynyddu nifer y mabwysiadwyr sydd wedi eu cymeradwyo.<br><br>Marchnata a Recriwtio i dargedu darpar fabwysiadwyr ar gyfer plant sy'n siarad Cymraeg, grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant hŷn neu blant ag anableddau.<br><br>Lleihau'r amser y mae plant yn aros.<br><br>Mae datblygiad pellach o fewn y gwasanaeth Cyfryngol yn cael ei ystyried o ran cynnig grwpiau cymorth i rieni biolegol y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt a chynnig grwpiau cymorth i oedolion mabwysiedig. |

| ADRAN 5G – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU - DARPARIAETH A REOLEIDDIR |
|---|
| Mae datblygiad pellach wedi'i wneud ochr yn ochr â'r gwasanaeth mabwysiadu Cenedlaethol i wella ymgyrchoedd recriwtio er mwyn cynyddu nifer y mabwysiadwyr sydd wedi eu cymeradwyo.<br><br>Marchnata a Recriwtio i dargedu darpar fabwysiadwyr ar gyfer plant sy'n siarad Cymraeg, grwpiau o frodyr a chwiorydd, plant hŷn neu blant ag anableddau.<br><br>Lleihau'r amser y mae plant yn aros.<br><br>Mae datblygiad pellach o fewn y gwasanaeth Cyfryngol yn cael ei ystyried o ran cynnig grwpiau cymorth i rieni biolegol y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt a chynnig grwpiau cymorth i oedolion mabwysiedig. |

## PENNOD 6 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Maethu

| ADRAN 6A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD |
| --- |

## Trosolwg o’r farchnad yn ôl awdurdod lleol

### Trosolwg o farchnad Ynys Môn

Dengys y tabl faint o blant yn Ynys Môn sy'n cael eu lleoli fwyfwy y tu allan i'w hawdurdod lleol.

Tabl 20: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl ardal - Ynys Môn

| Lleoliad yn ôl ardal | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid o ran nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Y tu mewn i'r awdurdod lleol | 65 | 60 | 70 | 80 | -45 |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol (Cymru) | 30 | 30 | 30 | 20 | 50 |
| Y tu allan i Gymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn fanwl gywir.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 21: Nifer y plant mewn lleoliadau maeth yn ôl math – Ynys Môn

| Math o Leoliad | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | Newid o ran nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Gyda pherthynas/ffrind, tu mewn i awdurdod llec | 30 | 25 | 25 | 35 | 5 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu mewn i awdurdod llec | 20 | 20 | 40 | 40 | 20 |
| Gydag asiantaeth, y tu mewn i awdurdod lleol | 15 | 15 | 10 | 10 | -5 |
| Gyda pherthynas/ffrind, tu allan i awdurdod lleol | 5 | 0 | 0 | 0 | -5 |
| Gydag awdurdod lleol, y tu allan i awdurdod lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gydag asiantaeth, y tu allan i awdurdod lleol | 25 | 25 | 25 | 25 | 0 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn fanwl gywir.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

## Trosolwg o'r boblogaeth

### Rhagwelir y bydd nifer y plant yn gostwng

Mae'r amcangyfrif o nifer y plant (0-15 oed) yn 2020 a'r amcanestyniadau ar gyfer 2040 yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y plant yng Ngogledd Cymru yn gostwng dros y blynyddoedd nesaf (Llywodraeth Cymru, 2020). Gellir gweld y gostyngiad hwn ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, ac eithrio Gwynedd lle rhagwelir cynnydd bach (1.8%). Yn gyffredinol, disgwylir i nifer y plant yng Ngogledd Cymru ostwng 6.1%

Rhoddodd diweddariad Datganiad Sefyllfa'r Farchnad 2021 drosolwg o ystadegau allweddol;

• Bu cynnydd o 34% yn nifer y plant yr oedd angen lleoliad maeth arnynt rhwng Ebrill 2016 (600 o blant) a mis Mawrth 2020 (805 o blant).

• Ar 31 Mawrth 2020, roedd 805 o blant Gogledd Cymru yn byw gyda gofalwr maeth, roedd 40% (325 o blant) yn byw gyda gofalwr maeth annibynnol ac roedd angen lleoliad arbenigol ar y rhan fwyaf o'r plant hynny er mwyn cefnogi eu hanghenion, na allai ein gwasanaethau mewnol eu cefnogi.

• Ar hyn o bryd mae 11 o blant yn byw mewn cartref plant y gallai gofalwr maeth arbenigol eu cefnogi. Nid oes digon o ofalwyr maeth sydd â'r sgiliau cywir i gefnogi proffil anghenion ein plant.

• Yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2020 hyd at ddiwedd mis Chwefror 2021, roedd 34 o blant a oedd angen lleoliad ac asesiad rhiant a phlentyn.

### Materion yn ymwneud â digonolrwydd i rai plant

Nododd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2019) faterion digonolrwydd o ran dod o hyd i leoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys:

- Gofal seibiant
- Troseddwyr ifanc
- Ffoaduriaid, mewnfudwyr, ceiswyr lloches
- Rhieni ifanc
- Grwpiau o frodyr a chwiorydd
- Argyfyngau

Mae sefydlogrwydd y gweithlu yn broblem, gyda'r galw cynyddol am leoliadau a nifer y lleoliadau yr amcanestynir na fyddant yn ateb y galw a ragwelir.

Ymunodd gwefan Maethu Cymru â'r 22 Awdurdod Lleol i ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o arbenigedd maethu lleol. Mae’r ffocws ar gael mwy o effaith ar lefel genedlaethol, gan weithio gyda'i gilydd a gyda gofalwyr maeth, i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol. Rhannu un brand, un llais, i gryfhau recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

### Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) yn canfod bod plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a phlant yn narpariaeth awdurdodau lleol yn fwy tebygol o aros yn eu hawdurdod cartref, gan eu galluogi i gynnal cysylltiadau pwysig. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn sicrhau mwy o leoliadau lleol a llai o leoliadau y tu allan i'r ardal. Yn ôl y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018), mae maethu cysylltiedig (gyda theulu neu ffrindiau) wedi gweld mwy o alw. Gwelwyd hefyd bod lleoliadau awdurdodau lleol yn arwain at well canlyniadau i blant. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen i awdurdodau lleol fod â’r gallu i hwyluso hyn neu fel arall sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i gynnal cysylltiadau os cânt eu gosod mewn math arall o faethu.

## ADRAN 6B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

### Mae'r galw am ofal maeth wedi cynyddu

Bu cynnydd yn nifer y plant mewn gofal maeth ar Ynys Môn o 90 i 110 erbyn 2020 ac yng Ngogledd Cymru, mae wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2015 i tua 945 yn 2020. Yn Wrecsam oedd y cynnydd mwyaf, gyda nifer y plant yn dyblu. Gwelodd Gwynedd gynnydd sylweddol hefyd. Mae'r niferoedd yn yr awdurdodau lleol eraill wedi amrywio.

Tabl 22: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2015 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 90 | 100 | 100 | 90 | 110 |
| Gwynedd | 145 | 145 | 145 | 165 | 200 |
| Conwy | 120 | 125 | 150 | 140 | 140 |
| Sir Ddinbych | 125 | 110 | 110 | 115 | 115 |
| Sir y Fflint | 135 | 140 | 135 | 150 | 140 |
| Wrecsam | 120 | 135 | 170 | 175 | 240 |
| Gogledd Cymru | 735 | 755 | 810 | 835 | 945 |
| Cymru | 4,250 | 4,425 | 4,700 | 4,840 | 4,990 |

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn fanwl gywir.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Er gwaethaf y niferoedd cynyddol mewn lleoliadau maeth, mynegodd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (2019) nad oedd disgwyl cynnydd mawr yn y dyfodol. Mae gan awdurdodau lleol leoedd gofal maeth mewnol ac asiantaethau maethu annibynnol sy'n darparu lleoedd. Mae rhai o'r asiantaethau maeth annibynnol yn elusennau neu'n fentrau cydweithredol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer a chanran pob math o ddarpariaeth lleoliad maeth, wedi'u dadansoddi yn ôl Awdurdod Lleol.

Tabl 23: Nifer y lleoliadau maeth yn ardal yr awdurdod lleol a gomisiynwyd yn ôl y math o ddarparwr

| Cyngor lleol | Yn fewnol (nifer) | Darparwr annibynnol (nifer) | Cyfanswm (nifer) | Yn fewnol (canran) | Darparwr annibynnol (canran) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 37 | 32 | 69 | 54% | 46% |

## Galw cynyddol am rieni maeth

Cyfrifodd y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol yr angen am tua 550 o rieni maeth newydd ledled Cymru bob blwyddyn i ateb y galw. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod prinder lleoliadau maeth yn y blynyddoedd i ddod, o ystyried y galw cynyddol.

**Sefydlogrwydd marchnad Ynys Môn**

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y canlynol fel materion sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu yn y dyfodol:

- Gweithlu – recriwtio, cadw staff, proffil oedran y gweithlu, costau
- Cyflenwad a dewisiadau ar gael
- Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar y gostyngiad a ragwelir yn y galw
- Effaith Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC) ar adnoddau'r ALl gan gynnwys lleoliadau a'r cymorth sydd ar gael.
- Effaith y rhai sy'n cyrraedd Porthladd Caergybi na chynlluniwyd.

| |
|---|
| **Sefydlogrwydd y farchnad**<br>Heriau rhanbarthol<br>Nododd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad (2019) a 'Maethu Cymru' heriau i sefydlogrwydd gwasanaethau maethu yng Ngogledd Cymru a Chymru gyfan a restrir isod:<br>• Materion recriwtio a chadw staff<br>• Lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion penodol gan gynnwys; gofal seibiant, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr a chwiorydd ac argyfyngau<br>• Amcangyfrifir y bydd angen 550 o rieni maeth newydd ar Gymru bob blwyddyn i ateb y galw |
| **Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant Darparwr** |
| Dim |

| **ADRAN 6C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD** |
|---|
| **Ystyried Ansawdd y Farchnad** |
| Y prif ffactor mewn perthynas ag ansawdd y farchnad yw’r parodrwydd y mae darparwyr yn tueddu i’w gael wrth roi 28 diwrnod o rybudd i derfynu contractau ar adegau o her, yn hytrach na dyfalbarhau. Mae hyn yn aml yn arwain at symud bobl ifanc nifer o weithiau, sydd, yn ei dro, yn gwaethygu'r anawsterau. |
| **Tueddiadau Presennol a’r Tueddiadau a Ragwelir** |
| **Tueddiadau presennol a’r tueddiadau a ragwelir**<br>Tueddiadau ac amcanestyniadau presennol allweddol ar gyfer dyfodol gwasanaethau maeth:<br>• Mwy o alw am leoliadau<br>• Diffyg lleoedd i blant hŷn<br>• Diffyg lleoedd i blant â chynlluniau gofal cymhleth/problemau ymddygiad<br>• Diffyg rhieni maeth sydd â sgiliau i gefnogi plant ag anghenion cymhleth<br>• Cynnydd rhagamcanol yn y galw am leoliadau<br>• Prinder posibl o leoliadau, cyflenwad nad yw'n cyfateb i'r galw<br><br>Dileu elw o ofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal<br>Un o'r amcanion llesiant a sefydlwyd yn Rhaglen Llywodraeth Cymru 2021-2016 yw diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Un o flaenoriaethau allweddol y maes gwaith hwn yw dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.<br>Gall comisiynu lleoliadau i asiantaethau maeth annibynnol effeithio ar ddarpariaethau sy'n cael eu darparu o fewn yr awdurdod lleol. Mae cystadleuaeth â darparwyr annibynnol ynghylch darparu gwasanaethau yn sefyllfa y dylid ei hosgoi, gan fod perygl y bydd gwasanaethau wedyn yn cael eu gyrru gan elw. Tynnodd awdurdod lleol Sir y Fflint sylw at |

hyn fel risg bosibl a nododd sut yr oeddent yn canolbwyntio'r defnydd o asiantaethau maeth annibynnol ar gyfer y gwasanaethau hynny y maent yn ei chael yn anodd eu darparu gyda gwasanaethau awdurdodau lleol.
Canfu'r arolwg lwfansau gofal maeth gan y Rhwydwaith Maethu (2020) er bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn talu ar yr isafswm lwfans cenedlaethol neu'n uwch na hynny, mae gofalwyr maeth yn teimlo nad yw eu lwfans presennol yn talu costau llawn gofalu am blentyn. Mae'r rhwydwaith yn argymell bod yn rhaid i daliadau maeth fod yn dryloyw fel ei bod yn amlwg i ofalwyr maeth faint yw'r lwfans, a bod yn rhaid ei wario ar y plentyn, a faint yw'r ffi ac sy'n talu am amser a sgiliau'r gofalwr maeth.

**Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad**

Mae lleoliadau maethu fel arfer yn cael eu comisiynu gan y gwasanaeth trwy'r system gronfa ddata CSSR Genedlaethol ar sail plentyn unigol. Mae'r broses hon wedi'i sefydlu i gysylltu ymholiadau am leoliadau â darparwyr sydd â lle gwag posibl h.y. Asiantaethau Maethu Annibynnol (AMA) ac awdurdodau lleol.

Fodd bynnag, nid yw rhai AMAau yn rhan o'r broses hon a chysylltir â hwy yn uniongyrchol mewn perthynas â cheisiadau am leoliadau unigol. Os na adnabyddir unrhyw leoliadau trwy ddefnyddio CSSR a bod yr angen yn parhau, ceisir lleoliadau trwy gysylltu â darparwr cofrestredig hysbys yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac ar draws y Gwledydd eraill y DU.

Gan fod y galw presennol am leoliadau maeth yn fwy na'r hyn sydd ar gael, mae'r broses gomisiynu yn ei gwneud hi'n anodd negodi pris, ansawdd a sefydlogrwydd cyffredinol lleoliadau unigol.

Dyna pam mae angen dyrannu adnoddau parhaus i recriwtio a chadw gofalwyr maeth awdurdodau lleol sy'n gallu bodloni'r sbectrwm o angen. Mae menter Maethu Cymru bellach yn cefnogi Timau Maethu pob awdurdod lleol i gystadlu'n gadarnhaol â'r Asiantaethau Maethu Annibynnol yn yr ardal. recriwtio gofalwyr maeth. Maent yn darparu ymgyrchoedd hysbysebu proffesiynol e.e. ar deledu cenedlaethol, adnoddau recriwtio, ac wedi creu hunaniaeth gadarnhaol ar gyfer timau maethu awdurdodau lleol a chadw'r neges – 'gofalwyr maeth lleol i ddiwallu anghenion plant lleol'.

Mae hyn wedyn wedi ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol ddatblygu eu pecynnau cymorth unigol eu hunain i ddenu a chadw gofalwyr maeth i ddarparu gwasanaeth mwy cynaliadwy a hyrwyddo lleoliadau sefydlog.

**Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg**

### Cymraeg

Mae cyfartaledd rhieni maeth sy'n siarad Cymraeg yn llai na cyfartaledd siaradwyr Cymraeg ar draws yr ynys.

Trafodir y ddarpariaeth Gymraeg ar draws gweddill Gogledd Cymru ym mhennod gwasanaethau plant yr adroddiad hwn.

| Cynaliadwyedd y ddarpariaeth |
|---|
| Mae'r holl recriwtio'n cael ei wneud yn ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys yr holl nwyddau a dogfennau ac adnoddau ar gyfer y cyhoedd h.y. taflenni, cardiau post, a hyd yn oed nwyddau cysylltiadau cyhoeddus fel balŵns a chrysau-t.<br><br>Anogir ein gofalwyr Maeth di-Gymraeg i ddysgu Cymraeg, ac mae cyrsiau ar gael iddynt eu mynychu. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y cyrsiau yn gymharol isel.<br><br>Fodd bynnag, prif ysgogiad y gwasanaeth yw cofrestru Gofalwyr Maeth gyda'r awdurdod gan fod yna brinder cenedlaethol - hynny yw, os ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Mae'r galw am leoedd Gofal Maeth yn parhau i fod yn drech na'r nifer presennol o Ofalwyr Maeth sydd wedi'u cofrestru. |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y canlynol fel materion sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y gwasanaeth maethu yn y dyfodol:<br>• Gweithlu – recriwtio, cadw staff, proffil oedran y gweithlu, costau<br>• Cyflenwad a dewisiadau ar gael<br>• Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar y gostyngiad a ragwelir yn y galw<br>• Effaith Plant ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches (UASC) ar adnoddau'r ALl gan gynnwys lleoliadau a'r cymorth sydd ar gael.<br>• Effaith y rhai sy'n cyrraedd Porthladd Caergybi na chynlluniwyd. |

| ADRAN 6D – DARPARIAETH NAD YW'N CAEL EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDA I'N BAROD AC ATI] |
|---|
| **Gwasanaethau Ataliol**<br><br>Mae'r gwasanaeth plant a theuluoedd yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol i leihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen derbyn gofal. Y brif ddarpariaeth ataliol yw'r tîm teuluoedd gwydn sy'n darparu cymorth dwys i deuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig ac anawsterau iechyd meddwl rhieni wedi'u nodi ac sy'n cyfrannu at y risgiau y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu gartref. Trwy ddefnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfder a seicolegol gwybodus, mae'r tîm wedi dangos yn gyson bod y rhain yn ffyrdd effeithiol o leihau risg, gan hwyluso newid sy'n caniatáu i deuluoedd aros gyda'i gilydd. Yn ogystal, rydym wedi datblygu rhaglen mentoriaid cymheiriaid ac er ei bod yn ddyddiau cynnar rydym yn disgwyl i hyn fod yn ychwanegiad effeithiol i'r cynnig.<br><br>Yn 2021 sefydlwyd tîm trawsnewid newydd gydag arian o'r rhaglen drawsnewid ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r Tîm Trawsnewid yn wasanaeth newydd a fydd yn darparu darpariaeth aml-asiantaethol o wasanaethau dwys yn Ynys Môn. Mae'r Tîm yn gweithio gyda theuluoedd, 0 - 25 oed, sydd naill ai mewn perygl o ddod i ofal yr awdurdod lleol neu lle mae posibilrwydd iddynt ddychwelyd i'r cartref neu aros yng ngofal eu rhieni / gofalwyr yn ddiogel. Mae'r tîm yn cynnwys arweinydd Practis, seicolegydd, gweithiwr |

cymdeithasol a dau weithiwr cymorth. Maent yn canolbwyntio ar weithio gyda phlant a phobl ifanc lle gallai cyflwr niwrolegol fod yn effeithio ar eu hymddygiad gartref, yn yr ysgol neu allan yn y gymuned. Yn 2022 bydd y tîm yn cael ei ymgorffori yn y tîm teuluoedd cydnerth gan ehangu cylch gorchwyl a chwmpas y tîm hwnnw.

Ein nod yw darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd cyn gynted â phosibl. Ymhlith y darpariaethau mae'r tîm o amgylch y teulu sydd wedi'i gynyddu'n ddiweddar mewn maint o 6 i 8 gweithiwr cymorth. Mae ein gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaeth cam-drin domestig GORWEL, lles emosiynol Gweithredu dros blant a gofalwyr ifanc, cymorth iechyd meddwl rhieni Adferiad a’r Hwb Cymorth cynnar a chyfarfodydd amlasiantaethol Un drws Ffrynt.

**Pan Dwi’n Barod**

Ar hyn o bryd mae yna ddeg trefniant Pan Fydda i’n Barod (tua 17% o blant yn derbyn gwasanaethau gadael gofal).

**Camu i lawr o leoliad diogel:**

Mae gan yr Awdurdod brofiad o un cam i lawr o lety diogel o fewn y deuddeg mis diwethaf. Mae'r profiad yn dangos diffyg cenedlaethol sylweddol mewn sefydliadau preswyl sydd â'r offer i gefnogi anghenion y garfan hon o bobl ifanc.

**ADRAN 6E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**

**Gwerth cymdeithasol**
Mae rhywfaint o gyfeiriad at ddefnyddio mentrau cymdeithasol/mentrau cydweithredol fel darparwyr lleoliadau maeth annibynnol

**Adnoddau**

**Darpariaeth arall**
Mae diffyg sylweddol o ran lleoliadau maeth neu breswyl i blant a phobl ifanc ag ymddygiad heriol neu gymhleth.
Mae'r pandemig wedi effeithio ar recriwtio gofalwyr maeth mewnol gyda diffyg ymgeiswyr yn cynnig eu gwasanaeth. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddefnydd o Ddarparwyr Maethu Annibynnol.
Mae’r prinder wedi arwain at ddiffyg cynigion neu leoliadau yn bell i ffwrdd yn unig, ac nid yw hynny bob amser er budd gorau'r person ifanc.
Mae plant y mae angen lleoliad arnynt ond lle na ellir dod o hyd i ofal maeth yn cael eu cyfeirio i ofal preswyl, ond nid oes digon o leoliadau ac mae amharodrwydd canfyddedig i gynnig lleoliadau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Unwaith eto, gall hyn arwain at leoliad sy’n bell i ffwrdd.
Mae pwysau arbennig os yw'r plentyn/person ifanc yn hunan-niweidio neu’n meddwl am ladd ei hun, gyda darparwyr yn dangos amharodrwydd i gynnig lleoliadau i'r garfan hon. Mae'r ddarpariaeth frys yn gyfyngedig iawn.

| Taliadau uniongyrchol |
|---|
| Os yw plentyn yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol ac wedi'i leoli gyda gofalwyr maeth cofrestredig byddai ei 'anghenion gofal a chymorth' yn cael eu hasesu cyn ac ar sail barhaus gan weithiwr cymdeithasol y plentyn a'r Swyddog Adolygu Annibynnol drwy'r broses Adolygu PDG.<br>Byddai unrhyw gymorth a aseswyd cyn lleoli'r Plentyn yn cael ei gynnwys yn y Cytundeb Lleoliad a'r Cynllun Gofal a Chymorth.<br><br>Byddai taliadau uniongyrchol yn annhebygol o gael eu defnyddio yn y sefyllfa hon ar hyn o bryd gan fod y mwyafrif sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn deuluoedd plant anabl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwywyr personol i ddarparu 'rhyddhad gofalwyr' neu 'gofal a chymorth' drwy Asesiad Gofalwyr. a/neu Asesiad Gofal a Chymorth. Gellir nodi Gofalwyr Maeth fel 'Gofalwyr Cyflogedig'.<br><br>Ni ddefnyddir unrhyw becynnau Taliad Uniongyrchol i gefnogi'r plant a'u gofalwyr maeth cyn neu ar ôl i blentyn gael ei adnabod a'i baru â'r teulu maeth.<br><br>Fodd bynnag, gallai'r math hwn o gymorth ddiwallu anghenion asesedig plant unigol a'u teuluoedd ac felly mae'n faes y mae angen ei ymchwilio a'i archwilio ymhellach fel opsiwn gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. |
| **Hunan-arianwyr** |
| Os yw plentyn yn cael ei gymryd i ofal yr Awdurdod Lleol byddai ei anghenion asesedig yn cael eu nodi a'u diwallu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd.<br>Mae'n annhebygol y byddai pecyn gofal a chymorth yn cael ei ariannu eu hunain gan ofalwyr maeth oni bai ei fod am gael mynediad at rai mathau o wasanaethau gofal plant/gweithgaredd cyffredinol i wella ansawdd bywyd a phrofiadau'r plentyn. |
| **Gweithlu** |
| **Gweithlu**<br>Amlygodd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (2018) leihad yn nifer yr aelwydydd maeth cymeradwy. Mae'r fframwaith yn nodi bod angen gwneud gwelliannau i gynyddu; ymholiadau, addasiadau, cymeradwyaethau a chadw rhieni maeth.<br>Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y rhieni maeth a lleoedd wedi cynyddu ychydig yn gyffredinol ar draws Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yng Ngwynedd a Sir Ddinbych bu gostyngiad yn nifer y rhieni maeth a'r lleoedd sydd ar gael, ac yn Sir y Fflint bu gostyngiad yn nifer y rhieni maeth ond cynnydd mewn lleoedd. Os bydd gostyngiadau mewn rhieni maeth neu leoedd yn parhau, gallai hyn arwain at brinder lleoedd i blant yn yr awdurdodau lleol hyn. |

Tabl 24: Nifer y lleoedd maeth cymeradwy ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 86 | 69 | 43 |
| Gwynedd | 164 | 178 | 198 |
| Conwy | 113 | 130 | 127 |
| Sir Ddinbych | 156 | 155 | 149 |
| Sir y Fflint | 133 | 157 | 156 |
| Wrecsam | 161 | 172 | 166 |
| Gogledd Cymru | 813 | 861 | 839 |
| Cymru | 4,075 | 4,170 | 4,317 |

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Tabl 25: Nifer y rhieni maeth cymeradwy ar 31 Mawrth

| Cyngor lleol | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 45 | 38 | 39 |
| Gwynedd | 103 | 111 | 120 |
| Conwy | 70 | 84 | 80 |
| Sir Ddinbych | 78 | 77 | 74 |
| Sir y Fflint | 77 | 77 | 76 |
| Wrecsam | 100 | 112 | 110 |
| Gogledd Cymru | 473 | 499 | 499 |
| Cymru | 2,347 | 2,443 | 2,462 |

Ffynhonnell: Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Set sgiliau gofalwyr a hyfforddiant a ddymunir:

- Gofalwyr sy'n gallu gweithio gyda'n gwasanaethau mewnol ac sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu gofal therapiwtig sy'n seiliedig ar drawma.
- Gofalwyr sy'n ymwybodol o effaith llinellau cyffuriau ac sydd wedi cael hyfforddiant i gefnogi plant sy'n agored i gael eu hecsbloetio drwy'r gangiau hyn. Mae hyn yn cynnwys y gwydnwch i weithio gyda phlant sy'n cael eu hecsbloetio gan gangiau, yn aml yn dianc ac yn gallu arddangos ymddygiad ymosodol geiriol ac weithiau corfforol.
- Gwydn ac wedi cael hyfforddiant i weithio gyda thrawma yn ystod plentyndod, dianc, cam-fanteisio ac ymddygiadau hunan-niweidio.
- Gofalwyr sydd wedi'u hyfforddi i ddeall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant y maent yn gofalu amdanynt.
- Gofalwyr sydd wedi cael hyfforddiant ar ymyrryd mewn argyfwng, ac sy'n gallu gweithio'n bwyllog o dan bwysau cynllunio at argyfwng.
- Yn wydn pan fyddant yn wynebu bygythiad o niwed corfforol ac wedi cael hyfforddiant ar sut i liniaru’r sefyllfa, gyda chynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol, gan leihau'r defnydd o ataliadau;
- Gofalwyr sydd â'r gallu i siarad Cymraeg neu ymrwymiad i ddysgu.

| **Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol** |
|---|
| Gweler yr Asesiad Effaith |

**ADRAN 6F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Mabwysiadu DARPARIAETH A REOLEIDDIR WRTH GYFLAWNI'R DDYLETSWYDD DIGONOLRWYDD: PLANT SY'N DERBYN GOFAL [Adran 6 o'r SSWA]**

Heriau:

- Gweithlu – recriwtio, cadw, proffil oedran y gweithlu, costau
- Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar nifer y plant sy'n derbyn gofal ac felly amharu ar yr amcanestyniad o ostyngiad yn y galw
- Effaith Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain (UASC) ar adnoddau'r ALl gan gynnwys y lleoliadau a'r cymorth sydd ar gael
- Effaith cyraeddiadau heb eu cynllunio i Borthladd Caergybi
- Lleoliadau i blant ag anghenion penodol gan gynnwys; gofal seibiant, troseddwyr ifanc, ffoaduriaid/mewnfudwyr/ceiswyr lloches, rhieni ifanc, grwpiau o frodyr a chwiorydd a sefyllfaoedd brys
- Amcangyfrif y bydd angen 550 o rieni maeth newydd ar Gymru bob blwyddyn i ateb y galw

Effaith Bosibl:

- Y rhan fwyaf o blant agored i niwed gyda chyflwyniadau mwyaf cymhleth yn profi ansefydlogrwydd mewn lleoliadau - symud rhwng lleoliadau
- Cynnydd yn nifer y plant sy'n byw y tu allan i'w cymunedau lleol
- Methiant i ddiwallu anghenion diwylliannol UASC
- Cynnydd yn nifer y plant a leolir mewn lleoliadau gofal preswyl
- Cynnydd mewn digartrefedd ymhlith y bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal

Lliniaru:

- Datblygu Maethu Cymru i ysgogi recriwtio gofalwyr maeth yn genedlaethol
- Gyrwyr lleol ar gyfer recriwtio
- Cymhellion lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth (e.e. gostyngiadau yn y Dreth Gyngor)

| ADRAN 6G – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU - DARPARIAETH A REOLEIDDIR |
| --- |
| Defnyddwyr Gwasanaeth:<br><br>• Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan CSYM wedi sefydlogi dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn yn mynd yn groes i'r duedd ar draws y rhanbarth a Chymru gyfan, sydd i gyd wedi profi taflwybr ar i fyny<br><br>Adnoddau:<br><br>• Gostyngiad lleol yn nifer y plant a leolir y tu allan i Ynys Môn<br>• Cynnydd lleol yn nifer y plant a leolir ar Ynys Môn<br>• Cynnydd yn nifer y plant a leolir gyda phersonau cysylltiedig<br><br>Cwrdd â'r her:<br><br>• Datblygu prosiect cartrefi grŵp bach i ddarparu ar gyfer y plant hynny nad yw lleoliadau maeth wedi'u nodi ar eu cyfer, ar yr ynys<br>• Canolbwyntio ar recriwtio cenedlaethol a lleol drwy Faethu Cymru<br>• Ni chyflwynwyd polisi anfantais i annog ceisiadau am orchmynion gwarcheidiaeth arbennig fel nad oes angen i blant fod yng ngofal y wladwriaeth mwyach. |

## PENNOD 7 – MATH O DDARPARIAETH A REOLEIDDIR: Gwasanaethau Lleoli Oedolion ('Cysylltu Bywydau')

| ADRAN 7A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD |
| --- |
| Mae rhaglen Cysylltu Bywydau sy'n gweithredu ar draws Gwynedd ac Ynys Môn yn credu y dylai pobl allu fyw'r bywyd y maent yn dymuno ei fyw, wrth dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn y cartref o'u dewis hwy.<br><br>Mae'r Cynllun Cysylltu Bywydau yn helpu trefnu cyfnodau seibiant byr neu lleoliadau tymor hir yng nghartrefi pobl a ddewiswyd yn ofalus, a elwir yn Alluogwyr Cysylltu Bywydau. Mae'r cymorth a roddir yn hyblyg ac yn cael ei deilwra i gyd-fynd ag anghenion personol yr unigolyn.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar deulu yn rhannu eu cartref, bywyd teuluol, diddordebau, profiadau a sgiliau gydag unigolion sy'n agored i newid sydd angen cymorth i fyw mor annibynnol â phosib.<br><br>Mae galluogwyr Cysylltu Bywydau'n darparu amgylchedd teuluol sy'n gallu cynorthwyo unigolion ag anghenion cymorth i fyw bywyd i'w lawn botensial, i gael mynediad i'r gymuned, hyrwyddo eu hannibyniaeth a datblygu eu sgiliau.<br><br>Gellir darparu cymorth trwy'r lleoliadau a ganlyn:<br>• Tymor hir<br>• Tymor byr<br>• Seibiant<br>• Cymorth dydd<br><br>Mae'r gefnogaeth wedi ei dargedu at:<br>- oedolion sydd ag anableddau dysgu<br>- oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl<br>- oedolion sydd ag anableddau corfforol<br>- oedolion sydd â nam ar y synhwyrau |
| **ADRAN 7B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD** |
| Sefydlwyd y prosiect Cysylltu Bywydau yn wreiddiol i ddenu darpariaeth newydd er mwyn creu cyfleoedd i unigolyn sydd â dementia gael seibiant. Oherwydd nad oedd yr ymateb cystal a'r disgwyl, agorwyd y prosiect i bob person hŷn yn 2021. Oherwydd effaith y pandemig a chyfyngiadau ar unigolion a gofalwyr o ran agor eu cartrefi ar gyfer y math hwn o seibiant, cyfyngedig oedd yr ymateb i'r prosiect ar ôl ehangu'r gorwelion, a dim ond 2 alluogydd Cysylltu Bywydau i ddarparu seibiant a recriwtiwyd yn ystod y cyfnod. Felly, teimlir nad yw'r prosiect wedi cael cyfle teg i ddatblygu oherwydd y pandemig. Mae'r prosiect wedi cael ei ymestyn am 12 mis arall. |
| **Camau a gymerwyd oherwydd Methiant ar ran Darparwr** |
| Nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â methiant ar ran darparwr. |

## ADRAN 7C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

### Ystyriaeth o Ansawdd y Farchnad

Ym mis Medi 2021, anfonodd swyddogion lleoli oedolion holiaduron at unigolion a oedd yn derbyn cymorth trwy eu gwasanaethau er mwyn asesu ansawdd eu canlyniadau a chasglu adborth.

Tabl 26: Ymateb I'r arolwg

| Categori | Nifer a anfonwyd | Ymatebion a dderbyniwyd | Cyfradd Ymateb (%) |
|---|---|---|---|
| Unigolion | 33 | 9 | 27% |
| Galluogwyr | 32 | 9 | 28% |
| Teuluoedd unigolion | 6 | 2 | 33% |
| Gweithwyr proffesiynol | 15 | 3 | 20% |

O'r adborth a dderbyniwyd, ymddengys bod staff Cysylltu Unigolion CSYM yn gwrando ar lais yr unigolyn ac mae staff Cysylltu Bywydau yn cwrdd â'u hanghenion ac yn sicrhau eu llesiant. Mae'r datblygiad yn eu hamcanion personol yn ganolog i'r gwasanaeth ac mae staff Cysylltu Bywydau CSYM yn sicrhau eu bod yn adeiladu ar hyn yn rheolaidd. Roedd staff Cysylltu Bywydau CSYM yn adolygu a monitro lleoliadau ac maent wedi addasu ffurflenni'r Cynllun sy'n Canolbwyntio ar y Person er mwyn casglu gwybodaeth am y canlyniadau y llwyddodd yr unigolion eu cyflawni yn ystod Covid. Mae'r berthynas rhwng y Cynllun, y galluogwyr ac unigolion wedi cryfhau yn ystod y misoedd diwethaf gan fod pawb wedi cefnogi ei gilydd mewn nifer o wahanol ffyrdd i sicrhau fod lles yr unigolion yn ganolog i bopeth y mae staff Cysylltu Bywydau CSYM yn ei wneud.

### Tueddiadau Cyfredol a Thueddiadau a Ragwelir

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn amcangyfrif y bydd angen i gynghorau lleol yng Nghymru 'gynyddu'r buddsoddiad mewn llety £365 miliwn yn ystod yr 20 mlynedd nesaf er mwyn ymdrin â chynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu y bydd angen tai arnynt a'r cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymedrol neu ddifrifol'. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant. Ar gyfer Gogledd Cymru, mae hyn yn golygu y bydd angen i ni gynllunio ar gyfer rhwng 80 a 190 o leoliadau ychwanegol erbyn 2035. Mae angen ystod o opsiynau a dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn canfod y model tai a gofal cywir i'r unigolyn. Gallai hyn gynnwys tai â chymorth, perchnogaeth tai a gwahanol fathau o denantiaeth.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn amcangyfrif y bydd angen i gynghorau lleol yng Nghymru 'gynyddu'r buddsoddiad mewn llety £365 miliwn yn ystod yr 20 mlynedd nesaf er mwyn ymdrin â chynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu y bydd angen tai arnynt a'r cynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymedrol neu ddifrifol'. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant.

Ar gyfer Gogledd Cymru, mae hyn yn golygu y bydd angen cynllunio ar gyfer rhwng 80 a 190 o leoliadau ychwanegol erbyn 2035.

| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad** |
|---|
| Amherthnasol |
| **Darparu gwasanaeth yn y Gymraeg** |
| Mae 11 o ofalwyr cofrestredig ar Ynys Môn a gall 5 (45%) gynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Galluogwyr Cysylltu Bywydau yn hunangyflogedig ac yn dechnegol nid ydynt yn weithwyr i'r Cyngor ac, oherwydd hynny, mae'n anodd trefnu unrhyw hyfforddiant iddynt ddysgu'r Gymraeg.<br><br>O'r 14 unigolyn sy'n rhan o'r Cynllun Cysylltu Bywydau, mae'r Gymraeg yn famiaith i 2 ohonynt. |
| **Cynaliadwyedd y ddarpariaeth** |
| Nid oes unrhyw ddarparwyr eraill yn cynnig Lleoliadau i Oedolion ar Ynys Môn. |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| Mae Lleoliadau Oedolion ar Ynys Môn yn cael eu cyllido ar y cyd gan Wynedd ac Ynys Môn. Felly, mae gostyngiad yng nghyllid y gwasanaeth yn risg i sefydlogrwydd y gwasanaeth. |

| **ADRAN 7D - DARPARIAETH HEB EI REOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATALIOL, CAM I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDA I'N BAROD ac ati]** |
|---|
| Amherthnasol |

| **ADRAN 7E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**<br><br>**Gwerth Cymdeithasol** |
|---|
| Amherthnasol gan nad yw'r Cynllun Cysylltu Bywydau yn fenter gymdeithasol. |
| **Adnoddau** |
| Digonol ar hyn o bryd |
| **Taliadau uniongyrchol** |
| Amherthnasol – Telir am Leoliadau Oedolion yn uniongyrchol ac nid drwy Daliadau Uniongyrchol |

| **Unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain** |
|---|
| Amherthnasol – Nid oes unrhyw unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar Ynys Môn yn derbyn Lleoliad Oedolion ar hyn o bryd |
| **Gweithlu** |
| Mae 11 o ofalwyr cofrestredig ar Ynys Môn a chyfanswm o 26 ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Yr oedran cyfartalog yw:<br>Ynys Môn (58)<br>Gwynedd (63)<br>Cyfartaledd ar gyfer y ddwy sir (61)<br><br>Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae 12 wedi cael eu recriwtio (8 yng Ngwynedd, 4 yn Ynys Môn). Mae 6 yn cael eu hasesu ar hyn o bryd (2 yn Ynys Môn, 4 yng Ngwynedd). |
| **Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol** |
| Gweler yr Asesiad Effaith |

**ADRAN 7F – CRYNODEB O'R FARCHNAD A REOLEIDDIR AR GYFER Gwasanaethau Lleoli Oedolion ('Cysylltu Bywydau')**

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cysylltu Bywydau yn 2005 ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ac mae'n cynnig cyfleoedd a chymorth i oedolion dros 18 oed mewn cartref galluogydd fel aelod llawn o'r teulu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cynnwys 26 galluogydd, 11 ar Ynys Môn, sy'n gallu darparu cymorth tymor hir, tymor byr neu seibiant. Eu nod yw cynorthwyo unigolion i fyw'r bywyd y maent yn dymuno ei fyw, darparu cymorth hyblyg sydd wedi'i deilwra yn ôl gofynion yr unigolion tra eu bod yn derbyn cymorth sydd ei angen arnynt yn y cartref o'u dewis hwy. Gall galluogwyr sy'n rhan o'r cynllun cofrestredig gynnig lleoliad i hyd at 3 unigolyn.

Mae'r Cynllun yn cael ei reoli o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae'r cytundeb yn cael ei reoli gan Wynedd a chafodd ei adolygu a'i gytuno yn 2022 yn dilyn oedi oherwydd COVID-19.

Cyfrifoldeb y gwasanaeth yw cynorthwyo'r unigolion canlynol:

- oedolion sydd ag anawsterau dysgu
- oedolion sydd â phroblemau iechyd meddwl
- oedolion sydd ag anableddau corfforol
- oedolion sydd â nam ar y synhwyrau

Mae gwneud mynediad i'r gwasanaeth yn fwy amrywiol yn faes i'w ddatblygu gan fod y gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf gan oedolion sydd ag anableddau dysgu.

Agweddau cadarnhaol y gwasanaeth yw ei fod yn gallu caniatáu hyblygrwydd gan nad oes oriau penodedig a gellir darparu'r cymorth pryd a phan fydd ei angen ar yr unigolyn. Anfantais hyn yw bod llai o fonitro o ran sicrhau fod unigolion yn derbyn y lefel o gymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu sgiliau a sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau. Nod y Gwasanaeth yw darparu cymorth drwy fodel cymorth gweithredol ac ymddygiad cadarnhaol, ond mae angen adolygu hyn a darparu tystiolaeth yn ystod adolygiadau personol fel comisiynwyr.

## PENNOD 8 – MATH O DDARPARIAETH A GAIFF EI RHEOLEIDDIO: Gwasanaethau Eirioli

### ADRAN 8A – DIGONOLRWYDD Y FARCHNAD

Ystyr eirioli yw cael cymorth gan berson arall i helpu rhywun i fynegi barn a dymuniadau, a helpu i sefyll dros eu hawliau.

Mae pawb yn wahanol iawn i'w gilydd. Mae eu hanghenion cymorth yn wahanol iawn, a gallant newid yn ystod bywyd. Mae llawer o fodelau eirioli wedi cael eu datblygu i gydnabod y gwahaniaethau hyn.

Mae pob math o eirioli yn gyfartal. Dylai pa ddull eirioli a ddefnyddir, a phryd, ddibynnu ar beth sydd fwyaf addas i'r person sy'n ceisio ei ddefnyddio. Un math o eirioli yw Eirioli Proffesiynol Annibynnol sy'n cynnwys eiriolwr proffesiynol a chymwys yn gweithio ar sail un i un gydag unigolyn neu gyda'r unigolyn a theuluoedd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

**Plant a phobl ifanc**

Mae eirioli'n un o sylfeini allweddol cyflawni ymrwymiad CSYM i hawliau plant, gan sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael help pan fo angen, a chan bobl a fydd yn gwrando arnyn nhw a chynrychioli eu barn.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fod â gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc eu defnyddio, a rhaid sicrhau Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth.

Pan fydd plant a phobl ifanc angen gwasanaethau, weithiau bydd angen i eiriolwr gwrdd â nhw i egluro'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn eu helpu nhw i ddeall beth sydd ar gael, a sut y gall y gwasanaeth helpu. Gelwir hyn yn Gynnig Gweithredol.

Rhaid sicrhau cynnig gweithredol i:

Plant mewn gofal.

Pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae gan gynghorau gyfrifoldeb statudol i ddarparu gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n cydymffurfio â'r holl reoliadau, safonau, deddfwriaeth, cyfarwyddiadau, cod ymddygiad, fframwaith deilliannau ac unrhyw ddiwygiadau neu amnewidiadau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

> Mae'r Gwasanaeth yn wasanaeth 'eirioli' at ddibenion paragraff 7(1) Atodlen 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, ac yn hynny o beth, mae'n wasanaeth rheoledig ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r darpariaethau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

Eirioli Proffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Deilliannau Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014: Rhan 10 Cod Ymarfer (Eirioli).

Canllaw Statudol ynghylch Rhannau 2 i 15 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

Ar hyn o bryd, mae CSYM yn contractio NWAS a Trosgynnol i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn rhan o'r gwasanaeth Rhanbarthol.

Yn ystod 2020-21, bu i gyfanswm o 99 o blant a phobl ifanc dderbyn Eiriolaeth ar sail Materion (IBA) a oedd yn cynnwys 211 o faterion.

I rai plant a phobl ifanc, mae dyletswydd statudol i ddarparu cynnig gweithredol o eirioli. Mae'r Cynnig Gweithredol yn cynnwys cyfarfod penodol rhwng plentyn neu berson ifanc ac eiriolwr, lle mae'r eiriolwr yn gallu egluro'r hawliau i'r plentyn neu'r person ifanc - UNCRC ac Erthygl 12: egluro eirioli a'r mathau gwahanol o eiriolaeth (nid IPA yn unig) a gwybodaeth am gymorth a gwasanaethau perthnasol. Derbyniodd y darparwr gyfanswm o 29 o atgyfeiriadau Cynigion Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2021-22 a 2022/23, sefydlodd CSYM mewn partneriaeth â TGPCYMRU Wasanaeth Eiriolwr Rhieni peilot i rymuso rhieni i gymryd rhan yn y broses amddiffyn plant a'r broses plant sy'n derbyn gofal o sefyllfa â gwybodaeth, gan siarad dros eu hunain lle bo'n bosibl, ac i hyrwyddo cyfathrebu da, a pherthynas waith positif rhwng y rhieni a'r Awdurdod Lleol.

**Oedolion**

Rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolion i gael cymorth eiriolaeth wrth gyflawni swyddogaethau amrywiol gan gynnwys penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd bob dydd yr unigolyn, er enghraifft:

Asesu anghenion gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol

Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth Paratoi, cynnal neu adolygu cynlluniau gofal a chymorth Amddiffyn eiddo unigolion sy'n derbyn gofal o gartref Pennu gallu unigolyn i dalu ffi (Byddai hyn yn briodol pe byddai rheswm i gredu nad oedd gan yr unigolyn gapasiti meddyliol o ran cyllid.)

Diogelu a dyletswydd i adrodd am oedolion neu blant mewn perygl.

Hyrwyddo integreiddiad gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd Derbyn cwynion neu sylwadau am y gwasanaethau cymdeithasol

Bydd eiriolaeth yn cael ei ystyried bob amser os nad oes gan yr unigolyn gapasiti meddyliol ynghylch mater penodol a phan fydd angen penderfyniad budd gorau. Mae'r un peth yn wir os oes gan yr unigolyn gapasiti, ond credir fod angen penderfyniad gan y llys dan awdurdodaeth gynhenid. Ym mhob achos, gall yr unigolyn enwebu eiriolwr, ffrind neu deulu. Os nad yw hyn yn bosibl, byddai eiriolaeth â thâl yn cael ei threfnu.

**Mae eiriolaeth:**

- yn diogelu unigolion sy'n agored i niwed, sy'n cael eu trin yn wahaniaethol neu y mae gwasanaethau'n eu cael hi'n anodd darparu ar eu cyfer
- yn siarad ar ran unigolion nad ydynt yn gallu siarad ar ran eu hunain
- yn grymuso unigolion sydd angen llais cryfach drwy eu galluogi nhw i fynegi eu hanghenion eu hunain, a gwneud penderfyniadau call
- yn galluogi unigolion i gael mynediad i wybodaeth, archwilio a deall eu hopsiynau a sicrhau bod eu barn, dymuniadau a theimladau yn glir, ac
- yn cefnogi pobl yn weithredol i wneud dewisiadau call.

Ar hyn o bryd, mae CSYM yn contractio Gwasanaethau Eirioli Gogledd Cymru (NWAS) i gyflawni ein gwasanaethau cymorth eirioli Gwasanaethau Oedolion. Mae data'r gwasanaeth yn nodi fod 98 o gysylltiadau wedi'u cynnal yn 2020/21.

Mae CSYM yn ariannu cynrychiolwyr adran 1.2 i rai unigolion. Dyma y mae'r llys yn galw unigolyn sy'n gallu ystyried a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, o safbwynt buddion gorau'r unigolion, y dylai'r Llys awdurdodi pecyn gofal a chymorth yr unigolyn sy'n arwain at amddifadu o ryddid. Fel arfer, aelod o'r teulu fydd yn gwneud hyn, ond mewn rhai achosion lle does dim aelodau'r teulu, mae'n bosibl y bydd Eiriolwr Annibynnol yn cael ei benodi'n gynrychiolydd Rheol 1.2.

Dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS), rydym hefyd yn ariannu Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol (RPR) â thâl i rai unigolion i rai unigolion. Os nad oes gan unigolyn gapasiti meddyliol i gydsynio i'w llety, gofal a thriniaeth ac maent wedi'i 'amddifadu o ryddid' mewn cartrefi gofal, mae gan yr unigolyn hwnnw hawl i gael unigolyn yn ei gefnogi i arfer ei hawliau dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gelwir yr unigolyn yn Gynrychiolydd yr Unigolyn Perthnasol (RPR). Yn aml, mae'r RPR yn aelod o'r teulu neu'n ffrind i'r unigolyn. Os nad oes unigolyn priodol i fod yn RPR i'r unigolyn, bydd RPR â thâl yn cael ei benodi ac yn eirioli i fod yn RPR yn y sefyllfa hon. Gelwir hyn yn Gynrychiolydd yr Unigolyn Perthnasol â Thâl (RPR â Thâl).

**Pobl hŷn**

Cafodd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020, i redeg ochr yn ochr â gweithrediad Rhan 10 (Eiriolaeth) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 a chefnogi'r gweithrediad hwnnw. Mae'r rhaglen bellach wedi dod i ben, ond mae ymrwymiad Age Cymru i eiriolaeth yng Nghymru yn parhau drwy'r prosiect HOPE.

Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam: Mae Cymdeithas Eiriolaeth a Chyngor Gogledd Cymru (NWAAA) yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth i'r rhai dros 65 oed

Conwy a Sir Ddinbych: Mae Canolfan DEWIS ar gyfer Byw Annibynnol yn cynnig eiriolaeth i unrhyw un dros 65 oed, neu unrhyw ofalwr.

Pobl sy'n byw â demensia (pob sir): Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n byw â demensia, waeth os oes ganddynt gapasiti i gyfathrebu ai peidio.

**Iechyd Meddwl**

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n derbyn gofal iechyd meddwl eilradd angen help gan Eiriolwr Iechyd Meddwl (Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010) neu Eiriolwr Capasiti Meddyliol Annibynnol. (IMCA, wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd os oes angen).

Mae CSYM hefyd yn defnyddio'r Eiriolwr Capasiti Meddyliol Annibynnol i weithredu ar ran unigolion nad oes ganddynt y capasiti i wneud penderfyniadau penodol. Yng Nghymru, cânt eu penodi gan Fwrdd Iechyd lleol. Maen nhw'n cael eu penodi pan fo asesiad mewn ymateb i gais am awdurdodiad safonol gan y cartref gofal/ysbyty, neu bryder am amddifadu o ryddid heb awdurdod o bosibl. Fel arfer, byddai hyn yn aelod o'r teulu neu'n gyfaill. Os nad oes gan yr unigolyn unrhyw un sy'n fodlon ac yn gallu ei gynrychioli neu fod yn rhan o'r broses o bennu ei fuddion gorau, heblaw am staff â thâl

Mae'n bosibl y bydd angen eiriolaeth ar bobl hŷn â demensia sydd wedi colli cyswllt gyda phob ffrind ac aelod o'r teulu, neu bobl ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl hirdymor sydd wedi bod mewn sefydliadau preswyl am gyfnodau hir ac sydd heb gysylltiadau allanol.

Mae'n bosibl y bydd pobl eraill â chyflyrau iechyd meddwl eisiau cymorth gan rywun arall wrth fynegi barn, neu geisio cyngor ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Mae'r sefydliadau canlynol yn darparu cymorth eiriolaeth arbenigol i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl;

Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS) (Conwy a Sir Ddinbych)

Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru (ASNEW) (Wrecsam a Sir y Fflint)
Cynllun Eiriolaeth Iechyd Meddwl (Gwynedd ac Ynys Môn)

**Awtistiaeth**

Mae eiriolaeth ar gyfer oedolion awtistig, plant a'u gofalwyr yn sicrhau bod eu hawliau unigol yn cael eu bodloni. Gall eiriolaeth ddarparu cymorth mewn sawl ffordd gan gynnwys ceisio diagnosis, goresgyn rhwystrau a chael mynediad i wasanaethau.

**Diogelu a Hunan-Esgeulustod**

Dylid ystyried eiriolaeth bob amser yn rhan o'r ymchwiliad a126 ac yn ystod y daith ddiogelu unigolion, os oes gan yr unigolyn ddiffyg capasiti meddyliol ynghylch ei ddeilliannau diogelu. Fel arfer, byddai hyn yn aelod o'r teulu neu'n ffrind. Fodd bynnag, os nad oes unigolyn priodol ar gael, byddai eiriolwr â thâl yn cael ei benodi. Yn yr un modd, wrth gefnogi unigolion dan Brotocol Hunan-Esgeulustod Gogledd Cymru, dylid ystyried eiriolaeth drwy gydol y broses, ac os nad oes unigolyn priodol ar gael i ymgymryd â'r rôl, byddai eiriolwr â thâl yn cael ei gomisiynu.

**ADRAN 8B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD**

Ar sail y data diweddaraf, mae darpariaeth eiriolaeth yn ddigonol ac yn darparu gofal a chymorth o safon i fodloni anghenion. Mae staff cymwys yn darparu gofal a chymorth o'r radd flaenaf.

| Camau Gweithredu a Roddwyd ar Waith Oherwydd Methiant y Darparwr |
|---|
| Ym mis Awst 2022, nid oedd unrhyw ran o’r gwasanaeth eiriolaeth ar Ynys Môn yn rhan o’r broses Uchafu Pryderon. |

| ADRAN 8C – FFACTORAU ERAILL YNGHYLCH SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD |
|---|
| **Ystyried Ansawdd y Farchnad** |
| Mae data yn Adroddiad y Comisiynydd ar Wasanaeth Eiriolaeth Ynys Môn ar gyfer Ch1 2022/23 yn dangos fod pob partner eiriolaeth wedi nodi eu bod yn gwerthfawrogi’r mewnbwn eiriolaeth a gawsant. Roedd y Gwasanaeth Eiriolaeth yn gallu darparu cefnogaeth barhaus er gwaethaf materion y cleientiaid. |
| **Tueddiadau Presennol a Rhagamcan o Dueddiadau i’r Dyfodol** |
| Mae data o Ch1 2022/23 yn dangos cyfradd sefydlog o atgyfeirio o ran eiriolaeth annibynnol ac RPR â thâl (Cynrychiolydd â Thâl yr Unigolyn Annibynnol*.) Mae’r ystodau oedran yn gynrychioladol, a does dim bylchau sy’n peri pryder. Yn yr un modd, mae demograffeg y rhai sy’n cael eu hatgyfeirio yn eang, sy’n dangos bod ystod o oedolion ag anghenion gofal cymdeithasol yn Ynys Môn yn manteisio ar eiriolaeth. Mae atgyfeiriadau nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau CSYM un ai’n cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol, neu’n cael eu dosbarthu fel rhai Dim Gweithredu Pellach. Ym mhob achos, bydd yr atgyfeiriwr yn cael gwybod a’r rheswm dros beidio â dyrannu’n cael ei drafod.<br><br>*Beth yw Cynrychiolydd â Thâl Unigolyn Perthnasol?<br>Rhaid i bawb sydd ag awdurdodiad Trefniadau Diogelu Amddifadu o Ryddid fod â chynrychiolydd i sicrhau bod unrhyw amodau’n cael eu bodloni; i roi gwybod i’r unigolyn am ei hawliau a sut i arfer yr hawliau hynny.<br><br>Os nad oes unigolyn a all gyflawni’r rôl heb dâl, bydd yr Awdurdod Lleol yn penodi Cynrychiolydd â Thâl i’r Unigolyn o NWAAA ac mae’r Cynrychiolwyr â Thâl yn annibynnol o’r cartref gofal neu’r ysbyty, a’r Awdurdod Lleol a’r Corff Goruchwylio. |
| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad** |
| **Gofalwyr ifanc**<br><br>Angen cyffredin gan ofalwyr ifanc sy’n dod i law darparwyr gwasanaeth yw cymorth eirioli er mwyn sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed.<br><br>Mae cymorth penodol i ofalwyr ifanc a gofalwyr sy’n oedolion ifanc wedi cael ei gomisiynu ledled Gogledd Cymru gan y trydydd sector. Caiff WCD / Gofalwyr Ifanc Credu eu comisiynu i ddarparu’r gwasanaethau hyn yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy, mae NEWCIS yn darparu’r gwasanaeth yn Sir y Fflint a Gweithredu dros Blant yn cynnig y gwasanaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn.<br><br>**Anableddau dysgu**<br><br>Yn aml, mae pobl ag anableddau dysgu’n cael llai o fynediad i wasanaethau gwella iechyd a thriniaeth gynnar; er enghraifft, gwasanaethau sgrinio canser, adolygiadau blynyddol |

diabetes, cyngor ar ryw a pherthnasoedd a chymorth gyda dulliau atal cenhedlu (Harris et al., 2016). Mae'r Gwasanaeth Cydgysylltu Iechyd Anableddau Dysgu yn BIPBC yn gweithio ledled Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldebau.

Mae eiriolaeth hefyd yn anelu at sicrhau deilliannau lles. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ystyried anghenion unigolion am eiriolaeth wrth gynnal asesiadau a chynllunio gofal. Mae'n bosibl y bydd pobl ag Anableddau Dysgu hefyd angen cymorth i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a'u hawliau'n cael eu parchu.


Mae Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i oedolion sy'n agored i niwed rhwng 18 a 64 oed, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu. Mae Ynys Môn hefyd yn comisiynu Cymdeithas Eiriolaeth Gogledd Cymru (NWAA).

**Darpariaeth gwasanaeth yn y Gymraeg**

Fel gwasanaeth, mae eiriolaeth ar gael yn ddwyieithog i blant ac oedolion.

**Cynaliadwyedd darpariaeth**

Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Eiriolaeth ar gyfer Ch1 2022/23 yn dangos fod ystod o oedolion ag anghenion gofal cymdeithasol ar Ynys Môn yn manteisio ar eiriolaeth.



| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| --- |
| Dan Drefniadau Diogelu Amddifadu o Ryddid (DoLS), mae CSYM yn ariannu Cynrychiolydd â Thâl yr Unigolyn Perthnasol (RPR) i rai unigolion. Os nad oes gan yr unigolyn y capasiti meddyliol i gydsynio i lety, gofal a thriniaeth ac wedi'u 'hamddifadu o ryddid' mewn cartref gofal neu ysbyty, mae gan yr unigolyn hwnnw'r hawl i gael rhywun i'w gefnogi i arfer ei hawliau dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Gelwir yr unigolyn hwn yn Gynrychiolydd yr Unigolyn Perthnasol (RPR). Yn aml, mae'r RPR yn aelod o'r teulu neu'n ffrind i'r unigolyn. Os nad oes person priodol ar gael i fod yn RPR i unigolyn, yna bydd RPR â thâl yn cael ei benodi ac yn eirioli fel RPR yn y sefyllfa hon. Gelwir hyn yn Gynrychiolydd â Thâl yr Unigolyn Perthnasol.<br><br>Yn ystod pandemig Covid-19, roedd staff yr CSYM yn gallu cynnal gwasanaeth llawn drwy addasu'n gyflym a chefnogi staff i weithio'n ddiogel. Yn ystod y pandemig, dim ond dau aelod staff a wnaeth ddal Covid-19, ond ers mis Ionawr 2022, mae pawb ond un o'r tîm Eiriolaeth wedi dal Covid-19 ac wedi bod ar absenoldeb salwch. Oherwydd straen a achoswyd yn ystod y pandemig, waeth os oedd e'n ymwneud â'r pandemig gartref, neu'n gweithio'n galetach i sicrhau gwasanaeth parhaus i gleientiaid, mae cydweithwyr bellach yn dangos arwyddion straen ac angen amser i ffwrdd o'r gwaith i ddod at eu hunain. Mae hyn yn rhywbeth nas ragwelwyd, ac mae staff bellach yn datblygu strategaeth ar gyfer hyn.<br><br>Y Trefniadau Diogelu Amddifadu o Ryddid (DoLS) yw'r cynllun presennol ar gyfer asesu ac awdurdodi'r amddifadu o ryddid, a chawsant eu cyflwyno i amddiffyn hawliau dynol yr unigolion hynny sydd heb y capasiti meddyliol i gydsynio i golli rhyddid. Yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys yn achos Gorllewin Sir Gaer, cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019, gyda'r nod o ddiddymu DoLS a'i ddisodli gyda'r Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid (LPS). Yn wahanol i'r DoLS (oedd ond yn berthnasol i drefniadau mewn cartrefi gofal ac ysbytai a phobl o leiaf 18 oed), bydd yr LPS yn berthnasol i unrhyw un dros 16 oed. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu'r angen am eiriolaeth ar gyfer yr unigolion ychwanegol posibl hyn, ac mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol pan fydd yr LPS yn dod i rym. |

| **ADRAN 8D – DARPARIAETH HEB REOLIADAU [GWASANAETHAU ATALIOL, CAMU I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDAF I'N BAROD ac ati]** |
| --- |
| Amherthnasol |

| **ADRAN 8E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD**<br><br>**Gwerth cymdeithasol** |
| --- |
| Mae eiriolaeth yn hyrwyddo gwerth cymdeithasol fel a ganlyn:<br>• Gall eiriolwyr gefnogi unigolyn i ddeall gwybodaeth ac opsiynau, fel bod modd i'r person wneud dewisiadau sy'n dda iddo ef/hi.<br>• Gall eiriolwyr gefnogi pobl i sicrhau bod y dewisiadau y maen nhw'n eu gwneud yn cael eu clywed a'u parchu gan eraill. |

- Gall eiriolwyr ddweud wrth bobl am eu hawliau.
- Gall eiriolwyr fynd i gyfarfod gydag unigolyn er mwyn ei helpu i gymryd rhan. Neu fynd i gyfarfod yn lle unigolyn os na all fynd ar ben ei hun.
- Gall eiriolwyr sefyll dros hawliau pobl sydd heb gapasiti i gymryd rhan eu hunain.

**Adnoddau**

Mae CSYM yn rhagweld rhagor o bwysau ar gyllidebau yn 2023/24.

**Taliadau uniongyrchol**

Darperir y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol i bobl Ynys Môn ar gyfer pobl sy'n byw ar yr ynys gan Gymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru (NWAAA).

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ffordd o dalu am anghenion gofal a chymorth sy'n rhoi rhagor o reolaeth i'r unigolyn. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn asesu anghenion yr unigolyn, yn cyfrifo faint y byddai'n costio i fodloni'r anghenion hynny, ac yna'n rhoi'r arian i'r unigolyn fel bod modd iddo ef/hi reoli'r sefyllfa. Gelwir yr arian yn Daliad Uniongyrchol.

**Hunan-ariannwyr**

**Hunan-eiriolaeth**

Bu cyfnodau da a drwg o ran y grŵp Roaring Mon yn y chwarter hwn. Er bod llawer o frwdfrydedd am hunan-eiriolaeth ymysg aelodau, bu anawsterau o ran gwarantu eu bod nhw'n mynd i'r cyfarfodydd a drefnwyd yn rheolaidd. Mae NWAAA wedi addasu ei dull drwy siarad ag unigolion ar sail un i un am eu rôl mewn rhannau gwahanol o waith fel bod modd iddynt gymryd rhan. Mae hyn wedi bod yn eithaf llwyddiannus o ran cynyddu presenoldeb mewn cyfarfodydd grŵp. Roedd un o'r darnau o waith un i un hyn yn ymwneud â pharhau â'r prosiect hyrwyddo diet iachus. Mae'r aelod a'r hwylusydd wedi cydweithio ar ddatblygu pynciau a thaflenni gwybodaeth i lunio sesiynau galw heibio neu gyflwyniadau y maen nhw'n bwriadu eu cynnal yn Ynys Môn. Mae'r gwaith cefndirol yn mynd rhagddo, ond mae wedi bod yn anodd pennu cyfleoedd cyflawni. Yn yr un modd, nid oeddem yn gallu darbwyllo unrhyw rai o aelodau Roaring Mon i fynd i gynhadledd flynyddol AWPF a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn Neganwy. Roedd ystod o broblemau, megis cynlluniau ymlaen llaw a ddim eisiau talu i aros dros nos. Mae gan NWAAA strategaeth i gynyddu aelodaeth a fydd yn lleddfu rhai o'r problemau o ran diffyg presenoldeb, fodd bynnag, yn ddelfrydol hoffem i'r aelodau eu hunain fod yn rhan o'r broses codi ymwybyddiaeth a recriwtio. Ar nodyn positif, mae'r cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer Roaring Mon wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd partneriaeth rhanbarthol - sydd bellach wedi'u hail-frandio: The North Wales Flyers. Yno, mae hi wedi helpu i lywio'r ffordd y bydd y grŵp yn gweithio, a'u blaenoriaethau ar gyfer eleni.

**Y Gweithlu**

Ar ôl y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn broblem, gyda'r gyfradd drosiant staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn 2021/22.

Mae galw cynyddol am wasanaethau, ond mae cyllidebau gyda phwysau chwyddiant yn ei chael hi'n anodd ateb y galw hwn.

Dyma dabl yn dangos y trosiant staff yn yr Adrannau Oedolion a Phlant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â chyfartaledd yr Awdurdod:

Tabl 27: Trosiant staff

| | Trosiant staff | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **Cyfartaledd** |
| Oedolion | 6% | 12% | 10% | 8% | 14% | 10% |
| Plant | 18% | 10% | 11% | 6% | 15% | 12% |
| Cyfartaledd yr Awdurdod | 11% | 11% | 9% | 6% | 10% | 9% |

Yn gyffredinol, mae trosiant staff wedi bod yn uwch yn yr adran Plant na'r adran Oedolion, ond mae'r cyfartaledd ar gyfer y ddwy adran yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod. Bu i'r gyfradd trosiant staff leihau yn 2019/20 a 2020/21 a allai fod oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, yn 2021/22, cynyddodd y gyfradd trosiant staff yn y ddwy adran. Mae'n debygol fod hyn yn ei dro wedi cyfrannu at y cynnydd yn y gyfradd trosiant staff i'r Awdurdod.

Mae'n bosibl bod y gyfradd trosiant staff eithaf uchel ar gyfer 2021/22 oherwydd staff yn penderfynu symud ymlaen ar ôl y pandemig, a gall nodi problem o ran cadw staff.

**Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol**

Gweler yr Asesiad Effaith

**ADRAN 8F – CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Eiriolaeth DARPARIAETH RHEOLEIDDIEDIG**

1. Pan fydd y Trefniadau Diogelu Amddiffyn Rhyddid (LPS) yn dod i rym, mae'n debygol y bydd hyn yn cynyddu'r angen am eiriolaeth i'r unigolion ychwanegol posibl hyn, ac mae'n bosibl y bydd angen adnoddau ychwanegol hefyd.

2. Y Gweithlu - mae proffil oedran y gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol ar i fyny, ac mae trosiant staff hefyd wedi cynyddu ar ôl y pandemig.

3. Mae recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yn anodd, ac yn enwedig recriwtio gweithwyr arbenigol e.e. Therapyddion Galwedigaethol - mae hyn yn broblem genedlaethol.

## PENNOD 9 - MATH O DDARPARIAETH REOLEDIG: Gwasanaethau Cymorth Gofal Cartref

### ADRAN 9A – DIGONOLRWYDD MARCHNAD

**Cydbwysedd y farchnad**

O ran cydbwysedd y farchnad, ar gyfartaledd mae mwy nag 80% o farchnad gofal cartref Gogledd Cymru yn cynnwys darparwyr sector annibynnol gyda'r gweddill yn gymysgedd o ddarparwyr Awdurdod Lleol a Thrydydd Sector. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol fel y dangosir yn y tabl isod:

Tabl 28: Canran amcangyfrifiedig o gyfran y farchnad sector gofal cartref yn ôl math

| Sir | Mewnol | Sector Annibynnol |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 18.5 | 81.5 |
| Gwynedd | 44 | 56.0 |
| Conwy | 9.7 | 90.3 |
| Sir Ddinbych | 10 | 90.0 |
| Sir Fflint | 10.5 | 89.5 |
| Wrecsam | 3 | 97 |
| **Gogledd Cymru** | **16** | **84** |

Mae'r rhaniad ar gyfer **Ynys Môn**, sef 18.5% : 81.5% yn agosach at y rhaniad cyfartalog rhanbarthol o 16% : 84%. Fodd bynnag, yng Ngwynedd, mae 44% o ofal cartref yn cael ei ddarparu'n fewnol ar hyn o bryd a 56% yn cael ei ddarparu drwy'r sector annibynnol.

Argymhellir rhannu'r darparwr mewnol/allanol (sector annibynnol a'r trydydd sector) yn 30/70%. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Ynys Môn wedi darparu 15-25% o'r farchnad gofal cartref yn fewnol.

**Trosolwg o'r farchnad**

Mae nifer cyfartalog yr oriau o ofal cartref yr wythnos a gomisiynir gan yr awdurdod lleol yn cael ei gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol yn y tabl isod. Ar gyfer Ynys Môn ac awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, mae cyfanswm yr oriau gofal cartref a gomisiynir yr wythnos yn gymesur â phoblogaeth y sir:

**Tabl 29: Oriau gofal cartref a gomisiynir ar gyfartaledd bob wythnos**

| Oriau gofal cartref a gomisiynir ar gyfartaledd bob wythnos | Person hŷn | Anabledd dysgu | Iechyd meddwl pobl hŷn | Anabledd corfforol | Cyfanswm | Canran cyfanswm yr oriau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 3,644 | 390 | - | 582 | 4,616 | 9% |
| Gogledd Cymru | 5,829 | 1,866 | 533 | 899 | 8,562 | - |

O ran nifer yr oriau gofal cartref a gomisiynir bob wythnos, dylai fod yn gymesur a'r boblogaeth. Mae'r nifer o oriau gofal cartref a gomisiynir bob wythnos yn 9% o gyfanswm awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac mae poblogaeth Ynys Môn yn 10% o gyfanswm Gogledd Cymru.

**Darparwyr**

Mae'r gofal cartref a ddarperir ar Ynys Môn yn cael ei ddarparu gan 3 phrif ddarparwr sy'n gweithio fesul ardal yn rhanbarthol (Abacare, Carelink, Plas Garnedd (consortiwm))


**Cyfraddau marchnad**

Mae'r gyfradd gyfartalog fesul awr o ofal cartref ar gyfer Ynys Môn ar gyfer y grwpiau poblogaeth a nodir yn y tabl isod yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru:

Tabl 30: Cyfradd gyfartalog fesul awr o ofal cartref yn ôl grŵp poblogaeth (£)

| Ardal | Person hŷn | Anabledd dysgu | Iechyd meddwl pobl hŷn | Anabledd corfforol |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £17.83 | £16.04 | £17.83 | £17.83 |
| Gogledd Cymru | **£19.35** | **£18.17** | **£19.53** | **£19.34** |
| **Gwahaniaeth** | -£1.52 | -£2.13 | -£1.70 | -£1.51 |
| %oedran | -8% | -12% | -9% | -8% |

Dangosir hyn ar ffurf graff isod:




**Trosolwg marchnad Ynys Môn**

Fel sy'n wir am ardaloedd eraill, yn Ynys Môn, mae'r galw yn uwch na'r cyflenwad ar hyn o bryd (Mawrth 2022) oherwydd prinder darparwyr gofal cartref, yn allanol ac yn fewnol.

**Trosolwg rhanbarthol o'r farchnad**

Mae gofal cartref yn farchnad wedi'i nodi'n flaenoriaeth gan gomisiynwyr, gyda darparwyr presennol yn y sector preifat yn ei chael hi'n anodd i fodloni'r galw am gyfnod sylweddol erbyn hyn. O ganlyniad, mae twf a datblygiad gwasanaethau gan gynnwys gofal cartref cyffredinol (gan gynnwys gofal cartref, ail-alluogi; byw yn y gymuned ac adferiad) wedi'u nodi fel cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

## ADRAN 9B – SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD

### Sefydlogrwydd y Farchnad

### Sefydlogrwydd marchnad Ynys Môn

Yn dilyn y pandemig, mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn broblem gyda chyfradd trosiant staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cynyddu yn ystod 2021/22.

Mae galw cynyddol am wasanaethau, ond mae cyllidebau ynghyd â phwysau chwyddiant yn ei gwneud hi'n anodd cwrdd â'r galw hwn.

Isod mae tabl yn dangos trosiant staff o fewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant y Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â chyfartaledd yr Awdurdod:

Tabl 31 : Trosiant staff

| | Trosiant Staff | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **Cyfar-taledd** |
| Oedolion | 6% | 12% | 10% | 8% | 14% | 10% |
| Plant | 18% | 10% | 11% | 6% | 15% | 12% |
| Cyfartaledd Awdurdod | 11% | 11% | 9% | 6% | 10% | 9% |

Yn gyffredinol, mae trosiant staff wedi bod yn uwch o fewn yr adran Plant nag o fewn y gwasanaeth Oedolion ond mae cyfartaledd y ddau ran yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod. Gostyngodd y gyfradd trosiant staff yn 2019/20 a 2020/21 a allai fod oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, yn 2021/22, cynyddodd y gyfradd trosiant staff yn y ddau ran sydd yn ei dro wedi dylanwadu ar gyfradd trosiant staff yr Awdurdod.

Mae'n bosibl bod y gyfradd trosiant staff cymharol uchel ar gyfer 2021/22 oherwydd staff yn penderfynu symud ymlaen ar ôl y pandemig a gallai fod yn arwydd o broblem gyda chadw staff.

### Heriau rhanbarthol

Mae bwlch mewn gwasanaethau mewn perthynas â galwadau cartref byr am gymorth gyda meddyginiaeth. Nid yw gwasanaethau iechyd na gofal cymdeithasol yn darparu galwadau am feddyginiaeth yn unig, ond mae angen y gofal hanfodol hwn ar bobl hŷn â phroblemau cof (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

Mae'r sefyllfa economaidd bresennol gyda chwyddiant a chostau tanwydd yn codi, a phwysau costau byw ehangach yn creu ansefydlogrwydd ac ansicrwydd i ddarparwyr gofal cartref a'u staff, gyda rhai aelodao staff yn wynebu tlodi mewn gwaith.

Gallai gostyngiad mewn cyllidebau gyflwyno heriau pellach o ran lefel y gwasanaethau y gellir eu comisiynu a'u darparu. Ar draws Gogledd Cymru, mae darparwyr wedi gwerthfawrogi'r cyllid cymorth drwy gydol pandemig COVID-19. Er enghraifft, £1m ychwanegol ar gyfer gofal cartref sydd wedi darparu sefydlogrwydd yn ystod y pandemig. Mae pryder am yr effaith y bydd diwedd y cymorth ariannol yn ei gael.

**Camau a Gymerwyd Oherwydd Methiant Darparwr**

Amherthnasol

**ADRAN 9C – FFACTORAU ERAILL O RAN SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD**

**Ystyried Ansawdd y Farchnad**

**Ystyried ansawdd y farchnad**

Hyd at Awst 2022, nid oes unrhyw gartref preswyl / nyrsio ar Ynys Môn nac unrhyw ddarparwr Gofal Cartref o dan y broses Pryderon Cynyddol.

**Tueddiadau Presennol a Rhagamcanol**

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 a ryddhawyd ym mis Mehefin 2022 yn dangos bod poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng 1.2% yn 2011 i 68,900 yn 2021. Fodd bynnag, cynyddodd cyfanswm poblogaeth Cymru 1.4%, gan gynyddu 44,000 i 3,107,500.

Yn arwyddocaol, mae Ynys Môn hefyd wedi gweld cynnydd o 16.3% mewn pobl 65 oed a hŷn, gostyngiad o 7.9% yn y bobl rhwng 15 a 64 oed, a chynnydd o 0.1% mewn plant o dan 15 oed. Mae'r ffigurau Cyfrifiad newydd hyn yn cadarnhau bod proffil oedran yr ynys wedi newid. Mae gan Ynys Môn boblogaeth sy'n heneiddio a bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau CSYM yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol gan bydd CSYM yn profi cynnydd yn y galw a bydd ganddi weithlu llai i wasanaethu'r boblogaeth.

Tabl 32: Poblogaeth

| | Poblogaeth | Poblogaeth dros 65 | | Poblogaeth dros 85 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal** | **(Mehefin 2022)** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ynys Môn | 68,900 | 18,200 | 26.4% | 2,200 | 3.2% |
| Gwynedd | 117,400 | 27,300 | 23.3% | 3,800 | 3.2% |
| Conwy | 114,800 | 31,400 | 27.4% | 4,500 | 3.9% |
| Sir Ddinbych | 95,800 | 23,800 | 24.8% | 3,000 | 3.1% |
| Sir Fflint | 155,000 | 33,200 | 21.4% | 3,800 | 2.5% |
| Wrecsam | 135,100 | 27,300 | 20.2% | 3,300 | 2.4% |
| Googledd Cymru | 687,000 | 161,201 | 23.5% | 20,600 | 3.0% |
| Cymru | 3,107,500 | 662,000 | 21.3% | 82,500 | 2.7% |

Mae canran y boblogaeth sydd dros 65 yn uwch ar gyfer Ynys Môn (26.4%) o gymharu â chyfartaledd Gogledd Cymru (23.5%) a Chymru (21.3%). Mae'r tabl hefyd yn dangos bod canran y rhai dros 65 a dros 85 yn uwch yn siroedd y gorllewin (Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy – 25.5% a 3.5%) o gymharu â siroedd Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam – 21.8% a 2.6%).

| |
|---|
| Pobl dros 85 ydi'r rhai sy'n dueddol o fod angen y mewnbwn gwasanaeth uchaf gan yr Awdurdod Lleol ac os nad oes gan drigolion Ynys Môn hyn gefnogaeth teulu sy'n byw yn lleol, mae'n tueddu i olygu bod yn rhaid i'r Cyngor ddarparu mwy o fewnbwn gwasanaeth. Wrth i boblogaeth yr ynys fynd yn hŷn a phobl iau o oedran gweithio symud i ffwrdd, bydd gostyngiad yn y rhai o oedran gweithio sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor.<br><br>Gall newid yn nifer a phroffil oedran poblogaeth Ynys Môn, o'i gymharu â gweddill Cymru, effeithio ar yr adnoddau ariannol y mae'r Cyngor yn eu derbyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei wasanaethau. Bydd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2022-27 yn chwarae rhan hanfodol wrth bennu ein nodau a'n hamcanion ac edrych tuag at flaenoriaethau darparu gwasanaethau yn y dyfodol. |
| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad** |
| **Effaith arferion Comisiynu ar y farchnad**<br><br>Croesewir y rhaglen pum mlynedd sef y Gronfa Gofal Integredig a'r Cyllid Trawsnewid a elwir nawr yn Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol (RIF) ond rydym yn parhau i weithio drwy'r canllawiau ac effaith y newidiadau. Oherwydd gwerth y cyllid hwn, mae'n hollbwysig bod unrhyw newidiadau yn y meini prawf yn cael eu mynegi gyda gyda digon o rybudd fel y gall awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ystyried a chynllunio gwasanaethau gyda hyn mewn golwg.<br><br>Lle bu angen comisiynu'n uniongyrchol gyda darparwr, mae arferion caffael presennol yn aml wedi bod yn rhwystr i hwyluso newid cyflyn'r angen i weithredu'n gyflym. Mae prosesau caffael wedi bod yn feichus ac yn anneniadol i rai darparwyr, yn enwedig yn y trydydd sector, sydd yna'n rhwystro nifer y cyflenwyr sy'n cyflwyno ceisiadau tendro a hyblygrwydd o fewn y farchnad.<br><br>Mae'r Timau Contractau a Chomisiynu ym mhob Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr gofal preswyl, gofal cartref a Byw â Chymorth. Tra cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn cyn y pandemig, cynyddodd eu hamlder ers hynny. Daeth y cymorth a'r rhwydweithio yn adnodd hanfodol i ddarparwyr yn ystod cyfnod o newid ac ansicrwydd. Mynychodd cydweithwyr o Dîm Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Iechyd a Diogelwch a swyddogion BIPBC y cyfarfodydd hefyd er mwyn i bartneriaid allu rhoi cyngor a chefnogaeth pan oedd angen ac mae trefniadau wedi parhau tu hwnt i'r pandemig ar lefel is.<br><br>Mae'r tîm comisiynu hefyd wedi cael cyswllt rheolaidd â darparwyr i gasglu data, holi am gyflenwadau PPE, a thrafod unrhyw faterion sy'n codi neu fod yno i wrando a chefnogi yn y cyfnod anodd hwn. |
| **Darpariaeth y Gwasanaeth yn y Gymraeg** |
| **Darpariaeth y Gwasanaeth yn y Gymraeg**<br><br>Roedd gwybodaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (2022) yn nodi bod llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal cartref yn cael trafferth rhoi'r diswyliadau'r ddarpariaeth yn y Gymraeg ar waith. Mae angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Mae angen i hyn gynnwys cyfleoedd i'r rhai sydd newydd |

ddechrau arni a'r rhai sydd angen magu hyder. Mae llawer o sefydliadau yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Dyma rai enghreifftiau: Cyrsiau a gynigir gan y cyngor lleol neu’r bwrdd iechyd. Grwpiau Cymraeg amser cinio.

Staff sy'n siarad Cymraeg yn cyflwyno gweithdai i'w cyd-weithwyr di-Gymraeg.

Yn yr Arolwg Darparwyr (Chwefror 2022) mae darparwyr yn nodi ei bod yn her i recriwtio siaradwyr Cymraeg o fewn eu lleoliad, byddai cymorth a chefnogaeth i hysbysebu/cyfieithu yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen i gwmnïau llai.

Mae darparwyr wrthi’n ceisio cynyddu eu defnydd o’r Gymraeg, ond mae’n anodd cynnal unrhyw ddysgu pan nad ydynt yn ei defnyddio’n ddigon aml (ar lefel bersonol yn ogystal ag ar gyfer y sefydliad).

Dadansoddwyd sgiliau iaith Gymraeg gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn 2022 ac roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

**<u>Oedolion</u>**

Nifer y staff yn y gwasanaeth: 422

Nifer y dychweliadau 422

Canran dychwelyd: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 19 | 41 | 31 | 20 | 57 | 254 |
| **Canran** | 5% | 10% | 7% | 5% | 14% | 60% |

**<u>Plant</u>**

Nifer y staff yn y gwasanaeth 238

Nifer y dychweliadau: 238

Canran dychwelyd: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer** | 8 | 6 | 14 | 12 | 52 | 146 |
| **Canran** | 3% | 3% | 6% | 5% | 22% | 61% |

Mae cyfanswm o 74% o staff yr adran Oedolion yn siarad Cymraeg hyd at o leiaf lefel 4 (Gallu siarad yr iaith yn y mwyafrif o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Cymraeg / Saesneg). Yn yr adran Plant roedd y ganran gyfatebol yn 83%.

| Cynaliadwyedd y ddarpariaeth |
|---|
| **Cynaliadwyedd y ddarpariaeth**<br><br>Mae'r gofal cartref a ddarperir ar Ynys Môn yn cael ei ddarparu gan 3 phrif ddarparwr sy'n gweithio fesul ardal yn rhanbarthol (Abacare, Carelink, consortiwm Plas Garnedd). Y nodweddion pwysig o ran y gwasanaeth yw diogelwch, cysondeb a dibynadwyedd. |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad** |
| **Risgiau i sefydlogrwydd y farchnad**<br><br>Mae darparwyr gofal mewnol ac annibynnol yn parhau i fod â nifer sylweddol o swyddi gwag wrth i ofalwyr presennol adael y sector gofal am amryw o resymau. Mae hyn yn peri pryder o ran sefydlogrwydd y farchnad, ac yn enwedig y gallu i ddarparu gofal, yn enwedig yn yr ardaloedd mwy gwledig sy'n anoddach eu cyrraedd.<br><br>Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth ar gyfer darparu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal uniongyrchol, bydd hyn yn effeithio ar gywasgiad cyflog a'r gallu i recriwtio / darparu dilyniant gyrfa i rolau uwch. Gall hyn gael effaith ar sefydlogrwydd y farchnad wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf fynd rhagddi.<br><br>Mae costau busnes, y tu allan i gyflogau hefyd yn cynyddu gyda chwyddiant yn cynyddu a chostau tanwydd yn arbennig yn cynyddu'n sylweddol. Ar gyfer gofal cartref mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ba mor ddeniadol yw'r rôl ac ar hyfywedd ariannol modelau busnes presennol. |

| ADRAN 9D - DARPARIAETH HEB EI RHEOLEIDDIO [GWASANAETHAU ATAL, CAM I LAWR O LEOLIAD DIOGEL, NEU DREFNIADAU SYMUD YMLAEN MEGIS PAN FYDDAF YN BAROD ayyb] |
|---|
| Anherthnasol |

| ADRAN 9E - YSTYRIAETHAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR Y FARCHNAD |
|---|
| **Gwerth Cymdeithasol**<br><br>Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn nodi "Cyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol: Rhaid i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn gynnwys barn y boblogaeth. Dylai pobl hŷn gael llais wrth lunio gwasanaethau y gallant gael mynediad atynt. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi papur sy'n amlinellu sut y gellir comisiynu gwasanaethau, fel gofal cartref, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer darpariaeth, sy'n canolbwyntio ar lesiant yn ogystal ag unrhyw angen sydd ei angen ar unwaith" (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022). |

| **Adnoddau** |
|---|
| Mae CSYM yn rhagweld pwysau pellach ar gyllidebau pan fydd yn ail-dendro ei wasanaethau yn ystod 2023. |
| **Taliadau Uniongyrchol** |
| **Taliadau uniongyrchol**<br><br>Nod Cyngor Sir Ynys Môn yw hyrwyddo Taliad Uniongyrchol drwy amlygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n adlewyrchu **llais**, **dewis** a **rheolaeth** drwy **rymuso** unigolion i fod mor annibynnol â phosibl yn eu cymuned leol eu hunain.<br><br>Rhai o fanteision dewis Taliadau Uniongyrchol yw:<br><br>• **Mae defnyddwyr gwasanaeth yn gallu** dewis pwy sy'n darparu eu gofal a'u cymorth<br>• Mae **defnyddwyr gwasanaeth** yn dewis pryd y darperir eu gofal i weddu i'w bywyd bob dydd<br>• Mae taliadau uniongyrchol yn **hyblyg** i fodloni eu gofynion unigol<br><br>Mae Ynys Môn yn ymroddedig i ddatblygu'r gwasanaeth trwy ymgynghori'n rheolaidd gyda'i harbenigwyr taliadau uniongyrchol (defnyddwyr gwasanaeth) ac i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn addas i'r pwrpas.<br><br>Mae gweledigaeth CSYM a'n ffordd o weithredu newid wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau a'i lwyddiant gan arwain at **243 o unigolion** yn cymryd rheolaeth o'u pecyn gofal ac yn dewis derbyn cymorth trwy daliadau uniongyrchol ar yr ynys o gymharu â **35 o unigolion** yn 2015. roedd yr arbedion wedi eu amcangyfrif fel a ganlyn:<br><br>• £5 o bob awr a gomisiynir yn cael ei arbed gan yr awdurdod lleol.<br>• £2,070,000 o wariant,<br>• £870,000 o arbedion y flwyddyn o gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth gwasanaeth. |
| **Hunan-arianwyr** |
| Mae yna ddarparwyr gofal preifat eraill yn gweithredu ar Ynys Môn ond mae maint eu darpariaeth a gwerth eu gwaith yn anodd ei bennu gan fod y trefniadau hyn yn cael eu trefnu'n uniongyrchol gan mwyaf heb ymyrraeth awdurdodau lleol |
| **Gweithlu** |
| **Gweithlu**<br><br>Fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru, mae'r sector dan bwysau sylweddol o ganlyniad i:<br><br>Newidiadau i ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA)<br><br>Fframwaith cymhwyster newydd<br><br>Strwythurau cyflog cystadleuol gan sectorau eraill<br><br>Cystadleuaeth o sectorau eraill |

Mae yna flaenoriaeth frys o ran sicrhau bod gweithlu digonol ar gael i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae recriwtio a chadw Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol a gweithwyr gofal uniongyrchol wedi dod yn arbennig o heriol ar draws Gogledd Cymru.

Mae Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru mewn cyfnod o newid sylweddol lle mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaethau'n wahanol gyda ffocws ar atal, amddiffyn, ymyrraeth, partneriaeth a gweithio integredig, cyd-gynhyrchu a grymuso; sy'n gofyn am bwyslais gwahanol ar sgiliau a hyfforddiant y gweithlu.

Mae llawer wedi'i ysgrifennu ar y materion sy'n ymwneud â recriwtio a dethol yn y gweithlu Gofal Cartref. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd LlC adroddiad ymchwil ar y 'Ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref ac i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ansawdd gofal cartref' (Atkinson, Crozier a Lewis, 2016). Ceisiodd yr ymchwil, a gynhaliwyd gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion, nodi ffactorau sy'n dylanwadu ar b'un a yw pobl yn dewis 'dod a pharhau i weithio fel gweithwyr gofal cartref'.

Mae tua 17,000 o staff gofal cartref yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018a). Mae ymgynghoriad LlC ar y Gweithlu Cartref (Llywodraeth Cymru, 2016) yn argymell bod y rhai sy'n gweithio yn y sector yn cael eu cydnabod fel y gweithwyr proffesiynol medrus ydynt. Rhaid herio delwedd negyddol y sector er mwyn annog pobl i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Roedd y ffactorau allweddol a amlygwyd gan yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

Cyflogau isel

Pwysau gwaith
Oriau anghymdeithasol
Telerau ac amodau gwael

Contractau '*zero hours'* neu 'oriau heb eu gwarantu' yn atal pobl rhag ymuno â'r sector, gan nad oedd unrhyw oriau gwarantedig

Nid yw rhai amseroedd galw yn ddigon i fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn Diffyg cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa
Yn cael ei gweld fel swydd statws isel o gymharu â gofal iechyd

Mae Awdurdodau Lleol wedi ymestyn eu Rhaglenni Gofal yn Gyntaf a Rhaglenni Cymorth i Weithwyr eraill i'r gweithlu allanol [nad yw'n awdurdod lleol]. Mae Rhaglenni Gofal yn Gyntaf/Cymorth i Gyflogi yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, diduedd 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn, ar-lein neu drwy'r rhif ffôn rhad ac am ddim. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i bob gweithiwr gael mynediad iddo pryd bynnag y mae ei angen arnynt.

Gellid gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr cartref i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl trwy sicrhau bod staff yn cael eu hannog i weithio yn y maes lle mae ganddynt y mwyaf o arbenigedd. Mae angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol ar y rhai sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw gyda dementia i gwblhau tasgau. Mae diffyg gweithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn dementia, a dylai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Mae Comisiynwyr yn awyddus i sicrhau bod yr asiantaethau y maent yn eu cyflogi i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu rhwymedigaethau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y proffesiwn er mwyn denu staff o safon uchel. (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, 2022).

**Gweithlu CSYM**

Isod mae tabl yn dangos trosiant staff o fewn Gwasanaethau Oedolion a Phlant y Gwasanaethau Cymdeithasol o gymharu â chyfartaledd yr Awdurdod:

Tabl 36

| | Trosiant Staff | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **Cyfartaledd** |
| Oedolion | 6% | 12% | 10% | 8% | 14% | 10% |
| Plant | 18% | 10% | 11% | 6% | 15% | 12% |
| Cyfartaledd yr Awdurdod | 11% | 11% | 9% | 6% | 10% | 9% |

Yn gyffredinol, mae trosiant staff wedi bod yn uwch o fewn yr adran Plant nag o fewn yr adain Oedolion ond mae cyfartaledd y ddwy adran yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod. Gostyngodd y gyfradd trosiant staff yn 2019/20 a 2020/21 a allai fod oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, yn 2021/22, cynyddodd y gyfradd trosiant staff yn y ddwy adran sydd yn ei dro yn debygol o gyfrannu at y gyfradd trosiant staff uwch ar gyfer yr Awdurdod.

Mae'n bosibl bod y gyfradd trosiant staff cymharol uchel ar gyfer 2021/22 oherwydd staff yn penderfynu symud ymlaen ar ôl y pandemig a gallai fod yn arwydd o broblem gyda chadw staff.


**Proffil Oedran**

Isod mae tabl o staff Gwasanaethau Cymdeithasol CSYM:

Tabl 37


| **Gwasanaeth** | **16-24** | **25-34** | **35-44** | **45-54** | **55-64** | **65+** | **Nifer staff 31.03.22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion | 5 | 27 | 30 | 29 | 18 | 2 | 111 |
| % | 5% | 24% | 27% | 26% | 16% | 2% | |
| Darparwr | 14 | 49 | 43 | 82 | 138 | 27 | 353 |
| % | 4% | 14% | 12% | 23% | 39% | 8% | |
| Plant | 32 | 79 | 52 | 56 | 29 | 3 | 251 |
| % | 13% | 31% | 21% | 22% | 12% | 1% | |

Mae proffil oedran staff y Gwasanaethau Oedolion yn dangos bod 77% o'r staff rhwng 35 a 64 oed. Gellir gweld hyn o'r siart isod:





Oedran cyfartalog staff yn y gwasanaeth Oedolion yw 45 oed.

**Gwasanaeth Darparwyr**
Fodd bynnag, mae proffil oedran staff y Gwasanaeth Darparwyr yn wahanol gyda bron i hanner y staff (47%) yn 55 oed neu drosodd. Mae cyfanswm o 39% o staff rhwng 55 a 64 oed. Gallai hyn arwain at brinder staff yn y dyfodol agos pan fydd aelodau staff yn y grŵp oedran 55-64 yn ymddeol.




**Plant**

Mae proffil oedran staff y Gwasanaeth Plant ychydig yn iau na staff y Gwasanaeth Darparwyr. Mae bron i ddwy ran o dair o'r staff (65%) rhwng 16 a 44 oed.




Oedran cyfartalog staff y Gwasanaeth Plant yw 40 oed.

| Adran | Oedran Cyfartalog |
|---|---|
| Oedolion | 45 |
| Plant | 40 |
| Darparwyr | 50 |

Mae cynllunio olyniaeth a recriwtio a chadw staff yn faterion sydd angen sylw a'u datrys.

Yn yr arolwg darparwyr MSR, nododd ymatebwyr y problemau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran recriwtio a chadw eu gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cyfradd tâl isel**
Mae lefel y sgiliau sydd eu hangen i weithio gydag oedolion ag anableddau dysgu pan fydd ganddynt ymddygiad heriol ac anghenion iechyd meddwl llawer uwch na'r hyn adlewyrchir yn y gyfradd cyflog. Mae angen i nifer y staff sydd ar gael i lenwi'r oriau y telir amdanynt fod yn amrywiol iawn o ran eu galluoedd. Nid oes digon o arian i allu cael staff sy'n arbenigo mewn rhan o'r tasgau sydd eu hangen. Mae staff yn gorfod gwneud nifer fawr o dasgau i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion y preswylwyr.

Cyflogaeth arall sy'n talu cyfradd uwch o gyflog. Oriau hir, mwy o bwysau ar staff oherwydd absenoldeb / salwch / Covid a phrinder cyffredinol o staff ar gael.

**Ardal Wledig**
Mae recriwtio bob amser yn her, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol gan mai'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu yn eang.

**Cynnydd yng nghostau tanwydd**
Mewn ardaloedd gwledig gall cost teithio i becynnau gofal a rhyngddynt fod yn ffactor yn enwedig gan fod yn rhaid darparu pecynnau ar adegau a bennwyd ymlaen llaw.

**Cydraddoldeb, dyletswydd economaidd-gymdeithasol a hawliau dynol**

Gweler yr Asesiad Effaith

| ADRAN 9F - CRYNODEB O'R FARCHNAD AR GYFER Gwasanaethau Cymorth Gofal Cartref DARPARIAETH REOLEDIG |
| --- |
| • Yn Ynys Môn, mae’r galw ar hyn o bryd yn uwch na’r cyflenwad (Mawrth 2022) oherwydd prinder staff o fewn darparwyr gofal cartref ac analllu i ddenu digon o staff newydd.<br>• Fel y dangosir gan ffigurau o Gyfrifiad 2021, mae'r boblogaeth dros 65 oed yn cynyddu’n fawr fel y mae'r boblogaeth dros 85 oed. Bydd hyn yn ei dro yn debygol o arwain at alw am ac angen adnoddau ychwanegol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.<br>• Gweithlu – Mae proffil oedran y gweithlu yn cynyddu ac mae trosiant staff hefyd wedi cynyddu yn dilyn y pandemig. |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **27ain Medi 2022** |
| Pwnc: | **Adroddiad Cynnydd – Gwelliannau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y Cynghorydd Gary Pritchard – Gwasanaethau Plant ac Oedolion**<br>**Y Cynghorydd Alun Roberts – Gwasanaethau Oedolion** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant ac Oedolion**<br><br>**Arwel Wyn Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>Ebost: | **Emma Edwards**<br>**01248 751887**<br>**Emmaedwards@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|
| Rhoi trosolwg o'r cynnydd diweddar ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>**Pwrpas yr adroddiad:**<br>1. Amlygu'r gwelliannau o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>2. Amlygu'r gwelliannau o fewn y Gwasanaethau Oedolion.<br><br>**Argymhelliad**<br>Bod y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd bod y cynnydd parhaus sy'n cael ei gyflawni gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac amserol. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| Cynnig sicrwydd, eglurder a thryloywder bod yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau â'i siwrnai tuag at welliant. |

| Ch –A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amh. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amh. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Drwy’r Gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Adolygiad parhaus o’r sefyllfa ariannol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Do, ceir enghreifftiau yn y diweddariad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Do – proses Canmol a Chwyno, ymgynghoriadau ac ati. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | Nodwyd. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | 5/9/22 |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol | Amh. |
| 5 | Eiddo | Amh. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amh. |
| 7 | Caffael | Amh. |
| 8 | Sgriwtini | Amh. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

F - Atodiadau:

**Cefndir – Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod cychwynnol o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd.

**Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:**

Rydym yn parhau i gwrdd â'n dyletswyddau Statudol ac wrth i ni ddod allan o gyfnod y pandemig rydym wedi wynebu rhywfaint o broblemau staffio oherwydd salwch, sydd wedi bod yn broblem yn genedlaethol. Rydym yn parhau i weithio'n galed i gwrdd ag anghenion plant Ynys Môn ac rydym wrthi'n recriwtio Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol i'n cynorthwyo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**Rheolwr Gwasanaeth Addysg i Blant Sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaethau Ieuenctid a Lles Plant a Phobl Ifanc** - Rydym yn falch bod ni wedi medru penodi i'r rôl newydd a chyffrous sy'n gweithredu ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc. Bydd y rol yn gweithredu fel arweinydd strategol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid ac ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn holi'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth ynglŷn â'u hanghenion a'r ffordd orau o'u diwallu fel y gallwn barhau i gael Gwasanaeth Ieuenctid y gallwn ymfalchïo ynddo heddiw ac i'r dyfodol.

**Ynys sy'n Ystyriol o Drawma** – Fel rhan o'r rôl, bydd yn bwrw 'mlaen â'r weledigaeth i ddod yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma nid yn unig yn ein hysgolion, ond hefyd yn y Blynyddoedd Cynnar, Gwasanaethau Ieuenctid, Gwasanaethau Maethu a'r Timau Gwaith Cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a

bydd sesiynau hyfforddi'n cael eu trefnu i Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr y Cyngor.

**Y Model Ysgol Rithwir** - Comisiynwyd Sir Alasdair Macdonald, Eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru, i gynnal ymarfer cwmpasu i ddatblygu dull integredig er mwyn gwella'r canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae Ynys Môn wedi penderfynu rhoi dull integredig ar waith yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad. Cyfeirir at y dull integredig hwn fel dull yr Ysgol Rithwir o hyn ymlaen.

Fel y soniwyd uchod mae y rôl newydd wedi cael ei phenodi i ddatblygu ac arwain y model Ysgol Rithwir er mwyn goruchwylio a hyrwyddo buddiannau addysgol / llesiant pob plentyn sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn cynnwys plant sydd wedi'u lleoli o fewn ac y tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol, yn cynnwys plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol a'r rheiny sydd ar ffiniau gofal, hyd nes eu bod yn 25 oed. Bydd dull a strategaeth Ystyriol o Drawma'n tanategu'r model hwn gyda'r nod o wella cyraeddiadau addysgol a lles plant a phobl ifanc.

**Dechrau'n Deg –** Bydd Dechrau'n Deg, rhaglen blynyddoedd cynnar blaenllaw Llywodraeth Cymru, yn cael ei hehangu ar Ynys Môn yn 2022-23. Fel rhan o'r cam cyntaf bydd y rhaglen yn cynnwys 49 o blant ychwanegol. Mae hyn hefyd yn rhan o ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant i blant dyflwydd oed i wneud yn siŵr eu bod yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda darparwyr gofal plant a rhieni/gofalwyr yn yr ardal Dechrau'n Deg newydd.

**Maethu Cymru – Ynys Môn –** Yn 2021-22 roedd gan Maethu Cymru Môn(MCM) darged i recriwtio chwe Aelwyd Maeth. Llwyddom i gyrraedd y targed er gwaetha'r pandemig tra bo Awdurdodau Lleol eraill wedi adrodd nad oeddent wedi bod yr un mor llwyddiannus.

Yr un yw'r targed ar gyfer 2022-23, sef chwe aelwyd. Wrth i ni nesáu at ddiwedd pedwerydd mis y flwyddyn ariannol hon (Awst) adroddir bod MCM wedi llwyddo i gymeradwyo tair Aelwyd Maeth, a bod dwy aelwyd arall wrthi'n cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae'r tîm wedi gweithio'n ddiflino dros gyfnod yr haf i fynychu nifer o ddigwyddiadau recriwtio mewn lleoliadau ledled yr Ynys (ar y cyd â digwyddiadau'r adran dai).

Mae cadw gofalwyr maeth hefyd yn elfen bwysig o'r gwaith hwn. Mae'r tîm wedi gwneud ymdrech fawr i gynnal gweithgareddau ychwanegol i'n Gofalwyr Maeth yn ystod y flwyddyn, yn enwedig dros gyfnod yr haf. Mae'r raddfa gadw (hyd yn oed yn ystod y cyfnod cynnar hwn) yn gwella, ac felly mae nifer yr Aelwydydd Maeth sydd wedi'u cymeradwyo a'u cofrestru gan y Cyngor yn cynyddu'n raddol. Ar hyn o bryd mae gennym 41 o Aelwydydd Maeth Prif Lif. 35 oedd y ffigwr ar y cyntaf o Ebrill 2021. Mae hyn yn golygu ein bod wedi llwydo i recriwtio ar raddfa lle'r ydym wedi gwneud cynnydd net o 6 aelwyd maeth yn ystod y 16 mis dan sylw.

**Gwasanaethau Oedolion:**

**Rheolwr Busnes:** Rydym yn falch gyhoeddi ein bod wedi recriwtio Rheolwr Trawsnewid a Datblygu, a bydd yn gweithio ar nifer o brosiectau dros y misoedd nesaf, yn cynnwys y Rhaglen Anabledd Dysgu a'r adolygiad o brosesau Cyllid Cleientiaid, ymysg prosiectau eraill.

**Taliadau Uniongyrchol -** Yn ddiweddar fe dderbyniom Adroddiad Archwilio Mewnol ar y gwasanaeth hwn, ac rydym yn falch o gadarnhau bod yr adroddiad yn un cadarnhaol, ac y bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i gefnogi gwelliannau pellach dros y mis nesaf. Mae'r adran wrthi'n cwblhau ei pholisïau a'i gweithdrefnau newydd.

**Boston Centre Stage:** Mae'r Cyngor wedi gweithio ochr yn ochr â Boston Centre Stage i ddatblygu amryw o weithgareddau cymunedol yng nghanol tref Caergybi. Er mwyn cynnal llwyddiant y gweithgareddau hyn rydym wedi buddsoddi mewn ystafell newid symudol i oedolion sy'n gwbl hygyrch, fel y gallwn gynnig y gweithgareddau hyn i bawb yn cynnwys unigolion gydag anghenion symudedd cymhleth. Llun isod:





**Newid Rheolwyr yn y Tîm Plant ag Anableddau Dysgu a'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu -** Bydd hyn yn cynorthwyo'r tîm Plant ag Anableddau Dysgu a'r tîm Anabledd Dysgu Oedolion i integreiddio'n agosach yn ogystal â hwyluso pontio di-dor a gwella'r prosesau i'r unigolion a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Cyfuno Cronfeydd Ariannol o fewn ein Gwasanaeth Anabledd Dysgu–** Mae cytundeb Adran 33 ( contract rhwng CSYM a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i talu am pecynnau gofal) wedi'i gytuno gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i gefnogi cyfuno cronfeydd ariannol i ariannu pecynnau gofal i bobl gydag Anabledd Dysgu. Bydd hyn yn osgoi dyblygu a chefnogi gwelliannau wrth gomisiynu ac adolygu gwasanaethau. Mae BIPBC a

Chyngor Sir Ynys Môn wedi cyfuno'u cronfeydd ariannol i gefnogi'r pecynnau gofal mwyaf cymhleth, ac yn y dyfodol byddant yn comisiynu gwasanaethau ar y cyd.

**Gofal Dementia** – Fel rhan o'r cynllun gweithredu rhanbarthol ar gyfer dementia a'r gwasanaeth asesu cof sydd newydd gael ei sefydlu, un o brif nodau ac amcanion y strategaeth yw sefydlu 6 Canolfan Gofal Dementia ledled y rhanbarth. Bydd y canolfannau dementia yn cynnig gwasanaethau dementia pwrpasol yn lleol ar gyfer unigolion a gofalwyr, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a gweithdai i dywys unigolion ar hyd y daith yn dilyn diagnosis o ddementia. Gan ddilyn yr un llwybr â Chyngor Conwy Ynys Môn yw'r ail gyngor yn y rhanbarth i agor canolfan dementia. Trwy weithio mewn partneriaeth â Mencap Môn a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr rydym yn croesawu'r gwasanaethau hyn yn lleol yn Llangefni ar gyfer trigolion Ynys Môn.

**<u>Gwasanaethau Cymdeithasol:</u>**

**Performiad:**

Childrens Reporting Q1.pptx

Adults Reporting Q1.pptx

**Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad:** Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n cydweithwyr fel rhan o Wasanaeth Cydweithio er mwyn Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Rhanbarth y Gogledd i ddatblygu Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, yn unol â Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dyma fydd yr Adroddiad cyntaf i gael ei gynhyrchu gan y Rhanbarth, a bydd yr Adroddiad terfynol yn cael ei ystyried gan yr Aelodau Etholedig.

**Capasiti a Staffio**

Mae recriwtio a chadw staff yn dal i fod yn heriol, yn enwedig staff cartrefi gofal, staff gofal cymunedol a staff preswyl. Mae rhai gweithwyr asiantaeth (7) yn dal i weithio ar draws y Gwasanaeth i gefnogi swyddi gwag. Rydym wrthi'n treialu ymgyrchu hysbysebu ar gerbydau'r Cyngor i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes Gofal Cymdeithasol.




**TEULU MÔN**
Rydym wedi cwblhau'r dasg o uno Pwynt Cyswllt Unigol ein Gwasanaethau Oedolion a Teulu Môn i greu gwasanaeth 'Un Drws Ffrynt'.  Mae'r timau bellach wedi'u lleoli ar y cyd ac rydym wrthi'n adolygu'r prosesau a gweithdrefnau.

**Gofod Swyddfa'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol – Pencadlys**
Wrth ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn y cyfnod COVID-19, ac yn unol â Pholisi Gweithio'n Hybrid diwygiedig y Cyngor, rydym wedi ymgynghori â'n staff i wneud y defnydd gorau o'r gofod swyddfa sydd ar gael yn yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym wrthi'n gwneud mân addasiadau er mwyn gwneud lle i staff sy'n dychwelyd i'r gwaith ac er mwyn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am ddesgiau. Yn unol â chanlyniadau'r ymgynghoriad, ac ar ôl ystyried yr anghenion busnes, mae pod o ddesgiau poeth yn cael eu darparu i bob tîm ar sail cyfartaledd, ac rydym hefyd yn darparu mwy o ystafelloedd cyfarfod, ac ardaloedd 'achlysurol' i staff.

**PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**1. Cyd-destun**

Bydd Aelodau'n ymwybodol bod craffu wedi datblygu yn ystod yr Weinyddiaeth ddiwethaf drwy waith 3 phanel sgriwtini. Mae'r Weinyddiaeth newydd bellach[1] wedi cadarnhau strwythur y panelau sgriwtini ar gyfer y Cyngor presennol fel a ganlyn:

- **Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Rhiantu Corfforaethol**
- Panel Sgriwtini Cyllid
- Panel Sgriwtini Addysg.

**2. Trefniadau Llywodraethu'r Panel**

Gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini[2] yn cadarnhau cylch gorchwyl y Panel mewn ffordd sy'n creu'r amodau ar gyfer cwmpas ehangach i'w waith gyda'r manteision allweddol canlynol:

i. Datblygu model o graffu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar grŵp llai o Aelodau yn cydweithio ar themau penodol er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
ii. Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd eu gwybodaeth gyffredinol a'u dealltwriaeth parthed data perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r trefniadau llywodraethu cadarn sydd mewn lle fel sylfaen i waith y Panel[3] a bwriedir parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r Panel i'r dyfodol. Hefyd, rhoddwyd trefniadau mewn lle i adrodd gynnydd yn chwe misol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gan y Cyng. Euryn Morris, cadeirydd y Panel. Bydd y fframwaith hwn hefyd yn cynnwys adroddiad cynnydd tebyg i'r Pwyllgor Gwaith.

Dyma aelodaeth y Panel:

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Cyng Neville Evans | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Cyng Llio Angharad Owen | |
| Cyng Jackie Lewis | |
| Cyng Alwen Watkin | |
| | |
| Cyng Euryn Morris (Cadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Cyng John Ifan Jones | |
| Cyng Cyng Pip O'Neill (Is-gadeirydd) | |
| Cyng Jeff Evans | |

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022
[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 20 Mehefin, 2022
[3] Cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill a 26 Mehefin 2017

| |
|---|
| |

| Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth): |
|---|
| Dim. |

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Ynys Môn / Establishment of a new Planning Policy Team for the Anglesey planning authority area**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 13, 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 13, 14 Schedule 12A Local Government Act 1972<br>[un neu fwy o/one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Cydnabyddir fod disgwyliad tryloywder o ran materion sy'n ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor Sir a pherfformiad ei swyddogaethau, yn enwedig mewn materion cynllunio. Mae'r disgwyliad hwn yn rhesymol ac yn gyfystyr â budd cyhoeddus o blaid datgelu. | Mae diddordeb cyhoeddus cryf mewn peidio datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â materion ariannol neu fusnes unigolion, yn enwedig mewn amgylchiadau lle gall dyletswydd hyder fod yn ddyledus neu'n ddisgwyliedig.<br><br>Mae budd y cyhoedd hefyd yn berthnasol i faterion ariannol a busnes y Cyngor o ran gwybodaeth yn yr adroddiad.<br><br>Gwasanaethir budd y cyhoedd mewn peidio â datgelu drwy osgoi'r tebygolrwydd y byddai datgelu yn arwain at adnabod unigolion neu fel arall yn arwain at ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth unigolion adnabod mewn ffordd a fyddai'n torri darpariaethau nad ydynt yn datgelu Deddf GDPR a Diogelu Data y DU 2018. |
| It is recognised that there is an expectation of transparency in respect of matters relating to the decision-making processes of the County Council and the performance of its functions, particularly in planning matters. This expectation is reasonable and amounts to a public interest in favour of disclosure. | There exists a strong public interest in not disclosing information that relates directly or indirectly to the financial or business affairs of individuals, particularly in circumstances where a duty of confidence may be owed or expected.<br><br>The public interest also applies to the financial and business affairs of the Council in respect of information in the report.<br><br>The public interest in not disclosing is served by averting the likelihood that disclosure would result in the identification of individuals or otherwise result in the disclosure of information relating to the employment of identifiable individuals in a way that would breach the non-disclosure provisions of the UK GDPR and Data Protection Act 2018. |
| **Argymhelliad** - Mae’r budd i’r cyhoedd wrth gadw’r eithriad o bwys yn gryf ac yn fwy na’r budd i’r cyhoedd wrth ddatgelu’r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption is strong and outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Yn rhinwed paragraff(au) 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank